Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diogelu plant mewn addysg

Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau drafft

Cylchlythyr drafft Llywodraeth Cymru rhif: 007/2013
Dyddiad cyhoeddi: Awst 2013
Yn disodli cylchlythyr rhif: 005/2008

# Diogelu plant mewn addysg

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol, prifathrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, prifathrawon a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydliedig, awdurdodau esgobaethol eglwysig, perchenogion ysgolion annibynnol, penaethiaid sefydliadau addysg uwch, undebau staff ysgolion, Llywodraethwyr Cymru, Gyrfa Cymru, awdurdodau addysg uwch a Chadeiryddion Byrddau Lleol Diogelu Plant. Dylai staff yn y sefydliadau hyn sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu plant hefyd ei ddarllen.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ar y trefniadau ar gyfer diogelu plant o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

**Camau i'w cymryd**

Dylai cyflogwyr a sefydliadau addysg sy'n darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc nodi'r wybodaeth sydd yn y canllaw hwn a chymryd camau angenrheidiol. Mae ymrwymiadau cyfreithiol i gyflogwyr a sefydliadau addysg yn yr ardaloedd hyn sydd wedi eu hamlygu yn y canllaw hwn.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen Dysgwyr Amrywiol a Diogelu
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5010
Ffacs: 029 2080 1044
e-bost: SafeguardingChildreninEducation@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r dogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Statws y ddogfen**

Mae'r canllaw yma yn disodli:

- *Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Deddf Addysg 2002* Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 005/2008 (2008)
- *Amddifyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg* Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 34/02 (2002)
- *Y Swyddfa Cofnodion Troseddol: Ffeithiau Sylfaenol i Wirfoddolwyr Mewn Ysgolion* Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 02/2003 (2003)
- *Adrodd am Gamymddwyn ac Anghymwystra yn y Gwasanaeth Addysg* Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 018/2009 (2009)

© Hawlfraint y Goron 2013
WG16470

# Cynnwys


**Rhagair** **1**
**Statws a chynnwys y canllawiau hyn** **1**
**Rhestr termau** **4**

**Pennod 1: Y fframwaith ar gyfer diogelu yng Nghymru** **7**
Dyletswyddau statudol a chanllawiau ar ddiogelu 7
Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 7
Dyletswydd gofal y gyfraith gyffredin 8
Deddf Plant 1989 8
Deddf Plant 2004 9
Deddf Cydraddoldeb 2010 9
'Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' 10
Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 10
Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 11
Y Fframwaith Hawliau Plant 11
Strwythurau diogelu amlasiantaethol 15
Byrddau Lleol Diogelu Plant 16
Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion 17
Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol 17
Fforymau Rhanbarthol Amddiffyn Plant 17
Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc 17
Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd 20

**Pennod 2: Rôlau a chyfrifoldebau diogelu yn y gwasanaeth addysg** **23**
Prif egwyddorion 23
Awdurdodau lleol 25
Cyfrifoldebau strategol 26
Cyfrifoldebau cymorth 27
Cyfrifoldebau gweithredol 28
Swyddogion Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Amddiffyn Plant 29
Pob ysgol a sefydliad addysg bellach 30
Cyrff llywodraethu/perchenogion 30
Penaethiaid 32
Yr Uwch-swyddog Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant 33
Hyfforddiant amddiffyn plant/hyfforddiant rhyngasiantaethol 36
Goruchwyliaeth a chymorth 38
Cyfrifoldebau penodol 40
Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir 40
Ysgolion annibynnol 41
Ysgolion annibynnol sy'n cynnig darpariaeth breswyl 42
Sefydliadau addysg bellach 42
Ysgolion bro, gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a dysgu y tu allan i oriau ysgol 43
Cyfrifoldebau pawb 43
Gofyn am gyngor ynghylch pryderon 45
Cadw cofnodion 45

Ymchwiliadau 46
Atgyfeirio 46
Cymryd rhan yn y broses amddiffyn plant 46
Gwrando ar blant 47
Yr hawl i gael eiriolaeth 47
Cyfrinachedd 48
Cynnwys rhieni neu ofalwyr 49
Rhannu gwybodaeth 50

**Pennod 3: Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol 52**
Cyflwyniad 52
Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol 52
Plant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches 52
Plant Duon a Lleiafrifoedd Ethnig 58
Bwlio 62
Delweddau o gam-drin plant a'r rhyngrwyd 64
Cam-drin plant yng nghyswllt cred mewn 'dewiniaeth' neu gred ysbrydol arall 66
Plant sy'n byw oddi cartref/mewn llety dros dro 68
Camfanteisio'n rhywiol ar blant 69
Plant sy'n colli addysg 74
Plant a allai fod wedi'u masnachu 83
Plant sy'n rhedeg i ffwrdd o'u cartref neu o leoliad gofal 88
Plant anabl 91
Trais domestig 96
Camddefnyddio cyffuriau/alcohol 102
Salwch wedi'i ffugio neu ei achosi'n bwrpasol 107
Enwaedu benywod 109
Priodas dan orfod a thrais er anrhydedd 113
Gofal maeth gan gynnwys maethu preifat 118
Ymweliadau cyfnewid tramor 119
Cyffwrdd â disgyblion/ataliaeth 123
Pobl ifanc sy'n cael cyfathrach rywiol 127
Ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin gan blant a phobl ifanc 130

**Pennod 4: Arferion recriwtio mwy diogel 134**
Cyflwyniad 134
Y broses recriwtio 135
Datganiad polisi ar recriwtio a dethol 135
Cynllunio a hysbysebu 136
Ffurflen gais 137
Swydd-ddisgrifiad 138
Manyleb y person 138
Pecyn gwybodaeth yr ymgeisydd 139
Craffu a llunio rhestr fer 139
Geirda 139
Gwiriadau cyn cyfweld 140
Cynnwys disgyblion a myfyrwyr 140
Cyfweliadau 140
Gwahoddiad i'r cyfweliad 140

Panel cyfweld 141
Cwmpas y cyfweliad 141
Cynnig penodi dan amodau 142
Gwiriadau cyn penodi 142
Hunaniaeth 144
Cymwysterau academaidd 144
Cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 145
Addysg bellach: cymwysterau addysgu cydnabyddedig 146
Dogfennau sy'n rhoi hawl i weithio yn y DU 147
Geirda am gymeriad a gwaith proffesiynol 149
Hanes cyflogaeth flaenorol 151
Iechyd **151**
Gwiriadau cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwirio rhestrau gwahardd 151
Ar ôl penodi: cynnal diwylliant diogelach 151
Rhaglen gynefino 152
Monitro a sicrwydd 154

**Pennod 5: Fetio staff a gwirfoddolwyr o dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd 155**
Cyflwyniad 155
Cefndir y trefniadau datgelu a gwahardd newydd 156
Y Cynllun Fetio a Gwahardd gwreiddiol o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 156
Adolygiadau o'r Cynllun Fetio a Gwahardd a'r Gyfundrefn Cofnodion Troseddol 157
Newidiadau yn sgîl Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 158
Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd (DBS) 159
Tystysgrifau i ymgeiswyr yn unig 160
Gwasanaeth Diweddaru'r DBS 160
Diddymu'r gofyniad am gofrestru a monitro parhaus 161
Terfyn oedran isaf ar gyfer gwiriadau Datgelu 161
Diffiniad newydd o 'Weithgaredd a Reoleiddir' 162
Diddymu 'Gweithgarwch Rheoledig' 163
Diddymu 'Gwybodaeth Ychwanegol' 163
Prawf mwy trwyadl ar berthnasedd 164
Cyfle i ofyn am sylwadau 165
Hawl adolygu newydd – Monitor Annibynnol 165
Ar gyfer pwy y mae angen gwiriad DBS? 166
Staff addysgu a staff eraill sy'n gweithio am dâl 167
Staff asiantaethau 168
Darpariaeth frys yn absenoldeb staff nad ydynt yn addysgu 169
Ymgeiswyr am gyrsiau hyfforddiant athrawon 169
Ysgolion estynedig 170
Gwladolion gwledydd tramor a staff sydd wedi byw y tu allan i'r DU 171
Gwirfoddolwyr 172
Ymwelwyr ag ysgolion 174
Aelodau bwrdd llywodraethwyr 175
Pa bryd a pha mor aml y mae'n rhaid gwneud cais am Ddatgeliad? 176

Dechrau gweithio cyn cael Datgeliad 177
Sut i benderfynu a yw cofnod troseddol y person yn berthnasol 178
Recriwtio cyn-droseddwyr 179
Ceisiadau twyllodrus 179
Sut i storio a thrin gwybodaeth o dystysgrifau'r DBS 179
Cofnod canolog sengl o wiriadau Datgelu a gwahardd 180
Rhannu gwybodaeth o Ddatgeliad 181

**Pennod 6: Ymateb i honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill 182**
Cyflwyniad 182
Camfanteisio ar ymddiriedaeth 183
Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill 184
Ystyriaethau cychwynnol 185
Cael honiad 185
Atal o'r gwaith 186
Hysbysu'r person sy'n destun i'r honiad 187
Hysbysu rhieni/gofalwyr 187
Atgyfeirio i'r heddlu a gwasanaethau cymdeithasol 187
Ystyriaethau i gyrff llywodraethu 188
Trafodaeth ar strategaeth a chyfarfod strategaeth 188
Goruchwylio a monitro 189
Rhannu gwybodaeth 190
Cyfnodau gweithredu 190
Cymryd camau ar ôl ymchwiliad i drosedd neu erlyniad 191
Cymryd camau ynghylch honiadau di-sail neu faleisus 192
Cyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir – gweithdrefnau disgyblu a diswyddo 192
Ymchwiliadau annibynnol 193
Gwrandawiadau disgyblu 196
Penderfyniadau mewn gwrandawiad 197
Apelau disgyblu 197
Ymddiswyddo gan staff 197
Gofalu am y rheini sy'n gysylltiedig 198
Cyfrinachedd 199
Cadw cofnodion 200
Geirda gan y cyflogwr 200
Dysgu gwersi 200
Atgyfeirio i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) 200

**Pennod 7: Cyfeiriadau at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 202**
Cyflwyniad 202
Siart llif: Sut i penderfynu a oes angen gwneud cyfeiriad i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 203
Y ddyletswydd i atgyfeirio 204
Amodau ar atgyfeirio o dan y ddyletswydd i atgyfeirio 204
Y pŵer i atgyfeirio 205
Amodau ar atgyfeirio o dan y pŵer i atgyfeirio 206
Newidiadau ar gyfer awdurdodau lleol o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 206

Gwahaniaethau o ran rhannu gwybodaeth rhwng y ddyletswydd a'r pŵer i atgyfeirio 207
Rhannu gwybodaeth pan fo dyletswydd i atgyfeirio 207
Rhannu gwybodaeth pan fo pŵer i atgyfeirio 208
Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar gais 208
Cynnwys gwybodaeth sensitif mewn atgyfeiriadau 209
Atgyfeirio i'r DBS gan reoleiddwyr 210

**Atodiad 1: Llyfryddiaeth 212**
Canllawiau 212
Adroddiadau 215
Deddfwriaeth 216
Cyfraith ryngwladol 218
Rheoliadau 218
Safonau gofynnol cenedlaethol 219
Gwefannau 219

**Atodiad 2: Polisi amddiffyn plant enghreifftiol ar gyfer ysgolion 220**

**Atodiad 3: Nodyn enghreifftiol i staff 224**

**Atodiad 4: Nodyn enghreifftiol i rieni neu ofalwyr 226**

**Atodiad 5: Nodyn enghreifftiol i ddisgyblion 228**

# Rhagair

Mae pawb yn y gwasanaeth addysg yn rhannu'r amcan o helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy gyfrannu at:

- greu a chynnal amgylchedd dysgu diogelu i blant a phobl ifanc;
- nodi pryderon ynghylch lles plant a chymryd camau i ymateb iddynt, lle y bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill;
- meithrin dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwytnwch plant drwy'r cwricwlwm.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen systemau ar gyfer:

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- hyrwyddo ymarfer diogel a herio ymarfer gwael ac anniogel;
- nodi achosion lle y mae rheswm dros bryderu ynghylch lles plentyn, a sbarduno neu gymryd camau priodol i'w gadw'n ddiogel;
- cyfrannu at waith effeithiol mewn partneriaeth rhwng pawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu pawb sy'n darparu addysg i sicrhau bod ganddynt systemau effeithiol ar waith i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio'r cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu'r holl ysgolion a gynhelir (mae pob cyfeiriad at ysgol yn y ddogfen yn gymwys hefyd i uned cyfeirio disgyblion), sefydliadau addysg bellach a pherchenogion ysgolion annibynnol i fabwysiadu trefniadau i arfer eu swyddogaethau er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yng Nghymru.  Maent yn berthnasol hefyd i asiantaethau cyflenwi sy'n cyflenwi staff i'r sector addysg, contractwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg sy'n gyfrifol am rai dan 18 oed, yn ogystal ag eraill sy'n darparu addysg a hyfforddiant i rai dan 18 oed.

## Statws a chynnwys y canllawiau hyn

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau gan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yn dal sylw ar y canllawiau hyn er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyriol o'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r gofyniad i 'dal sylw' yn golygu fod rhaid cymryd y canllaw mewn i ystyriaeth a bod rhaid cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i'w ddim defnyddio'r canllaw

Rhaid i berchenogion ysgolion annibynnol cydymffurfio ar canllawiau hyn er mwyn cyflawni y safonau a bennwyd mewn rheoliadau o dan adran 157 o Ddeddf Addysg 2002 i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyriol o'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae'r ddogfen hon:

- yn rhoi arweiniad ar effaith y ddyletswydd i fabwysiadu trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant a gyflwynwyd gan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 a ddaeth i rym yng Nghymru ar 1 Medi 2006;

- yn egluro'r rolau a chyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, perchenogion ysgolion annibynnol, penaethiaid, a staff sydd â chyfrifoldeb dynodedig dros amddiffyn plant wrth wneud trefniadau i alluogi pobl yn y gwasanaeth addysg i gyfrannu'n llawn at ddiogelu plant rhag eu cam-drin neu eu hesgeuluso;

- yn ategu'r arweiniad yn Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2007, drwy ddisgrifio'r seilwaith a'r trefniadau y mae angen eu sefydlu i sicrhau bod pobl yn y gwasanaeth addysg yn meddu ar y sgiliau, y dulliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i sicrhau bod plant wedi'u hamddiffyn rhag niwed.

Nid yw'n rhagnodi gweithdrefnau manwl. Ei nod, yn hytrach, yw pennu'r canlyniadau y mae angen i sefydliadau eu sicrhau i alluogi staff i gyflawni'r amcan o gadw plant yn ddiogel rhag niwed, a'r hyn y mae angen ei wneud neu ei roi ar waith i sicrhau hyn.

Ym **Mhennod 1** mae trosolwg ar y fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethu ar gyfer diogelu plant yng Nghymru.

Mae **Pennod 2** yn disgrifio'r rolau a chyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol, ysgolion o bob math a sefydliadau addysg bellach i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'n rhoi arweiniad ar y trefniadau sefydliadol a rheoli sydd i'w rhoi ar waith i ddiogelu plant yn y gwasanaeth addysg. Mae hefyd yn nodi'r dyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer diogelu plant sydd gan bob aelod staff sy'n gweithio mewn lleoliad addysg wrth ddelio â phryderon ynghylch lles plentyn.

Ceir crynodeb ym **Mhennod 3** o'r prif ystyriaethau o ran diogelu plant y mae'n rhaid i bobl yn y gwasanaeth addysg fod yn ymwybodol ohonynt, a manylion am gyngor ac arweiniad ychwanegol sydd ar gael ar y materion hynny.

Mae **Pennod 4** yn rhoi arweiniad ar ffyrdd mwy diogel o recriwtio a dethol staff mewn lleoliadau addysg. Mae hyn yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer recriwtio a dethol, a phrosesau adnoddau dynol eraill a fydd o gymorth i recriwtio ymgeiswyr a fydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r gallu angenrheidiol i weithio mewn gwasanaethau addysg, boed am dâl neu beidio, ac i atal, gwrthod neu ddynodi pobl sy'n anaddas.

Ceir arweiniad manwl ym **Mhennod 5** ar y gwiriadau newydd ar gyfer recriwtio a fetio a wneir mewn lleoliadau addysg o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, er mwyn cyflawni'r prosesau recriwtio a dethol sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 4. Mae'n egluro pa wiriadau y mae'n rhaid neu y dylid

eu cynnal ac ar gyfer pa staff, boed yn rhai sy'n gweithio am dâl neu'n wirfoddolwyr. Mae'n disodli *Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg* (Hydref 2002) ac *Y Swyddfa Cofnodion Troseddol: Ffeithiau Sylfaenol i Wirfoddolwyr mewn Ysgolion* (Chwefror 2003).

Mae **Pennod 6** yn rhoi arweiniad ar ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill neu wirfoddolwyr yn y gwasanaeth addysg. Mae hefyd yn egluro'r angen i atgyfeirio achosion o gamymddwyn ac anghymhwystra proffesiynol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru os nad yw'r athrawon wedi gwneud niwed neu achosi perygl o niwed i blant.

Dylid darllen Pennod 6 ar y cyd â'r canllawiau statudol yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 002/2013 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol sy'n pennu'r gofynion manwl ar gyfer cyrff llywodraethu yng nghyswllt materion disgyblu, y gweithdrefnau i ddelio â honiadau o gamymddwyn difrifol a llai difrifol ac ymddygiad, ac mae'n rhoi cyngor penodol i'w ddilyn gan gyrff llywodraethu ysgol lle y cafwyd honiad o gam-drin yn erbyn aelod staff.

Mae **Pennod 7** yn disgrifio'r dyletswyddau a broses ar gyfer atgyfeirio i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar cyflogwyr os yw rhywun wedi'i ddiswyddo neu ei symud o'i waith (neu os byddai'r person wedi'i ddiswyddo neu ei symud pe na byddai wedi ymadael, ymddiswyddo, ymddeol neu golli ei swydd) oherwydd y niwed neu'r perygl o niwed y mae'n ei achosi, neu os yw wedi cael rhybuddiad neu gollfarn am drosedd perthnasol.

Mae'r **atodiadau** sy'n dilyn yn cynnwys nifer o bolisïau enghreifftiol i ategu'r canllawiau hyn, i'w defnyddio neu eu haddasu fel y bo'n briodol.

## Rhestr termau

Mae'r diffiniadau a chysyniadau isod wedi'u codi o [Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004] ac maent wedi'u cynnwys yma er hwylustod ac i sicrhau bod termau cyffredin yn cael eu defnyddio er mwyn hybu gwaith rhwng partneriaid.

**Cam-drin: emosiynol** — Cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus nes effeithio'n andwyol mewn modd difrifol a pharhaus ar ei ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol.

**Cam-drin: esgeuluso** — Esgeuluso plentyn yn barhaus neu'n ddifrifol, neu fethu ag amddiffyn plentyn rhag bod yn agored i unrhyw fath o berygl, gan gynnwys oerni, newyn neu fethiant difrifol i ddarparu agweddau pwysig ar ofal, a hynny'n amharu'n sylweddol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, gan gynnwys methiant anorganig i ffynnu.

**Cam-drin: corfforol** — Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu anafu plentyn yn gorfforol mewn rhyw ffordd arall. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau neu gymell salwch plentyn y mae'n gofalu amdano.

**Cam-drin: rhywiol** — Gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un ai a yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys:

- cyswllt corfforol gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol;
- gweithgareddau heb gyswllt megis cael plant i wylio deunydd pornograffig neu i fod yn rhan o ddeunydd pornograffig, neu i wylio gweithgareddau rhywiol; neu
- annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol.

**Plentyn mewn angen** — Mae plentyn mewn angen os:

- yw'n annhebygol o gyflawni neu gynnal, neu gael y cyfle o gyflawni neu gynnal, safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb gael gwasanaethau gan awdurdod lleol;
- yw ei iechyd neu ei ddatblygiad yn debygol o gael ei niweidio'n sylweddol neu ei niweidio ymhellach heb gael y gwasanaethau hyn; neu
- os yw'n anabl.

**Amddiffyn plant** — Mae amddiffyn plant yn rhan o drefniadau diogelu a hybu lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gwaith a wneir i ddiogelu plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol

| | |
|---|---|
| | o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod. |
| **Plant** | Mae unrhyw un sydd heb gael ei ben-blwydd yn 18 oed yn blentyn. Mae 'plant' felly'n golygu 'plant a phobl ifanc' trwy'r ddogfen gyfan. Nid yw'r ffaith bod plentyn yn un mlwydd ar bymtheg, yn byw'n annibynnol, mewn Addysg Bellach, yn aelod o'r lluoedd arfog, mewn ysbyty, neu mewn carchar neu sefydliad i droseddwyr ifanc yn newid ei statws na'i hawl i wasanaethau neu i amddiffyniad o dan Ddeddf Plant 1989. Y diffiniad o Blentyn yn adran 60 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yw person nad yw wedi cyrraedd 18 oed. |
| **Datblygiad** | Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol, neu ymddygiadol. |
| **Niwed** | Trin rhywun yn wael neu effeithio'n andwyol ar eu hiechyd neu eu datblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, rhywun sy'n dioddef ar ôl gweld neu glywed person arall yn cael ei gam-drin. |
| **Iechyd** | Iechyd corfforol neu iechyd meddwl. |
| **Awdurdod Lleol** | Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol. |
| **Gweithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant** | Mae gweithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant yn derm cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys gweithio gyda phlant.<br>Yn gyffredinol, mae gweithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant yn cynnwys:<br>• Gweithgareddau heb eu goruchwylio: addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant, neu ddarparu cyngor / cyfarwyddyd ar les, neu yrru cerbyd ar gyfer plant yn unig<br>• Gweithio mewn amrywiaeth gyfyngedig o sefydliadau (lleoedd penodedig) lle y mae cyfle i ddod i gysylltiad â phlant: e.e. ysgolion, cartrefi plant, safleoedd gofal plant. Nid yw hyn yn cynnwys gwaith gan wirfoddolwyr o dan oruchwyliaeth<br>• Sylwer mai dim ond os yw'r gwaith o dan y naill neu'r llall o'r categorïau uchod yn cael ei wneud yn rheolaidd y bydd yn weithgaredd a reoleiddir. Mae canllawiau statudol ar oruchwylio ar gael ar wefan yr Adran Addysg. www.education.gov.uk/childrenandyoungpeople/safeguardingchildren/a00209802/disclosure-barring<br>• Gofal personol perthnasol, e.e. golchi neu wisgo; neu ofal iechyd gan neu wedi'i oruchwylio gan weithiwr proffesiynol<br>• Gwarchodwyr plant a gofalwyr maeth cofrestredig<br>• Fforymau neu ystafelloedd sgwrsio ar-lein wedi'u rheoli gan gymedrolwr sydd wedi'u darparu ar gyfer plant yn |

bennaf lle y gall y person weld y cynnwys a chysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| **Ymddygiad perthnasol** | Mae ymddygiad perthnasol yn weithred neu ddiffyg gweithredu sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn hyglwyf neu ei roi mewn perygl o gael niwed. Term cyfreithiol yw hwn sydd wedi'i ddiffinio ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed yn Atodlen 3 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. |
| **Diogelu a hyrwyddo lles plant** | • Amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso;<br>• Rhwystro unrhyw beth rhag amharu ar eu hiechyd a'u datblygiad;<br>• Sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol;<br>… er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd. |
| **Niwed sylweddol** | Mae Adran 31(10) o Ddeddf Plant 1989 yn nodi "where the question of whether harm suffered by a child is significant turns on the child's health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child". |
| **Lles** | Nid oes diffiniad statudol. Cyflwynodd Deddf Plant 1989 y rhestr wirio lles y bydd yn rhaid i lys ei hystyried mewn amgylchiadau penodol. Mae Deddf 1989 yn nodi y dylai llys roi sylw penodol i:<br>• deimladau a dymuniadau canfyddadwy'r plentyn dan sylw (wedi eu hystyried yng ngoleuni ei oedran a'i ddealltwriaeth);<br>• ei anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol;<br>• yr effaith debygol a gaiff unrhyw newid yn ei amgylchiadau arno;<br>• ei oedran, ei ryw, ei gefndir ac unrhyw rai o'i nodweddion y cred y llys sy'n berthnasol;<br>• unrhyw niwed y mae wedi ei ddioddef neu yn debygol o'i ddioddef;<br>• pa mor abl yw ei ddau riant, ac unrhyw unigolyn arall y cred y llys fod y cwestiwn yn berthnasol iddo, o fodloni ei anghenion;<br>• yr amrywiol bwerau sydd ar gael i'r llys dan y Ddeddf hon yn yr achos dan sylw. |

# Pennod 1: Y fframwaith ar gyfer diogelu yng Nghymru

## Dyletswyddau statudol a chanllawiau ar ddiogelu

### Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002

1.1 Mae dyletswyddau statudol ar yr holl ysgolion, gan gynnwys ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyriol o'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae hon yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Mae hefyd yn gymwys i berchenogion ysgolion annibynnol yn unol a rheoliadau o dan adran 157 o Ddeddf Addysg 2002.

1.2 Rhaid darparu ar gyfer dwy agwedd ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn y trefniadau y mae awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn eu mabwysiadu. Y rhain yw:

- trefniadau i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod risgiau o niwed i les plant yn cael eu lleihau;

- trefniadau i gymryd pob cam priodol i ymateb i bryderon am les plentyn, neu blant, gan weithio'n unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol a gytunwyd mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill.

1.3 Wrth penderfynu pa trefniadau rhaid gwneud er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan adran 175, mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn dal sylw ar ganllawiau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y canllawiau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon. Rhaid i perchenogion ysgolion annibynnol gydymffurfio gyda'r canllaw hyn er mwyn cyfarfod â safonau lles, iechyd a diogelwch a bennwyd mewn rheoliadau o dan adran 157 o'r Deddf Addysg 2002.

1.4 Lle y mae gofynion statudol, bydd awdurdodau lleol a sefydliadau eisoes wedi mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau sy'n bodloni'r gofynion hynny ac sy'n gyson ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, bydd trefniadau ynghylch materion y mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arnynt yn cael eu cynnwys mewn polisïau a gweithdrefnau sy'n unol â'r canllawiau hynny neu'n cael yr un effaith.

1.5 Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, a pherchenogion yn gallu dangos hefyd eu bod wedi ystyried a oes unrhyw anghenion penodol o ran diogelu ar y plant, gan gynnwys plant penodol, sydd yn eu hardal neu sefydliad yn ychwanegol at yr anghenion sy'n destun canllawiau ac, os oes, eu bod wedi mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau i gwrdd â'r anghenion hynny.

1.6 Os methir â mabwysiadu trefniadau'n unol ag adran 175 neu rheoliadau o dan adran 157 o Ddeddf Addysg 2002, neu os methir â dal sylw

ar y canllawiau hyn, gall hynny fod yn sail i Gweinidogion Cymru gymryd camau yn erbyn awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, neu berchenogion ysgolion annibynnol.

1.7 Mae pob sefydliad addysgol, ysgol annibynnol ac awdurdod lleol yn cael ei arolygu gan Estyn a hefyd, mewn rhai achosion, gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Bydd perfformiad y sefydliad o ran ei gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol yn rhan o'r asesiad o berfformiad cyffredinol y sefydliad gan yr arolygiaeth berthnasol. Ni fydd perfformiad yn y maes hwn yn cael ei asesu ar sail bodolaeth gweithdrefnau'n unig, ond hefyd ar sail eu heffeithiolrwydd wrth ddiogelu plant rhag niwed.

1.8 Y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau hyn wedi'u rhoi ar waith yw'r awdurdod lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, a pherchenogion ysgolion annibynnol. Ni fydd unigolion yn uniongyrchol atebol ac eithrio lle y mae perchennog ysgol annibynnol yn digwydd bod yn unigolyn.

1.9 Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswyddau i benaethiaid ysgol nac aelodau staff eraill, ac er nad yw'n eu gwneud yn atebol am fethu â mabwysiadu trefniadau neu ddal sylw ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, mae penaethiaid ysgol ac aelodau staff eraill yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau'n unol â'r trefniadau sydd wedi'u gwneud gan yr awdurdod lleol, y corff llywodraethu, neu'r perchennog. Mae gorfodi cydymffurfiaeth gan unigolion â'r trefniadau hynny'n fater i'r cyflogwr o dan weithdrefnau disgyblu cyfredol.

### Dyletswydd gofal y gyfraith gyffredin

1.10 Mae'r darpariaethau yn adran 175 yn ategu ac yn cryfhau'r cyfrifoldeb presennol sydd gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion dros ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n rhan o'u dyletswydd gofal dan y gyfraith gyffredin tuag at y plant y mae eu sefydliad yn gyfrifol amdanynt.

### Deddf Plant 1989

1.11 Mae adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn rhoi dyletswydd i awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn eu hardal sydd mewn angen ac i ddarparu amrywiaeth a lefel o wasanaethau sy'n briodol i ddiwallu anghenion y plant hynny.

1.12 Mae adran 27 ac 28 o Ddeddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn rhoi cymorth i arfer swyddogaethau, gan gynnwys y rheini sydd yn adran 17.

1.13 O dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989 mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn gwneud ymholiadau i amddiffyn plant os hysbysir bod plentyn sy'n byw neu wedi ei darganfod yn eu hardal o dan orchymyn amddiffyn brys, neu o dan ddiogelwch yr heddlu neu os oes ganddynt achos rhesymol i amau bod

plentyn yn eu hardal yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Mae hefyd yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn penderfynu, ar y cyd â sefydliadau eraill, pa gamau y byddant yn eu cymryd i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn.

**Deddf Plant 2004**

1.14 Mae adran 25 o Ddeddf Plant 2004 yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Am y tro cyntaf mae'n gosod dyletswydd ar yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad er mwyn gwella lles y plant yn eu hardal, mewn cysylltiad â'r canlynol:

- iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol;
- eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeuluso;
- addysg, hyfforddiant a hamdden;
- eu cyfraniad i gymdeithas;
- lles cymdeithasol ac economaidd.

1.15 Mae adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd fod y canlynol yn gwneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan ddal sylw ar yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yng Nghymru:

- awdurdod lleol;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG, y mae'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'i hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau yng Nghymru;
- yr awdurdod heddlu a phrif swyddog yr heddlu dros ardal heddlu yng Nghymru;
- Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, wrth arfer swyddogaethau sy'n gysylltiedig â Chymru;
- bwrdd prawf lleol dros ardal yng Nghymru;
- tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal yng Nghymru;
- llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru (neu, yn achos carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel sydd wedi'i chontractio allan, y cyfarwyddwr);
- unrhyw berson i'r graddau y mae'n darparu gwasanaethau'n unol â threfniadau a wnaed gan awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 123(1)(b) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c.21) (gwasanaethau cymorth ieuenctid).

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

1.16 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol. Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaethau ar bob ysgol yng Nghymru, beth bynnag yw'r dull o'i hariannu neu ei rheoli, fel cyflogwr, corff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus a darparwr gwasanaethau.

1.17 Ceir dyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Rhan 6) sydd i'w cyflawni gan yr ysgol yn ogystal â darpariaethau penodol sy'n gwahardd ysgolion rhag gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu ar neu erlid:

- Darpar ddisgyblion (yng nghyswllt trefniadau derbyn)
- Disgyblion yn yr ysgol (gan gynnwys y rheini sy'n absennol neu wedi'u gwahardd dros dro).
- Cyn-ddisgyblion (os oes perthynas barhaol sydd wedi'i seilio ar y ffaith iddynt fod yn ddisgybl yn yr ysgol).

1.18 Mae rhwymedigaethau ar awdurdodau lleol yng Nghymru o dan y darpariaethau ar gyfer ysgolion os ydynt yn gorff cyfrifol ar gyfer yr ysgol, er enghraifft, os ydynt yn awdurdod derbyn dros yr ysgol. Mae rhwymedigaethau ar awdurdodau lleol hefyd fel darparwyr gwasanaethau a chyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Ceir rhwymedigaeth ar ddarparwyr addysg bellach hefyd o dan y Ddeddf. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau i ysgolion a chanllawiau i ddarparwyr addysg bellach sy'n cynnwys cyngor ar y cyfrifoldebau penodol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

**'Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004'**

1.19 Mae Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn gyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n pennu trefniadau deddfwriaethol ar gyfer y canlynol:

- rôl a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau ac ymarferwyr;
- y ffordd o gytuno ar drefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd, a'u gweithredu a'u hadolygu drwy gyfrwng Byrddau Lleol Diogelu Plant;
- y prosesau i'w dilyn os oes pryderon ynghylch plentyn;
- y camau i'w cymryd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol.

1.20 Bydd yr holl bartneriaid statudol ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant ac eraill sy'n dod i gysylltiad â phlant a theuluoedd drwy eu gwaith yn ystyried y canllawiau hyn ac, os byddant yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, rhaid iddynt fod â rhesymau clir dros wneud hynny. Mae hyn yn berthnasol hefyd i'r rheini sy'n gweithio yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol.

**Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan**

1.21 Mae Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn adlewyrchu'r trefniadau deddfwriaethol sydd yn *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*, ac maent yn hanfodol ar gyfer yr holl unigolion ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, neu gydag oedolion a all fod yn berygl i blant, ar draws proffesiynau, asiantaethau ac adrannau, ac yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Mae'r Canllawiau yn gosod fframwaith ar gyfer atgyfeirio achosion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant unigol, cymryd camau, a gwneud a chyflawni penderfyniadau a chynlluniau. Maent yn rhan annatod o'r agenda ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant.

1.22 Egwyddor sylfaenol y Canllawiau yw bod amddiffyn plant rhag niwed yn gyfrifoldeb i bob unigolyn ac asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, a chydag oedolion a all fod yn berygl i blant. Ni ellir amddiffyn plant yn effeithiol drwy un asiantaeth sy'n gweithredu ar ei phen ei hun. Mae'r canllawiau'n egluro sut y dylai unigolion ac asiantaethau gyfathrebu a chydweithio'n effeithiol mewn partneriaeth er mwyn adnabod plant sy'n agored i niwed, eu diogelu rhag eu cam-drin a'u hesgeuluso, a gwella canlyniadau ar eu cyfer. Mae Deddf Plant 2004 yn enwi'r sefydliadau statudol sydd â dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac sy'n aelodau cyfansoddol o Fyrddau Lleol Diogelu Plant.

1.23 Er mwyn cyflawni'r canllawiau'n effeithiol, rhaid dilyn arferion da ac arfer barn a medr proffesiynol wedi'i seilio ar asesu trwyadl, tystiolaeth a dadansoddi beirniadol. Mae rhan hanfodol i'w chwarae gan y Byrddau Lleol Diogelu Plant wrth hyrwyddo a datblygu sgiliau proffesiynol ac wrth sicrhau bod hyfforddiant ar ddiogelu plant yn cael ei ddarparu. Mae'r canllawiau'n cynnig fframwaith sy'n caniatáu i wahanol asiantaethau gydweithio i ddarparu polisïau diogelu plant, ond mae angen arweiniad clir gan y Byrddau Lleol Diogelu Plant i gydgysylltu'r polisïau a monitro'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu ar lefel leol.

1.24 Mae'r Canllawiau wedi'u llunio gan Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, sydd hefyd yn eu diweddaru. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl Fyrddau Lleol Diogelu Plant ac asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt yng Nghymru, ac mae'n gweithredu ar eu rhan. Bydd y grŵp yn cynhyrchu protocolau eraill hefyd sy'n addas ar gyfer Cymru gyfan ac mae'n fforwm ar gyfer rhannu arferion da o bob rhan o Gymru.

**Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

1.25 Cyflwynwyd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn Ionawr 2013. Bydd y Bil yn gyfrwng hanfodol i gyflawni a chryfhau agweddau allweddol ar agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu plant. Bydd cwmpas y Bil yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau gwasanaethau cymdeithasol ac yn hyrwyddo cydweithio mwy effeithiol rhwng asiantaethau. Bydd y Bil yn helpu hefyd i ddileu biwrocratiaeth a dyblygu ac yn sicrhau bod yr holl asiantaethau'n rhoi digon o flaenoriaeth i ddiogelu plant. Ceir gwybodaeth am hynt y Bil ar bob cam o'i daith drwy'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664.

**Y Fframwaith Hawliau Plant**

1.26 Mae gwybodaeth yn yr adran hon am y dyletswyddau a'r ddeddfwriaeth yng Nghymru sy'n ymwneud â hawliau plant.

1.27 Mae hawliau dynol yn warantau sy'n gwarchod unigolion a grwpiau rhag gweithredoedd sy'n effeithio ar eu rhyddid a'u hurddas dynol. Mae hawliau dynol yn bethau y mae gennych hawl i'w cael am eich bod yn berson. Mae hawliau dynol:

- Yn gyffredinol: yr un fath i bawb
- Yn anwahanadwy: yr un mor bwysig â'i gilydd
- Yn ddiymwad: maent gan bob person ac ni ellir eu cymryd oddi arno

1.28 Rhaid cael set o hawliau penodol i blant:

- am fod eu pŵer gwleidyddol neu gymdeithasol yn gyfyngedig
- am eu bod yn dibynnu'n economaidd ar oedolion
- am eu bod yn ddarostyngedig i reolau nad ydynt yn gymwys i grwpiau cymdeithasol eraill
- am eu bod yn agored iawn i'r perygl o gael eu cam-drin gan oedolion a'r rheini sy'n fwy pwerus na nhw
- am eu bod yn tyfu i fyny gan wybod bod eu statws yn is na grwpiau cymdeithasol eraill ac am fod llawer ohonynt yn wynebu gwahaniaethu ar sail oed
- am fod plant a phobl ifanc yn dderbynwyr gwasanaethau allweddol
- am nad oes ganddynt lais yn aml yng nghyswllt cyflenwi a chael gafael ar wasanaethau

1.29 Pwrpas y wefan Hawliau Plant yng Nghymru yw helpu ymarferwyr lleol, llunwyr polisi, rheolwyr a strategwyr i ddeall mwy am hawliau plant a sut i edrych ar eu gwaith o safbwynt hawliau plant.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

1.30 Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol plant o dan 18 oed. Mae 54 o erthyglau yn CCUHP. Mae erthyglau 43-45 yn ymwneud â'r ffordd y dylai oedolion a llywodraethau gydweithio i sicrhau bod pob plentyn yn cael mwynhau ei hawliau. Yn erthyglau 1-42 nodir sut y mae plant i gael eu trin. Cadarnhawyd y confensiwn gan Lywodraeth y DU yn 1991, a chytunodd yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau sydd yn CCUHP.

## Y Protocolau Dewisol

1.31 Yn 2002 mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ddau Brotocol Dewisol i ategu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r Protocolau Dewisol hyn yn rhoi mwy o amddiffyniad i blant rhag cymryd rhan mewn gwrthdaro arfog a rhag camfanteisio rhywiol.

- Y Protocol Dewisol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant: Mae'r protocol hwn yn tynnu sylw at y ffordd y mae'r ymyriadau difrifol hyn â hawliau plant yn cael eu troseddoli ac yn nodi pa mor bwysig yw hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus a chydweithredu rhyngwladol yn eu herbyn. Cadarnhawyd y protocol hwn gan Lywodraeth y DU yn Chwefror 2009;

- Y Protocol Dewisol ar gynnwys plant mewn gwrthdaro arfog: Mae'r protocol hwn yn pennu mai 18 yw'r oedran isaf ar gyfer recriwtio gorfodol i luoedd arfog y Wladwriaeth ac yn mynnu bod Gwladwriaethau'n gwneud popeth yn eu gallu i atal unigolion sydd o dan 18 oed rhan cymryd rhan yn uniongyrchol mewn rhyfela. Cadarnhawyd y protocol hwn gan y DU ym Mehefin 2003.

### Y Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

1.32 Yn 2002 datblygodd Llywodraeth Cymru y Saith Nod Craidd ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn crynhoi CCUHP ar gyfer cynllunio ar lefel leol a chenedlaethol ac ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Eu hamcan yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. yn cael dechrau teg mewn bywyd;
2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio;
4. yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
6. yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
7. yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

1.33 Yn 2004 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gweithredu'r Hawliau a mabwysiadodd CCUHP yn ffurfiol yn sylfaen ar gyfer gwneud polisïau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed.

### Gwneud pethau'n iawn: Cynllun Gweithredu CCUHP i Gymru

1.34 Ym mis Tachwedd 2009 lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu CCUHP, Gwneud pethau'n iawn. Roedd yn cynnwys 16 o flaenoriaethau:

1) Ymdrin â thlodi plant
2) Sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r rhai mwyaf agored i niwed
3) Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP
4) Lleihau'r bwlch rhwng polisi a chanlyniadau
5) Gwella cyrhaeddiad addysgol
6) Cefnogi lles emosiynol
7) Gwella cyfleoedd i chwarae'n ddiogel
8) Cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau
9) Dileu gwahaniaethu yn erbyn rhai sydd ag anabledd
10) Gwneud cosb gorfforol yn anghyfreithlon
11) Dileu pob math o fwlio
12) Sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu mwynhau eu hawliau

13) Dileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb wedi'i seilio ar oed
14) Sicrhau bod y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gallu mwynhau eu hawliau
15) Gwella tryloywder y gwaith o bennu cyllidebau
16) Sicrhau bod y rheini sydd yn y system cyfiawnder troseddol yn gallu mwynhau eu hawliau

1.35 Mae gwefan Llywodraeth Cymru CCUHP Gwneud Pethau yn Iawn yn darparu deunyddiau hyfforddi ar CCUHP ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant, a chyfle i blant a phobl ifanc ddysgu am eu hawliau.

## Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

1.36 Yn 2011, Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i gorffori CCUHP mewn cyfraith ddomestig, drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn sefydlu'r gofyniad i ystyried CCUHP a'r Protocolau Dewisol yng nghyfraith Cymru, ac yn rhoi Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i roi sylw dyladwy i ofynion CCUHP wrth wneud eu penderfyniadau.

## Draig Ffynci - Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

1.37 Draig Ffynci yw'r sefydliad ambarél sy'n cael ei arwain gan blant a phobl ifanc ar gyfer hyrwyddo a helpu i weithredu CCUHP yng Nghymru. Prif dasgau Draig Ffynci yw sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei chlywed, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru, a hybu cyfranogiad mewn penderfyniadau ar lefel genedlaethol. Mae'r cyfle i gymryd rhan a chael eich clywed yn hawl sylfaenol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Draig Ffynci yn ceisio cynrychioli ystod mor eang â phosibl o blant a chydweithio â phenderfynwyr i sicrhau newid.

## Comisiynydd Plant Cymru

1.38 Mae swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn sefydliad hawliau plant annibynnol a sefydlwyd yn 2001. Prif nod y sefydliad yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru. Sefydlwyd swydd y Comisiynydd Plant mewn dau gam, o dan Ran V o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac o dan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

1.39 Mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn cynnwys:

- darparu cyngor a gwybodaeth i blant a phobl ifanc yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill sy'n pryderu ynghylch hawliau a lles plentyn penodol neu blant yn gyffredinol;
- cynnig cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, gan eu helpu i fynegi eu barn a'u dymuniadau;
- ymchwilio i achosion lle y byddai gwasanaethau wedi gallu gwneud cam â phlentyn neu blant;

- helpu plant a phobl ifanc – a hynny'n cynnwys darparu cymorth ariannol a chynrychiolaeth mewn achosion cyfreithiol – y mae eu hawliau heb gael eu parchu.

1.40 Mae cylch gwaith y Comisiynydd yn cynnwys yr holl feysydd lle y mae pwerau wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant. Hefyd gall y Comisiynydd gyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

1.41 O dan y ddeddfwriaeth, gall y Comisiynydd:
- adolygu effeithiau polisïau, polisïau arfaethedig a'r cyflenwi ar wasanaethau i blant;
- ymchwilio'n fwy manwl i achos plentyn neu blant penodol os yw'n ymwneud â mater sy'n berthnasol i fywydau plant yng Nghymru'n gyffredinol;
- mynnu bod asiantaethau neu bersonau sy'n gweithredu ar eu rhan yn darparu gwybodaeth, a mynnu bod tystion yn rhoi tystiolaeth ar lw.

1.42 Mae tri math o adroddiad yn cael eu llunio gan y Comisiynydd Plant:
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon;
- adroddiadau ar archwiliadau ffurfiol;
- adroddiadau ar bynciau penodol (e.e. toiledau ysgol, cludiant ysgol, gofalwyr ifanc).

1.43 Mae adroddiadau blynyddol y Comisiynydd Plant wedi dod â phryderon penodol i sylw llywodraeth a chymdeithas sifil ac wedi sbarduno rhai gwelliannau pendant mewn datblygiadau polisi ac ymarfer sy'n effeithio ar blant yng Nghymru. Yn 2004, cyhoeddodd y Comisiynydd Plant Adroddiad Clywch. Roedd hyn yn ddiweddglo i archwiliad o achos penodol a oedd yn ymwneud â honiadau o gam-drin plant mewn ysgol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer gwella gweithdrefnau i ddiogelu plant mewn ysgolion.

1.44 Roedd yr adroddiad Datgan Pryderon gan y Comisiynydd Plant yn ymwneud â gweithredu gweithdrefnau cwynion a chwythu'r chwiban a darparu gwasanaethau eiriolaeth yng ngwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, a'i adroddiad Dydy Plant Ddim yn Cwyno yn ymwneud â'r trefniadau cyfatebol mewn awdurdodau lleol. Roedd y ddau adroddiad yn ddylanwadol am eu bod wedi tynnu sylw'r deiliaid dyletswydd perthnasol at yr angen i wella polisi ac ymarfer.

## Strwythurau diogelu amlasiantaethol

1.45 Mae nifer o strwythurau amlasiantaethol yng Nghymru sy'n bwysig o ran diogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd nifer ohonynt yn galw am fewnbwn gan ddarparwyr addysg a gwaith mewn partneriaeth â nhw. Mae'n bwysig bod yr holl staff a llywodraethwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach

yn ymwybodol o'r strwythurau diogelu canlynol a'u cyfrifoldeb i gymryd rhan ynddynt fel y bo'n briodol ac yn unol â'r canllawiau statudol perthnasol sydd wedi'u nodi yn yr adrannau isod.

**Byrddau Lleol Diogelu Plant**

1.46 O dan adran 31(1) o Ddeddf Plant 2004 mae'n ofynnol bod pob awdurdod lleol yng Nghymru'n sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer ei ardal, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr pob un o'r prif asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am helpu i amddiffyn plant rhag eu niweidio a'u hesgeuluso.

1.47 Mae partneriaid y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn cynnwys:

- yr awdurdod lleol;
- yr heddlu;
- y bwrdd prawf lleol;
- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;
- unrhyw Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- llywodraethwr neu gyfarwyddwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel yn ardal yr awdurdod;
- llywodraethwr neu gyfarwyddwr unrhyw garchar sy'n cadw plant fel arfer.

Hefyd gall y Bwrdd Lleol Diogelu Plant gynnwys cynrychiolwyr i unrhyw bersonau neu gyrff perthnasol eraill sydd wedi'u cymeradwyo gan aelodau eraill y Bwrdd.

1.48 Amcanion y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yw:

- cydgysylltu'r hyn a wneir gan bob person neu gorff sydd wedi'i gynrychioli ar y Bwrdd i ddibenion diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal yr awdurdod sydd wedi'i sefydlu;
- sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob person neu gorff o'r fath i'r dibenion hynny.

1.49 Bydd pob awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros sefydlu ei Fwrdd Lleol Diogelu Plant a sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Er hynny, mae pob un o'r prif asiantaethau cyfansoddol yn gyfrifol am gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at waith y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn atebol am ei waith i'w brif asiantaethau cyfansoddol, a rhaid cael cytundeb ganddynt ar gyfer pob gwaith lle y mae goblygiadau o ran polisi, cynllunio a dyrannu adnoddau. Bydd pob un o bartneriaid y Bwrdd yn cadw ei linellau atebolrwydd presennol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant gan ei wasanaethau. Nid oes pŵer gan y Bwrdd i gyfarwyddo sefydliadau eraill.

1.50 Ym Mhennod 4 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 ceir canllawiau cynhwysfawr ar y gofynion o ran aelodaeth Byrddau Lleol Diogelu Plant, eu swyddogaethau, cwmpas eu diddordeb,

trefniadaeth a llywodraethu, atebolrwydd, cadeirio cyfarfodydd a ffyrdd o weithio.

**Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion**

1.51 Roedd y canfyddiadau o Gydarolygiad Byrddau Lleol Diogelu Plant yn Hydref 2011 yn cynnwys tystiolaeth nad oedd Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gallu dangos eu bod yn perfformio'n effeithiol. Roedd Adolygiad Simpson o gyflenwi gwasanaethau awdurdodau lleol yn cydnabod y byddai cydweithio a gwaith mewn partneriaeth yn fwy cynaliadwy ar sail ôl troed daearyddol ehangach. Er bod rhai Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi cymryd camau cadarnhaol i gydweithio, a bod rhai wedi uno'n ffurfiol, mae anawsterau o ran cynaliadwyedd ac mae'r trefniant presennol ar gyfer 22 o Fyrddau yn dwysáu problemau o ran adnoddau a gallu ac yn arwain at ddyblygu sylweddol.

1.52 Felly bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu ar gyfer galluogi newidiadau strwythurol i fyrddau diogelu plant ac i sefydlu byrddau diogelu oedolion. Ceir gwybodaeth am y Bil ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

1.53 Ar hyn o bryd nid oes sefydliad cenedlaethol ar gyfer arolygu trefniadau i ddiogelu ac amddiffyn. Bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnwys darpariaeth i sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, i wella safonau a sicrhau cysondeb, dangos arweiniad, hyrwyddo perchenogaeth a darparu cyngor arbenigol er mwyn cryfhau polisi ac ymarfer.

**Fforymau Rhanbarthol Amddiffyn Plant**

1.54 Mae Fforymau Rhanbarthol Amddiffyn Plant wedi'u sefydlu ledled Cymru. Maent yn ffordd werthfawr o ddod â'r gwahanol asiantaethau diogelu sy'n gweithio mewn ardaloedd penodol at ei gilydd. Er nad oes gofyniad statudol am sefydlu fforymau amddiffyn plant, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod eu cyfraniad pwysig at drefniadau gweithio rhyngasiantaethol ac at ddatblygu protocolau cyffredin a gweithdrefnau, sydd wedi'u hystyried wedyn gan Grŵp Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

**Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc**

1.55 Mae adran 25 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd cydweithredu ar gyfer gwella lles plant a phobl ifanc ar awdurdodau lleol, partneriaid perthnasol a chyrff eraill y mae'r awdurdod lleol yn credu eu bod yn briodol. Mae'r Ddeddf Plant yn nodi mai partneriaid perthnasol yr awdurdod lleol yw:

- yr awdurdod heddlu a phrif swyddog yr heddlu;
- y bwrdd prawf lleol;
- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;

- ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod.

1.56 Bydd y partneriaid hyn yn cydweithredu â'r awdurdod i wneud trefniadau partneriaeth yn unol â'r Ddeddf Plant. Mae hefyd yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cynnwys y canlynol yn eu trefniadau partneriaeth:

- cynrychiolwyr ysgolion;
- cynrychiolydd y Gwasanaeth Tân ac Achub;
- sefydliadau gwirfoddol perthnasol, gan gydnabod y rhan allweddol sydd gan y sector anstatudol mewn cyflenwi gwasanaethau a hybu cyfranogi.

1.57 Rhaid i'r cynrychiolwyr yn y bartneriaeth fod yn rhai sydd mewn swyddi digon uchel i siarad ar ran eu rhiant-gyrff yng ngwaith y Bartneriaeth. Yn y cyd-destun hwn, rhaid wrth drefniadau llywodraethu cadarn rhwng asiantaethau i gynnal gwaith mewn partneriaeth. Bydd hyn yn galw am:

- arweiniad effeithiol gan yr awdurdod lleol;
- cynnwys yr holl bartneriaid allweddol, gan gynnwys darparwyr gwirfoddol a darparwyr eraill;
- atebolrwydd clir;
- ymddiriedaeth, gweledigaeth gyffredin ac ymrwymiad i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc gan yr holl bartneriaid.

1.58 Mae Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau a gyhoeddwyd ym Mehefin 2006 yn pennu'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i arwain ar hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth sy'n sefydlu gwasanaethau integredig effeithiol i'r holl blant a phobl ifanc.

### Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc

1.59 Mae Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol, ar ôl ymgynghori â phartneriaid, yn cyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n egluro sut y bydd yn gwella lles plant a phobl ifanc.

1.60 Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 31/07, Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau, yn cynnwys canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ar baratoi a chyhoeddi eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

### Adolygiadau Ymarfer Plant

1.61 O 1 Ionawr 2013, mae Adolygiadau Ymarfer Plant amlasiantaethol yn cymryd lle Adolygiadau Achos Difrifol yng Nghymru. Cynhelir y rhain mewn amgylchiadau lle y mae digwyddiad difrifol lle y mae gwybodaeth neu amheuaeth ynghylch cam-drin neu esgeuluso plentyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant a'u partner-asiantaethau sy'n disodli Pennod 10 o *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*.

1.62 Mae nifer o nodweddion pwysig yn y fframwaith newydd ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant sy'n ei wneud yn wahanol i'r system flaenorol ar gyfer adolygiadau achos difrifol:

- mae'n cynnwys asiantaethau, staff a theuluoedd mewn cydymdrech i fyfyrio a dysgu gwersi o'r hyn sydd wedi digwydd er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar atebolrwydd yn hytrach na beiusrwydd;
- mae'n cynnig cyfle i ddatblygu ymarfer amlasiantaethol mwy medrus a hyderus yn y tymor hir, lle y bydd gan staff well dealltwriaeth o'r sylfaen wybodaeth a safbwynt y gwahanol weithwyr proffesiynol y maent yn cydweithio â nhw;
- mae'n peri bod rheolwyr yn fwy atebol i dderbyn cyfrifoldeb dros y cyd-destun a'r diwylliant lle y mae eu staff yn gweithio ac i sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r adnoddau y mae arnynt eu hangen;
- mae'n cydnabod yr effaith ar deuluoedd ac ar staff mewn amgylchiadau trist lle y mae plant wedi'u niweidio'n ddifrifol neu wedi marw o achosion heblaw rhai damweiniol, ac yn cynnig cyfleoedd i adolygu digwyddiadau difrifol mewn diwylliant sy'n deg a chyfiawn;
- mae'n defnyddio dull symlach a mwy hyblyg a chymesur o adolygu a dysgu gwersi o achosion sy'n gymhleth o'u hanfod;
- mae'n caniatáu defnydd mwy adeiladol a phriodol o adnoddau na'r system flaenorol ac mae ei amserlenni'n fyrrach;
- mae'n dysgu gwersi o brosesau adolygu eraill sy'n gysylltiedig ac mae'n fwy cydnaws â systemau adolygu gwahanol;
- mae'n canolbwyntio ar y prif wersi a ddysgir drwy'r broses adolygu a bydd hyn yn arwain at argymhellion a chamau gweithredu perthnasol i wella ymarfer yn y dyfodol, a gaiff eu cofnodi mewn adroddiadau heb enwau a gyhoeddir gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant.

1.63 Yn fyr, mae fframwaith yr adolygiadau ymarfer plant yn cynnwys tair rhan gydgysylltiedig, sef:

- Fforymau proffesiynol amlasiantaethol;
- Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno;
- Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig.

## Fforymau proffesiynol amlasiantaethol

1.64 Fforymau proffesiynol amlasiantaethol yw'r sylfaen ar gyfer dysgu sefydliadol, gwella ansawdd y gwaith gyda theuluoedd ac ychwanegu at allu gwasanaethau i gadw plant yn ddiogel. Y diffiniad o fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd yn 2012 yw:

> *Fforwm a drefnir ac a hwylusir gan y Bwrdd ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr o gyrff cynrychioliadol, a chyrff neu bobl eraill y mae Cadeirydd y Bwrdd yn eu hystyried yn berthnasol, er mwyn dysgu oddi wrth achosion, archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau a gwella polisi ac ymarfer amddiffyn plant yn y dyfodol.*

1.65 Mae dau brif bwrpas i'r fforymau:

- **Dysgu o achosion:** hwyluso trafod, ymgynghori a myfyrio gan ymarferwyr, rheolwyr neu grwpiau craidd, gan ddefnyddio dull wedi'i seilio ar systemau i archwilio a dadansoddi achosion cyfredol neu flaenorol. Gall y rhain fod yn achosion cymhleth lle y cafwyd canlyniadau da, achosion cyfredol sydd wedi aros yn eu hunfan, neu achosion sy'n destun pryder neu ddiddordeb i weithwyr proffesiynol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer plant cryno neu estynedig;

- **Lledaenu gwybodaeth a chanfyddiadau newydd:** o archwiliadau amddiffyn plant amlasiantaethol ac o adolygiadau ymarfer plant, arolygiadau neu ffynonellau lleol neu genedlaethol eraill, i sicrhau bod dysgu a datblygu aml-broffesiwn yn parhau ar lefel leol.

## Adolygiadau ymarfer plant cryno

1.66 Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau cryno wedi'u pennu yn Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd yn 2012. Maent yn datgan bod rhaid i Fwrdd Lleol Diogelu Plant gynnal adolygiad ymarfer plant cryno mewn unrhyw un o'r achosion canlynol lle y mae gwybodaeth neu amheuaeth bod plentyn yn ardal y Bwrdd wedi cael ei gam-drin neu'i esgeuluso a bod y plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi dioddef anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad;

*ac*

- nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn:
  - o dyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod; neu
  - o y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn canfod bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd ac i'w ddatblygiad.

## Adolygiadau ymarfer plant estynedig

1.67 Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau estynedig wedi'u pennu mewn Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd yn 2012. Maent yn datgan bod rhaid i Fwrdd Lleol Diogelu Plant gynnal adolygiad ymarfer plant estynedig mewn unrhyw un o'r achosion canlynol lle y mae gwybodaeth neu amheuaeth bod plentyn yn ardal y Bwrdd wedi cael ei gam-drin neu'i esgeuluso a bod y plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi dioddef anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad;

*a*

- bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu ei fod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn:

- o dyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod; neu
- o y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn canfod bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd ac i'w ddatblygiad.

**Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd**

1.68 O dan adrannau 325-327 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, mae dyletswydd statudol ar yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai (yr 'Awdurdodau Cyfrifol') i sefydlu trefniadau i asesu a reoli a lleihau'r perygl oddi wrth droseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar perthnasol er mwyn gostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys unigolion y credir eu bod yn achosi perygl neu berygl posibl o niwed i blant.

1.69 Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn fframwaith cenedlaethol sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol hyn. Gwneir hyn drwy rannu gwybodaeth a gwneud cynlluniau cydgysylltiedig ar gyfer rheoli risg fel y gellir rheoli troseddwyr yn effeithiol.

1.70 Mae dyletswydd ar nifer o asiantaethau eraill sy'n ymwneud â throseddwyr i gydweithredu â'r Awdurdodau Cyfrifol. Ymhlith yr asiantaethau sydd o dan ddyletswydd i gydweithredu y mae:

- Awdurdodau Lleol
- Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol
- Canolfan Byd Gwaith
- Timau Troseddau Ieuenctid
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n lletya troseddwyr sy'n ddarostyngedig i Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
- Awdurdodau Tai Lleol
- Darparwyr Monitro Electronig;
- Asiantaeth Ffiniau'r DU

1.71 Caiff troseddwyr eu hatgyfeirio i'r broses Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd ar ôl cael collfarn am drosedd perthnasol. Ar ôl eu hatgyfeirio, cynhelir asesiad risg trwyadl o bob achos ar wahân. Mae Cydgysylltydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn awr y gellir cysylltu ag ef drwy unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfrifol lleol. Bydd Bwrdd Rheoli Strategol Ardal ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd wedi'i sefydlu a bydd yn cynnwys rheolwyr arweiniol o'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai, nifer o asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu a dau Gynghorydd Lleyg.

1.72 Mae tair lefel neilltuol ond cysylltiedig yn y fframwaith Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer asesu a rheoli risg:

- **Lefel 1 – rheolaeth gyffredin ar risg:** lle y gellir rheoli'r risg oddi wrth y troseddwr gan un asiantaeth heb gynnwys asiantaethau eraill i raddau sylweddol.

- **Lefel 2 – rheolaeth ryngasiantaethol leol ar risg:** lle y mae angen cyfraniad sylweddol gan fwy nag un asiantaeth ond lle nad yw lefel y risg na'r cymhlethdod wrth reoli'r risg mor fawr fel bod angen atgyfeirio'r achos i lefel 3.

- **Lefel 3 – Paneli Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd** sydd â phwerau i ddatgelu gwybodaeth am droseddwyr i ysgolion, grwpiau gwirfoddol ac eraill. Mae hyn yn ymwneud â'r "lleiafrif critigol" a fydd yn cynnwys troseddwr:
    - yr aseswyd ei fod yn peri risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol; ac
    - sy'n peri risgiau na ellir eu rheoli heblaw drwy gynllun sy'n galw am gydweithredu agos ar lefel uwch oherwydd cymhlethdod yr achos a/neu oherwydd yr adnoddau anarferol y mae angen eu neilltuo; neu
    - lle y mae'r achos yn eithriadol, er nad yw'r asesiad wedi dangos bod risg uchel neu uchel iawn, gan ei bod yn debygol y bydd llawer o graffu gan y cyfryngau a/neu ddiddordeb gan y cyhoedd yng nghyswllt rheolaeth yr achos a bod angen sicrhau bod hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol yn cael ei gynnal.

1.73 Mae Canllawiau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd 2012 yn ddogfen amlasiantaethol gryno sy'n cynnig cymorth effeithiol i reoli troseddwyr o dan y Trefniadau. Mae nifer o atodiadau a ffurflenni ar gael hefyd sy'n ei hategu.

# Pennod 2: Rolau a chyfrifoldebau diogelu yn y gwasanaeth addysg

## Prif egwyddorion

2.1 Yn unol â'r egwyddorion sydd yn Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, bydd yr holl waith ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant:

- **yn blentyn-ganolog:** Cafwyd rhai o'r methiannau gwaethaf yn y system pan oedd gweithwyr proffesiynol wedi colli golwg o'r plentyn a chanolbwyntio'n hytrach ar ei berthynas â'r oedolion. Mae'n bwysig bod yr ymarferydd yn gweld y plentyn ym mhob achos a'i fod yn canolbwyntio arno drwy gydol y gwaith gyda'r plentyn a'r teulu. Rhaid gwrando ar lais y plentyn ac ystyried ei farn a'i safbwynt;

- **wedi'i wreiddio mewn datblygiad plant:** Bydd y rheini sy'n gweithio gyda'r plant yn mabwysiadu agwedd at ddatblygu sy'n cydnabod bod y plentyn yn parhau i ddatblygu ei sgiliau a'i alluoedd wrth dyfu. Mae pob cyfnod rhwng babandod a'r blynyddoedd canol hyd at y glasoed yn gosod y sylfaen ar gyfer datblygu mwy cymhleth. Rhaid seilio cynlluniau ac ymyriadau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn ar asesiad clir o gynnydd datblygiadol y plentyn a'r anawsterau y gallai eu hwynebu. Bydd hefyd yn bwysig, wrth gynllunio camau gweithredu, eu bod yn amserol ac yn briodol i oedran y plentyn a'r cyfnod yn ei ddatblygiad;

- **yn canolbwyntio ar ganlyniadau:** Pwrpas pob ymyriad yw sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn gan gydnabod bod pob un yn unigryw. Dylai'r canlyniadau hyn gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau allweddol ar gyfer yr holl blant sydd wedi'u nodi yn Neddf Plant 2004. Wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlentyn, bydd yn bwysig bod unrhyw gynllun a gaiff ei ddatblygu ar gyfer y plentyn a'i deulu neu ofalwr yn cael ei seilio ar asesiad o anghenion datblygiadol y plentyn a gallu'r rhieni neu'r gofalwyr i ymateb i'r anghenion hynny yng nghyd-destun eu cymuned. Rhaid nodi'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer pob plentyn yn y cynllun hwn ac, wrth ei adolygu, rhaid cofnodi'r canlyniadau gwirioneddol;

- **yn gyfannol:** Mae gweithio mewn ffordd gyfannol yn golygu deall amgylchiadau'r plentyn yng nghyd-destun teulu'r plentyn (ei rieni neu ofalwyr a'r teulu ehangach) ac yn y lleoliad addysgol, y gymuned a'r diwylliant lle y mae'n cael ei fagu. Y nod yn y pen draw yw deall anghenion datblygiadol y plentyn yng nghyd-destun ei deulu a darparu gwasanaethau priodol sy'n ymateb i'r anghenion hynny. Bydd angen ymchwilio'n ofalus yn ystod yr asesiad i'r rhyngweithio rhwng anghenion datblygiadol y plant, y galluoedd sydd gan rieni neu ofalwyr i ymateb yn briodol i'r anghenion hynny ac effaith y ffactorau cyffredinol yn y teulu a'r amgylchedd ar blant ac ar y gallu i rianta. Drwy ddadansoddi sefyllfa'r plentyn, ceir gwybodaeth i'w hystyried wrth gynllunio a chymryd camau i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plentyn, ac wedyn wrth adolygu

effeithiolrwydd y camau a gymerwyd a'r gwasanaethau a ddarparwyd. Bydd cyd-destun y plentyn yn fwy cymhleth byth os yw'n byw oddi cartref ac yn derbyn gofal gan oedolion sydd heb gyfrifoldeb rhiant;

- **wedi'i seilio ar gyfle cyfartal:** Ystyr cyfle cyfartal yw bod pob plentyn yn cael cyfle i sicrhau'r datblygiad gorau posibl, beth bynnag fo'i ryw, gallu, ethnigrwydd neu oed. Mewn rhai achosion bydd plant sy'n agored i niwed wedi wynebu anfantais sylweddol o ran y cyfleoedd pwysig a oedd ar gael iddynt a bydd angen rhoi sylw neilltuol i'w hanghenion iechyd ac addysg er mwyn sicrhau'r lles gorau posibl iddynt ar y pryd a'r canlyniadau gorau posibl iddynt yn y tymor hir erbyn iddynt dyfu'n oedolion ifanc;

- **yn adeiladu ar sail cryfderau yn ogystal ag adnabod a delio ag anawsterau:** Mae'n bwysig adnabod cryfderau ac anawsterau yn sefyllfa'r plentyn, ei deulu a'r cyd-destun lle y mae'n byw, ac ystyried sut y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar iechyd a datblygiad y plentyn. Yn rhy aml cafwyd bod y rhan fwyaf o'r arferion mewn gwaith gyda theuluoedd yn canolbwyntio ar ddiffygion, a bod meysydd hanfodol ym mywyd y teulu sy'n llwyddiannus ac yn effeithiol yn cael eu hanwybyddu wrth gynllunio ymyriadau. Bydd yn bwysig manteisio ar gryfderau'r plentyn neu'r teulu wrth bennu cynllun i ddatrys anawsterau;

- **yn amlasiantaethol neu'n rhyngasiantaethol:** O adeg eu geni, bydd amrywiaeth o asiantaethau a rhaglenni yn y gymuned yn ymwneud â phlant a'u datblygiad, yn enwedig yng nghyswllt eu hiechyd a'u haddysg. Bydd gwaith amlasiantaethol a rhyngasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn yn dechrau cyn gynted ag y ceir pryderon am les y plentyn, ac nid pan fydd amheuaeth o niwed posibl yn unig;

- **yn broses barhaus:** Mae deall beth sy'n digwydd i blentyn sy'n agored i niwed yng nghyd-destun ei deulu a'r gymuned leol, a chymryd camau priodol, yn brosesau parhaus a rhyngweithiol ac nid yn ddigwyddiadau unigol. Rhaid darparu gwasanaethau a chamau gweithredu yn unol ag anghenion dynodedig y plentyn a'i deulu, ochr yn ochr ag asesu drwy fonitro ac adolygu os bydd angen. Nid oes rhaid aros i'r broses asesu gael ei chwblhau. Dylid rhoi sylw i anghenion cyfredol ac ymarferol yn ogystal â rhai mwy cymhleth dros y tymor hwy;

- **wedi'i seilio ar dystiolaeth:** Mae ymarfer effeithiol gyda phlant a theuluoedd yn galw am benderfyniadau proffesiynol da a fydd wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn ac ar wybodaeth a phrofiad yr ymarferydd;

- **yn wyliadwrus o les plant:** Mae'n bwysig bod pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant yn gallu adnabod arwyddion o amharu ar iechyd neu ddatblygiad plentyn, neu'r posibilrwydd o hynny, ac yn gwybod sut i weithredu ar sail hynny, yn enwedig mewn achosion lle y maent yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Rhaid i ymarferwyr fod yn ystyriol bob amser o les a diogelwch plant – gan gynnwys plant sydd heb eu geni a phlant hŷn – wrth wneud eu gwaith. Mae'n bwysig bod yr holl weithwyr proffesiynol, ac yn enwedig y rheini mewn gwasanaethau addysg, iechyd a

gofal cymdeithasol yn gallu adnabod sefyllfaoedd lle y mae ar blentyn angen cymorth neu gefnogaeth ychwanegol i atal niwed i'w iechyd neu ddatblygiad, neu arwyddion posibl o gam-drin neu esgeuluso mewn plant. Rhaid i bob aelod staff fod yn ystyriol bob amser o les a diogelwch plant wrth wneud eu gwaith, a bod yn gyfarwydd â'r safonau craidd yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth;

- **yn cynnwys plant a theuluoedd:** Wrth ddarganfod beth sy'n digwydd i blentyn, mae'n bwysig gwrando a meithrin dealltwriaeth o'i ddymuniadau a'i deimladau. Rydym yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o ddatblygu perthynas gydweithredol wrth weithio. Drwy wneud hyn, bydd rhieni neu ofalwyr yn teimlo bod parch tuag atynt a'u bod yn cael gwybod am ddatblygiadau; byddant yn credu bod staff asiantaethau'n onest ac yn agored wrth ddelio â nhw, a byddant hwy yn eu tro yn teimlo'n hyderus wrth ddarparu gwybodaeth hanfodol am eu plentyn, amdanyn nhw eu hunain ac am eu hamgylchiadau. Rhaid cael cydsyniad gan blant, pobl ifanc a'u rhieni neu ofalwyr cyn rhannu gwybodaeth oni bai fod hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl o gael niwed. Dylid cael cytundeb ar benderfyniadau ganddynt hefyd, pryd bynnag y bo modd, oni bai fod hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl o gael niwed.

2.2 Yn yr adrannau isod, disgrifir y rolau a chyfrifoldebau penodol ar gyfer diogelu plant sydd gan yr awdurdod lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach, y pennaeth neu brifathro a pherchenogion ysgolion annibynnol.

## Awdurdodau lleol

2.3 Mae lles plant yn gyfrifoldeb corfforaethol i'r awdurdod lleol cyfan. Mae'n ofynnol hefyd fod cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru'n cyflawni eu dyletswyddau gan ddal sylw ar yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yng Nghymru o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004.

2.4 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau ar dair lefel:

**Strategol** – cynllunio, trefnu i gyflenwi gwasanaethau, a dyrannu adnoddau; gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, (e.e. gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, timau troseddau ieuenctid a Byrddau Lleol Diogelu Plant);

**Cymorth** – sicrhau bod ysgolion a gynhelir yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau am amddiffyn plant; monitro eu perfformiad; trefnu bod hyfforddiant priodol a pholisïau a gweithdrefnau enghreifftiol ar gael; darparu cyngor a chymorth; a hwyluso cysylltiadau a chydweithredu ag asiantaethau eraill. Mae nifer o awdurdodau'n darparu'r gwasanaethau hyn hefyd i ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach. Mae awdurdodau'n rhydd i wneud hynny, ac i godi ffioedd priodol am wasanaethau a hyfforddiant y maent yn eu darparu i ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach;

**Gweithredol** – bod yn gyfrifol am ddiogelu plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, neu sydd heb gael lle mewn ysgol, er enghraifft plant sydd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion neu'n cael eu haddysgu gan wasanaeth tiwtoriaid cartref yr awdurdod; cymryd rhan wrth ddelio â honiadau am gam-drin yn erbyn staff a gwirfoddolwyr; a sicrhau bod trefniadau ar waith i atal staff a gwirfoddolwyr anaddas rhag gweithio gyda phlant.

2.5 Mae Deddf Plant 2004 wedi cryfhau rôl yr awdurdodau lleol o ran darparu addysg fel rhieni corfforaethol. Cafwyd diwygiad i Ddeddf Plant 1989, Adran 22 sy'n mewnosod gofyniad bod dyletswydd yr awdurdod lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn sy'n derbyn gofal ganddo yn cynnwys yn benodol ddyletswydd i hyrwyddo cyflawniad addysgol y plentyn.

2.6 Gwnaeth Adran 2 o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 gosod adran 23B newydd y Deddf Plant 1989 i rhoi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn oni bai eu bod wedi'u bodloni nad yw ei les yn galw am hynny.

2.7 Nid yw'r cyfrifoldeb dros ddiogelu plant sy'n cael eu haddysgu gartref gan eu rhieni neu ofalwyr, neu sydd wedi'u cyflogi, yn fater addysgol yn unig. Bydd yn well delio â'r materion hyn drwy ddull amlasiantaethol a rhaid eu cynnwys mewn gweithdrefnau a gytunir yn lleol yn unol â'r egwyddorion yn Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

2.8 Gall awdurdodau gael cymorth a chyngor strategol gan eu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ynghylch y rôl sydd gan awdurdodau lleol a chan eu partneriaid perthnasol wrth gydweithredu i wella lles o dan Ddeddf Plant 2004.

2.9 Isod nodir y mesurau penodol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu cymryd ym mhob un o'r meysydd sydd wedi'u nodi uchod.

**Cyfrifoldebau strategol**

2.10 Ar y lefel hon bydd yr awdurdod lleol:

- yn dyrannu adnoddau i gynnal gwaith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- yn sicrhau bod uwch-swyddog yn cynrychioli'r awdurdod lleol ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a bod yr awdurdod yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio gwasanaethau cydgysylltiedig i ddiwallu anghenion plant;
- yn cydweithio ag asiantaethau eraill i drefnu a chynnal gwaith effeithiol mewn partneriaeth;
- yn dyrannu adnoddau i alluogi'r awdurdod ac ysgolion a gynhelir i gyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelu plant yn foddhaol;

- yn cydgysylltu ag awdurdodau esgobaethol priodol yng nghyswllt trefniadau ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn ei ardal;

- yn monitro cydymffurfiaeth â'r canllawiau hyn gan ysgolion a gynhelir, mewn cysylltiad yn benodol â bodolaeth a gweithrediad polisïau a gweithdrefnau priodol, a hyfforddiant staff, gan gynnwys yr uwch-swyddog dynodedig sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn plant. Bydd yn dod ag unrhyw ddiffygion i sylw corff llywodraethu'r ysgol ac yn cynghori ynghylch y camau i'w cymryd er mwyn eu cywiro;

- yn cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau rhwng asiantaethau cyn gynted ag y maent wedi'u nodi;

- yn chwarae rhan lawn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant yn unol ag Amddiffyn Plant yng Nghymru: Canllawiau ar Drefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol; yn adolygu ac yn diwygio gweithdrefnau a hyfforddiant yn unol â chanfyddiadau'r adolygiadau hynny, ac yn lledaenu gwybodaeth am ganfyddiadau perthnasol i'r bobl ddynodedig sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn plant yn yr awdurdod ac mewn ysgolion a gynhelir. (Ceir mwy o wybodaeth am Adolygiadau Ymarfer Plant yn Pennod 1).

**Cyfrifoldebau cymorth**

2.11 Ar y lefel hon bydd yr awdurdod lleol:

- yn sicrhau bod hyfforddiant cynefino ar gyfer holl staff newydd yr awdurdod a staff a fydd yn gweithio gyda phlant mewn ysgol a gynhelir yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu plant a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran amddiffyn plant yn effeithiol, ac yn sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael hefyd i ddiweddaru gwybodaeth a sgiliau staff. Bydd yn bwysig hefyd fod llywodraethwyr ysgolion a gynhelir yn cael hyfforddiant priodol ar eu cyfrifoldebau diogelu plant;

- yn sicrhau bod hyfforddiant pellach ar gael ar weithio rhyngasiantaethol i ddiogelu plant, a fydd wedi'i ddarparu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu'n bodloni'r safonau sydd wedi'u gosod gan y Bwrdd, ar gyfer yr holl staff a benodir sydd â chyfrifoldeb arweiniol dynodedig dros amddiffyn plant, ac yn sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael hefyd i ddiweddaru sgiliau a gwybodaeth uwch-aelodau staff dynodedig sy'n bodloni'r safonau sydd wedi'u gosod gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant;

- yn cadw cofnod o'r holl bersonau a ddynodwyd a llywodraethwyr a enwebwyd gan y corff llywodraethu i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant yn yr ysgolion yn eu hardal, o'r hyfforddiant a gafodd yr unigolion hynny ynghyd â'r dyddiadau pan gynhaliwyd yr hyfforddiant;

- yn darparu polisïau a gweithdrefnau enghreifftiol i ysgolion a gynhelir ar bob agwedd ar amddiffyn plant, gan gynnwys fetio staff a gwirfoddolwyr newydd, a gweithdrefnau i ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn staff a

gwirfoddolwyr. Rhaid i'r awdurdod sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru (yn benodol, y polisi enghreifftiol a'r canllawiau statudol yn y Canllawiau ar Weithredu Gweithdrefnau Effeithiol i Ddisgyblu a Diswyddo Staff, Cylchlythyr 002/2013) a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer pob agwedd briodol ar waith rhyngasiantaethol. Mae enghraifft amlinellol o bolisi amddiffyn plant yn Atodiad 2;

- yn darparu cyngor a chymorth i ysgolion a gynhelir, ac i uwch-aelodau staff a ddynodwyd yn y sefydliadau hynny ar ddelio ag achosion penodol. Os bydd angen, bydd yn gweithredu ar eu rhan i ddatrys unrhyw anawsterau ag asiantaethau sy'n bartneriaid iddo ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, neu i gael cymorth priodol ganddynt;

- yn rhoi trefniadau ar waith i helpu staff yn yr awdurdod ac mewn ysgolion a gynhelir sydd â chyfrifoldeb arweiniol dynodedig dros amddiffyn plant, ac i hyrwyddo a meithrin cyd-ddealltwriaeth a pherthynas waith dda rhyngddynt hwy, gweithwyr cymdeithasol plant, a staff mewn asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu plant, er mwyn datblygu gwaith effeithiol mewn partneriaeth.

**Cyfrifoldebau gweithredol**

2.12 Ar y lefel hon bydd yr awdurdod lleol:

- yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel ac yn sicrhau bod pob gwiriad priodol wedi'i wneud ar staff newydd a gwirfoddolwyr sydd heb oruchwyliaeth a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â'r canllawiau ym Mhennod 4;

- yn rhoi trefniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant nad yw lle wedi'i ddyrannu ar eu cyfer mewn ysgol, neu blant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu haddysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion, neu drwy'r gwasanaeth tiwtoriaid cartref. Fel y nodwyd uchod, mae diogelu lles plant sy'n cael eu haddysgu gartref gan rieni neu ofalwyr, neu sy'n cael eu cyflogi, yn gyfrifoldeb rhyngasiantaethol a ddylai gael ei gynnwys mewn gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunir arnynt yn lleol yn unol â'r egwyddorion yn Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ceisio meithrin perthynas effeithiol ag addysgwyr cartref a fydd yn fodd i ddiogelu buddion addysgol a lles plant a phobl ifanc. Drwy wneud hynny, bydd rhieni'n gallu cael gafael ar unrhyw gymorth sydd ar gael a bydd awdurdodau'n gallu deall y ddarpariaeth addysgol gan rieni. Mae mwy o wybodaeth am hyn ym Mhennod 6 o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 47/2006: Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion;

- sicrhau trefniadau ar waith i ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau staff yn yr awdurdod, ysgolion neu sefydliadau addysg bellach yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. I ysgolion mae Llywodraeth Cymru

wedi cyhoeddi canllawiau yn Cylchlythyr 002/2013 ‘Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol’ sy’n cynnwys polisi enghreifftiol;

- cydweithio ag ysgolion ac asiantaethau sy’n bartneriaid iddo ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant i sicrhau bod honiadau’n cael eu trafod yn gyflym, yn deg ac yn gyson;

- yn sicrhau bod staff yr awdurdod (gan gynnwys unrhyw staff sy’n cyflawni swyddogaethau ar ran yr awdurdod) sy’n gweithio gyda phlant yn cael hyfforddiant i’w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol.

**Swyddogion Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Amddiffyn Plant**

2.13 Rhaid i bob awdurdod lleol enwi uwch-swyddog a fydd â chyfrifoldeb arweiniol dros amddiffyn plant, a elwir yn Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Amddiffyn Plant. Gall cylch gwaith y swyddog dynodedig gynnwys cyfrifoldeb dros:

- **Atebolrwydd**
  - cynrychioli’r awdurdod lleol ar lefel leol a chenedlaethol;
  - hyfforddiant personol i’w alluogi i gyflawni’r rôl.

- **Cydgysylltu:**
  - strwythur staff i gyflawni cyfrifoldebau;
  - cyllid ar gyfer gweithgareddau’r awdurdod lleol.

- **Datblygu a chynllunio**
  - ymrwymiad corfforaethol i waith amlasiantaethol;
  - polisi’r awdurdod lleol, trosolwg ar weithgareddau’r awdurdod lleol;
  - datblygu gwaith yr awdurdod lleol: cynnwys amddiffyn plant ym mhob cynllun;
  - cynlluniau gwasanaethau plant a’u tebyg;
  - cyfrannu at waith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a’i is-grwpiau;
  - datblygu gweithdrefnau a chanllawiau ymarfer un asiantaeth.

- **Hyfforddi a hybu ymwybyddiaeth**
  - mewn un asiantaeth, yn amlasiantaethol ac yn rhyngasiantaethol;
  - canllawiau ysgrifenedig.

- **Datblygu perthnasoedd gwaith a phartneriaethau da:**
  - cymryd rhan mewn penderfyniadau ar y cyd drwy gynrychioli’r awdurdod yn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc leol drwy ei aelodaeth o’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu un o’i is-grwpiau;
  - cynnal perthnasoedd gwaith cefnogol ac effeithiol o fewn yr awdurdod lleol a rhwng asiantaethau sy’n bartneriaid iddo;
  - rhwydwaith o unigolion dynodedig mewn ysgolion sy’n gyfrifol am amddiffyn plant;

  - cysylltiadau â sefydliadau a chyrff addysgol y tu allan i'r awdurdod lleol gan gynnwys y sector annibynnol, sefydliadau addysg bellach, Gyrfa Cymru a sefydliadau hyfforddi;
  - cysylltiadau â grwpiau gwirfoddol.

- **Darparu cyngor, arweiniad a chymorth:**
  - gwaith achos, cymryd rhan mewn achosion llys, materion cyfreithiol;
  - deddfwriaeth newydd;
  - delio ag adroddiadau am ddisgyblion sy'n colli addysg;
  - honiadau yn erbyn staff;
  - yr amgylchiadau penodol mewn achosion o gam-drin e.e. enwaedu benywod, hunan-niweidio, priodas dan orfod, salwch wedi'i ffugio neu ei achosi gan eraill, trais domestig, cam-drin plant gan blant eraill, camfanteisio rhywiol, ac ymfudwyr ifanc.

- **Hyrwyddo amgylchedd diogel a chadarnhaol**
  - recriwtio a dewis staff;
  - cwricwlwm (ffurfiol ac anffurfiol);
  - cod ymddygiad i staff;
  - cyfrinachedd, cadw cofnodion, trosglwyddo cofnodion;
  - helpu'r disgybl sydd mewn perygl i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd addysgol;
  - materion sy'n codi mewn ysgolion preswyl.

- **Cydgysylltu â darparwyr gwasanaethau personél**
  - gweithdrefnau diogel i recriwtio a dewis staff, trefniadau fetio; gweithdrefnau disgyblu a honiadau o gam-drin yn erbyn staff.

- **Monitro**
  - cydymffurfiaeth o ran gweithdrefnau a pholisïau ym mhob ysgol;
  - unigolion a ddynodwyd mewn ysgolion a'u cofnodion hyfforddi;
  - y llywodraethwr a ddynodwyd mewn ysgolion a'i gofnod hyfforddi;
  - cyfrannu at waith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a grwpiau sicrhau ansawdd;
  - atgyfeiriadau i'r adran gwasanaethau cymdeithasol (niferoedd, ansawdd ac ymateb);
  - lefel y gweithgarwch amddiffyn plant mewn ysgol a'r cysylltiadau rhwng hynny a'r hyfforddiant a gafwyd;
  - bod yn bresennol mewn cynadleddau achos;
  - plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant;
  - cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gweithdrefnau neu safonau'r Bwrdd Lleol Amddiffyn Plant;
  - gweithredu argymhellion gan Adolygiadau Ymarfer Plant (Adolygiadau Achos Difrifol cyn hynny) neu grwpiau tebyg;
  - y defnydd o ataliaeth.

- **Materion allweddol a all fod yn berthnasol i amddiffyn plant:**
  - iechyd a diogelwch, ataliaeth, bwlio;

- o tripiau ysgol, cludiant disgyblion, ymweliadau preswyl, ymweliadau cyfnewid ysgolion;
- o cyflogi plant, profiad gwaith;
- o tynnu lluniau o blant a'u defnyddio;
- o disgyblion sydd heb le mewn ysgol;
- o cawodydd a threfniadau newid;
- o rhieni a chynorthwywyr gwirfoddol eraill;
- o cymorth cyntaf a rhoi meddyginiaeth;
- o trefniadau ysgolion bro a chlybiau ar ôl yr ysgol;
- o defnyddio'r Rhyngrwyd;
- o plant â rhieni/gofalwyr sydd â salwch meddwl neu anabledd;
- o plant â rhieni/gofalwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol;
- o plant mewn ysgolion preswyl y tu allan i ardal yr awdurdod lleol.

## Pob ysgol a sefydliad addysg bellach

### Cyrff llywodraethu/perchenogion

2.14 Mae'n ofynnol bod cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, cyrff llywodraethu (Corfforaethau) sefydliadau addysg bellach, a pherchenogion ysgolion annibynnol yn sicrhau bod eu priod sefydliadau:

- wedi mabwysiadu polisi a gweithdrefnau effeithiol ar amddiffyn plant sydd:
    a. yn gyson â chanllawiau'r awdurdod lleol a gweithdrefnau rhwng asiantaethau a gytunwyd yn lleol;
    b. yn cynnwys gwasanaethau a geir ar ôl y diwrnod ysgol (e.e. llety preswyl os yw wedi'i ddarparu, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol, etc)
    c. yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn o leiaf;
    d. ar gael i rieni neu ofalwyr ar eu cais;
    e. wedi'u darparu mewn fformat sy'n addas i oedran a dealltwriaeth plant, yn enwedig os yw'r ysgol yn darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol;

- wedi mabwysiadu gweithdrefnau cyfredol y cytunwyd arnynt i ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n unol â deddfwriaeth berthnasol, canllawiau statudol a pholisi enghreifftiol statudol Llywodraeth Cymru a gweithdrefnau rhwng asiantaethau a gytunwyd yn lleol;

- yn gweithredu gweithdrefnau diogel ar gyfer recriwtio sy'n ystyriol o'r angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod yr holl wiriadau priodol wedi'u cwblhau ar staff newydd a gwirfoddolwyr sydd heb oruchwyliaeth a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â'r canllawiau ym Mhennod 4;

- sicrhau bod y pennaeth/prifathro a'r holl aelodau staff parhaol eraill a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn cael hyfforddiant priodol er

mwyn rhoi iddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol, a'u bod yn dilyn hyfforddiant i ddiweddaru eu gwybodaeth a sgiliau.

- bod staff a gwirfoddolwyr sy'n llenwi swydd dros dro yn ystod absenoldeb byr ac a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael arweiniad clir ynghylch trefniadau'r sefydliad ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau;

- sicrhau bod y corff llywodraethu/perchennog yn cymryd camau ar unwaith i gywiro unrhyw ddiffygion neu wendidau mewn trefniadau amddiffyn plant sy'n cael eu dwyn i'w sylw;

- dynodi llywodraethwr a fydd

  a. yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant;
  b. sicrhau bod y corff llywodraethu yn adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol bob blwyddyn;,
  c. yn "llywodraethwr cyswllt" i gadw mewn cysylltiad â'r awdurdodau statudol mewn perthynas ag achosion disgyblu yn erbyn staff yng nghyswllt amddiffyn plant yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn Cylchlythyr 002/2013: Canllawiau ar Weithredu Gweithdrefnau Effeithiol i Ddisgyblu a Diswyddo Staff; a

- sicrhau bod y corff llywodraethu/perchennog yn cynnal adolygiad blynyddol o'i bolisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac o'r ffordd y mae'r dyletswyddau uchod wedi'u cyflawni.

**Penaethiaid**

2.15 Mae'n ofynnol bod penaethiaid a phrifathrawon ym mhob ysgol a sefydliad addysg bellach yn sicrhau:

- bod polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu neu'r perchennog yn cael eu gweithredu'n llawn, a'u dilyn gan yr holl staff;

- bod digon o adnoddau ac amser wedi'u neilltuo i alluogi'r person a ddynodwyd a staff eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau ar strategaeth a chyfarfodydd eraill rhwng asiantaethau, a chyfrannu at asesu plant;

- bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn deall y gweithdrefnau ar gyfer mynegi pryderon am arferion gwael neu anniogel yng nghyswllt plant, a'u bod yn teimlo y gallant ddefnyddio'r gweithdrefnau hynny, a bod pryderon o'r fath yn cael eu trafod mewn ffordd sensitif, effeithiol ac amserol yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol.

**Yr Uwch-swyddog Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant**

2.16 Bydd pob ysgol neu sefydliad addysg bellach yn penodi Uwch-swyddog Dynodedig a fydd â chyfrifoldeb arweiniol dros ddelio â materion ac achosion amddiffyn plant. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth i aelodau staff eraill, atgyfeirio achosion i'r awdurdod lleol, Byrddau Lleol Diogelu Plant a chydgysylltu ag ef a chydweithio ag asiantaethau eraill lle bo angen. Rhaid i'r Uwch-swyddog Dynodedig roi gwybod i'r pennaeth am bob mater sy'n codi yng nghyswllt amddiffyn plant yn y sefydliad.

2.17 Bydd yr Uwch-swyddog Dynodedig yn uwch-aelod o dîm arwain yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gyda'r statws a'r awdurdod o fewn y sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd, gan gynnwys ymrwymo adnoddau i faterion amddiffyn plant, a lle bo'n briodol, cyfarwyddo staff eraill. Efallai mai cyfrifoldeb y swyddog lles addysg neu drefniadau cefnogi myfyrwyr eraill yw delio ag achosion unigol, ond mae'n bwysig bod uwch aelod o staff yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y gwaith hwn.

2.18 Mewn nifer o sefydliadau, bydd un person dynodedig yn ddigon, ond dylid dynodi dirprwy yn absenoldeb y person dynodedig. Mewn sefydliadau sydd ar fwy nag un safle neu sydd â strwythurau rheoli ar wahân, dylid cael un person dynodedig ar gyfer pob rhan neu safle. Mewn sefydliadau mawr, neu rai gyda nifer fawr o bryderon amddiffyn plant, efallai y bydd angen dynodi nifer o ddirprwyon i ysgwyddo'r llwyth gwaith.

2.19 Rhaid i'r sefydliad wneud trefniadau hefyd ar gyfer cyflawni rôl yr Uwch-swyddog Dynodedig pan na fydd y person hwnnw ar gael. Mewn llawer achos, bydd Dirprwy Uwch-swyddog Dynodedig wedi'i benodi ac yn yr ysgolion mwyaf gellir cyflawni hyn drwy gydweithio gan dîm o staff.

2.20 Nid oes rhaid i'r Uwch-swyddog Dynodedig fod yn arbenigwr ym maes amddiffyn plant ond bydd yn gyfrifol am arferion, polisi, gweithdrefnau a datblygiad proffesiynol y sefydliad ar amddiffyn plant.

2.21 Rhaid i'r pennaeth sicrhau bod yr Uwch-swyddog Dynodedig yn cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r rôl, a rhaid diffinio'r rôl yn glir yn swydd-ddisgrifiad yr un sy'n dal y swydd. Bydd hyn yn cynnwys amser ar gyfer cymryd rhan mewn cynadleddau achos a chyfarfodydd eraill rhwng asiantaethau yn ôl yr angen, yn ogystal ag amser ar gyfer darparu adroddiadau a chyngor ar eu cyfer.

## Hyfforddiant

2.22 Mae'n bwysig bod yr Uwch-swyddog Dynodedig yn gwybod sut i adnabod a phennu arwyddion o gam-drin ac yn gwybod pa bryd y mae'n briodol iddo atgyfeirio achos i'r asiantaethau perthnasol a fydd yn ymchwilio iddo.

2.23 Mae cyrff llywodraethu / perchnogion yn gyfrifol am sicrhau bod yr Uwch Berson Dynodedig yn derbyn hyfforddiant ar sut i weithio'n rhyng-

asiantaethol, sy'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu i safonau'r Bwrdd, a hyfforddiant gloywi i ddiweddaru ei sgiliau a'i wybodaeth yn gyson, yn ogystal â'r hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol.

2.24 Bydd gan yr Uwch-swyddog Dynodedig wybodaeth elfennol am waith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, am y dull o gynnal cynhadledd ar achos amddiffyn plant, a bydd yn gallu cymryd rhan ynddynt yn effeithiol pan fo angen. Un o rolau pwysicaf yr Uwch-swyddog Dynodedig yw sicrhau bod barn a phryderon yr ysgol neu sefydliad addysg bellach yn cael eu cyfleu a'u hystyried.

2.25 Mae'n bwysig bod yr Uwch-swyddog Dynodedig yn gallu cael gafael ar adnoddau a chymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant diweddaru neu hyfforddiant perthnasol arall ar adegau priodol.

2.26 Rôl yr Uwch-swyddog Dynodedig yw sicrhau, drwy gydweithio â'r pennaeth, fod yr holl staff a gwirfoddolwyr:

- yn gallu gweld a deall polisi'r ysgol ar amddiffyn plant, yn enwedig staff newydd neu ran-amser sy'n gweithio gyda gwahanol sefydliadau addysgol;
- yn cael hyfforddiant cynefino a hyfforddiant diweddaru ar amddiffyn plant ac yn deall materion sy'n ymwneud â diogelu plant gan gynnwys achosion cam-drin ac esgeuluso;
- yn gallu adnabod arwyddion a dangosyddion cam-drin;
- yn gwybod sut i ymateb yn effeithiol os byddant yn pryderu;
- yn gwybod sut i ymateb yn briodol i ddatgeliadau gan blant;
- yn gwybod eu bod yn gyfrifol am roi gwybod am unrhyw bryderon yn syth pan fyddant yn codi.

2.27 Rhaid cadw cofnodion o ddyddiadau'r hyfforddiant, manylion y darparwr a chofnod o'r staff a oedd yn bresennol yn yr hyfforddiant.

2.28 Arfer da yw gwahodd yr holl lywodraethwyr i hyfforddiant ar amddiffyn/diogelu plant (nid y llywodraethwr sydd wedi'i enwebu ar gyfer amddiffyn plant yn unig) er mwyn datblygu ymwybyddiaeth sylfaenol o faterion amddiffyn plant. Mae cyrff llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ar amddiffyn plant yn bodloni'r gofynion statudol. Mae cyfrifoldeb gan yr holl lywodraethwyr dros sicrhau bod mesurau'r ysgol ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion statudol, ac mae'n bwysig bod pob un ohonynt yn gwybod beth i'w wneud os yw'n pryderu ynghylch plentyn.

## Atgyfeirio

2.29 Bydd yr Uwch-swyddog Dynodedig yn bwynt cyswllt ac yn ffynhonnell cymorth, cyngor ac arbenigedd yn y sefydliad addysgol wrth benderfynu ynghylch gwneud atgyfeiriad drwy gydgysylltu ag asiantaethau perthnasol.

2.30 Rhaid i'r Uwch-swyddog Dynodedig wybod pwy yw Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol a sut i gysylltu ag ef, a deall rôl y swyddog hwnnw er mwyn cydweithio ag ef yn effeithiol.

2.31 Mae'r Uwch-swyddog Dynodedig yn gyfrifol am atgyfeirio honiadau lle y mae amheuaeth o gam-drin i'r asiantaethau perthnasol er mwyn ymchwilio iddynt. Os yw'r achosion hyn yn cynnwys amheuon o gam-drin neu honiadau o gam-drin yn erbyn staff, rhaid i staff weithredu'n unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 002/2013: Canllawiau ar Weithredu Gweithdrefnau Effeithiol i Ddisgyblu a Diswyddo Staff gan nid yw ymchwilio i honiadau yn erbyn staff yn rhan o rôl yr Uwch-swyddog Dynodedig.

2.32 Os gwneir honiad yn erbyn aelod staff i'r Uwch-swyddog Dynodedig, rhaid i'r Uwch-swyddog Dynodedig atgyfeirio hyn i'r pennaeth. Os bydd honiad yn erbyn aelod staff yn cael ei gyflwyno i'r pennaeth, dylid hysbysu Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol a'r Uwch-swyddog Dynodedig. Os cyflwynir honiad yn erbyn y pennaeth i'r Uwch-swyddog Dynodedig neu i gadeirydd y llywodraethwyr, dylid ei atgyfeirio'n uniongyrchol i Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol. Rhaid rhoi gwybod yn syth i gadeirydd y llywodraethwyr ac adran adnoddau dynol yr awdurdod lleol am honiadau yn erbyn staff ysgol.

2.33 Bydd yr Uwch-swyddog Dynodedig yn cydgysylltu â'r pennaeth neu'r prifathro (os nad yw'r rôl yn cael ei chyflawni gan y pennaeth) i sicrhau bod rhywun ar gael bob amser i ddirprwyo drosto yn y rôl hon ac i roi gwybod iddo am unrhyw faterion eraill. Ar bob cam yn y broses atgyfeirio, rhaid i'r Uwch-swyddog Dynodedig roi gwybod i'r pennaeth am ddatblygiadau yn yr ymchwiliadau sy'n mynd ymlaen, am faterion cyfredol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ac am les disgyblion sy'n destun cynllun amddiffyn plentyn.

### Cadw cofnodion

2.34 Cyfrifoldeb yr Uwch-swyddog Dynodedig yw cadw cofnodion ysgrifenedig diogel, manwl a chywir am blant sy'n destun pryderon ynghylch eu diogelu. Bydd y cofnodion hyn yn gyfrinachol a rhaid eu cadw ar wahân i gofnodion disgyblion. Byddant yn cynnwys cronoleg o bryderon, atgyfeiriadau, cyfarfodydd, galwadau ffôn a negeseuon e-bost. Mae cyrff llywodraethu ysgolion hefyd yn gyfrifol am gadw cofnodion o unrhyw gamau disgyblu yn erbyn aelod o staff. Bydd yr Uwch-swyddog Dynodedig yn cadw cofnodion amddiffyn plant ar gyfer plant sy'n destun Cynllun Amddiffyn Plentyn.

2.35 Os bydd plant yn gadael y sefydliad, rhaid i'r Uwch-swyddog Dynodedig sicrhau bod copi o'u ffeil amddiffyn plant yn cael ei anfon i'r sefydliad newydd cyn gynted â phosibl a'i fod yn cael ei drosglwyddo ar wahân i brif ffeil y disgybl.

### Hybu ymwybyddiaeth

2.36 Mae'r Uwch-swyddog Dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gweld copi o'r polisi amddiffyn plant a fydd yn tynnu eu sylw at y ffaith y gellir gwneud atgyfeiriadau ac at rôl y sefydliad wrth wneud atgyfeiriadau er mwyn osgoi gwrthdaro yn y dyfodol. Bydd llawer o ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am hyn mewn cyfarfodydd cynefino i rieni newydd, yn eu prosbectws ac ar eu gwefan.

2.37 Mae'n arfer da i'r Uwch-swyddog Dynodedig ddarparu adroddiad briffio blynyddol a diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff i roi gwybod am unrhyw faterion newydd sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, am newidiadau mewn gweithdrefnau lleol ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff a'u hatgoffa'n gyson am eu cyfrifoldebau ac am bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae nifer o ysgolion wedi gweld bod mantais mewn trafod diogelu plant yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn cynnal lefel uchel o ymwybyddiaeth.

2.38 Mae'n bwysig bod yr Uwch-swyddog Dynodedig yn cydgysylltu â'r llywodraethwr a enwebwyd ar gyfer diogelu plant fel y bydd y llywodraethwr a enwebwyd yn gallu adrodd i'r corff llywodraethu am faterion sy'n ymwneud â diogelu plant. Ni ddylid trafod achosion amddiffyn plant penodol mewn adroddiadau i'r corff llywodraethu, ond yn hytrach adolygu'r polisïau a gweithdrefnau ar ddiogelu plant. Mae'n arfer da i'r llywodraethwr a enwebwyd a'r Uwch-swyddog Dynodedig gyflwyno'r adroddiad gyda'i gilydd.

### Adolygu polisi

2.39 Rhaid i'r Uwch-swyddog Dynodedig sicrhau bod polisi'r sefydliad ar amddiffyn plant yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu bob blwyddyn, a chydweithio â'r corff llywodraethu neu'r perchennog i gyflawni hyn.

2.40 Yn ogystal â pholisi'r ysgol ar amddiffyn plant, mae polisïau eraill sy'n berthnasol o ran diogelu plant, a gall yr Uwch-swyddog Dynodedig gyfrannu at fonitro effeithiolrwydd y polisïau eraill hyn i sicrhau bod yr ysgol yn diogelu ei disgyblion. Ymysg y polisïau eraill sy'n berthnasol y mae rhai ar gyfer:

- Presenoldeb
- Gwrth-fwlio
- E-ddiogelwch
- Ymddygiad
- Gofal personol
- Ymyrraeth gorfforol
- Cod ymddygiad y staff
- Recriwtio a dewis staff
- Cyfrinachedd

2.41 Mae'r NSPCC wedi darparu amrywiaeth o adnoddau a chanllawiau i helpu'r Uwch-swyddog Dynodedig.

### Hyfforddiant amddiffyn plant/hyfforddiant rhyngasiantaethol

2.42 Mae'n bwysig bod pob aelod staff sy'n gweithio gyda phlant yn cael hyfforddiant sylfaenol ar amddiffyn plant a fydd yn ei alluogi i adnabod ac ymateb i bryderon ynghylch lles plant. Bydd manylder yr hyfforddiant sydd ei angen ar wahanol grwpiau'n amrywio yn ôl natur eu rôl a'r graddau y maent yn ymwneud â phlant.

2.43 Dylai athrawon gael hyfforddiant ynghylch amddiffyn plant yn ystod eu hyfforddiant ar gyfer Statws Athro Cymwysedig, ond mae'n bosibl y bydd angen hyfforddiant pellach, neu hyfforddiant diweddaru, i ategu hyn ar ôl eu penodi'n gyntaf. Mae'n bwysig bod aelodau staff eraill a llywodraethwyr yn cael hyfforddiant ar ôl eu penodi'n gyntaf. Ar gyfer yr holl staff sydd heb gyfrifoldeb dynodedig dros amddiffyn plant, gan gynnwys athrawon, dylid cynnal hyfforddiant diweddaru addas bob tair blynedd ar ôl hynny i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau.

2.44 Mae asiantaethau penodol yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn gymwys ac yn hyderus wrth gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn gallu cynnig cyngor ar y lefelau hyfforddiant sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau a gytunwyd yn lleol.

2.45 Mae mwy o wybodaeth am Hyfforddiant a Datblygiad Rhyngasiantaethol ym Mhennod 11 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 20044.

2.46 Mae'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn cynnwys darpariaeth benodol i alluogi'r holl staff mewn ysgolion ac awdurdodau lleol i gael hyfforddiant amlasiantaethol ar weithdrefnau amddiffyn plant i'w gwneud yn fwy effro i arwyddion o gam-drin ac esgeuluso ac yn fwy gwybodus am y ffordd o roi gwybod am bryderon neu amheuon, a chydgysylltu â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, yng nghyd-destun mesurau diogelu plant mewn ysgolion. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys mentrau sy'n arwain at ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a systemau effeithiol i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

2.47 Pwrpas hyfforddiant amlasiantaethol yw helpu i ddatblygu a meithrin y canlynol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc:

- cyd-ddealltwriaeth o'r tasgau, y prosesau, yr egwyddorion, a'r rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u disgrifio mewn canllawiau cenedlaethol a threfniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles;

- gwasanaethau mwy effeithiol ac integredig ar y lefel strategol a lefel yr achos unigol;

- gwell cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol gan gynnwys cyd-ddealltwriaeth o dermau allweddol, diffiniadau a throthwyon ar gyfer gweithredu;

- perthnasoedd gwaith effeithiol, gan gynnwys y gallu i weithio mewn grwpiau neu dimau amlasiantaethol;

- penderfyniadau da wedi'u seilio ar wybodaeth a rannwyd, asesu trwyadl, dadansoddi beirniadol, a barn broffesiynol.

2.48 Bydd yr holl staff, boed yn rhai parhaol neu dros dro, a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio gyda phlant, yn cael datganiad ysgrifenedig yn ystod eu

hyfforddiant cynefino sy'n disgrifio polisi a gweithdrefnau'r ysgol, ac yn rhoi enw a manylion cyswllt y swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant pan fyddant yn dechrau gweithio mewn sefydliad newydd.

2.49 Pan fydd staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol dynodedig dros amddiffyn plant yn ymgymryd â'r rôl honno, rhaid iddynt gael hyfforddiant ar weithdrefnau rhyngasiantaethol a fydd yn eu galluogi i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, ac yn rhoi iddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau. Dylent ddilyn hyfforddiant ar ôl hynny hefyd i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau.

2.50 Rhaid i staff eraill gael hyfforddiant pan fyddant yn cael eu penodi'n gyntaf, a dilyn hyfforddiant addas wedyn i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau.

2.51 Cyn hir bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gofynion diwygiedig ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n cynnwys darpariaethau newydd ac yn diweddaru rhai o'r gofynion presennol er mwyn ymateb i ddatblygiadau diweddar mewn polisi. Mae'r gofynion yn pennu bod rhaid i bob darparwr sicrhau bod hyfforddeion yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar amddiffyn plant a diogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd yn ofynnol hefyd fod pob cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon yn hybu ymwybyddiaeth o ffyrdd posibl o weithredu gan gamdrinwyr yn sgîl canfyddiadau adroddiad Clywch a'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi.

2.52 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariad cyn hir o Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau. Bydd y llawlyfr yn trafod y mater hwn ac yn darparu gwybodaeth i ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar y canllawiau diweddaraf ynghylch diogelu plant mewn addysg.

**Goruchwyliaeth a chymorth**

2.53 Mae gweithio ym maes amddiffyn plant yn golygu gwneud penderfyniadau proffesiynol anodd a mentrus. Mae'n waith ymestynnol a all beri gofid a straen. Bydd yn bwysig bod cyngor a chymorth ar gael i bawb sy'n gysylltiedig oddi wrth gydweithwyr, rheolwyr, gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u henwebu a'u dynodi, etc.

2.54 Mae goruchwyliaeth effeithiol yn bwysig i lawer o ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd o ddydd i ddydd er mwyn hyrwyddo safonau ymarfer da a chynorthwyo aelodau staff unigol. Bydd goruchwyliaeth yn gymorth i sicrhau bod ymarfer yn effeithiol ac yn gyson â gweithdrefnau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'r sefydliad. Bydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n drwyadl, yn ogystal â chwmpas eu disgresiwn ac awdurdod proffesiynol. Bydd o gymorth hefyd i adnabod anghenion ymarferwyr o ran hyfforddiant a datblygiad, er mwyn sicrhau bod pob un yn meddu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth effeithiol.

2.55 Bydd yn bwysig bod goruchwyliaeth yn cynnwys craffu a gwerthuso ar y gwaith a gyflawnir, asesu cryfderau a gwendidau'r ymarferydd a datblygu

drwy hyfforddi a chymorth bugeiliol. Rhaid i oruchwylwyr fod ar gael i ymarferwyr i gynnig cyngor ac arbenigedd ar faterion pwysig ac mae'n bosibl y bydd gofyn iddynt gadarnhau penderfyniadau ar rai pwyntiau allweddol mewn prosesau amddiffyn plant. Dylai goruchwylwyr gofnodi penderfyniadau allweddol mewn cofnodion achos hefyd.

2.56 Er mwyn sicrhau bod trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant yn effeithiol, byddant yn cynnwys systemau, safonau a phrotocolau a gytunwyd ar gyfer rhannu gwybodaeth am y plentyn a'i deulu o fewn pob sefydliad a rhwng sefydliadau. Rhaid i'r protocolau lleol hyn fod yn gyson â'r canllawiau hyn.

2.57 Mae'n bwysig bod pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant yn eu gwaith yn deall pwrpas rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae angen iddynt fod yn sicr ynghylch beth y gallant a beth y mae'n rhaid iddynt ei wneud o dan y gyfraith, gan gynnwys sut i gael cydsyniad i rannu gwybodaeth, a pha bryd y ceir rhannu gwybodaeth heb gael cydsyniad a pha bryd y byddai ceisio cael cydsyniad yn rhoi'r plentyn mewn perygl o gael mwy o niwed.

2.58 Mae ymchwil a phrofiad wedi dangos dro ar ôl tro fod y gallu i gadw plant yn ddiogel rhag niwed yn galw am rannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol ac eraill: am iechyd a datblygiad y plentyn a'r posibilrwydd ei fod yn agored i niwed, am riant nad yw'n gallu gofalu am blentyn yn ddigonol ac yn ddiogel, neu a all fod ag angen cymorth i wneud hynny; ac am y rheini a all achosi perygl o niwed i'r plentyn. Yn aml, dim ond ar ôl rhannu gwybodaeth o nifer o ffynonellau a'i chasglu a'i gwerthuso y bydd yn glir bod plentyn mewn perygl o gael niwed neu'n cael niwed, neu fod rhywun a all achosi perygl o niwed i blant.

2.59 Bydd y rheini sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant yn ei gweld yn bwysig cydbwyso eu dyletswyddau i ddiogelu plant rhag niwed a'u dyletswydd gyffredinol at eu claf neu ddefnyddiwr gwasanaethau. Bydd rhai gweithwyr proffesiynol a staff yn wynebu'r posibilrwydd ychwanegol o gynorthwyo neu ofalu am fwy nag un o aelodau'r teulu, e.e. y plentyn sy'n cael ei gam-drin, brodyr neu chwiorydd, camdriniwr honedig. Fodd bynnag, os oes pryderon bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, neu y gallai fod, anghenion y plentyn hwnnw fydd yr ystyriaeth gyntaf. Mewn amgylchiadau o'r fath, y prif amcan fydd diogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Hefyd, mae angen i bob sefydliad ddal gwybodaeth yn ddiogel.

2.60 Er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant, rhaid i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant sicrhau bod yr asiantaethau sy'n bartneriaid iddo wedi mabwysiadu trefniadau o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 fel bod:

- pob aelod staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn deall beth i'w wneud a beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o rannu gwybodaeth os yw'n credu y gall plentyn neu deulu fod ag angen gwasanaethau ychwanegol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl iddynt;

- pob aelod staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn deall beth i'w wneud a pha bryd i rannu gwybodaeth os yw'n credu y gall plentyn fod yn blentyn mewn angen, gan gynnwys y plant hynny sy'n dioddef niwed neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed;

- canllawiau priodol ar gyfer sefydliadau penodol yn cael eu llunio i ategu canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a bod canllawiau o'r fath a hyfforddiant priodol ar gael i'r staff presennol ac i staff newydd yn eu hyfforddiant cynefino;

- canllawiau a hyfforddiant yn rhoi sylw penodol i brosesau i rannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, sefydliadau ac asiantaethau, ac oddi mewn iddynt, a bod trefniadau ar gyfer hyfforddi'n adlewyrchu'r gwerth o gael hyfforddiant amlasiantaethol yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer un asiantaeth;

- rheolwyr mewn gwasanaethau plant yn gwbl gyfarwydd â'r fframwaith cyfreithiol a'r canllawiau arfer da a gyhoeddwyd ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant.

## Cyfrifoldebau penodol

2.61 Yn ogystal â'r cyfrifoldebau sydd gan bob ysgol a sefydliad addysg bellach a nodwyd uchod, mae'r adran hon yn disgrifio rhai o'r materion a chyfrifoldebau penodol sy'n berthnasol i fathau neilltuol o leoliadau addysg.

### Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

2.62 Mae cyrff llywodraethu yn atebol am sicrhau bod eu sefydliad wedi mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn unol â'r canllawiau hyn, ac am fonitro ei gydymffurfiaeth â'r rhain.

2.63 Er bod cyrff llywodraethu yn chwarae rhan drwy arfer eu swyddogaethau disgyblu yng nghyswllt honiadau amddiffyn plant yn erbyn aelod staff, ni fyddant yn chwarae rhan yn yr ystyriaeth i achosion penodol gan yr awdurdod statudol mewn cyfarfod strategaeth. Mae'n fwy priodol i staff ysgol ddelio â'r achosion hyn ar lefel weithredol drwy ddull amlasiantaethol yn unol â threfniadau lleol a Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

2.64 Mae rhai cyrff llywodraethu wedi gweld ei bod yn fuddiol penodi un aelod o'r corff llywodraethu yn 'llywodraethwr cyswllt' i hyrwyddo materion amddiffyn plant o fewn yr ysgol, i gydgysylltu â'r pennaeth a'r Uwch-swyddog Dynodedig, ac i ddarparu gwybodaeth ac adroddiadau i'r corff llywodraethu (ar y cyd â'r Uwch-swyddog Dynodedig) ar faterion sydd heb gysylltiad â honiadau yn erbyn staff. Byddai'n briodol hefyd fod y corff llywodraethu yn penodi'r pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr i gyflawni'r rôl hon. Mae'n bosibl y bydd cyrff llywodraethu am ystyried cyfleoedd i ehangu cwmpas y rôl hon i gynnwys cyfrifoldebau dros arfer swyddogaethau'r corff llywodraethu sydd wedi'u cynnwys yn ei gyfrifoldebau o dan adran 175.

2.65 Pa un a fydd y corff llywodraethu'n gweithredu ar y cyd neu a fydd un aelod yn arwain, er mwyn i bolisi'r corff llywodraethu fod yn effeithiol ac er mwyn i'r llywodraethwyr cyswllt fod yn hyderus yn eu rôl, bydd o gymorth os bydd holl aelodau'r cyrff llywodraethu yn dilyn hyfforddiant perthnasol ar amddiffyn plant er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau a deall eu cyfrifoldebau cyffredinol ar gyfer diogelu plant.

**Ysgolion annibynnol**

2.66 Gweinidogion Cymru yw cofrestrydd yr ysgolion annibynnol yng Nghymru. Os yw sefydliad yn dymuno gweithredu fel ysgol annibynnol, rhaid iddo wneud cais am ei gofrestru i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 160 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'n drosedd o dan adran 159 i unrhyw berson redeg ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru.

2.67 Mae Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn pennu'r safonau ar gyfer arolygu ysgol annibynnol o dan adrannau 160(4) a 163(2) o Ddeddf Addysg 2002. Mae Safon 3 yn ymwneud yn benodol â diogelu a hyrwyddo lles, iechyd a diogelwch plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol. Defnyddir y safonau hyn i asesu a yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth gyfreithiol sydd arni i ddiogelu a hyrwyddo lles, iechyd a diogelwch plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol. Os bydd Gweinidogion Cymru yn cael cais am gofrestru, byddant yn hysbysu Estyn a fydd wedyn yn cynnal arolygiad o'r ysgol ac yn adrodd i Weinidogion Cymru ar y graddau y mae'r Safonau Ysgol Annibynnol wedi'u bodloni. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried adroddiad Estyn ac unrhyw dystiolaeth arall sy'n berthnasol i'r safonau ysgol annibynnol, yn penderfynu a yw'r safonau wedi'u bodloni ac yn hysbysu'r perchennog am ei benderfyniad.

2.68 Mae gan berchenogion ysgolion annibynnol gyfrifoldebau sy'n debyg i'r rheini sydd gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ond ni allant ddibynnu ar awdurdodau lleol am ddarparu cyngor, cymorth, etc yn yr un modd ag ysgolion a gynhelir. Mae awdurdodau'n rhydd i ddarparu'r gwasanaethau hynny i ysgolion annibynnol, ac mae nifer yn gwneud hynny, gan godi ffioedd priodol am y gwaith, ond nid ydynt yn gorfod gwneud hynny. Yn yr un modd â sefydliadau addysg bellach, os na fydd ysgolion annibynnol yn prynu gwasanaethau gan awdurdod lleol, gallant gysylltu â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant i gael cyngor.

2.69 Bydd adrannau gwasanaethau cymdeithasol a Byrddau Lleol Diogelu Plant yn cynnig yr un lefel o gymorth a chyngor ar faterion amddiffyn plant i ysgolion annibynnol ag y maent i ysgolion a gynhelir. Mae'n neilltuol o bwysig bod y sianelau cyfathrebu hyn yn cael eu cynnal a'u datblygu er mwyn sicrhau bod plant sydd ag angen cymorth yn cael sylw'n ddi-oed a bod modd ymchwilio'n briodol i honiadau o gam-drin. Dylai'r perchennog gydgysylltu ag asiantaethau eraill mewn achosion lle y ceir honiadau sy'n ymwneud â'r pennaeth lle nad yw'r perchennog yn bennaeth hefyd. Os yw'r pennaeth yn

berchennog hefyd, rhaid cytuno ar drefniadau penodol â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

2.70 Os yw ysgol annibynnol yn darparu gofal meddygol a/neu nyrsio, rhaid iddi sicrhau bod ei staff meddygol a nyrsio yn cael cyngor priodol a hyfforddiant amlasiantaethol ar amddiffyn plant.

**Ysgolion annibynnol sy'n cynnig darpariaeth breswyl**

2.71 Bydd perchenogion ysgolion annibynnol sy'n darparu llety i blant yn ymwybodol o'r gofyniad am gofrestru sefydliadau o'r fath gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Bydd ysgolion annibynnol o'r fath yn cael eu harolygu wedyn gan Estyn ac AGGCC. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl y Brif Ffrwd sydd i'w bodloni wrth gofrestru'r ysgol annibynnol yn gyntaf ac i barhau â'r cofrestriad.

2.72 Mae Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn pennu safonau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant y darparwyd llety ar eu cyfer gan ysgol breswyl. Defnyddir y safonau hyn i asesu a yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth gyfreithiol sydd arni i ddiogelu a hyrwyddo lles y plant y darparwyd llety ar eu cyfer. Mae Safon 5 yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl a Safon 3 yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl y Brif Ffrwd yn ymwneud yn benodol ag amddiffyn plant a honiadau o gam-drin ac maent yn nodi'r gofynion ar gyfer bodloni'r safonau hyn.

**Sefydliadau addysg bellach**

2.73 Mae'r cyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn gymwys i fyfyrwyr sy'n iau na 18 mlwydd oed yn unig. Gan eu bod yn gyrff ymreolus, ni all sefydliadau addysg bellach ddibynnu'n awtomatig ar awdurdodau lleol am ddarparu cyngor, cymorth, mynediad at hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau, etc. Mae awdurdodau lleol yn rhydd i ddarparu'r gwasanaethau hynny i sefydliadau addysg bellach, ond nid ydynt yn gorfod gwneud hynny. Gellir darparu gwasanaethau heb godi tâl. Os na fydd sefydliadau'n prynu gwasanaethau gan awdurdod lleol, gallant gysylltu â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant i gael cyngor.

2.74 Os bydd sefydliad yn darparu addysg a/neu hyfforddiant i ddisgyblion sydd o dan 16 mlwydd oed sydd ar gofrestr ysgolion uwchradd, bydd y swyddog dynodedig yn cydgysylltu â'r ysgolion hynny ac yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i ddiogelu'r plant. Bydd hyn yn cynnwys materion fel cofrestru disgyblion a threfniadau ar gyfer presenoldeb drwy gydol y dydd.

**Ysgolion bro, gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a dysgu y tu allan i oriau ysgol**

2.75 Corff llywodraethu'r ysgol sy'n rheoli'r defnydd o safle'r ysgol yn ystod a'r tu allan i oriau ysgol, ac eithrio lle y mae gweithred ymddiriedolaeth yn caniatáu i berson heblaw'r corff llywodraethu reoli'r defnydd o'r safle, neu lle y mae cytundeb trosglwyddo rheolaeth wedi'i wneud. Gall cyrff llywodraethu wneud cytundebau trosglwyddo rheolaeth er mwyn rhannu'r rheolaeth dros safle'r ysgol â chorff arall, neu drosglwyddo'r rheolaeth iddo. Y corff arall, a elwir yn "gorff rheoli", fydd yn rheoli meddiant y safle a'r defnydd ohono yn ystod yr oriau sydd wedi'u pennu yn y cytundeb. Drwy drosglwyddo rheolaeth dros y safle i grwpiau cymunedol lleol, cymdeithasau chwaraeon a darparwyr gwasanaethau, gellir defnyddio cyfleusterau'r ysgol heb fod angen i staff yr ysgol dreulio amser ar eu rheoli neu weinyddu.

2.76 Lle y mae'r corff llywodraethu'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau'n uniongyrchol o dan oruchwyliaeth neu reolaeth staff yr ysgol, bydd trefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant yn gymwys. Os bydd gwasanaethau neu weithgareddau'n cael eu darparu ar wahân gan gorff arall, rhaid i'r corff llywodraethu gadarnhau bod y corff dan sylw wedi mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant a bod trefniadau wedi'u gwneud i gydgysylltu â'r ysgol ar y materion hyn os bydd yn briodol.

## Cyfrifoldebau pawb

2.77 Os bydd unrhyw berson sy'n gweithio mewn lleoliad addysg yn gwybod, yn pryderu neu'n amau bod plentyn yn dioddef niwed, wedi dioddef niwed neu'n debygol o fod mewn perygl o ddioddef niwed, bydd dyletswydd a chyfrifoldeb statudol arno i sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sef y gwasanaethau sydd â phwerau statudol, ynghyd â'r NSPCC, i wneud ymholiadau, ymchwilio i amheuon o gam-drin ac ymyrryd yn ôl yr angen.

2.78 Cyfrifoldeb yr unigolion a gweithwyr proffesiynol unigol yw sicrhau bod eu pryderon yng nghyswllt amddiffyn plant yn cael eu cymryd o ddifrif a'u dilyn i'r pen. Mae pob cyflogai a gweithiwr proffesiynol unigol yn atebol am ei rôl ei hun yn y broses amddiffyn plant, ac os bydd cyflogai neu weithiwr proffesiynol unigol yn parhau i bryderu am blentyn, rhaid iddo ailgyfeirio'r pryderon am y plentyn a/neu ddod â'r mater ar unwaith i sylw'r uwch-reolwr gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr ardal. Os na fydd ar gael, rhaid hysbysu'r rheolwr tîm gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am achos y plentyn. Ym mhob sefyllfa o'r fath, rhaid hysbysu rheolwr llinell y cyflogai neu weithiwr proffesiynol unigol a'r gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i enwebu i fod yn gyfrifol am amddiffyn plant.

2.79 Rhaid peidio byth â gofyn i blentyn, rhiant, rhoddwr gofal, perthynas neu aelod o'r cyhoedd sy'n mynegi pryderon am les plentyn wrth weithiwr proffesiynol a/neu gyflogai asiantaeth ei atgyfeirio ei hun i wasanaethau

cymdeithasol neu'r heddlu.  Y gweithiwr proffesiynol a/neu gyflogai'r asiantaeth a fydd yn atgyfeirio'r achos.

2.80 Bydd pob person sy'n dod i gysylltiad neu'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd; neu ag oedolion a all achosi perygl i blant; neu sy'n gyfrifol am drefnu gwasanaethau i blant:

- yn trin lles y plentyn fel y peth pwysicaf;
- yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- yn cael gweld ac yn cydymffurfio â Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sy'n egluro sut i adnabod plant sy'n agored i niwed, eu cadw'n ddiogel rhag eu cam-drin a'u hesgeuluso, a gwella'r canlyniadau iddynt;
- yn deall yr egwyddorion a'r arferion sydd yn Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004;
- yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau eu sefydliad ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant, ac yn eu dilyn, ac yn gwybod â phwy y mae i gysylltu yn ei sefydliad i fynegi pryderon am les plentyn;
- yn gwybod pa bryd a sut i gyfeirio unrhyw bryderon am gam-drin ac esgeuluso plant i wasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu;
- wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant at lefel sy'n gymesur â'i rôl a'i gyfrifoldebau;
- yn ymwybodol o ddylanwad ac effeithiau cam-drin ac esgeuluso ar blant;
- yn effro i ddangosyddion cam-drin ac esgeuluso, ac yn ymwybodol o'r peryglon y mae unigolion sy'n cam-drin, neu a allai gam-drin, yn eu hachosi i blant;
- gweithio gyda rhieni oni bai fod hyn yn anghyson gyda'r angen i amddiffyn y plentyn;
- yn adnabod diffyg yng ngallu'r rhiant neu roddwr gofal i rianta, hynny yw, problemau a all effeithio ar ei allu i ddarparu gofal effeithiol a phriodol, neu a all olygu ei fod yn achosi perygl o niwed i'r plentyn;
- yn rhannu gwybodaeth ac yn helpu i'w dadansoddi fel y gellir gwneud asesiad deallus o anghenion ac amgylchiadau'r plentyn;
- yn cyfrannu yn ôl yr angen i bob cam yn y broses amddiffyn plant;
- yn cyfrannu at adolygiadau rheolaidd o'r canlyniadau i'r plentyn ar sail amcanion cyffredin penodol;
- yn cydweithio â'r rhieni, oni bai fod hynny'n anghyson â'r angen am sicrhau diogelwch y plentyn;
- wedi ymrwymo i gydweithredu'n llawn â'r holl asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant.

2.81 Os bydd plentyn yn dweud wrthych ei fod ef neu berson ifanc arall yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig eich bod:

- yn dangos i'r plentyn eich bod wedi clywed beth a ddywedodd, a'ch bod yn cymryd o ddifrif yr honiadau y mae'n eu gwneud;
- yn annog y plentyn i siarad, ond peidiwch ag awgrymu dim iddo na gofyn cwestiynau arweiniol;
- yn peidio â thorri ar draws pan fydd y plentyn yn dwyn digwyddiadau pwysig i gof;

- yn peidio â gorfodi'r plentyn i ailadrodd ei ddisgrifiad o ddigwyddiadau;
- yn egluro pa gamau y mae'n rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n addas i oed a chrebwyll y plentyn;
- yn peidio ag addo cadw beth a ddywedwyd wrthych yn gyfrinachol, gan fod cyfrifoldeb gennych i ddatgelu gwybodaeth i'r rheini sydd ag angen gwybod. Nid bradychu ymddiriedaeth yw rhoi gwybod am bryderon;
- yn ysgrifennu cyn gynted ag y gallwch a dim hwyrach na 24 awr wedyn beth a ddywedwyd wrthych, gan ddefnyddio'r union eiriau os oes modd;
- yn rhoi gwybod am eich pryderon i'ch rheolwr llinell neu (os yw'n briodol) yr aelod staff a ddynodwyd yn eich sefydliad sy'n gyfrifol am amddiffyn plant;
- yn sicrhau bod eich pryderon wedi'u hadrodd ar unwaith i'r gweithiwr cymdeithasol sydd ar ddyletswydd yn y swyddfa leol. Peidiwch ag oedi;
- yn peidio â wynebu'r camdriniwr honedig;
- yn peidio â phoeni eich bod wedi camgymryd. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn eich cymryd o ddifrif bob amser. Mae'n well eich bod wedi trafod y mater â rhywun sydd â phrofiad a chyfrifoldeb dros wneud asesiad;
- yn cofnodi'r dyddiad, yr amser, y man cyfarfod a'r bobl a oedd yn bresennol yn y drafodaeth.

**Gofyn am gyngor ynghylch pryderon**

2.82 Gall amheuon am gam-drin plant fod yn 'bryderon' yn hytrach na 'ffeithiau hysbys'. Mae pryderon am les plentyn yn gallu codi mewn nifer o gyd-destunau gwahanol, gan gynnwys sefyllfa lle y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod am y plentyn eisoes.

2.83 Os oes pryderon gan aelod staff, ond ei fod am gael cyngor pellach, dylai'r cyngor fod ar gael gan ei asiantaeth ei hun neu gan y gwasanaethau cymdeithasol.

2.84 Fe ellir ac fe ddylid rhannu pryderon â'r gwasanaethau cymdeithasol drwy atgyfeirio. Er na fydd pryderon yn ysgogi ymchwiliad o reidrwydd, byddant o gymorth i ffurfio darlun, gyda'r pryderon o ffynonellau eraill, a all awgrymu bod plentyn yn cael niwed.

**Cadw cofnodion**

2.85 Rhaid cofnodi pob trafodaeth am les plentyn, gan nodi'r dyddiad a'r amser, ac enwau'r bobl a gymerodd ran yn y drafodaeth. Ar ddiwedd trafodaeth, mae'n bwysig cael cytundeb clir a phendant ar y camau a gymerir a phwy a fydd yn eu cymryd. Os penderfynir peidio â chymryd camau pellach, rhaid cofnodi hyn hefyd ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad.

2.86 Bydd unrhyw aelod staff sy'n pryderu am les plentyn yn cofnodi ei bryderon, pa un a gymerir camau pellach neu beidio. Fodd bynnag, mae'n bwysig na fydd unrhyw angen am geisio cyngor yn gohirio unrhyw gamau brys y mae angen eu cymryd i amddiffyn plentyn.

2.87 Mae cadw cofnodion cywir, cryno a chlir mewn iaith syml yn ffordd hanfodol o gyflawni atebolrwydd y cyflogai neu'r gweithiwr proffesiynol unigol i'r bobl sy'n defnyddio ei wasanaethau, ac yn arfer da anhepgor ar gyfer amddiffyn plant. Bydd polisïau a gweithdrefnau gan bob asiantaeth sy'n ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant sy'n pennu trefniadau ar gyfer cadw, storio a dinistrio cofnodion achos electronig a phapur. Bydd y polisïau'n sicrhau bod cofnodion achos yn cael eu storio'n ddiogel a bod modd eu hadalw yn ôl yr angen.

**Ymchwiliadau**

2.88 Rhaid i ysgolion beidio â chynnal eu hymchwiliadau mewnol eu hunain i achosion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, ond yn hytrach atgyfeirio eu pryderon. Os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod staff, ni chaiff asiantaethau benderfynu eu hunain a yw'n fater disgyblu ynteu'n fater amddiffyn plant. Mae'n bwysig bod asiantaethau'n ymwybodol bod pwerau a chyfrifoldeb statudol gan yr heddlu i benderfynu a fydd ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal.

**Atgyfeirio**

2.89 Rhaid atgyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol cyn gynted ag y ceir problem, amheuaeth neu bryder ynghylch plentyn, ac yn sicr o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, rhaid atgyfeirio materion i wasanaeth dyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu.

2.90 Os gwneir atgyfeiriad dros y ffôn neu'n bersonol, rhaid ei gadarnhau drwy lythyr o fewn deg diwrnod gwaith, gan ddefnyddio ffurflen safonol leol os yw ar gael.

2.91 Rhaid i pob gyflogeion, gweithwyr proffesiynol a chontractwyr annibynnol unigol fod yn ymwybodol na allant aros yn ddi-enw os byddant yn atgyfeirio mater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

**Cymryd rhan yn y broses amddiffyn plant**

2.92 Os bydd aelod staff yn atgyfeirio mater, gellir gofyn iddo gyflawni rhai neu'r cyfan o'r tasgau canlynol, a dylai fod yn barod i'w cyflawni:

- Cyfrannu i drafodaeth ar strategaeth neu gyfarfod strategaeth;
- Helpu yn yr ymholiadau ar gyfer amddiffyn plant o dan adran 47;
- Bod yn bresennol yn y gynhadledd amddiffyn plant;
- Darparu adroddiad ysgrifenedig i'r gynhadledd amddiffyn plant;
- Cyfrannu i'r asesiadau cychwynnol a chraidd.

2.93 Os yw plentyn o oedran ysgol yn destun cynllun amddiffyn plentyn rhyngasiantaethol, rhaid cynnwys yr ysgol yn y broses o baratoi'r cynllun. Rhaid nodi'n glir beth yw rôl a chyfrifoldebau'r ysgol wrth gyfrannu at gamau gweithredu i ddiogelu'r plentyn a hyrwyddo ei les.

**Gwrando ar blant**

2.94 Mae profiad, ac ymgynghori â phlant, yn dangos eu bod yn barod i siarad am eu pryderon a'u problemau â phobl y maent yn ymddiried ynddynt ac yn teimlo'n gyfforddus yn eu cwmni. Ni fydd y bobl hyn yn athrawon o reidrwydd. Felly mae'n bwysig bod yr holl staff a gwirfoddolwyr mewn ysgol neu sefydliad yn gwybod sut i ymateb yn sensitif i bryderon plant, pwy i droi atynt am gyngor yn eu cylch, a pha mor bwysig yw peidio â gwarantu cyfrinachedd llwyr.

2.95 Mae plant am gael sicrwydd y bydd pobl yn gwrando arnynt ac y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif, felly mae'n bwysig bod pob sefydliad addysg yn ceisio dangos i blant ei fod yn darparu amgylchedd diogel iddynt lle y gallant siarad. Drwy arddangos gwybodaeth ddefnyddiol am bethau fel llinellau cymorth cenedlaethol i blant (Y Comisiynydd Plant, Child Line, Meic, NSPCC) a chynlluniau cefnogaeth gan gymheiriaid i blant a phobl ifanc mewn mannau amlwg (e.e. ar flwyddiaduron y disgyblion) gellir eu cymell i rannu pryderon a helpu i dawelu eu meddwl ynghylch hynny. Mae nodyn enghreifftiol drafft ar gyfer disgyblion yn Atodiad 4.

2.96 Os bydd plentyn yn dod at unrhyw aelod staff neu wirfoddolwr i siarad, dylai wrando ar y plentyn yn gadarnhaol a rhoi sicrwydd iddo. Dylai gofnodi'r drafodaeth â'r disgybl cyn gynted â phosibl a chymryd camau yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer amddiffyn plant.

2.97 Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn y DU am faint y cam-drin ymysg plant anabl yn awgrymu bod rhai a all fod agored iawn i'r perygl o gam-drin, er enghraifft y rheini sydd ag anhawster cyfathrebu. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu sy'n gweithio gyda phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau'n darparu cymorth personol iddynt a gallent weld arwyddion posibl o gam-drin. Er y bydd angen gofal ychwanegol, o bosibl, i sicrhau bod arwyddion o gam-drin ac esgeuluso'n cael eu dehongli'n gywir, rhaid rhoi gwybod am unrhyw amheuon yn yr un ffordd yn union ag ar gyfer plant eraill.

2.98 Mae'n bosibl y bydd y ffordd y mae aelod staff yn siarad â phlentyn sy'n datgelu camdriniaeth yn effeithio ar y dystiolaeth a gyflwynir os ceir achos llys wedyn, ac mae'n bwysig na fydd staff yn neidio i gasgliadau, yn gofyn cwestiynau arweiniol, nac yn rhoi geiriau yng ngheg y plentyn. Os bydd plentyn yn datgelu camdriniaeth i aelod staff, rhaid iddo gofnodi'r sgwrs cyn gynted â phosibl, gan wahaniaethu'n glir rhwng ffeithiau, arsylwadau, honiadau a barn, gan nodi unrhyw gamau a gymerwyd mewn achosion o gam-drin posibl. Rhaid llofnodi a dyddio'r nodyn.

**Yr hawl i gael eiriolaeth**

2.99 Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan bod hawl gan blant i ddweud beth a ddylai ddigwydd yn eu barn nhw pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a hawl i gael ystyriaeth i'w barn.

2.100 Pwrpas eiriolaeth yw grymuso plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu a bod eu barn a'u dymuniadau'n cael eu clywed bob amser. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn rhoi gwybod nad yw pryder neu broblem wedi'i datrys a bod cwyn yn debygol o gael ei gwneud, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cymorth ar gael os yw plentyn neu berson ifanc am gael eiriolwr i siarad ar ei ran. Rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybodaeth am wasanaethau eirioli i'r plentyn neu berson ifanc.

2.101 Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael eiriolwr o'u dewis. Rhai eiriolwyr posibl yw rhieni, oedolion eraill sy'n perthyn iddynt, gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol, athrawon, ffrindiau neu gynghorwyr personol. Eiriolaeth anffurfiol yw hyn. Gellir cael eiriolwyr hefyd sy'n ffrindiau neu'n berthnasau o'r un oed. Eiriolaeth gan gyfoedion yw hyn. Bydd pobl o'r fath yn gallu disgwyl cael cyngor a chymorth gan wasanaethau eirioli i gyflawni eu rôl fel eiriolwyr.

2.102 Mae plant sy'n derbyn gofal, plant sy'n byw oddi cartref a phlant sydd â nam cyfathrebu yn gallu bod yn agored iawn i niwed. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cwynion a'u hawl i gael eiriolwr.

2.103 O dan Reoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004, mae'n ofynnol bod pob awdurdod lleol yn darparu "llais" annibynnol proffesiynol, a elwir yn eiriolwr, ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal, pob person sy'n gadael gofal a phob plentyn mewn angen. Dylai eiriolwr fod ar gael iddynt pan wneir penderfyniadau yn eu cylch neu os ydynt am wneud cwyn.

2.104 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau clir ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth, gan gynnwys gwasanaethau eirioli, os ydynt yn gwneud cwyn neu'n bwriadu gwneud cwyn: Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Effeithiol i Blant a Phobl Ifanc sy'n Gwneud Cynrychioliad neu Gŵyn dan Ddeddf Plant 1989.

2.105 Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2003 yn rhoi fframwaith ar gyfer cynllunio, datblygu ac adolygu arferion eirioli ar bob lefel. Mae'r Safonau'n dangos yr egwyddorion craidd y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl gan weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau eirioli.

## Cyfrinachedd

2.106 Mae llawer o weithwyr proffesiynol o dan ddyletswydd i gadw cyfrinachedd. Mae hyn yn bwysig o ran cynnal ymddiriedaeth a chyfranogi mewn gwasanaethau ac felly'n helpu i ddiogelu iechyd a lles plant. Ond, fel y mae'r canllawiau perthnasol yn egluro, nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt a cheir ei thorri os yw hynny er y budd pennaf i'r plentyn ac er budd y cyhoedd yn gyffredinol. Os bydd gweithwyr proffesiynol yn penderfynu bod angen datgelu gwybodaeth er mwyn amddiffyn y plentyn neu blant eraill rhag y perygl o gael niwed difrifol, ceir torri cyfrinachedd.

2.107  Os bydd gweithwyr proffesiynol yn penderfynu bod angen rhannu gwybodaeth gyfrinachol â gwasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu:

- dylent geisio cymell y plentyn, os mai'r plentyn yw ffynhonnell y wybodaeth, i gytuno i'r wybodaeth gael ei datgelu o fewn cyfnod rhesymol;
- gallent drafod yr achos ag eraill yn gyntaf, heb grybwyll enwau, er enghraifft, cydweithiwr sydd â chymhwysedd addas mewn gwaith amddiffyn plant neu'r gwasanaethau cymdeithasol plant;
- rhaid hysbysu'r plentyn, os na fydd hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl difrifol;
- rhaid gwneud cofnod priodol o unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth neu beidio.

2.108  Mae'n bosibl y bydd angen i benderfyniadau yn y maes hwn gael eu gwneud gan bobl sydd â chymhwysedd addas mewn gwaith amddiffyn plant, fel gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u henwebu neu eu dynodi, neu ar ôl cael cyngor gan bobl o'r fath.

**Cynnwys rhieni neu ofalwyr**

2.109  Mae angen i bob rhiant a gofalwr ddeall bod ysgolion a sefydliadau addysg bellach dan ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plant sy'n ddisgyblion neu'n fyfyrwyr iddynt, bod y cyfrifoldeb hwn yn galw am wneud polisi a gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant, a'i bod yn bosibl y bydd angen i'r ysgol neu'r sefydliad rannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill os ceir pryderon ynghylch lles plentyn. Gall fod yn fuddiol cyfeirio at hyn ym mhrosbectws y sefydliad neu mewn gwybodaeth arall a ddarperir i rieni/gofalwyr a disgyblion/myfyrwyr. Mae nodyn enghreifftiol i rieni a gofalwyr yn Atodiad 4 ac i ddisgyblion yn Atodiad 5.

2.110  Dylai gweithwyr proffesiynol geisio trafod unrhyw bryderon ynghylch lles plentyn â'r teulu ac, os oes modd, gofyn iddynt gytuno i'r achos gael ei atgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, rhaid peidio â gwneud hyn os bydd yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o gael niwed arwyddocaol. Rhaid ystyried barn y plentyn hefyd mewn rhai amgylchiadau wrth benderfynu a fydd y teulu'n cael ei hysbysu, yn enwedig os yw'r plentyn yn ddigon aeddfed i ffurfio barn ddeallus am y materion dan sylw.

2.111  Os bydd unrhyw amheuaeth neu ansicrwydd ynghylch cynnwys teulu'r plentyn, bydd y swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn cael eglurhad gan yr asiantaethau statudol ynghylch a ddylid hysbysu'r rhieni neu ofalwyr am yr atgyfeiriad ac, os dylid, pe bryd a chan bwy. Gall hyn fod yn bwysig hefyd mewn achosion lle y bydd yr heddlu'n ystyried cynnal ymchwiliad troseddol. Os yw'n briodol, bydd y swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall bod yr atgyfeiriad er budd y plentyn ac y bydd y sefydliad yn cymryd rhan mewn ymchwiliad o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989 neu mewn ymchwiliad gan yr heddlu.

**Rhannu gwybodaeth**

2.112 Mae Pennod 14 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn rhoi canllawiau ar rannu gwybodaeth mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc.

## Egwyddorion allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth

2.113 Rhaid glynu wrth yr egwyddorion allweddol isod wrth ystyried rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc:

- Diogelwch a lles y plentyn neu berson ifanc yw'r brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth amdanynt;

- Rhaid cael sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth, a phwrpas dilys dros wneud hynny;

- Wrth ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol bydd angen i chi fod yn fodlon bod:
    a. rhwymedigaeth statudol i ddatgelu'r wybodaeth;
    b. caniatâd diamwys neu ddealledig wedi'i roi gan y personau dan sylw, neu
    c. ei bod o fudd cyhoeddus tra phwysig i ddatgelu'r wybodaeth.

- Dylech ystyried arwyddocâd, neu arwyddocâd posibl y wybodaeth sydd gennych. Dylai'r wybodaeth yr ydych yn ei rhannu fod yn berthnasol i'r diben rhannu a dim ond â'r ymarferwyr neu'r asiantaethau sydd ag "angen gwybod" y dylid rhannu'r wybodaeth;

- Dylech fod yn agored a gonest gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd am y rhesymau dros rannu gwybodaeth a pham y mae angen cymryd camau gweithredu penodol, oni bai fod hynny'n effeithio'n andwyol ar ddiben rhannu'r wybodaeth;

- Dylech gael caniatâd i rannu gwybodaeth oni bai ei bod yn beryglus neu'n amhosibl gwneud hynny, neu y byddai'n tanseilio'r amcan o atal neu ganfod trosedd;

- Dylai'r wybodaeth fod yn gywir, ac wedi'i chadw'n ddiogel, ond nid am gyfnod hirach nag sydd raid.

- Pan fo gwybodaeth yn cael ei rhannu, ar ôl cael caniatâd neu beidio, dylid cofnodi'r wybodaeth a rannwyd, a pha bryd, gyda phwy ac at ba ddiben y cafodd ei rhannu. Yn yr un modd, dylid cofnodi penderfyniad i beidio â rhannu gwybodaeth;

- Y ffordd orau o sicrhau bod y broses o rannu gwybodaeth yn cael ei chyflawni'n briodol yw dilyn protocolau ar rannu gwybodaeth sydd wedi'u cynllunio'n ofalus rhwng yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol

cysylltiedig, a chymryd cyngor cyfreithiol mewn achosion unigol pan fo angen.

### Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

2.114 Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn cynnwys fframwaith ar gyfer cyfnewid gwybodaeth bersonol rhwng gwahanol sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Mae Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn un o'r elfennau allweddol yn Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol Llywodraeth Cymru a chafodd ei gymeradwyo ganddi yn 2010 yn fframwaith 'sengl' ar gyfer rhannu gwybodaeth yng Nghymru. Mae dwy ran i'r fframwaith:

- **Y Cytundeb:** set gyffredin o egwyddorion a safonau corfforaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth gan sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth. Drwy lofnodi'r Cytundeb, mae pob un o'r sefydliadau'n ymrwymo i fodloni'r safonau a gytunwyd ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy ac i ddefnyddio'r fframwaith;

- **Protocolau Rhannu Gwybodaeth:** yr atebion i'r cwestiynau am bwy, pam, ble, pa bryd, beth a sut yng nghyswllt rhannu gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol a chyfreithlon. Mae'r protocolau'n disgrifio:
  - y diben(ion) penodol ar gyfer rhannu gwybodaeth;
  - y grŵp/grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau y mae'n effeithio arnynt;
  - y pwerau statudol perthnasol a'r prosesau cydsynio sy'n gysylltiedig;
  - y data sydd i'w rhannu;
  - y gweithdrefnau gofynnol a'r broses adolygu;
  - ffyrdd o hysbysu ymarferwyr am y gofynion penodol ar gyfer gweithredu.

# Pennod 3: Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol

## Cyflwyniad

3.1 Mae rhan hanfodol i'w chwarae gan staff y gwasanaeth addysg drwy helpu i nodi pryderon am les ac adnabod arwyddion o gam-drin neu esgeuluso'n gynnar, atgyfeirio'r pryderon hynny i'r asiantaeth briodol (yr adran gwasanaethau cymdeithasol, fel arfer), a chyfrannu at asesu anghenion y plentyn. Gallant hefyd gynnig barn am yr effaith y mae ymyriad yn ei chael ar les neu ymddygiad y plentyn.

3.2 Ym Mhennod 2 rydym yn disgrifio'r dyletswyddau sydd ar wasanaethau addysg ym mhob amgylchiad lle y mae aelod staff yn pryderu am les plentyn. Yn y bennod hon rydym yn trafod ystyriaethau ychwanegol sy'n ymwneud â materion penodol o ran diogelu plant. Gall un neu ragor o adrannau'r bennod hon fod yn berthnasol i amgylchiadau neilltuol y plentyn.

3.3 Ceir gwybodaeth a chanllawiau helaeth, nifer ohonynt yn statudol, y mae'n rhaid i ysgolion a darparwyr addysg eu dilyn er mwyn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant. Mae dolennau yn y bennod hon at ganllawiau statudol a mathau eraill o ganllawiau ar faterion penodol o ran diogelu plant ond, yn hytrach na dim ond cyfeirio darllenwyr at ddogfennau eraill, rydym hefyd yn crynhoi'r prif faterion y mae'n rhaid i weithwyr addysg proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae hyn yn cynnwys diffiniadau o dermau allweddol, dangosyddion risg, sut i ymateb os ydych yn pryderu, a dulliau rhagweithiol o weithredu gan ysgolion i atal niwed i blant sydd mewn perygl.

## Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol

### Plant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches

#### Diffiniadau

3.4 Y diffiniad o ffoadur yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ynghylch Statws Ffoaduriaid 1951 yw:

> "a person who owing to a well-founded fear of being persecuted for reasons of race, religion, nationality, membership of a particular social group or political opinion, is outside the country of his nationality and is unable or, owing to such fear, is unwilling to avail himself of the protection of that country; or who, not having a nationality and being outside the country of his former habitual residence as a result of such events, is unable or, owing to such fear, is unwilling to return to it."

3.5 Yn y DU, bydd person yn cael ei ystyried yn ffoadur yn swyddogol pan fydd y Swyddfa Gartref wedi derbyn ei gais am loches. Fel arfer, os bydd rhywun wedi cael statws ffoadur, bydd yn cael caniatâd i aros yn y DU am 5

mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw caiff wneud cais am Ganiatâd Amhenodol i Aros. Mae Caniatâd Amhenodol i Aros yn fath o statws mewnfudo sy'n cael ei roi gan y Swyddfa Gartref. Enw arall ar Ganiatâd Amhenodol i Aros (ILR) yw 'preswylio parhaol' neu 'statws preswylydd sefydlog' gan ei fod yn rhoi caniatâd i aros yn y DU yn barhaol.

3.6 Ceisiwr lloches yw person sydd wedi gadael y wlad y mae'n hanu ohoni ac wedi gwneud cais ffurfiol am amddiffyniad mewn gwlad arall ar sail Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ynghylch Statws Ffoaduriaid 1951 neu Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ond na phenderfynwyd eto ar ei gais.

3.7 Fel arfer bydd plant i bobl sy'n gwneud cais am loches yn cael eu hystyried yn 'blant dibynnol' iddynt. Os bydd plentyn dibynnol yn cyrraedd 18 oed cyn penderfynu ar gais y prif geisydd, rhaid parhau i'w drin fel plentyn dibynnol i ddibenion y cais. Gall y plentyn wneud cais am loches drwy ei hawl ei hun bryd hynny hefyd os yw'n dymuno.

3.8 Mae plentyn sy'n ceisio lloches gyda'i deulu neu gydag oedolyn yn un sydd:

- yn gwneud cais am loches drwy ei hawl ei hun; ac sydd
- yn rhan o grŵp teuluol; neu
- wedi'i wahanu oddi wrth ei ddau riant ac yng nghwmni oedolyn sy'n gyfrifol o dan y gyfraith am ofalu amdano neu mewn trefniant maethu preifat.

3.9 Gofynnir am dystiolaeth gan yr oedolyn sydd gyda'r plentyn i ddangos y berthynas uchod, er enghraifft, tystysgrif geni neu ddogfennau gwarcheidwadaeth dilys. Y diffiniad o drefniant maethu preifat yw un lle y mae oedolyn (heblaw rhiant y plentyn) yn gofalu am y plentyn am fwy na 28 o ddiwrnodau. Rhaid atgyfeirio'r achos i'r Awdurdod Lleol i asesu priodoldeb y lleoliad.

3.10 Mae plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches yn un sydd:

- yn gwneud cais am loches drwy ei hawl ei hun; ac sydd
- wedi'i wahanu oddi wrth ei ddau riant a heb fod yng nghwmni oedolyn sy'n gyfrifol o dan y gyfraith neu drwy arfer gwlad am ofalu amdano.

3.11 Gall y plentyn symud rhwng y categori plant ar eu pen eu hunain a chategori'r plant sydd gyda'u teulu neu oedolyn wrth i'w gais gael ei ystyried. Er enghraifft, gall plentyn gyrraedd ar ei ben ei hun ac ymuno ag aelodau eraill o'i deulu yn y DU wedyn, neu gall gyrraedd gyda'i rieni neu berthnasau agos a chael ei adael wedyn. Neu gall fod yn blentyn sy'n cael ei fasnachu, neu'n un sydd â dogfennau ffug ar ei gyfer sydd gydag oedolyn sy'n honni ei fod yn berthynas iddo.

3.12 Mae plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn rhai sydd nid yn unig y tu allan i'w gwlad wreiddiol ond hefyd heb ofal ac amddiffyniad eu rhieni neu warcheidwad cyfreithiol. Mae'n fwy na thebyg y bydd plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain yn "blant mewn

angen" yn ôl y diffiniad yn Adran 17(1) o Ddeddf Plant 1989 gan eu bod ar eu pen eu hunain yn y DU heb deulu i'w cynnal.

## Materion allweddol

3.13 Dylai pob plentyn neu berson ifanc sy'n ffoadur neu'n geisiwr lloches gael ei ystyried yn blentyn yn gyntaf ac wedyn yn fewnfudwr. Felly, yn yr un modd â phob plentyn arall yn y DU, mae hawl gan blentyn neu berson ifanc sy'n ffoadur neu'n geisiwr lloches i gael asesiad, cymorth ac amddiffyniad gan wasanaethau cymdeithasol yn ystod ei blentyndod ac wrth ddod yn oedolyn neu nes bydd yn gadael y Deyrnas Unedig, neu nes bydd ei anghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd arall. Yr awdurdod lleol sydd wedi pennu anghenion y plentyn a fydd yn gyfrifol am eu diwallu. Fodd bynnag, mae pob asiantaeth yn gyfrifol am ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc, ac mae ei les yn hollbwysig.

3.14 Mae gan blant a phobl ifanc 5–16 oed sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yr un hawl i dderbyn addysg amser llawn â phlant eraill yn y DU. Mae addysg yn bwysig iawn i blant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches ac mae nifer mawr o blant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain wedi dweud ei bod yn agwedd bwysig iawn ar eu bywyd ac yn ffactor sy'n cyfrannu at eu hymdeimlad cyffredinol o fodlonrwydd. Mae hawl gan bob plentyn a pherson ifanc i gael addysg ac, os ydych yn gweithio gyda phlant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, rhaid sicrhau eu bod yn gallu cael addysg.

## Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.15 Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Displaced People in Action a Plant yng Nghymru wedi cydweithio i lunio Teachers Resource Pack for Working with Asylum Seeker and Refugee Children.

3.16 Mae Pennod 4.10 o Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn trafod plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

3.17 Hefyd cyhoeddwyd All Wales Practice Guidance on Safeguarding and Promoting the Welfare of Unaccompanied Asylum Seeking Children and Young People gan Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn 2011. Mae'r Canllawiau Ymarfer hyn yn rhoi cymorth a chyfarwyddyd i weithwyr proffesiynol asiantaethau. Maent yn trafod y camau penodol sydd i'w cymryd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain, ac yn rhoi trosolwg ar y polisi a'r arferion cymhleth perthnasol sy'n gallu peri bod plant a phobl ifanc o wledydd tramor sydd ar eu pen eu hunain yn agored iawn i niwed, gan gynnwys y rheini y gallai fod angen eu hamddiffyn.

3.18 Mae Pennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn gwneud asesiad cynhwysfawr o anghenion pob plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches a gaiff ei atgyfeirio atynt. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr asesiad hwn yn arwain at letya'r plentyn. Ar ôl lletya plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio

lloches, yn unol ag adran 20 o Ddeddf Plant 1989 gwneir cynllun gofal ar ei gyfer (cynllun llwybr gofal yn 16+ oed) a fydd wedi'i seilio ar yr asesiad cynhwysfawr hwn o'i anghenion.  Rhaid ystyried yr agweddau canlynol yn yr asesiad:

- Iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl, er enghraifft, a oes angen cymorth a chwnsela wedi trawma);
- Addysg;
- Datblygiad Emosiynol ac Ymddygiadol;
- Hunaniaeth;
- Perthnasoedd teuluol a chymdeithasol;
- Cyflwyniad cymdeithasol;
- Sgiliau hunanofal gan gynnwys dealltwriaeth y plentyn o oblygiadau ei statws mewnfudo a'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio â newid.

3.19 Mae'n bosibl y bydd angen gwneud Cynllun Plentyn sy'n Derbyn Gofal a Chynlluniau Llwybr Gofal ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Bydd y rhain yn cael eu trefnu gan wasanaethau plant a byddant yn delio â phob canlyniad posibl mewn ffordd realistig ac yn sicrhau eu bod yn cael eu trafod yn agored ac yn sensitif â'r plentyn/person ifanc. Bydd y cynlluniau'n ystyried pa sgiliau, addysg a hyfforddiant a fydd yn fwyaf defnyddiol, nid yn unig os bydd y plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches yn aros yn y DU, ond hefyd os bydd yn gorfod dychwelyd i'w wlad wreiddiol. Dylai gweithwyr proffesiynol ystyried y ffordd orau o amddiffyn plant a phobl ifanc ar ôl iddynt fynd drwy bob proses apelio sydd ar gael, gan ddehongli'r math o gymorth y gellir ei roi iddynt yn y ffordd fwyaf eang fel na fyddant yn cael eu hamddifadu o'u hawliau.

### Dangosyddion risg

3.20 Mae'n bosibl y bydd ansicrwydd ynghylch statws, oed ac amgylchiadau plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches. Mewn rhai achosion byddant wedi gweld neu wedi profi digwyddiadau trawmatig ac yn dioddef colled o'r mathau mwyaf eithafol. Gall plant a phobl ifanc adael eu gwlad enedigol am nifer o resymau (ar eu pen eu hunain neu gyda'u rhieni). Rhai o'r rhesymau posibl yw:

- ofn cael eu herlid, oherwydd eu crefydd, cenedligrwydd, ethnigrwydd, barn wleidyddol neu grŵp cymdeithasol;
- bod eu rhieni wedi cael eu lladd, eu carcharu neu eu cipio;
- eu bod mewn perygl o gael eu gorfodi i ymladd neu ddod yn filwyr;
- rhyfel, gwrthdaro;
- tlodi, amddifadedd;
- eu bod wedi'u hanfon dramor gan eu rhieni/teulu.

3.21 Yn aml bydd plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn ei chael yn anodd mynegi eu barn, eu profiadau a'u hemosiynau, yn enwedig os ydynt yn mynd drwy brosesau cymhleth sy'n cael eu rheoli gan oedolion. Rhai o'r rhesymau am hyn yw:

- ofn gwlad a diwylliant dieithr;

- dim neu bron dim rhwydweithiau cymorth eraill yn y DU (teulu neu ffrindiau);
- profiadau negyddol o swyddogion llywodraeth/gweithwyr proffesiynol yn eu gwlad enedigol;
- rhwystrau iaith a'r cyd-destun cymdeithasol.

3.22 Mae plant a phobl ifanc sydd o dan reolaeth fewnfudo yn agored i raddau ychwanegol o niwed. Mae ymchwil i gyflwr emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc wedi dangos bod ansicrwydd am eu statws mewnfudo yn achosi gorbryder a thrallod meddwl eithafol iddynt, yn enwedig i'r rheini sydd yn eu harddegau hwyr ac yn dod i ddiwedd eu cyfnod o Ganiatâd yn ôl Disgresiwn i Aros yn y DU. Bydd yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn eu hystyried, a bod cynllunio priodol yn digwydd drwy gydol y broses gofal.

### Ymateb i bryderon

3.23 Os bydd gweithwyr proffesiynol yn dod i gysylltiad ag unigolion sydd ar eu pen eu hunain sy'n honni eu bod yn iau na 18 oed, rhaid iddynt eu hatgyfeirio ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gael asesiad pellach o'u hoed, i gael cymorth ac o ran mesurau diogelu, gan ei bod yn bosibl y byddant yn agored i niwed.

3.24 Mewn achosion lle y mae ansicrwydd ynghylch oed y plentyn neu berson ifanc, dylid rhoi mantais yr amheuaeth i'r plentyn neu berson ifanc, a rhaid ei atgyfeirio i'r Gwasanaethau Plant.

3.25 Dylai gweithwyr addysg proffesiynol hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg hefyd o fewn y 24 awr gyntaf.

3.26 Er y gall ymddangos bod rhai plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn deall ac yn siarad Saesneg wrth sôn am bethau bob dydd, dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol na fyddant o bosibl yn gallu cyfleu eu profiadau bywyd yn fanwl gywir na mynegi eu teimladau'n llawn os na fyddant yn cael cyfle i siarad yn eu hiaith gyntaf neu yn eu tafodiaith eu hunain.

3.27 Rhaid trefnu i gyfieithydd fod ar gael wrth gyfathrebu â phlant neu bobl ifanc er mwyn diogelu a hyrwyddo eu lles os nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Os penderfynir nad oes angen cyfieithydd, rhaid cofnodi'r rhesymau am hyn yn glir yn nodiadau achos/ffeil achos y plentyn neu berson ifanc1. Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ddilyn y trefniadau hyn bob amser yn unol â chanfyddiadau Ymchwiliad Victoria Climbié, ac mae hyn yn arfer da i bob asiantaeth.

3.28 Mae hawl gan blant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches i ofyn am gael cyfieithydd o'r un rhyw neu am newid y cyfieithydd. Dylai'r cyfieithydd fod yn un y gall y plant neu bobl ifanc ymddiried ynddo a'i ddeall

---

[1] Argymhelliad 18, paragraff 6.251, Laming (2003)

yn llwyr. Mae'n bwysig trafod hyn yn gynnar â'r plant/pobl ifanc, yn ogystal â rôl y cyfieithydd.

3.29 Bydd llawer o asiantaethau wedi gwneud eu trefniadau lleol eu hunain i gael gafael ar gyfieithwyr a dylai gweithwyr proffesiynol ddilyn y rhain. Oherwydd natur y gwaith dan sylw, bydd yn bwysig bod y trefniadau hyn yn cynnwys trefniadau â chyfieithwyr ar faterion moesegol, gan gynnwys annibyniaeth a chyfrinachedd. Am y rhesymau hyn, rhaid peidio â defnyddio unigolion sy'n adnabod y plentyn/person ifanc yn bersonol h.y. aelodau o'r teulu, ffrindiau neu aelodau o'r gymuned yn gyfieithwyr. Rhaid gwirio cyfieithwyr gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.30 Os na fydd asiantaeth wedi gwneud trefniadau i ddarparu cyfieithwyr neu wedi cyfieithu gwybodaeth, neu os nad yw'r trefniadau presennol yn addas h.y. nid oes cyfieithwyr ar gael sy'n siarad iaith gyntaf y plentyn/person ifanc, rhaid gwneud trefniadau eraill. Ymhlith y gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yng Nghymru mae Gwasanaeth Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymru (WITS) a Gwasanaeth Cyfieithwyr Barnardo's.

3.31 Mae rôl yr eiriolwr dros blant a phobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain yn werthfawr iawn am ei bod yn eu galluogi i gyfleu eu dymuniadau a'u teimladau. Gall roi llais iddynt mewn penderfyniadau a helpu i ddatrys rhai o'u problemau'n gynnar. Er enghraifft, byddai Gwasanaethau Eiriolaeth yn gallu helpu plant/pobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain i herio asesiadau o oed, cael gafael ar lety addas, cael cyngor cyfreithiol neu eu cynrychioli ar faterion penodol. Ceir mwy o wybodaeth am Eiriolaeth ym Mhennod 2.

3.32 Os yw plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn derbyn gwasanaethau, dylid hefyd ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig sy'n addas i'w hoedran am wasanaethau, os yw hynny'n briodol, a dogfennau perthnasol eraill e.e. taflen am y ffordd i wneud cwyn am ddarparwyr gwasanaethau. Mae'n bosibl y bydd rhai asiantaethau eisoes wedi cyhoeddi gwybodaeth benodol mewn nifer o ieithoedd a fydd yn briodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen trefnu i gyfieithu gwybodaeth. Bydd angen i rai plant/pobl ifanc gael gwybodaeth ar lafar, a rhaid sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn deall y wybodaeth y mae'n ei chael, boed yn wybodaeth ysgrifenedig neu'n wybodaeth lafar.

### Dulliau rhagweithiol

3.33 Ochr yn ochr â'r gwasanaethau cymorth cyffredinol i ddisgyblion, fel staff cymorth bugeiliol, staff lles addysg, nyrsys ysgol, a gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, mae gwasanaethau ychwanegol ar gael i helpu plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches. Os yw gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda phlant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, rydym yn eu hannog i gysylltu â gwasanaethau o'r fath i gael cyngor a chymorth, er enghraifft, timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig mewn awdurdodau lleol (gweler adran isod).

**Plant Duon a Lleiafrifoedd Ethnig**

## Materion allweddol

3.34 Mae ymchwil yn dangos bod plant duon a'r rheini sydd â threftadaeth gymysg yn fwy tebygol na phlant gwyn o fod yn destun cynllun amddiffyn plentyn a/neu o gael eu derbyn i'r system gofal. Nid yw'r rhesymau am hyn yn glir eto, ond rydym yn gwybod bod materion penodol yn cael effaith ar ddiogelu plant ac ar les plant o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

3.35 Yn ogystal â'r pwysau ar fywyd teuluol sy'n debyg i'r rhai ar deuluoedd eraill, mae rhai teuluoedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o wynebu straen ychwanegol o ganlyniad i dlodi, tai gwael, diweithdra ac incwm isel, materion sy'n ymwneud â mewnfudo, anhawster o ran iaith, problemau iechyd meddwl neu wahaniaethu. Mae hefyd yn bosibl na fyddant yn gwybod am wasanaethau priodol a allai eu helpu na sut i gael gafael arnynt.

3.36 Ceir gwahaniaethau diwylliannol o ran magu plant: efallai y bydd rhywbeth sy'n ymddangos yn dderbyniol mewn un teulu neu gymuned yn cael ei ystyried yn amhriodol mewn un arall. Bydd rhai rhieni, yn enwedig rhieni sydd newydd ddod i'r DU, yn ansicr am yr arferion sy'n dderbyniol yng nghyd-destun y DU a gall hyn arwain at gwestiynau gan wahanol asiantaethau am eu harddull rhianta ac, mewn achosion mwy difrifol, at ymchwiliadau gan wasanaethau plant neu'r heddlu. Mae rhai arferion diwylliannol yn erbyn y gyfraith yn y DU, fel enwaedu benywod (gweler yr adran ar Enwaedu Benywod).

3.37 Nid yw 'diwylliant' yn esgus dros niweidio plentyn. Mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei amddiffyn rhag niwed a rhaid i ni fod yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng arferion diwylliannol penodol sydd heb fod yn niweidiol, ac achosion o gam-drin a all fod yn gysylltiedig â chredoau diwylliannol neu grefyddol.

3.38 Gall plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ddioddef mathau eraill o gam-drin fel aflonyddu hiliol, gwahaniaethu hiliol, hiliaeth sefydliadol, Islamoffobia a bwlio sy'n gallu peri niwed corfforol ac emosiynol iddynt.

3.39 Er bod hiliaeth yn achosi niwed sylweddol, nid yw'n gategori cam-drin ynddi ei hun. Mae'r profiad o hiliaeth yn debygol o effeithio ar ymatebion y plentyn a'r teulu i brosesau asesu a holi.

3.40 Os na fydd effeithiau hiliaeth yn cael eu hystyried, bydd hynny'n tanseilio ymdrechion i amddiffyn plant rhag mathau eraill o niwed sylweddol. Bydd effeithiau hiliaeth yn amrywio rhwng gwahanol gymunedau ac unigolion, ac ni ddylid cymryd eu bod yr un fath ym mhob achos.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.41 Yn 2011 cyhoeddwyd canllawiau penodol gan Lywodraeth Cymru am fwlio sy'n gysylltiedig â hil, crefydd a diwylliant.

3.42 Yn 2012, cyhoeddodd BAWSO[2] yr adroddiad Protecting Black and Minority Ethnic Children: An Investigation of Child Protection Interventions. Yn yr astudiaeth ymchwil hon edrychwyd ar blant y mae BAWSO wedi gweithio gyda nhw a fu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant rhwng 2006 a 2011, er mwyn ymchwilio i bwnc diogelu plant o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Dyma rai o'r canfyddiadau:

- Bod angen cydnabod a deall y ffactorau cymhleth yn y perthnasoedd rhwng teuluoedd cnewyllol a theuluoedd estynedig Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a rhwng teuluoedd a chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Yn achos llawer o fenywod, mae'r perthnasoedd rhwng eu teulu cnewyllol a'u teulu estynedig yn gymysgedd cymhleth o gymorth a gwyliadwriaeth ac, yn niwylliannau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn gyffredinol, mae pwyslais mawr ar ddisgwyliadau'r teulu estynedig. Achos tyndra arall o fewn teuluoedd a nodwyd gan fenywod a gymerodd ran yn yr ymchwil oedd y caledi economaidd yr oedden nhw a'u plant yn ei brofi weithiau am fod eu gwŷr yn defnyddio arian y teulu i hyrwyddo eu perthnasoedd ehangach eu hunain. Hefyd nodwyd y straen yr oedd yr ymdeimlad hwn o gyfrifoldeb yn gallu ei greu yn eu gwŷr a'r ffordd y gallai'r straen hwn fod yn ffactor o ran cael eu cam-drin gan ddynion;

- Bod menywod a gymerodd ran yn yr ymchwil hefyd yn gweld bod cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ffynonellau cymorth a gorthrwm ar yr un pryd lle'r oedd rhai grwpiau a ffrindiau unigol yn eu cymuned ethnig a/neu ffydd yn ffynonellau cyngor a chymorth ond hefyd yn gallu bod yn ffordd o fonitro ymddygiad menywod, o gymeradwyo a hyd yn oed cefnogi cam-drin gan ddynion ac, yn sicr, yn ffordd o anghymeradwyo menywod fel y gallent gael eu hynysu'n fwy byth oddi wrth y bobl o'u cwmpas;

- Bod diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth sylweddol ynghylch rôl y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn enwedig ymysg menywod sydd wedi'u geni y tu allan i'r DU. Nid oedd gwybodaeth flaenorol am wasanaethau cymdeithasol gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil a oedd heb eu magu yn y DU (pump o bob wyth). Mae hyn yn golygu nid yn unig ei bod yn bwysig rhoi gwybodaeth ond hefyd fod cyfle mawr i gyfleu delweddau cadarnhaol o wasanaethau cymdeithasol i bobl sydd heb ddod o dan ddylanwad y mythau/stereoteipiau sy'n deillio o sylw negyddol yn y cyfryngau;

[2] Mae BAWSO yn sefydliad sy'n darparu cymorth ledled Cymru sydd wedi'i achredu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyflenwi gwasanaethau arbenigol i bobl o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig y mae cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin yn effeithio arnynt.

- Bod angen cyfleu gwybodaeth yn glir a'i hesbonio a bod angen galluogi menywod i feithrin dealltwriaeth o asiantaethau a phrosesau y 'tu allan' i'r teulu neu'r gymuned. Nododd rhai menywod eu bod wedi'u gadael allan o drafodaethau ac o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, cyfeiriodd menywod at achlysuron pryd yr oedd disgwyl iddynt ddod i gynadleddau heb gael gwybodaeth o flaen llaw am eu pwrpas a/neu'r disgwyliadau.

3.43 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno'r ddeddfwriaeth bresennol mewn un fframwaith cyfreithiol ac, er bod nifer o'r cysyniadau am wahaniaethu'n debyg i'r rhai mewn deddfwriaeth flaenorol ar gydraddoldeb, mae rhai meysydd a oedd heb eu cynnwys o'r blaen. Mae gwahanol fathau o wahaniaethu'n berthnasol i'r darpariaethau ar gyfer ysgolion yn y Ddeddf:

- **Gwahaniaethu uniongyrchol:** Bydd gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd os byddwch yn trin disgybl yn llai ffafriol nag yr ydych (neu y byddech) yn trin disgybl arall oherwydd nodwedd warchodedig. Enghraifft syml iawn yw gwrthod derbyn plentyn i ysgol oherwydd ei hil, am ei fod yn Roma er enghraifft. Ni ellir cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol, felly bydd yn anghyfreithlon bob amser.

- **Gwahaniaethu ar sail cysylltiad:** Ceir gwahaniaethu uniongyrchol hefyd os byddwch yn trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad â pherson arall sydd â nodwedd warchodedig. Gallai hyn ddigwydd os byddwch yn trin disgybl yn llai ffafriol am fod nodwedd warchodedig gan ei frawd neu chwaer, rhiant, gofalwr neu ffrind.

- **Gwahaniaethu ar sail canfyddiad:** Ceir gwahaniaethu uniongyrchol hefyd os byddwch yn trin disgybl yn llai ffafriol am eich bod yn credu ar gam fod ganddo nodwedd warchodedig.

- **Gwahaniaethu anuniongyrchol**: Bydd gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd os byddwch yn cymhwyso darpariaeth, maen prawf neu arfer yn yr un ffordd ar gyfer pob disgybl neu grŵp penodol o ddisgyblion, ond bod hyn yn creu'r effaith o roi disgyblion sydd â nodwedd warchodedig gyffredin o fewn y grŵp cyffredinol o fyfyrwyr o dan anfantais neilltuol. Nid yw'n bwysig nad oeddech yn bwriadu i'r disgyblion â nodwedd warchodedig benodol gael eu rhoi dan anfantais fel hyn. Beth sy'n bwysig yw a fyddai'ch gweithred yn rhoi disgyblion o'r fath dan anfantais o'u cymharu â disgyblion sydd heb y nodwedd honno. Er enghraifft, byddai gofyniad gan ysgol fod disgyblion gwrywaidd yn gwisgo cap yn rhan o'r wisg ysgol, er ei fod yn cael ei gymhwyso yn yr un ffordd i bob disgybl, yn cael yr effaith o gau allan fechgyn Sikh am fod eu crefydd yn galw arnynt i wisgo tyrban. Byddai hyn yn wahaniaethu anuniongyrchol ar sail crefydd neu gred ac mae'n annhebygol y byddai'r ysgol yn gallu cyfiawnhau cam gweithredu o'r fath.

3.44 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn creu **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**, deddfwriaeth unigryw ar gydraddoldeb

sy'n rhoi cyfrifoldebau cyfreithiol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg bellach, i wneud y canlynol:

- cymryd camau nid yn unig i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon, ond hefyd i hyrwyddo cydraddoldeb;

- dileu gwahaniaethu hiliol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol. Rhaid i sefydliadau lunio polisi cydraddoldeb hiliol a fydd yn ddatganiad ysgrifenedig o'u polisi i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol;

- asesu a monitro effaith polisïau ar fyfyrwyr a staff o grwpiau hiliol gwahanol, yn enwedig o ran derbyn myfyrwyr a'u cynnydd a recriwtio staff a'u cynnydd yn eu gyrfa. Rhaid cymryd camau rhesymol ymarferol i gyhoeddi canlyniadau'r monitro bob blwyddyn.

3.45 Mae darpariaeth hefyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod **Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus** ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol sydd wedi'u datganoli i Gymru (yn ôl y diffiniad yn adran 157 o'r Ddeddf). Mae'r Dyletswyddau Penodol yn galluogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg bellach, i sicrhau bod Dyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol y Sector Cyhoeddus yn cael ei chyflawni'n well. Felly nid mater o gynnal prosesau a gweithdrefnau gweinyddol yn unig yw cydymffurfio â'r dyletswyddau penodol – mae'n golygu creu canlyniadau cadarnhaol o ran cydraddoldeb.

3.46 Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru yn cynnwys:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau cyflog
- Hyfforddi staff
- Caffael
- Adroddiadau blynyddol
- Cyhoeddi
- Adrodd gan Weinidogion Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

3.47 Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi llunio canllawiau hanfodol i gyrff y sector cyhoeddus ar y dyletswyddau cydraddoldeb penodol yng Nghymru, yn ogystal â chanllawiau i ysgolion, Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru.

### Ymateb i bryderon

3.48 Mae angen i staff y gwasanaeth addysg fod yn ymwybodol o unrhyw sefyllfaoedd lle y mae plant yn bwlio eraill ar sail hiliol. Rhaid dweud yn glir wrthynt nad yw hyn yn dderbyniol, a delio â'r sefyllfa'n briodol.

3.49 Rhaid ystyried yr angen am wasanaethau cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd sy'n niwtral, o ansawdd uchel ac yn briodol o ran rhyw'r cyfieithydd wrth weithio gyda phlant a theuluoedd na fyddant yn defnyddio Saesneg fel arfer. Fodd bynnag, ni ddylid byth ddefnyddio plant yn gyfieithwyr ar y pryd.

3.50 Rhaid rhoi sylw i hiliaeth sefydliadol ym mhob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd lle y mae'r niferoedd mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fach. Y diffiniad o hiliaeth sefydliadol yn Adroddiad Ymchwiliad MacPherson am Stephen Lawrence yw methiant sefydliad, yn ei gyfanrwydd, i ddarparu gwasanaeth priodol a phroffesiynol i bobl o achos eu hil, diwylliant a/neu grefydd.

### Dulliau rhagweithiol

3.51 Bydd timau'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig mewn awdurdodau lleol yn helpu plant/pobl ifanc lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion yng nghyswllt eu cyrhaeddiad addysgol. Mae'r timau hyn yn cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. Amcan y grant hwn yw gwella'r cyfleoedd addysgol i bob dysgwr sydd mewn lleiafrif ethnig, yn enwedig y rheini y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt; cynnig y cymorth arbenigol sydd ei angen ar ddisgyblion sy'n geiswyr lloches ac, yn gyffredinol, gwella safonau cyrhaeddiad disgyblion sydd mewn lleiafrifoedd ethnig.

## Bwlio

### Diffiniad a materion allweddol

3.52 Mae nifer o ddiffiniadau o fwlio, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud ei fod:

- yn fwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol);
- yn cael ei ailadrodd yn aml dros gyfnod, gan gydnabod bod hyd yn oed un digwyddiad yn gallu achosi trawma i'r dysgwr a phryder am ddigwyddiadau yn y dyfodol;
- yn anodd i ddioddefwyr eu hamddiffyn eu hunain rhagddo.

3.53 Rhaid ystyried hefyd beth y mae dysgwyr unigol yn ei gyfrif yn fwlio.

3.54 Gall bwlio fod ar lawer ffurf, ond y tri phrif fath yw:

- corfforol – taro, cicio, cymryd eiddo, aflonyddu rhywiol neu ymddygiad ymosodol
- geiriol – galw enwau, sarhau, gwneud sylwadau annymunol

- anuniongyrchol – lledaenu straeon cas am rywun, cau rhywun allan o grwpiau cymdeithasol, lledaenu sïon maleisus am rywun, anfon negeseuon maleisus drwy'r e-bost neu negeseuon testun maleisus o ffôn symudol.

3.55 Yn aml ni sylweddolir maint y niwed a geir o fwlio. Gall achosi gofid mawr i blant, i'r graddau ei fod yn effeithio ar eu hiechyd a'u datblygiad neu, yn y pen eithaf, yn peri niwed sylweddol iddynt (gan gynnwys hunan-niwed). Rhaid rhoi strategaethau gwrth-fwlio cadarn ar waith ym mhob sefyllfa lle y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i blant.

3.56 Mae hawl gan bob dysgwr ym mhob ysgol i ddysgu, heb yr ofn o gael ei fwlio ym mha ffordd bynnag. Rhaid i bawb sy'n ymwneud ag addysg y dysgwr weithio gyda'i gilydd i sicrhau hynny. Rhaid i ysgolion ddelio'n rhagweithiol â phob math o fwlio, a dylent gymryd camau i atal ymddygiad bwlio yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau.

3.57 Mae angen gwahaniaethu rhwng ymddygiad y mae'n well delio ag ef drwy bolisïau gwrth-fwlio ac ymddygiad mwy cymhleth a all fod yn rhywiol niweidiol iawn a lle y mae angen rhoi cymorth arbenigol o bosibl i'r cyflawnwr ac i'r dioddefwr. (Ceir mwy o wybodaeth ar gam-drin ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant a phobl ifanc yn Pennod 3).

## Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.58 Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 23/2003, Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio yn rhoi gwybodaeth i lywodraethwyr ysgol, penaethiaid, athrawon a staff eraill am ffyrdd o ddelio â bwlio mewn ysgolion a'r camau y dylai ysgolion eu cymryd i helpu dysgwyr sy'n rhoi gwybod am fwlio y tu allan i'r ysgol. Mae'n cynnig ffyrdd ymarferol o atal bwlio a delio ag achosion o fwlio, yn disgrifio'r cefndir cyfreithiol ac yn egluro rolau pawb sy'n gysylltiedig ag atal a delio â bwlio.

3.59 Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru set o ganllawiau ar ffyrdd o ddelio â mathau penodol o fwlio i helpu ysgolion i ddyfeisio mesurau ataliol ac ymatebol i ddelio â gwahanol fathau o fwlio sydd wedi'i seilio ar hunaniaeth. Mae'r set yn cynnwys:

- bwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant
- bwlio dysgwyr sydd ag anghenion ac anableddau addysgol arbennig
- bwlio homoffobig
- bwlio rhywiol, transffobig a rhywiaethol
- seiberfwlio – oherwydd datblygiadau mewn technolegau cyfathrebu, a gallu plant a phobl ifanc i gael gafael arnynt, mae ysgolion wedi gorfod bod yn wyliadwrus a cheisio cael atebion arloesol i'r camddefnydd ohonynt.

3.60 Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: www.cymru.gov.uk/parchueraill

## Ymateb i bryderon a dulliau rhagweithiol

3.61 Mae dulliau atal ac ymateb yn mynd law yn llaw. Yn wir, mewn ysgolion effeithiol bydd y dulliau hyn yn dibynnu ar ei gilydd. Mae'r cydgysylltiad hwn yn neilltuol o bwysig wrth ystyried bwlio sy'n ymwneud â rhagfarn. Os yw ymddygiad bwlio wedi'i seilio ar werthoedd neu gredoau y mae angen eu herio, bydd yn hanfodol bod yr ysgol yn cymryd camau i ddelio â'r ymddygiad yn ogystal â'r agweddau meddwl sylfaenol sy'n ei ysgogi.

3.62 Mae'n hollbwysig meithrin ethos cynhwysol cadarn nad yw'n goddef bwlio na rhagfarn. Yr her i bob ysgol, yn gyntaf oll, yw creu amgylchedd dysgu diogel sy'n amddiffyn dysgwyr rhag niwed ac yn atal bwlio. Drwy ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ddigwyddiadau, os byddant yn codi, bydd pob aelod o gymuned yr ysgol yn cael ymdeimlad o hyder a sicrwydd.

3.63 Rhaid datblygu polisïau gwrth-fwlio yng nghyd-destun polisi cyffredinol yr ysgol ar ymddygiad a dylent gynnwys cyfeiriadau penodol at bob math o fwlio, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r 'nodweddion gwarchodedig' sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Delweddau o gam-drin plant a'r rhyngrwyd**

### Diffiniad a materion allweddol

3.64 Mae cysylltiad anorfod rhwng cyrchu delweddau o gam-drin plant a dioddefaint plant. Bydd y rheini sy'n cyrchu delweddau amhriodol o blant yn hybu ac yn cyfrannu at barhad camdriniaeth y plant hynny. Mae'r plant hynny'n cael eu cam-drin yn ddifrifol a dylid dod ag achosion troseddol yn erbyn y camdrinwyr, p'un a ydynt wedi cyflawni'r gamdriniaeth wreiddiol neu wedi cyrchu delweddau o'r cam-drin, gan weithredu mewn ffordd briodol a chymesur.

3.65 Mae camdrinwyr yn defnyddio'r Rhyngrwyd hefyd i geisio cysylltu â phlant er mwyn meithrin perthynas amhriodol neu gamdriniol â nhw. Gallai hyn gynnwys ceisiadau i wneud a throsglwyddo delweddau pornograffig ohonynt eu hunain neu gyflawni gweithredoedd rhywiol yn fyw o flaen gwe-gamera. Os creir cysylltiadau mewn ystafell sgwrsio i ddechrau, mae'n debygol y byddant yn parhau wedyn drwy'r e-bost, gwasanaethau negeseua gwib, drwy negeseuon testun neu ar ffôn symudol.

3.66 Mae pryder cynyddol hefyd ynghylch plant sy'n gweld deunydd amhriodol drwy dechnoleg cyfathrebu rhyngweithiol, e.e. pornograffi oedolion, a/neu ddeunydd anweddus iawn. Pe byddai plentyn yn cael caniatâd neu anogaeth i edrych ar ddeunydd o'r fath dros gyfnod sylweddol, gallai hynny gyfiawnhau ymchwiliad pellach. Gall plant fwlio drwy gyfrwng negeseuon testun neu dynnu lluniau â chamera ffôn symudol o ymosodiadau treisgar ar blant eraill er mwyn eu cylchredeg.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.67 Mae Pennod 5.5 o Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn trafod delweddau anweddus o blant a'r Rhyngrwyd.

3.68 Mae adran ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 am ddelweddau o gam-drin plant, y Rhyngrwyd a thechnoleg gwybodaeth.

3.69 Gellir cael mwy o arweiniad, hyfforddiant a chymorth gan y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) sy'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth, cyrff gorfodi'r gyfraith, cyrff anllywodraethol (gan gynnwys elusennau plant) a diwydiant sydd â'r amcan o amddiffyn plant. Mae'n ceisio amddiffyn plant, teuluoedd a chymdeithas rhag pedoffiliaid a throseddwyr rhyw ac, yn benodol, y rheini sy'n ceisio camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein.

3.70 Yn 2006, ysgrifennodd y Gweinidog Addysg ar y pryd at yr holl awdurdodau lleol gan ofyn iddynt sicrhau nad oedd mynediad ar gael i wefannau rhwydweithio cymdeithasol mewn ysgolion. Roedd y cais hwn yn adlewyrchu pryderon gwirioneddol ynghylch gallu plant a phobl ifanc i'w hamddiffyn eu hunain ar-lein, yn enwedig wrth ddefnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol a oedd yn eithaf newydd bryd hynny.

3.71 Yn y cyfamser, mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol wedi dod fwyfwy'n rhan o'n bywyd beunyddiol, ac offer rhwydweithio cymdeithasol wedi dod yn agwedd annatod o'r defnydd o'r Rhyngrwyd o ddydd i ddydd. Mae hyn yn arbennig o wir am blant a phobl ifanc, felly mae'n hollbwysig ein bod yn trafod â nhw drwy eu haddysg sut i aros yn ddiogel ar-lein a pha mor bwysig yw parchu eraill. Nid yw'r arfer o atal mynediad at wefannau rhwydweithio cymdeithasol mewn ysgolion yn helpu i gyflawni'r nod hwn, er bod cyfyngiadau o'r fath wedi'u seilio ar bryderon dealladwy am gamfanteisio a bwlio ar-lein.

3.72 Ym Mawrth 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig ar y defnydd diogel a chyfrifol o wefannau rhwydweithio cymdeithasol mewn addysg ac ysgrifennu at yr holl awdurdodau lleol i ofyn iddynt gydweithio â Llywodraeth Cymru ar ddull newydd a mwy cadarnhaol o weithredu. Mae hyn yn cydnabod bod angen i blant ddeall sut i ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn ddiogel dan oruchwyliaeth ac yn annibynnol er mwyn meithrin sgiliau a gwybodaeth i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion digidol hyderus. Os na fydd mynediad ar gael i wefannau rhwydweithio cymdeithasol mewn ysgolion, bydd mwy o berygl i blant ddefnyddio'r gwefannau hyn y tu allan i'r ysgol, yn eu cartrefi, neu ar ddyfeisiau symudol, mewn amgylchiadau lle y gallent fod heb oruchwyliaeth a lle y bydd llai o gymorth ac arweiniad dibynadwy ar gael ynghylch sut i fod yn ddiogel ar-lein.

3.73 Yn 2008, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnwys addysgu ynghylch defnydd diogel a chyfrifol o'r Rhyngrwyd yng nghwricwlwm yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd. Yr egwyddor oedd addysgu plant i ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn ddiogel o dan oruchwyliaeth yn gyntaf, ac wedyn eu helpu i feithrin y sgiliau a dealltwriaeth angenrheidiol i reoli risg drostynt eu hunain wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn annibynnol. Mae caniatáu mynediad i wefannau rhwydweithio cymdeithasol mewn ysgolion yn gyson â'r dull hwn o

weithredu gan ei fod yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddysgu mathau o ymddygiad sy'n ddiogel, yn gyfrifol ac yn ystyriol yng nghyd-destun gweithgareddau addysgol â chymorth. Bydd hefyd o gymorth i ysgolion os byddant yn cynnwys rhieni yn y gweithgareddau hyn.

3.74 Drwy lwyfan dysgu Cymru gyfan, Hwb a Hwb+, mae Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion i wneud pob defnydd o dechnolegau cymdeithasol er mwyn cynnwys dysgwyr a gwella canlyniadau dysgu, gan hyrwyddo diwylliant o ddinasyddiaeth ddigidol ddiogel a chyfrifol yng Nghymru. Mae adnoddau e-ddiogelwch ar gael i bob ysgol ar Hwb a fydd yn helpu athrawon i godi ymwybyddiaeth o e-ddiogelwch ymysg rhieni a disgyblion. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'r Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol a Chanolfan Rhwydwaith Diogelach y DU i sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru'n cael y cyngor gorau posibl ar e-ddiogelwch.

### Ymateb i bryderon

3.75 Mae rhywfaint o dystiolaeth bod personau y ceir lluniau anweddus o blant yn eu meddiant yn debygol o gam-drin plant yn uniongyrchol. Felly, os ceir bod rhywun wedi gosod neu gyrchu deunydd o'r fath ar y Rhyngrwyd, dylai'r heddlu ystyried fel arfer a oes perygl bod yr unigolyn hwnnw'n cam-drin plant. Yn benodol, dylid darganfod pa gysylltiad sydd gan yr unigolyn â phlant yng nghyd-destun y teulu a chyflogaeth, ac mewn sefyllfaoedd eraill (e.e. gwaith gwirfoddol gyda phlant neu mewn swyddi cyfrifol eraill).

3.76 Os bydd pryderon neilltuol ynghylch un neu ragor o blant penodol, rhaid atgyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant.

### Dulliau rhagweithiol

3.77 Wrth gyflawni eu rôl o ran atal cam-drin ac esgeuluso plant, dylai darparwyr addysg ystyried cynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o ddefnydd diogel o'r Rhyngrwyd gan blant yn yr ysgol ac yn eu cartrefi. Mae'n bwysig bod hyn yn cynnwys hyfforddiant priodol i staff ysgol a chanllawiau ar ddefnydd diogel o'r Rhyngrwyd i blant a rhieni. Bydd y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn bartner allweddol wrth ddatblygu a chyflawni rhaglenni addysg a hyfforddiant.

## Cam-drin plant yng nghyswllt cred mewn 'dewiniaeth' neu gred ysbrydol arall

### Diffiniad a materion allweddol

3.78 Mae'r gred y gall rhywun gael ei "feddiannu gan ysbrydion" a "dewiniaeth" yn gyffredin. Nid yw'n gyfyngedig i wledydd, diwylliannau neu grefyddau penodol, nac yn gyfyngedig i gymunedau newydd o fewnfudwyr yn y wlad hon.

3.79 Mae nifer yr achosion hysbys o gam-drin plant sy'n ymwneud â honiadau o "feddiannu" neu "ddewiniaeth" yn fach, ond gall y plant sy'n gysylltiedig gael niwed i'w hiechyd corfforol a meddyliol, eu gallu i ddysgu, a'u gallu i ffurfio perthynas a meithrin hunan-barch.

3.80 Gall yr ymgais i "fwrw ysbrydion allan" olygu curo'r plentyn yn ddifrifol, llosgi, newynu, torri neu drywanu, a/neu ynysu, a bydd hyn yn digwydd fel arfer ar yr aelwyd lle y mae'r plentyn yn byw.

## Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.81 Mae canllawiau ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 ar gam-drin plant yng nghyswllt y gred y gall rhywun gael ei "feddiannu gan ysbrydion" neu "ddewiniaeth", neu mewn ffyrdd eraill sy'n ymwneud â chred ysbrydol neu grefyddol.

3.82 Cyhoeddwyd canllaw arfer da atodol mwy manwl o'r enw Diogelu Plant rhag Cam-drin sy'n Gysylltiedig â Chred eu bod wedi'u Meddiannu gan Ysbryd gan Lywodraeth Cymru yn 2008. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r dyletswyddau sydd ar ymarferwyr ac yn cynnig cyngor ynghylch beth i'w wneud os byddant yn amau bod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso oherwydd cred ei fod wedi'i feddiannu gan ysbrydion.

## Dangosyddion risg

3.83 Bydd cam-drin o'r fath yn digwydd fel arfer pan fydd y gofalwr yn credu bod plentyn yn "wahanol", gan briodoli'r gwahaniaeth hwn i'r gred bod y plentyn wedi'i "feddiannu" neu'n ymwneud â "dewiniaeth", ac yn ceisio "bwrw ysbrydion" ohono. Gellid credu bod plentyn yn "wahanol" am amrywiaeth o resymau gan gynnwys:

- anufudd-dod
- bod yn annibynnol
- gwlychu'r gwely
- ei fod yn cael hunllefau
- salwch
- anabledd

## Ymateb i bryderon

3.84 Dylai asiantaethau chwilio am y dangosyddion hyn, gallu adnabod plant sydd mewn perygl o gam-drin o'r math hwn ac ymyrryd er mwyn ei atal. Mae'n bwysig eu bod yn dilyn egwyddorion sylfaenol ar gyfer diogelu plant gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau; a bod yn feddwl-agored wrth siarad â rhieni a gofalwyr. Rhaid iddynt gydgysylltu'n effeithiol â chydweithwyr a ffurfio cysylltiadau â phobl allweddol yn y gymuned, yn enwedig os byddant yn gweithio gyda chymunedau o fewnfudwyr newydd, er mwyn deall y gwahanol agweddau ar gredoau diwylliannol mewn teuluoedd.

## Plant sy’n byw oddi cartref/mewn llety dros dro

### Diffiniad a materion allweddol

3.85 Ystyrir bod plant yn byw oddi cartref os ydynt yn yr amgylchiadau canlynol:

- Gofal maeth, wedi’i ddarparu gan yr awdurdod lleol neu gan asiantaeth annibynnol;
- Maethu preifat;
- Gofal preswyl, wedi’i ddarparu gan yr awdurdod lleol neu gan asiantaeth wirfoddol neu annibynnol;
- Unedau diogel;
- Ysgolion preswyl, wedi’u darparu gan yr awdurdod lleol neu gan y sector gwirfoddol/annibynnol;
- Sefydliadau iechyd fel ysbytai;
- Llety annibynnol sy’n cael ei ddefnyddio gan rai sy’n gadael gofal a phobl ifanc eraill sy’n iau na 18 mlwydd oed;
- Carchardai, canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwyr ifanc.

3.86 Rhaid rhoi’r un graddau o amddiffyniad i blant sy’n byw oddi cartref ag i blant sy’n byw gyda’u teulu.

3.87 Cafwyd adroddiadau sydd wedi datgelu nifer mawr o achosion o gam-drin ac esgeuluso plant sy’n byw oddi cartref, ac mae hyn wedi gwneud llawer i godi ymwybyddiaeth o’r graddau y mae plant yn agored i niwed mewn lleoliadau preswyl. Roedd nifer o’r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar gam-drin rhywiol, ond mae cam-drin ac esgeuluso corfforol ac emosiynol – gan gynnwys cam-drin gan gyfoedion, bwlio a chamddefnyddio sylweddau – yn fygythiad yr un mor fawr mewn lleoliadau preswyl. Rhaid peidio â bod yn ddifater am y problemau hyn gan gredu eu bod yn perthyn i’r gorffennol – mae angen gwylio’n barhaus.

3.88 Os caiff unigolion neu deuluoedd eu lleoli mewn llety dros dro, bydd hynny’n aml yn golygu eu bod yn bell o rwydweithiau cymorth blaenorol neu eu bod yn symud yn fynych. O ganlyniad i hyn, gallant ddisgyn drwy’r rhwyd a cholli cysylltiad â systemau cymorth ar gyfer iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a lles. Gwelir ffordd o fyw ddigyswllt iawn mewn rhai teuluoedd sydd wedi bod yn ddigartref ac wedi’u lleoli mewn llety dros dro gan awdurdodau lleol o dan y brif ddyletswydd digartrefedd.

3.89 Mae’n bwysig bod systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod plant mewn teuluoedd digartref yn cael gwasanaethau iechyd ac addysg yn ogystal â gwasanaethau penodol eraill gan fod y teuluoedd hyn yn symud yn gyson a gallent fod mewn perygl o golli cysylltiad â gwasanaethau.

3.90 Os oes pryderon ynghylch plant, rhaid dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.91 Mae canllawiau ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 ar blant sy'n byw oddi cartref a phlant mewn teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro.

3.92 Mae Pennod 4.2 o Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn trafod plant sy'n byw oddi cartref.

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant**

3.93 Mae staff mewn ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau addysg eraill mewn sefyllfa unigryw sy'n eu galluogi i adnabod ac atgyfeirio plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio arnynt yn rhywiol. Maent hefyd mewn sefyllfa lle y gallant helpu plant i fod yn llai agored i niwed ac i'r perygl o gamfanteisio rhywiol, ac i helpu plant sydd wedi'u cam-drin i ymadfer. Yn yr adran hon ceir gwybodaeth allweddol am gamfanteisio rhywiol ar blant a'r dyletswyddau a'r gofynion statudol sydd ar ysgolion a staff y gwasanaeth addysg yng nghyswllt cam-drin cudd iawn o'r math hwn.

### Diffiniad a materion allweddol

3.94 Y diffiniad o gamfanteisio rhywiol ar blant yn y canllawiau statudol Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yw gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol sy'n digwydd drwy gyfnewid rhyw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Nid yw camfanteisio rhywiol ar blant yn digwydd o'u gwirfodd ac ni allant gytuno i gael eu cam-drin; maent yn cael eu gorfodi a/neu eu cymell. Am fod y person ifanc yn ddiymgeledd ac oherwydd y broses o hudo gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau, ni all y person ifanc adnabod natur gamfanteisiol y berthynas a rhoi cydsyniad deallus. Mae hyn yr un mor berthnasol i bobl ifanc dan 18 oed fel y mae Deddfau Plant 1989 a 2004 yn nodi.

3.95 Mae camfanteisio rhywiol ar blant yn cynnwys:

- cam-drin drwy gyfnewid gweithgarwch rhywiol am ryw fath o daliad
- cam-drin drwy greu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant, boed yn lluniau, ffilmiau neu fathau eraill o dechnoleg
- cam-drin drwy feithrin perthynas amhriodol, boed drwy gysylltiad uniongyrchol neu ddefnyddio technolegau fel ffonau symudol a'r Rhyngrwyd
- cam-drin drwy fasnachu at ddibenion rhywiol

3.96 Mae camfanteisio rhywiol ar blant yn cynnwys gwahanol raddau o gymell, bygwth neu hudo, gan gynnwys pwysau dieisiau gan eu cyfoedion i gael rhyw, bwlio rhywiol (gan gynnwys seiberfwlio), a meithrin perthynas amhriodol at ddibenion rhywiol. Gall technoleg fod â rhan hefyd mewn cam-drin rhywiol, er enghraifft, drwy recordio achosion o gam-drin a'u rhannu ag

unigolion o'r un meddwl neu drwy fod yn gyfrwng i gyrraedd plant a phobl ifanc er mwyn meithrin perthynas amhriodol. Ceir llawer o fathau o gamfanteisio rhywiol ar blant gan gynnwys perthynas sy'n ymddangos yn 'gydsyniol' lle y mae rhyw yn cael ei gyfnewid am sylw, anwyldeb, lle i fyw neu anrhegion, yn ogystal â throseddau cyfundrefnol difrifol a masnachu mewn plant. Yr hyn sy'n nodweddu camfanteisio yw'r gwahaniaeth grym o fewn y berthynas. Bydd gan y cyflawnwr ryw fath o rym dros y dioddefwr bob amser, sy'n golygu bod y dioddefwr yn mynd yn fwy dibynnol wrth i'r berthynas gamfanteisiol ddatblygu.

3.97 Cafwyd gwaith ymchwil sy'n rhoi awgrym o natur a nifer yr achosion o gamfanteisio rhywiol ar blant yng Nghymru . Mewn astudiaeth gwmpasu a gwblhawyd yn 2005[3] cafwyd bod 184 o achosion gwahanol ledled Cymru lle y nodwyd bod camfanteisio rhywiol ar blant neu bobl ifanc. Cynhaliwyd astudiaeth beilot yng Nghasnewydd yn 2006[4] a oedd yn dangos bod 67 o blant a phobl ifanc mewn perygl sylweddol o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol. Roedd y data o'r astudiaeth beilot ynghyd â'r data a gasglwyd oddi wrth ddau awdurdod lleol arall yng Nghymru yn rhoi sampl o 1487 o achosion a oedd yn nwylo gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau troseddau ieuenctid[5]. O blith yr achosion hyn, roedd asesiadau risg yn dangos bod 9% (129) o blant a phobl ifanc mewn perygl sylweddol o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

3.98 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd am gamfanteisio rhywiol ar blant yng Nghymru'n awgrymu bod y rhan fwyaf o'r achosion yn digwydd 'oddi ar y stryd', mewn llety preifat, gwestai, neu sefydliadau sawna/tylino. Mae natur gudd y math hwn o gam-drin yn golygu bod y broblem hon yn un sydd 'o'r golwg' i raddau helaeth. Bydd bob amser yn anodd i blant a phobl ifanc ddatgelu achosion o drais a cham-drin rhywiol. Mae'r prosesau soffistigedig sy'n cael eu defnyddio gan oedolion i feithrin perthynas amhriodol a pharatoi plant a phobl ifanc i bwrpas rhyw a'r elfen o gyfnewid sydd yn y gamdriniaeth yn rhwystrau ychwanegol sy'n achosi mwy o wadu ac yn ei gwneud yn neilltuol o anodd iddynt ddatgelu achosion.

3.99 Felly, er mwyn diogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, mae'r gallu i adnabod plant a phobl ifanc sydd 'mewn perygl' yn hanfodol. Mae'r dystiolaeth o ymchwil am ffactorau sy'n peri bod plant yn agored i niwed a'r dangosyddion risg sy'n gysylltiedig â chamfanteisio rhywiol wedi'i hen sefydlu bellach. Gellir pennu lefel y risg drwy ystyried nifer ac amrediad y dangosyddion risg ym mywyd y plentyn.

---

[3] Coles, J (2005) *Out of sight, out of mind: Child sexual exploitation*, Caerdydd: Barnardo's Cymru

[4] Clutton, S. a Coles, J. (2007) *Sexual Exploitation Risk Assessment Framework: A pilot study*, Caerdydd: Barnardo's Cymru

[5] Clutton, S. a Coles, J. (2009) *Child Sexual Exploitation in Wales: 3 years on* , Caerdydd: Barnardo's

## Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.100  Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau atodol statudol yn Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol. Pwrpas y canllawiau yw helpu athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu ac ymarferwyr allweddol eraill i wneud y canlynol er mwyn atal camfanteisio rhywiol ar blant:

- datblygu strategaethau atal lleol
- adnabod y plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol
- cymryd camau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc penodol sydd neu a allai fod yn cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol a chymryd camau yn erbyn y rheini sy'n bwriadu cam-drin neu gamfanteisio ar blant a phobl ifanc fel hyn.

3.101  Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod staff sy'n gweithio ar draws asiantaethau'n gyfarwydd â chynnwys Protocol Cymru Gyfan ar Ddiogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol. Mae'r protocol hwn yn disgrifio'r Weithdrefn Amddiffyn Plant ffurfiol sydd i'w dilyn os oes pryder bod plentyn yn cael ei gam-drin, neu mewn perygl o gael ei gam-drin, drwy gamfanteisio rhywiol. Mae'n berthnasol i blant gwrywaidd a benywaidd hyd at 18 mlwydd oed p'un a ydynt yn byw'n annibynnol, yn byw gartref, gyda gofalwyr, neu mewn lleoliad preswyl.

3.102  O dan Brotocol Cymru Gyfan, rhaid i wasanaethau addysg bennu swyddog arweiniol ar gyfer camfanteisio rhywiol ar blant. Y Swyddog Amddiffyn/Diogelu Plant arweiniol a benodir gan mwyaf, ond nid ym mhob achos.  Hefyd rhaid dynodi athro neu athrawes ar gyfer camfanteisio rhywiol ar blant ym mhob ysgol (yr athro neu athrawes sydd wedi'i dynodi ar gyfer amddiffyn plant).  Mae'n ofynnol bod yr unigolion arweiniol hyn yn meddu ar arbenigedd penodol ym maes camfanteisio rhywiol ar blant, neu eu bod yn meithrin arbenigedd o'r fath. Dylent allu rhoi cyngor yn eu hysgol neu wasanaeth ynghylch adnabod plant sydd mewn perygl a'u hatgyfeirio a sut y gall eu hasiantaeth gyfrannu at leihau'r risg ac at lunio cynllun i ddiogelu plant. Bydd disgwyl hefyd iddynt gymryd rhan mewn cyfarfodydd amlasiantaethol o dan Brotocol Cymru Gyfan.

3.103  Mae'n bwysig bod pob ysgol a chyfleuster addysgol yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol er mwyn bod yn gymwys i adnabod plant a all fod yn agored i niwed neu mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol a chymryd camau priodol i ymateb i bryderon.

Rhaid i bob ysgol a chyfleuster addysgol sicrhau bod cyfeiriad yn eu gweithdrefnau amddiffyn plant at y cyfrifoldebau sydd wedi'u disgrifio yn y canllawiau hyn.

3.104  Mae'r NSPCC wedi cyhoeddi gwybodaeth am rôl ysgolion, colegau ac academïau yn gwarchod plant yn erbyn camfantiesio rhywiol. Mae'n darparu ystyriaethau ymarferol i ysgolion i warchod plant sy'n agored i gam-fanteisio'n

rhywiol ar blant a gwneud plant yn ymwybodol o'r risgiau. Ceir rhagor o wybodaeth am camfanteisio'n rhywiol ar blant ar wefan NSPCC.

### Dangosyddion risg

3.105 O dan y canllawiau statudol yn Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol a Phrotocol Cymru Gyfan mae hefyd yn ofynnol bod yr holl staff ym mhob asiantaeth (gan gynnwys ysgolion, sefydliadau addysg heblaw ysgolion, a cholegau addysg bellach) yn gyfarwydd â'r ffactorau sy'n peri bod plant yn agored i niwed a'r dangosyddion risg isod.

3.106 Mae'r ffactorau sy'n peri bod plant yn agored i niwed yn cynnwys:

- cam-drin neu esgeuluso gan riant/gofalwr/aelod o'r teulu
- hanes o fod yng ngofal awdurdod lleol
- hanes teuluol o gam-drin domestig
- hanes teuluol o gamddefnyddio sylweddau
- hanes teuluol o anawsterau iechyd meddwl
- tor-perthynas o fewn y teulu
- hunan-barch isel

3.107 Mae'r dangosyddion risg yn cynnwys:

- bod allan yn hwyr
- galwyr lluosog (oedolion/pobl ifanc hŷn anhysbys)
- defnydd o ffôn symudol sy'n achosi pryder
- ffyrdd o amlygu anobaith (hunan-niwed, gorddosio, anhwylder bwyta, ymddygiad heriol, ymddygiad ymosodol)
- rhoi gwybod am ymosodiad rhywiol neu gorfforol ac wedyn tynnu'r honiad yn ôl
- heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- cyfoedion sy'n 'clipio' (derbyn tâl yn gyfnewid am gytuno i gyflawni gweithred rywiol ond peidio â chyflawni'r weithred rywiol) neu'n ymwneud â chamfanteisio rhywiol
- camddefnyddio cyffuriau
- camddefnyddio alcohol
- defnydd o'r Rhyngrwyd sy'n achosi pryder
- llety anaddas neu amhriodol (gan gynnwys digartrefedd ar y stryd)
- wedi ynysu oddi wrth gyfoedion a rhwydweithiau cymdeithasol
- diffyg perthynas gadarnhaol ag oedolyn sy'n diogelu ac yn rhoi gofal
- gwaharddiadau o'r ysgol, absenoldebau o'r ysgol nas esboniwyd neu wedi ymddieithrio oddi wrth addysg neu hyfforddiant
- byw'n annibynnol a methu ag ymateb i ymgais gan weithwyr i gadw mewn cysylltiad

3.108 Mae'r dangosyddion risg sylweddol yn cynnwys:

- cyfnodau o fod yn absennol dros nos neu am gyfnod hwy
- 'cariad' hŷn neu berthynas ag oedolyn sy'n rheoli
- cam-drin corfforol neu emosiynol gan y 'cariad' neu'r oedolyn hwnnw sy'n rheoli

- mynd i mewn i gerbydau sy’n cael eu gyrru gan oedolion nad yw’n hysbys pwy ydynt neu adael cerbydau o’r fath
- symiau o arian sydd heb eu hesbonio, dillad drud neu eitemau eraill
- mynd i ardaloedd lle y gwyddys bod gwaith rhywiol yn mynd rhagddo
- anaf corfforol heb esboniad credadwy

3.109 Mae Protocol Cymru Gyfan yn cynnwys Fframwaith Asesu’r Risg o Gamfanteisio Rhywiol sy’n cynnig ffordd o gysylltu camau diogelu â thystiolaeth o berygl, gan hwyluso camau ataliol ac ymyriadau priodol. Ei bwrpas yw helpu i bennu ymatebion priodol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc o ran eu diogelu. Mae’n bwysig bod staff ysgolion yn effro ac yn gymwys i nodi a gweithredu ar bryderon bod plentyn yn agored i’r perygl o gamfanteisio rhywiol. Dylent fod yn gyfarwydd â’r Fframwaith Asesu a chamau gweithredu priodol sy’n gysylltiedig â phob lefel o risg.

### Ymateb i bryderon

3.110 Yn yr un modd â phob math o bryder ynghylch amddiffyn plant, dylai staff fod yn ymwybodol o bwysigrwydd rhoi gwybod am unrhyw bryderon bod plentyn mewn perygl o unrhyw fath o gamfanteisio rhywiol. Rhaid codi unrhyw bryderon bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol gyda’r athro neu’r athrawes a ddynodwyd ar gyfer camfanteisio rhywiol ar blant; bydd yr athro neu’r athrawes a ddynodwyd yn atgyfeirio’r mater i’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â pholisi’r ysgol ar amddiffyn plant. Mae’n hanfodol bod yr holl wybodaeth o bob ffynhonnell yn cael ei chasglu; bydd hyn o gymorth i gael darlun llawn o sefyllfa’r plentyn a’r posibilrwydd ei fod yn cael ei niweidio. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gesglir oddi wrth bobl ifanc eraill.

3.111 Dylai’r Gwasanaethau Cymdeithasol gwblhau Fframwaith Asesu’r Risg o Gamfanteisio Rhywiol o fewn saith diwrnod gwaith ar ôl atgyfeirio’r achos, i benderfynu a yw’r plentyn mewn angen ac a oes angen ei amddiffyn. Bydd yr asesiad o risg yn ystyried yr holl ffactorau a’r risgiau sy’n peri bod y plentyn yn agored i niwed ac yn rhoi’r plentyn mewn un o bedwar categori: ddim mewn perygl, risg fechan, risg ganolig neu risg sylweddol.

### Dulliau rhagweithiol

3.112 Anaml iawn y rhoddir gwybod am gam-drin o’r math hwn. Yn aml bydd y plant sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol yn byw mewn sefyllfaoedd risg uchel ac wedi’u hynysu oddi wrth oedolion sy’n eu diogelu ac yn gofalu. Gall y plant fod o dan bwysau mawr, bod yn ofnus neu wedi’u dychryn a/neu’n ddibynnol ar y rhai sy’n camfanteisio arnynt o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau. Felly gall plant wrthod cynigion o gymorth neu gefnogaeth, a rhaid dyfeisio ymyriadau sy’n delio â hyn. Mae’n bwysig bod staff yn cadw mewn cysylltiad a’u bod ar gael i blant a phobl ifanc nes byddant yn barod i feddwl am eu sefyllfa a derbyn cymorth.

3.113 Mae tystiolaeth yn dangos bod perthynas ag oedolyn gwarchodol a gofalgar sy’n herio canfyddiadau’r person ifanc dros amser yn gallu gwneud y

plentyn yn fwy ymwybodol o risgiau a phrofiadau.  Mae angen amser i sefydlu perthynas o ymddiriedaeth gadarnhaol â phlant a phobl ifanc o'r fath sy'n agored i niwed. Rhaid meithrin perthynas sy'n cynnig rhywbeth pendant i'r plentyn neu berson ifanc. Mae'n bwysig cydnabod, er hynny, nad cynnig cyfeillgarwch y mae'r gweithwyr, a bod gwahaniaethau anorfod o ran grym o fewn y berthynas. Rhaid i newid ddigwydd ar gyflymder a bennir gan y person ifanc a rhaid cynnig dewisiadau gwirioneddol i'r person ifanc a meithrin ymdeimlad o reolaeth gadarnhaol ynddo. Mae gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn sefyllfaoedd lle y maent yn agored i'r perygl o gamfanteisio rhywiol yn galw am agwedd anfeirniadol lle nad oes unrhyw beth yn rhoi sioc i'r staff. Rhaid bod yn gyson onest a gwrando ar farn plant a phobl ifanc a'i pharchu.

3.114  Erbyn i'r plentyn neu berson ifanc gyrraedd adeg yn ei fywyd lle y mae mewn perygl o gael ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, neu wedi'i gam-drin eisoes, bydd patrwm cymhleth o brofiadau bywyd wedi cael effaith negyddol ar bob agwedd ar ei fywyd. Oherwydd hyn, gall ymddangos yn 'strydgall' neu'n 'broblemus' i asiantaethau fel yr heddlu yn hytrach nag yn rhywun y mae angen cymorth arno. Gwneir defnydd o wybodaeth, hyfforddiant, dulliau o bennu risg, protocolau a gweithdrefnau a dulliau asesu i greu cynllun ar gyfer ymyrryd. Rhaid seilio dulliau o ymyrryd, cynorthwyo a gweithredu ar anghenion y plentyn neu berson ifanc a rhaid iddynt gael eu cyflawni gan weithiwr dibynadwy ar y cyd â rhwydwaith gwarchodol o asiantaethau priodol.

3.115  Bydd cwricwlwm Iechyd Personol ac Addysg Gymdeithasol yr ysgol yn gyfrwng da i gyflwyno gwybodaeth syml ar gyfer diogelu plant, i drafod syniadau am berthnasoedd rhywiol 'iach' ac i feithrin ymdeimlad o allu a rheolaeth mewn plant a phobl ifanc amdanyn nhw eu hunain a'u cyrff. Rhaid cynnwys cyfleoedd hefyd i blant a phobl ifanc ddeall y peryglon gwirioneddol o fod allan yn hwyr ac o fod yn absennol o'r ysgol, y cartref neu sefydliad gofal.

3.116  Bydd swyddogion lles addysg a staff bugeiliol eraill, wrth asesu a gweithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd a chydgysylltu â staff ysgol, yn gallu adnabod plant sy'n cael eu cam-drin, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, drwy gamfanteisio rhywiol. Os yw'r person ifanc yn adnabyddus i Swyddog Lles Addysg yn barod, disgwylir iddo gymryd rhan yn y cyfarfod strategaeth amlasiantaethol, a gynhelir o fewn 8 diwrnod wedi i ymarferwr fynegi pryder bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, a bydd yn cyfrannu i'r cynllun plentyn mewn angen neu gynllun amddiffyn plentyn.

**Plant sy'n colli addysg**

### Diffiniad a materion allweddol

3.117  Os yw plentyn neu berson ifanc yn derbyn addysg, nid yn unig bydd yn cael cyfle i wireddu ei botensial, bydd hefyd mewn amgylchedd lle y gall asiantaethau lleol ddiogelu a hyrwyddo ei les. Os bydd plentyn yn colli addysg, gallai fod mewn perygl o gael niwed sylweddol.

3.118  Mae staff mewn ysgolion yn gallu adnabod problemau ac anawsterau'n fuan, gweld lle y gallai problemau godi yn y dyfodol ac ymyrryd yn effeithiol, gan gydweithio â gwasanaethau eraill yn ôl yr angen. Am fod staff mewn ysgolion yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc bob dydd, maent mewn lle da i sylwi os bydd plentyn neu berson ifanc yn absennol.

3.119  Mae ymchwil wedi dangos bod plant a phobl ifanc sy'n colli addysg yn fwy tebygol o ymddwyn yn droseddol neu'n wrthgymdeithasol; o fod mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol ac erledigaeth; o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol; ac o gael eu cyflogi'n anghyfreithlon. Byddant hefyd yn fwy tebygol o fethu â phontio'n llwyddiannus yn 16 oed ac mewn mwy o berygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

3.120  Felly mae'n hanfodol bod yr holl weithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc yn cydweithio i nodi'r rheini sy'n colli addysg a sicrhau eu bod yn gallu dychwelyd yn fuan i ddarpariaeth o fath addas gyda chymorth priodol. Cafwyd consensws clir nad yw mwyafrif y bobl ifanc fwyaf anghenus yn cyrraedd sefyllfa o'r fath dros nos, felly bydd camau cynnar i adnabod ac atal problemau'n eu gwneud yn llai agored i niwed ac yn lleihau'r angen am gymorth yn y dyfodol.

3.121  Mae llawer math o resymau dros ymddieithrio o addysg neu golli addysg gan blant a phobl ifanc, ac mae gwahanol raddau o risg ynglŷn â phob un. Gall gynnwys:

- symud tŷ a'u teuluoedd heb hysbysu'r awdurdod newydd na'r un blaenorol am hynny;
- symud i ardal awdurdod lleol a heb gofrestru mewn ysgol leol. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl na fydd rhai rhieni o'r farn bod ailgofrestru mewn ysgol yn fater brys, hyd yn oed os oedd presenoldeb eu plant yn yr ysgol yn dda cyn hynny.  Yn wir, os yw eu plant bron â chyrraedd oedran gadael yr ysgol, mae'n bosibl na fydd y teulu'n credu ei bod yn berthnasol iddynt ddychwelyd i'r ysgol;
- peidio â gallu mynd i'w dewis ysgol am nad oes lle ar gael a heb dderbyn lle arall sydd ar gael;
- peidio byth â chael eu derbyn i'r system addysg am nad ydynt wedi dechrau mewn darpariaeth briodol ar ddechrau'r oedran ysgol gorfodol (nid yw'n ofynnol bod rhieni'n hysbysu awdurdodau lleol o'r ffaith eu bod yn bwriadu addysgu eu plentyn gartref os nad yw'r plentyn erioed wedi mynychu ysgol);
- eu bod wedi'u tynnu allan o'r ysgol gan eu rhieni ar ôl dewis eu haddysgu gartref, a'r ddau riant a'r ysgol wedi methu â hysbysu'r awdurdod lleol;
- wedi peidio â mynychu'r ysgol oherwydd anghydfod, anfodlonrwydd rhieni, gwaharddiad answyddogol neu am fod eu henw wedi'i dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol;
- wedi methu â chwblhau'r pontio rhwng darparwyr, er enghraifft, o ysgol gynradd i ysgol uwchradd neu o ysgol i fath arall o ddarpariaeth;
- dod i mewn i'r wlad a heb gofrestru mewn ysgol;

- symud i mewn ac allan o'r system Plant sy'n Derbyn Gofal neu sefydliadau diogel heb roi hysbysiad neu gynllunio o flaen llaw;
- eu bod wedi'u gwahardd neu wedi'u tynnu allan o ysgolion annibynnol;
- ddim am gael eu darganfod; gall teuluoedd newid eu henw a symud yn gyflym o le i le yn y DU; neu
- eu bod wedi'u tynnu o sefydliad addysg, neu eu hatal rhag ei fynychu, o ganlyniad i briodas dan orfod (gweler yr adran ar Briodas dan Orfod a Thrais er Anrhydedd, paragraff 3.290 – 3.316).

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.122 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg. Mae'n cynnig ffyrdd ymarferol o geisio nodi'r plant a phobl ifanc sy'n colli addysg. Yn yr adran hon rydym yn rhoi crynodeb o'r materion allweddol a'r cyfrifoldebau statudol y dylai gweithwyr addysg proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt.

3.123 Nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol i blant a phobl ifanc y mae eu rhieni wedi dewis eu haddysgu gartref. Mae rhieni o dan ddyletswydd i sicrhau bod eu plant yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w plant un ai drwy bresenoldeb rheolaidd mewn ysgol neu fel arall (o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996) ac maent yn cael trefnu'r addysg hon eu hunain y tu allan i'r system ysgolion gwladol neu'r system ysgolion annibynnol. Mae mwy o wybodaeth ar gael am addysg ddewisol gartref yn nogfen Llywodraeth Cymru Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.

3.124 O dan Adran 436A Deddf Addysg 1996 (a fewnosodwyd gan adran 4 Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006) mae pob awdurdod addysg lleol o dan ddyletswydd i wneud trefniadau i'w alluogi i ddarganfod (hyd y gellir) pwy yw'r plant yn ei ardal nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn cael addysg addas. Pwrpas y ddyletswydd yw sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n colli addysg yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod systemau monitro effeithiol ar waith i ddod o hyd i'r plentyn neu berson ifanc a chymryd camau i ddarparu addysg addas[6] ar ei gyfer. Gallai hyn gynnwys trefniadau cymorth hefyd.

3.125 Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i blant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol, ac nad ydynt yn cael addysg addas fel arall (er enghraifft, yn eu cartref, yn breifat, neu mewn darpariaeth amgen) ac sydd heb dderbyn unrhyw ddarpariaeth addysgol am gyfnod sylweddol, sef pedair wythnos neu fwy yn ôl yr hyn a gytunir fel arfer.

3.126 Nid yw'r ddyletswydd yn berthnasol i blant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol ond heb ei mynychu'n rheolaidd. Mewn achosion o'r fath, bydd ymyriadau ar gael ar gyfer y plentyn neu berson ifanc drwy strategaethau presenoldeb a gweithdrefnau lles addysg sydd wedi'u llunio'n barod ac mae hyn y tu allan i gwmpas y canllawiau hyn. Mae'r ddyletswydd newydd yn ategu ac yn cadarnhau dyletswyddau sydd ar ysgolion eisoes i

[6] Y diffiniad o addysg addas yn y Ddeddf yw addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w hoedran, gallu a dawn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddynt.

fonitro presenoldeb ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cydweithio ag ysgolion i sicrhau eu bod yn gwneud hyn yn effeithiol. Mae mwy o wybodaeth ar gael am gymorth i sicrhau presenoldeb yn adran 3 o ddogfen Llywodraeth Cymru Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (cylchlythyr 47/2006), ac Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb.

3.127 Mae cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol ac ysgol i geisio dod o hyd i bob plentyn neu berson ifanc sy'n peidio â derbyn addysg. Mae hyn yn hollbwysig gan ei bod yn bosibl bod y plentyn neu berson ifanc yn colli addysg am ei fod mewn perygl o gael niwed sylweddol. Os bydd pryderon ynghylch ble mae plentyn neu berson ifanc, rhaid dilyn gweithdrefnau a chanllawiau amddiffyn plant a gytunwyd yn lleol ynghylch y camau sydd i'w cymryd.

3.128 Rhaid i **awdurdodau lleol** sicrhau bod pob ysgol yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldeb sydd ar yr awdurdod a'r ysgol yng nghyswllt plant a phobl ifanc sy'n colli addysg, a bod gweithdrefnau lleol yn cael eu cymhwyso'n gyson gan ysgolion i ailgysylltu â phlant a chasglu gwybodaeth am ddysgwyr sy'n symud tŷ neu'n trosglwyddo rhwng ysgolion. Dylai awdurdodau lleol gydweithio ag ysgolion i ddatblygu a gweithredu modelau o arfer da a sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth priodol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

3.129 Rhaid i **ysgolion** roi systemau effeithiol ar waith i fonitro plant a phobl ifanc sy'n colli addysg. Mae hyn yn cynnwys penodi Cydgysylltydd Amddiffyn Plant dynodedig a fydd yn cael ei hysbysu am unrhyw blant sydd 'ar goll' (ac am unrhyw achosion o absenoldeb afreolaidd oherwydd gallai hyn ddangos bod risg neu le i bryderu). Bydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithdrefnau i hysbysu'r awdurdod o'r broblem wedi'u dilyn. Rhaid pennu cyfrifoldebau clir ar gyfer y rôl hon neu'r bobl hynny y mae'r dyletswyddau wedi'u dirprwyo iddynt. Rydym yn argymell yn gryf fod cymorth digonol yn cael ei ddarparu gan reolwyr i'r unigolion hyn er mwyn cyflawni'r rôl. Hefyd rhaid monitro'n rheolaidd y prosesau a'r niferoedd gan Uwch-reolwyr yr awdurdod lleol, Aelodau Etholedig a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc neu Fyrddau Lleol Diogelu Plant.

3.130 Rhaid i ysgolion osod canllawiau clir ynghylch y camau i'w cymryd i amddiffyn plant os byddant yn pryderu ynghylch ble mae unrhyw blentyn neu berson ifanc.

3.131 Mae **cyrff llywodraethu** yn atebol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith yn eu hysgol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac y monitrir i ba raddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio. Mae'n bwysig bod pob ysgol yn sicrhau bod y corff llywodraethu (neu'r perchennog yn achos ysgolion annibynnol) yn dynodi llywodraethwr a fydd yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant.

## Dangosyddion risg

3.132 Mae profiad lleol a chenedlaethol wedi dangos bod nifer o ffactorau risg sy'n peri bod rhai grwpiau o blant sy'n agored i niwed yn wynebu mwy o

berygl o golli addysg a mwy o rwystrau wrth ailafael yn eu haddysg. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob posibilrwydd, ond gall gynnwys plant a phobl ifanc:

- sydd o fewn y system cyfiawnder ieuenctid;
- sy'n byw mewn llochesau i fenywod;
- sydd mewn teuluoedd digartref sydd efallai'n byw mewn llety dros dro neu lety gwely a brecwast;
- sydd mewn teuluoedd sy'n ffoi rhag trais domestig;
- sydd â phroblemau meddygol neu emosiynol hirdymor;
- sy'n ofalwyr ifanc;
- y mae eu rhieni'n profi problemau iechyd meddwl;
- y mae eu rhieni'n profi anawsterau dysgu;
- y mae camddefnydd o sylweddau'n effeithio arnynt;
- a oedd yn cael eu haddysgu yn y sector ysgolion annibynnol o'r blaen ac sydd wedi'u gwahardd neu eu tynnu o'r ysgol;
- sydd wedi'u tynnu o'r ysgol gan eu rhieni er mwyn darparu addysg ddewisol gartref ond nad ydynt yn cael addysg addas;
- sy'n Derbyn Gofal gan yr awdurdod lleol; yn cael eu maethu'n breifat; neu'n mynd ar goll o sefydliad gofal;
- sy'n geiswyr lloches ar eu pen eu hunain;
- sydd ar y gofrestr amddiffyn plant;
- sydd wedi cael eu bwlio;
- sydd mewn teuluoedd sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches;
- sydd â chefndir Sipsiwn, Teithwyr neu Roma;
- sydd mewn teuluoedd sy'n symud yn aml e.e. am fod eu rhieni yn y lluoedd arfog;
- sy'n cael eu hebrwng ar wyliau hir neu ymweliadau treftadaeth gan eu teuluoedd; neu
- sy'n rhieni ifanc neu'n fenywod ifanc beichiog.

3.133 Bydd dysgwyr yn llai tebygol o golli addysg os bydd grwpiau ac unigolion y nodwyd eu bod mewn mwy o berygl yn cael eu hadnabod yn gynnar, yn derbyn cymorth priodol a'u cynnydd yn cael ei fonitro.

3.134 Bydd rhai achosion lle na fydd yr awdurdod lleol neu'r ysgol yn gwybod am blant a phobl ifanc sydd â phroblemau mwy cymhleth, ond gallant ddod i sylw asiantaethau eraill fel y gwasanaethau iechyd, yr heddlu neu sefydliadau cymunedol. Dim ond drwy ymgysylltu ag asiantaethau eraill y gellir dod i wybod am blant a phobl ifanc o'r fath ac mae hyn yn galw am waith partneriaeth da a dulliau atgyfeirio clir.

3.135 Gallai hyn gynnwys plant a phobl ifanc:

- sydd mewn perygl o briodas dan orfod a thrais er anrhydedd;
- sydd mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, gan gynnwys rhai sydd wedi'u dwyn i'r DU gan fasnachwr mewn pobl neu eu masnachu oddi mewn i'r DU;
- y mae eu teuluoedd yn rhan o'r rhaglen amddiffyn tystion ac wedi symud tŷ heb roi eglurhad neu adael ffordd o gysylltu â nhw;
- sydd mewn teuluoedd sy'n gysylltiedig â thwyll, problemau cymdeithasol, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

- sydd wedi rhedeg i ffwrdd o'u cartref;
- sydd mewn teuluoedd o weithwyr mudol sy'n anghyfarwydd â'r system addysg;
- sydd mewn teuluoedd mudol sydd newydd gyrraedd; neu
- sydd mewn teuluoedd sy'n diflannu heb adael ffordd o gysylltu â nhw ar ôl gwrthod lloches iddynt neu os nad yw llety wedi'i ddyrannu iddynt mewn lle o'u dewis.

3.136 Derbynnir bod y ffactorau uchod yn peri bod plant a phobl ifanc 'yn agored i niwed' ym mhob ystyr, felly mae'n bwysig iawn na chaniateir iddynt golli addysg. Rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol roi sylw neilltuol i blant a phobl ifanc yn y grwpiau hyn, yn enwedig pan fyddant yn gadael neu'n cyrraedd eu hardal. Gallent fod ag anghenion na fydd gwasanaethau cyffredinol yn gallu eu diwallu ac, mewn achosion o'r fath, dylai awdurdodau lleol ofyn am gyngor gan y timau arbenigol perthnasol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt.

3.137 Mewn rhai achosion bydd yr awdurdod yn gwybod ble mae'r plant neu bobl ifanc ond ni fyddant mewn darpariaeth addysg eto. Mae'n hollbwysig dilyn a monitro plant a phobl ifanc yn y grwpiau hyn i sicrhau bod darpariaeth addas ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, plant a phobl ifanc:
- sydd wedi cael cynnig lle mewn ysgol ac wedi'i wrthod, a lle y mae proses apelio yn mynd ymlaen;
- sydd wedi'u gwahardd yn barhaol ac sy'n aros i gael eu lleoli;
- sydd newydd gyrraedd y sir neu'r wlad, sy'n chwilio am le mewn ysgol a'r swyddogion derbyn yn gwybod amdanynt; neu
- lle y mae gan yr awdurdod lleol reswm da dros gredu nad yw addysg gartref foddhaol yn cael ei darparu gan y rhieni.

3.138 Bydd rhai plant a phobl ifanc wedi derbyn addysg mewn ysgol ac wedi gadael i fynd i le anhysbys heb roi cyfeiriad i gysylltu â nhw, a'r awdurdod lleol wedi methu â dod o hyd iddynt ar ôl gwneud ymchwiliad rhesymol. Er bod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg sy'n preswylio yn eu hardal, rydym yn argymell bod enwau'r rheini sydd wedi diflannu nad oes gwybodaeth am eu cyrchfan yn cael eu cadw ar restrau plant coll yr awdurdod y maent wedi'i adael. Dylid monitro'r rhestrau hyn yn rheolaidd oherwydd gallai'r plant ailymddangos yn y sir neu yn rhywle arall yn y wlad.

### Ymateb i bryderon

3.139 Mae cyfrifoldeb ar bob ymarferwr sy'n gweithio gyda phlentyn i roi gwybod i'r awdurdod lleol os yw'n gwybod neu'n amau nad yw'r plentyn yn derbyn addysg. Rhaid i benaethiaid ysgol a swyddogion lles addysg wneud pob ymdrech i gael gwybod ble mae'r plentyn neu berson ifanc. Dylid ystyried:
- am ba hyd y bu'n absennol;
- lefel y pryder;
- y peryglon y credir y gallai'r plentyn neu berson ifanc absennol fod yn agored iddynt.

3.140 Bydd y camau a gymerir gan yr ysgol a chyflymder yr ymateb yn dibynnu ar y graddau y credir bod y plentyn neu berson ifanc yn agored i niwed. Er mwyn asesu i ba raddau y mae'n agored i niwed, rhaid cael gwybodaeth broffesiynol a phrofiad o faterion lles plant ynghyd â gwybodaeth am amgylchiadau lleol. Os nad yw ysgolion yn sicr, rhaid iddynt ymgynghori â'r aelod staff sydd wedi'i ddynodi i gymryd cyfrifoldeb arweiniol dros faterion Amddiffyn Plant.

3.141 Os yw'n ymddangos bod plentyn neu grŵp o frodyr neu chwiorydd yn colli addysg neu wedi'u tynnu allan o ysgol a gynhelir yng Nghymru heb gael hysbysiad gan y rhiant/gofalwr neu heb i'r ysgol gael ei hysbysu am ysgol newydd, dylai'r ysgol geisio dod i gysylltiad â'r rhiant/gofalwr. Os na fydd yn llwyddo i wneud hyn, rhaid i'r ysgol hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg yn ddi-oed. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cydweithio â'r ysgol wedyn ac yn gwneud pob ymdrech i gael gwybod ble mae'r plentyn neu berson ifanc ar y pryd, neu i ble y mae'n mynd, cyn gynted â bod amheuaeth bod yr absenoldeb yn anarferol mewn rhyw ffordd.

3.142 Mewn achosion o driwantiaeth gyson, rhagwelir y bydd ysgolion wedi cydweithio â'u Swyddog Lles Addysg yn barod i geisio dod â'r disgybl yn ôl i'r system ysgolion. Hefyd bydd yr ysgol yn gwybod am y disgybl dan sylw ac a yw'r ymddygiad yn arferol. Dylai systemau fod ar waith eisoes mewn ysgolion i gysylltu â rhieni neu ofalwyr ar y diwrnod cyntaf y mae'r disgybl yn absennol o'r ysgol. Os na fydd plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar yr amser disgwyliedig, bydd yn bwysig bod yr ysgol yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am y person ifanc a'i hanes teuluol. Os oes pryderon am ddiogelwch y plentyn, rhaid eu hatgyfeirio ar unwaith i'r awdurdodau statudol i'w hystyried.

3.143 Os oes pryderon penodol ynghylch plentyn neu berson ifanc, rhaid gweithredu mewn ffordd fwy rhagweithiol a thrwyadl. Bydd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed:

- sydd â hanes o bresenoldeb gwael yn yr ysgol; neu
- lle y mae tystiolaeth o rianta gwael neu amhriodol.

3.144 Mewn achosion lle nad oes pryderon penodol, gellir cytuno ar gynllun gweithredu i'w ddilyn gan Swyddog Lles Addysg yr ysgol ac asiantaethau eraill sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn neu berson ifanc. Bydd yn cynnwys camau i chwilio am y plentyn yn lleol o fewn cyfnod penodol, gyda chamau dilynol priodol os na ddeuir o hyd i'r plentyn o fewn ardal yr awdurdod.

3.145 Gall y camau hyn gynnwys ymchwiliadau:

- gyda gwasanaethau cymdeithasol;
- yn y gymdogaeth a chyda gwasanaethau tai;
- gyda gwasanaethau lles addysg mewn awdurdodau lleol cyfagos.

3.146 Os bydd unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn absennol yn barhaus heb eglurhad neu os oes pryderon penodol o ran ei amddiffyn, rhaid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i achosion o'r fath a dylai ysgolion hysbysu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ar unwaith.

3.147 Wrth wneud ymholiadau ynghylch plant a phobl ifanc sy'n colli addysg lle y mae gwybodaeth am y posibilrwydd o gam-drin domestig, ni ddylai'r Gwasanaeth Lles Addysg gysylltu ag aelodau eraill o'r teulu oherwydd gallai hyn danseilio diogelwch y plentyn neu berson ifanc. Rhaid bod yn sensitif iawn wrth wneud ymholiadau a gall hyn arwain at oedi wrth ddod o hyd i'r plentyn neu berson ifanc. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl na fydd yn briodol trosglwyddo manylion am hanes y plentyn neu berson ifanc i ysgol newydd rhag ofn i'r camdriniwr gael gafael ar y cyfeiriad cyswllt newydd. Dylai awdurdodau lleol geisio meithrin cysylltiadau â sefydliadau a llochesau sy'n gweithio ym maes trais domestig er mwyn cymryd camau i sefydlu sianelau cyfathrebu a llwybrau atgyfeirio effeithiol a sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i drosglwyddo cofnodion yn ddiogel lle y bo modd, cysylltu ag awdurdodau lleol blaenorol i roi gwybod bod y plentyn yn ddiogel ac yn iach, a chydweithio â nhw i weld a oes pryderon eraill, e.e. o ran amddiffyn plant.

3.148 Yn y rhan fwyaf o deuluoedd, mae symud tŷ a newid ysgol yn ddigwyddiadau sydd wedi'u cynllunio a gellir casglu gwybodaeth am y bwriad i symud tŷ neu newid ysgol. Gall fod yn haws dilyn symudiadau plant a phobl ifanc ac arbed amser yn ddiweddarach os gofynnir i'r rhiant lenwi ffurflen i roi gwybodaeth o'r fath. Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn gweld mantais mewn cynnwys y ffurflen hon yn eu polisi ar bresenoldeb a'u pecyn derbyn i rieni, a gallent gyfeirio ati yn y cytundeb cartref-ysgol, ac atgoffa rhieni amdani mewn cylchlythyrau ysgol.

### Dulliau rhagweithiol

3.149 Mae awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt yn gallu defnyddio amrywiaeth o ddulliau rhagweithiol i leihau'r perygl i blant a phobl ifanc beidio â chael addysg addas. Mae arferion da yn y meysydd canlynol lle y gall yr awdurdod lleol gymryd camau drwy:

- enwi gweithwyr cyswllt a fydd yn derbyn hysbysiadau am blant a phobl ifanc oddi wrth asiantaethau eraill;
- nodi grwpiau ac unigolion sydd mewn mwy o berygl o gael niwed, gan sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol a darpariaeth addas;
- ei gwneud yn llai tebygol y bydd plant a phobl ifanc yn gadael y system addysg drwy ddilyn plant sy'n newid ysgol ac archwilio cofrestrau ysgolion;
- sicrhau defnydd llawn o s2s a'r gronfa ddata o ddisgyblion sy'n colli addysg, a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â nhw;
- dilyn achosion lle y gwyddys nad yw plant a phobl ifanc yn cael addysg addas gartref a defnyddio'r pwerau presennol o dan adran 437 o Ddeddf Addysg 1996 i roi gorchymyn mynychu'r ysgol os bydd angen;
- sicrhau bod grwpiau sy'n agored i niwed yn cael eu monitro a'u tracio'n barhaus, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol; Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant sydd wedi'u cofrestru'n rhai sy'n cael addysg mewn lle heblaw'r ysgol;
- nodi a dod o hyd i blant a phobl ifanc nad ydynt yn cael addysg addas, drwy gyrchu triwantiaid;
- dilyn ceisiadau am le mewn ysgol lle nad yw'r cynnig o le wedi'i dderbyn ac apeliadau derbyn sydd heb lwyddo;

- ailymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy ddarpariaeth addysgol briodol, er enghraifft drwy banelau amlasiantaethol i froceru trefniadau derbyn.

- Er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, neu ddod o hyd iddynt ac ailymgysylltu â nhw os ydynt wedi colli addysg, mae'n hanfodol bod amrywiaeth eang o asiantaethau'n cydnabod eu cyfrifoldeb dros ddiogelu plant yn y maes hwn. Gellir bod yn llawer mwy effeithiol wrth ddod o hyd i blant a phobl ifanc sy'n colli addysg os bydd asiantaethau'n cydweithio. Gall hyn olygu rhannu gwybodaeth, cymryd rhan mewn camau gweithredu neu gynorthwyo asiantaethau eraill. Bydd angen i sefydliadau lleol gydweithio i bennu a gweithredu strategaeth leol ar gyfer rhannu gwybodaeth, a gwneud cytundebau ar rannu data ag asiantaethau allweddol.

### Ymweliadau treftadaeth

3.150 Yng nghyswllt plant sy'n cael eu cymryd ar ymweliadau treftadaeth neu wyliau estynedig, mae'n bwysig cydnabod bod canlyniadau cadarnhaol o ran cynnal iaith, diwylliant neu ffydd yn gallu dilyn ymweliadau o'r fath. Rhaid sicrhau cydbwysedd synhwyrol rhwng angen dilys y teulu i gynnal cysylltiadau â'r teulu estynedig a'u gwlad enedigol ar y naill law a'r angen i gyfyngu'r amser a dreulir i ffwrdd o'r ysgol, o ran hyd ac amlder yr ymweliadau. Gall ysgolion arfer disgresiwn i ganiatáu hyd at 10 niwrnod o absenoldeb yn ystod tymhorau'r ysgol o fewn blwyddyn ysgol os credant fod cyfiawnhad dros hynny (rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 2010). Fodd bynnag, mater i'w benderfynu yn ôl disgresiwn pennaeth yr ysgol yw hyn.

3.151 Dylid gofyn a disgwyl i rieni roi gwybod o flaen llaw i'r ysgol bob tro am unrhyw fwriad i fynd ar wyliau estynedig neu ymweliadau treftadaeth gan gynnwys y dyddiad dychwelyd arfaethedig. Os oes modd, dylai ysgolion geisio cael manylion cyswllt ar gyfer yr ymweliad yn ogystal â manylion cyswllt perthynas neu ffrind y gellid cysylltu ag ef i gael gwybodaeth yn y DU os oedd angen. Mae enghraifft o gontract cartref-ysgol rhwng ysgol a rhieni ar gyfer gwyliau estynedig yn Atodiad 6 i ddogfen Llywodraeth Cymru Cyfarwyddyd statudol i gynorthwyo atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg.

3.152 Os na fydd plentyn yn dychwelyd ar y dyddiad a gytunwyd, bydd pryderon yn codi ynghylch ei les a dylid dechrau ymholiadau bryd hynny. Gellir ystyried bod plentyn neu berson ifanc sy'n colli addysg yn un sydd mewn perygl o gael niwed sylweddol. Bydd yr ysgol yn dilyn y gweithdrefnau arferol ar gyfer ymchwilio i absenoldeb disgyblion (h.y. galwadau ffôn, llythyrau, gwahoddiadau i gyfarfod yn yr ysgol etc). Os na cheir eglurhad boddhaol, rhaid atgyfeirio'r mater i'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn cael gwybod ble mae'r person ifanc. Os oes unrhyw bryderon ychwanegol, ac yn enwedig os oes gan yr ysgol reswm dros bryderu bod disgybl hŷn yn cael ei gymryd o'r wlad yn groes i'w ewyllys a bod perygl o briodas dan orfod, neu fod mater arall sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r gwyliau estynedig, rhaid atgyfeirio'r pryderon hyn ar unwaith i'r awdurdodau statudol i'w hystyried.

## Plant a allai fod wedi'u masnachu

### Diffiniad a materion allweddol

3.153 Os yw plant yn cael eu masnachu, maent yn cael eu cam-drin. Y diffiniad o fasnachu ym Mhrotocol Palermo i Atal, Dileu a Chosbi am yr Arfer o Fasnachu mewn Pobl, yn enwedig Menywod a Phlant (a gadarnhawyd gan y DU ar 6 Chwefror 2006) yw:

> the recruitment, transportation, transfer, harbouring or receipt of persons, by means of the threat of or use of force or other forms of coercion, of abduction, of fraud, of deception, of the abuse of power or of a position of vulnerability or of the giving or receiving of payments or benefits to achieve the consent of a person having control over another person, for the purpose of exploitation. Exploitation shall include, at a minimum, the exploitation of the prostitution of others or other forms of sexual exploitation, forced labour or services, slavery or practices similar to slavery, servitude or the removal of organs.

3.154 Mae Protocol Palermo yn datgan bod plant yn achos arbennig: cymerir bod pob plentyn a gludwyd er mwyn camfanteisio arno wedi'i gam-drin drwy fasnachu, p'un a yw wedi'i dwyllo neu beidio. Un o'r rhesymau am hyn yw'r gred na all plant roi cydsyniad deallus. Hyd yn oed os yw plentyn yn deall beth sydd wedi digwydd, gall ymddangos ei fod yn ufuddhau o'i wirfodd i'r hyn y mae'n credu yw ewyllys ei rieni neu'r oedolion sydd gydag ef. Mae'n bwysig bod y plant hyn yn cael eu hamddiffyn hefyd.

3.155 Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 wedi cyflwyno troseddau cynhwysfawr newydd sy'n ymwneud â masnachu mewn pobl i mewn neu allan neu oddi mewn i'r DU ar gyfer unrhyw fath o drosedd rywiol, sy'n dwyn cosb o hyd at 14 blynedd mewn carchar.

3.156 Roedd Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004 yn cynnwys trosedd newydd o'r enw masnachu mewn pobl er mwyn camfanteisio arnynt, sy'n ymwneud â masnachu mewn pobl er mwyn eu gorfodi i weithio a thynnu organau.

3.157 Mae plant a phobl ifanc sydd wedi'u masnachu'n dod i'r DU o bob rhan o'r byd. Bydd plant o'r fath yn dod i'r DU drwy wahanol ffyrdd. Bydd rhai'n dod i'r wlad yn geiswyr lloches ar eu pen eu hunain, neu'n fyfyrwyr neu ymwelwyr. Bydd plant hefyd yn cael eu hebrwng i'r wlad gan oedolion sy'n datgan eu bod yn ddibynyddion iddynt, neu'n cwrdd ag oedolyn yn y maes awyr sy'n honni ei fod yn berthynas iddynt. Cafwyd awgrymiadau bod plant wedi'u dwyn i'r wlad ar ôl trafodion ar y Rhyngrwyd, drwy drefniadau maethu ac o dan gontractau ar gyfer staff domestig. Mewn rhai achosion mae merched 16 neu 17 oed wedi'u twyllo i gymryd rhan mewn priodas ffug er mwyn eu gorfodi i fod yn buteiniaid.

3.158 Bydd y rhan fwyaf o blant yn cael eu masnachu er mwyn elw ariannol. Gall hyn fod ar ffurf taliad i rieni'r plentyn, neu daliad ganddynt, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y masnachwr hefyd yn cael tâl gan y rheini sydd am gamfanteisio ar y plentyn wedi iddo gyrraedd y DU. Mae rhywfaint o fasnachu'n cael ei wneud gan gangiau trefnedig. Mewn achosion eraill bydd oedolion neu asiantau unigol yn masnachu mewn plant yn y DU er mwyn cael elw personol. Gellir cam-drin plant yn y ffyrdd canlynol:

- camfanteisio arnynt yn rhywiol
- caethwasanaeth domestig
- camfanteisio ar eu llafur (e.e. slafdai, siopau trin ewinedd, bwytai, gwaith amaethyddol)
- troseddu (e.e. twyll cardiau credyd, cardota, pigo pocedi, tyfu cannabis, cludo cyffuriau, delio mewn cyffuriau neu hudo ar ran oedolion sy'n fasnachwyr cyffuriau)
- twyll budd-daliadau, weithiau o dan drefniadau maethu preifat sydd heb eu rheoleiddio
- priodas dan orfod.

3.159 Mewn rhai achosion bydd plant wedi'u masnachu i'w mabwysiadu y tu allan i'w gwlad enedigol. Mae'n bosibl y bydd y bobl sy'n hwyluso'r trefniadau hyn yn twyllo'r awdurdodau sy'n gyfrifol am y broses mabwysiadu, ac yn elwa'n sylweddol hefyd o daliadau gan ddarpar fabwysiadwyr a allai fod yn anymwybodol o wir amgylchiadau'r plentyn sydd ar gael i'w fabwysiadu. Gall hyn gynnwys talu, gorfodi neu dwyllo'r rhieni biolegol i drosglwyddo'r plentyn yn ogystal â herwgydio plant.

## Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.160 Mae Deddfau Plant 1989 a 2004 yn berthnasol i bob plentyn yn y DU y mae angen ei amddiffyn, gan gynnwys plant sy'n cael eu masnachu i'r DU. Mae adran ar Blant sy'n Dioddef yn sgil Masnachu mewn Pobl ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

3.161 Mae rhwymedigaethau rhyngwladol ar y DU hefyd yng nghyswllt masnachu mewn pobl o dan Brotocol Palermo y Cenhedloedd Unedig, Penderfyniad Fframwaith yr UE ar Fasnachu at Ddibenion Camfanteisio Rhywiol a Chamfanteisio ar Lafur, a Chonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl.

3.162 Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd ar Amddiffyn Plant a Allai Fod Wedi Cael eu Masnachu. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar arferion da i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ym mhob asiantaeth i'w helpu i gymryd camau effeithiol i ddiogelu plant sydd wedi'u cam-drin a'u hesgeuluso gan oedolion sy'n eu masnachu i mewn ac o gwmpas y DU er mwyn camfanteisio arnynt.

3.163 Ym Mawrth 2009, comisiynwyd ECPAT UK (End Child Prostitution, Child Pornography and Trafficking of Children for Sexual Purposes) gan Gomisiynydd Plant Cymru i ymchwilio i faint y masnachu mewn plant yng

Nghymru. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r astudiaeth yn yr adroddiad Ffiniau Pryder: Masnachu Plant yng Nghymru.

3.164 Yn 2011 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei Strategaeth ar Fasnachu mewn Pobl. Mae'r strategaeth hon yn rhoi pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o fasnachu mewn plant a sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn rhai eu hailfasnachu.

3.165 Mae'r Pecyn Cymorth ar Fasnachu mewn Pobl a ddatblygwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Llundain yn cynnwys canllawiau defnyddiol ar ddelio â masnachu.

3.166 Mae Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant a Allai Fod Wedi Cael Eu Masnachu yn rhoi canllawiau ymarferol i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ym mhob asiantaeth i'w helpu i gymryd camau effeithiol i ddiogelu plant sydd wedi'u cam-drin a'u hesgeuluso gan oedolion sy'n eu masnachu i mewn ac o gwmpas y DU er mwyn camfanteisio arnynt.

3.167 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ECPAT UK i ddatblygu adnoddau hyfforddi ar-lein am fasnachu plant *In Your Hands* i godi ymwybyddiaeth o fasnachu mewn plant a helpu ymarferwyr i adnabod a diogelu plant a allai fod wedi'u masnachu. Mae'r adnoddau hyfforddi ar gael ar wefan ECPAT UK yn: www.ecpat.org.uk.

### Dangosyddion risg

3.168 Ar ôl eu masnachu i'r DU, gall plant gael eu cofrestru mewn ysgol am dymor neu gyfnod hwy, cyn cael eu symud i ran arall o'r DU neu i wlad dramor. Gall y patrwm hwn o gofrestru a datgofrestru fod yn arwydd bod plentyn wedi cael ei fasnachu. Nodwyd bod hyn yn destun pryder penodol mewn ysgolion sy'n agos i borthladdoedd mynediad, ond rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn effro i'r posibilrwydd hwn ym mhob ysgol. Er hynny, dylai gweithwyr proffesiynol gofio bob amser nad yw pob plentyn sy'n mynd yn absennol o'r ysgol wedi cael ei fasnachu. Er enghraifft, ceir achosion o blant mewn cymunedau teithiol – Sipsiwn, Roma, teithwyr neu deuluoedd mudol – sy'n mynd yn absennol o'r ysgol gyda'i gilydd.

3.169 Bydd plant sydd wedi profi digwyddiadau bywyd penodol mewn mwy o berygl o golli addysg. Mae plant sydd wedi'u masnachu'n agored iawn i niwed. Felly rhaid i ysgolion fod yn effro i'r posibilrwydd bod plentyn sy'n mynd yn absennol o'r ysgol yn un sydd, neu sydd wedi bod, yn blentyn sydd wedi'i fasnachu sy'n byw mewn sefyllfa gamfanteisiol neu'n dianc oddi wrthi.

3.170 Mae pob plentyn sydd wedi cael ei fasnachu a'i gam-drin drwy gamfanteisio yn debygol o gael rhyw fath o niwed corfforol neu feddyliol, gan gynnwys:

- peidio â chael sylw meddygol rheolaidd neu frys
- heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, gan gynnwys HIV/AIDS; beichiogrwydd cynnar a'r posibilrwydd o niwed i'w iechyd atgenhedlol;
- curo a threisio;

- amddifadedd corfforol, amddifadedd synhwyraidd ac amddifadu o fwyd;
- cael ei ddistewi drwy ddefnyddio cyffuriau neu alcohol, y gallai ddod yn ddibynnol arnynt wedyn
- dryswch ar ôl gadael amgylchedd y teulu, a hynny wedi'i waethygu yn achos rhai plant drwy orfod mabwysiadu hunaniaeth newydd neu fod heb hunaniaeth o gwbl
- wedi'i ynysu oddi wrth y gymuned leol yn y DU drwy ei gadw o'r ysgol ac am nad yw'n siarad Saesneg
- byw mewn ofn o'r oedolion sydd â rheolaeth gorfforol drosto ac o'r bygythiad y bydd yr awdurdodau'n cael eu hysbysu ei fod yn droseddwr mewnfudo
- colli ymddiriedaeth ym mhob oedolyn
- anhwylder straen wedi trawma
- ôl-fflachiau, hunllefau, pyliau o orbryder, bod yn groendenau a symptomau eraill o straen fel chwalfa nerfol
- colli'r gallu i ganolbwyntio
- ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymosodol a dicllon a/neu ofnus a nerfus
- hunan-barch isel, iselder, hunanladdol.

3.171 Mae nifer o ffactorau risg sy'n dangos y gallai plentyn fod wedi cael ei fasnachu i'r DU, ac y gallai fod yn cael ei reoli o hyd gan y masnachwyr neu'r oedolion a'i derbyniodd. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd:

- lle nad oes pasbort neu fodd adnabod arall gan y plentyn
- lle y mae dogfennau ffug gan y plentyn
- lle nad yw'n ymddangos bod ganddo arian ond bod ganddo ffôn symudol
- lle y mae'n cael galwadau ffôn sy'n ddi-enw neu heb eu hegluro
- lle y mae'n cael ei yrru o le i le gan ddyn hŷn neu 'gariad'
- lle y mae wedi mynd i'w gragen ac yn gwrthod siarad
- lle y mae'n dangos arwyddion o ymddygiad neu iaith rywiol
- lle y mae'n dangos arwyddion o gam-drin corfforol neu rywiol, a/neu wedi cael haint a drosglwyddir yn rhywiol
- lle y mae ganddo hanes o gysylltiadau coll a symudiadau sydd heb eu hegluro
- lle y mae wedi mynd ar goll o sefydliad gofal awdurdod lleol
- lle y mae'n ofynnol iddo ennill lleiafswm o arian bob diwrnod
- lle y mae ei ryddid i symud o gwmpas yn gyfyngedig
- lle y mae'n ymddangos ei fod yn absennol am gyfnodau
- lle y gwyddys ei fod yn cardota am arian
- lle y mae'n cael gofal gan oedolyn/oedolion nad ydynt yn rhieni iddo.

### Ymateb i bryderon

3.172 Os bydd aelod o staff yn amau bod plentyn wedi cael ei fasnachu, rhaid iddo gymryd camau ar unwaith (o fewn 24 awr) i hysbysu'r uwch-aelod staff dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant a sicrhau bod yr heddlu neu adran gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol yn cael ei hysbysu ar unwaith. Os credir bod y plentyn mewn perygl dybryd, rhaid galw'r

gwasanaethau brys ar unwaith ar 999 neu'r NSPCC ar 0808 800 5000. Y cyngor gan Lywodraeth Cymru yn Amddiffyn Plant a Allai Fod Wedi Cael eu Masnachu yw bod atgyfeiriad geiriol gyda chofnod ysgrifenedig i'w wneud o fewn 48 awr ar ôl cysylltu.

3.173 Mae Canolfan Gynghori Genedlaethol yr NSPCC ar Fasnachu mewn Plant (CTAC) yn wasanaeth arbenigol am ddim sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol sy'n gyfrifol am blant sy'n dangos arwyddion eu bod wedi cael eu masnachu ac yn cynnig cyngor ar ddiwallu eu hanghenion mwyaf. Mae'n rhoi cymorth i atgyfeirio achosion i asiantaethau eraill a chyngor ar yr arferion gorau ar gyfer diogelu plant.

3.174 Mae CTAC yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP), Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU (UKHTC) a'r Swyddfa Gartref i ymateb yn briodol i blant sydd wedi dioddef oherwydd masnachu mewn pobl.

3.175 Mae Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU yn sefydliad amlasiantaethol sy'n cael ei arwain gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Mae'n ganolfan sy'n darparu arbenigedd ac yn cydgysylltu ymateb y DU i'r fasnach mewn pobl. Yn 2009 cyflwynodd y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM), i gyflawni rhwymedigaethau'r DU o dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn Erbyn Masnachu mewn Pobl. Mae'r NRM yn fframwaith ar gyfer adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl a sicrhau eu bod yn cael amddiffyniad a chymorth priodol. Yn ogystal â hyn, mae'r NRM yn ddull gwerthfawr a defnyddiol o gasglu a rhannu gwybodaeth am ddioddefwyr posibl rhwng asiantaethau i sicrhau bod anghenion plant sydd wedi dioddef yn cael eu hasesu a'u diwallu'n briodol.

3.176 Os bydd staff yn credu bod lle i bryderu bod rhywun wedi'i fasnachu, gallant atgyfeirio'r achos i'r NRM. Fel arfer bydd yr atgyfeiriad cyntaf yn cael ei drafod gan asiantaeth a awdurdodwyd sy'n cael ei galw'n 'ymatebwr cyntaf'. Ymhlith yr asiantaethau sy'n ymatebwyr cyntaf y mae Awdurdodau Lleol, yr NSPCC (CTAC), Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, heddluoedd, y Swyddfa Gartref, BAWSO, Byddin yr Iachawdwriaeth, Poppy Project, Migrant Help, Ymddiriedolaeth Medaille, Kalayaan, Barnardos, Unseen, a New Pathways.

3.177 Wedyn bydd yr ymatebwyr cyntaf yn atgyfeirio'r achos ymlaen i arbenigwyr hyfforddedig yn un o'r ddau 'awdurdod cymwys' yn y DU: UKHTC, sy'n delio ag atgyfeiriadau oddi wrth yr heddlu, awdurdodau lleol, a chyrff anllywodraethol, neu'r Swyddfa Gartref, sy'n delio ag atgyfeiriadau a gododd yn ystod y broses fewnfudo, er enghraifft lle y mae masnachu mewn pobl yn ystyriaeth mewn cais am loches.

3.178 Mae Children and Families Across Borders (CFAB) yn elusen annibynnol sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd wrth iddynt ddelio â materion cymdeithasol, cyfreithiol neu bersonol mewn cyd-destun rhyngwladol gan helpu plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu o ganlyniad i

fasnachu, herwgydio, mudo a cheisio lloches. Mae CFAB yn darparu gwasanaethau gwaith achos rhwng gwledydd yn uniongyrchol i unigolion a theuluoedd neu mewn partneriaeth ag awdurdodau perthnasol er mwyn sicrhau bod plant wedi'u diogelu wrth groesi ffiniau rhyngwladol a bod parch i'w hawl i gael bywyd teuluol. Bydd hefyd yn darparu cyngor a hyfforddiant ynghylch gwaith cymdeithasol rhwng gwledydd ac yn lobïo ac yn cynghori'r Llywodraeth i sicrhau bod deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau yn llesol i blant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd ar draws ffiniau rhyngwladol.

**Plant sy'n rhedeg i ffwrdd o'u cartref neu o leoliad gofal**

### Diffiniad a materion allweddol

3.179 Amcangyfrifwyd bod 100,000 o blant a phobl ifanc dan 16 oed yn rhedeg i ffwrdd yn y DU bob blwyddyn. Bydd un ym mhob naw o blant yn rhedeg i ffwrdd dros nos o leiaf unwaith cyn cyrraedd 16 oed. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn mynd yn absennol yn rheolaidd o'i gartref neu o leoliad gofal, bydd perygl nid yn unig iddo golli addysg ond hefyd iddo fod yn agored i niwed yng nghyswllt materion diogelu plant a chyfiawnder troseddol. Am fod ysgolion yn cofrestru plant a phobl ifanc bob dydd, mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae drwy nodi pryd y mae plentyn neu berson ifanc yn absennol o'r ysgol heb ganiatâd.

3.180 Bydd plant mewn perygl sylweddol o gael niwed pan fyddant i ffwrdd, a bydd llawer o blant yn mabwysiadu strategaethau peryglus er mwyn byw. Mae chwarter y plant sy'n rhedeg i ffwrdd mewn perygl mawr o gael niwed, oherwydd gallent gael eu brifo neu eu niweidio, cysgu allan neu gardota a dwyn er mwyn byw. Mewn arolwg diweddar gan Gymdeithas y Plant, Still Running 3, cafwyd bod un ym mhob naw o blant (11%) yn dweud iddynt gael eu brifo neu eu niweidio tra oeddent oddi cartref ar yr unig achlysur neu'r achlysur diweddaraf. Dywedodd un ym mhob chwech o blant (18%) eu bod wedi cysgu allan, neu wedi aros gyda rhywun yr oeddent newydd gwrdd ag ef, am ran o'r cyfnod y buont i ffwrdd o leiaf. Dywedodd un ym mhob wyth o blant (12%) eu bod wedi dwyn pan oeddent i ffwrdd ac un ym mhob 11 (9%) eu bod wedi cardota.

3.181 Mae llawer o blant yn rhedeg i ffwrdd dro ar ôl to – mae ychydig llai nag un rhan o dair o'r plant sy'n rhedeg i ffwrdd yn gwneud hynny o leiaf dair gwaith. Bydd bron un ym mhob 10 yn rhedeg i ffwrdd hyd at naw gwaith. Bydd ychydig mwy nag un ym mhob 20 yn rhedeg i ffwrdd 10 gwaith neu fwy. Mae'r plant hyn mewn mwy o berygl.

3.182 Mae cyfran sylweddol o blant yn aros oddi cartref am gyfnod hir ar ôl rhedeg i ffwrdd – bydd y rhan fwyaf yn aros oddi cartref dros nos ond bydd chwarter oddi cartref am ddwy i chwe noson. Bydd un ym mhob pump oddi cartref am fwy nag wythnos ar ôl rhedeg i ffwrdd a bydd hanner y rheini oddi cartref am fwy na phedair wythnos.

3.183  Yn aml bydd plant yn cael eu gorfodi i redeg i ffwrdd – dywed chwarter y plant eu bod wedi rhedeg i ffwrdd ar ôl cael gorchymyn i adael neu eu gorfodi'n gorfforol. Mae hyn yn cyfateb i bron 70 o blant bob dydd neu dri phlentyn bob awr.

3.184  Ni roddir gwybod bod plant wedi rhedeg i ffwrdd mewn llawer achos – nid yw asiantaethau proffesiynol yn gwybod am y rhan fwyaf o blant sydd wedi rhedeg i ffwrdd tra byddant oddi cartref.  Yn achos saith o bob deg o blant, ni fydd y rhieni'n hysbysu'r heddlu eu bod ar goll. Mae plant sydd wedi rhedeg i ffwrdd yn parhau'n amheus o'r awdurdodau ac ni fyddant yn chwilio am gymorth – dim ond 5% o'r plant sy'n rhedeg i ffwrdd a fydd yn gofyn am gymorth proffesiynol gan asiantaethau fel y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, athrawon a gwasanaethau iechyd tra byddant oddi cartref – un ai am nad ydynt yn gwybod beth sydd ar gael iddynt, neu am eu bod yn poeni am y canlyniadau o ofyn am gymorth.

3.185  Yr un yw'r peryglon sy'n wynebu pobl ifanc pa mor aml bynnag y byddant yn rhedeg i ffwrdd o'u cartref.  Mae plant sy'n rhedeg i ffwrdd bum gwaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion o fod â phroblemau â chyffuriau, saith gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cam-drin yn gorfforol ac mae bron hanner y bobl sydd wedi'u dedfrydu i garchar yn dweud eu bod wedi rhedeg i ffwrdd o'u cartref pan oeddent yn blant. Tra byddant oddi cartref mae nifer sylweddol o blant sydd wedi rhedeg i ffwrdd yn fwy tebygol o droi at droseddu er mwyn byw, ac maent yn fwy tebygol o brofi ymosodiadau corfforol a chamfanteisio rhywiol. Bydd un ym mhob 14 yn troi at gardota neu ddwyn neu'n ymwneud â chyffuriau a phuteindra.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.186  Mae dogfen Llywodraeth Cymru Cyfarwyddyd statudol i gynorthwyo atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg yn cynnig cymorth ymarferol i adnabod plant a phobl ifanc sy'n colli addysg, gan gynnwys plant sydd wedi rhedeg i ffwrdd o'u cartref.  Mae mwy o wybodaeth yn yr adran uchod ar blant sy'n colli addysg (paragraff 3.116 – 3.149).

3.187  Yn 2011, cyhoeddodd Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan Protocol Cymru Gyfan Plant sy'n Rhedeg i Ffwrdd neu'n Mynd ar Goll o'u Cartref neu o Leoliad Gofal.  Mae'n cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol i awdurdodau lleol ar eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gyfer delio â phlant a phobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd neu'n mynd yn absennol o'u cartref neu leoliad gofal.  Mae'r protocol hwn yn rhan o Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a rhaid ei ddefnyddio'n unol â'r egwyddorion sydd yn y canllaw statudol Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

### Dangosyddion risg

3.188  Mae ymchwil wedi dangos mai'r prif resymau dros redeg i ffwrdd yw gwrthdaro teuluol a phroblemau personol fel rhai sy'n ymwneud â pherthnasoedd, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, bwlio

a thriwantiaeth. Beth bynnag yw'r rheswm, mae'r ffaith bod plentyn wedi rhedeg i ffwrdd yn arwydd yn aml fod rhywbeth o'i le ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc a rhaid ymateb i hyn yn gyflym.

3.189 Ffactor posibl arall sy'n peri i blant neu bobl ifanc redeg i ffwrdd yw eu bod yn cael eu cam-drin. Mewn achosion o'r fath rhaid dilyn y trefniadau amddiffyn plant lleol drwy gysylltu â'r awdurdodau perthnasol.

3.190 Ceir plant sy'n rhedeg i ffwrdd ym mhob rhan o gymdeithas. Er hynny, mae rhai plant yn fwy tebygol nag eraill o redeg i ffwrdd:

- Mae tua 10% o ferched yn rhedeg i ffwrdd, mwy na'r nifer o fechgyn (8%).
- Mae plant sy'n anabl neu sydd ag anawsterau dysgu ddwywaith yn fwy tebygol o redeg i ffwrdd na phlant eraill gan fod 19% o blant anabl a 18% o blant sydd ag anawsterau dysgu yn gwneud hynny.
- Mae tua 40%–50% o blant sy'n byw mewn lleoliad gofal preswyl, gofal maeth a lleoliadau eraill wedi rhedeg i ffwrdd rywbryd.
- Mae nifer sylweddol o'r plant sy'n rhedeg i ffwrdd yn gwneud hynny pan fyddant yn iau. Bydd mwy nag un rhan o dair o'r plant sy'n rhedeg i ffwrdd yn gwneud hynny cyn cyrraedd 13 oed.
- Bydd plant yr un mor debygol o redeg i ffwrdd beth bynnag yw'r math o ardal ddaearyddol – boed yn ardal drefol neu wledig, yn ardal ddifreintiedig neu'n un fwy cefnog.
- Mae plant o gefndiroedd ethnig Indiaidd, Pacistanaidd a Bangladeshaidd yn llai tebygol o redeg i ffwrdd.
- Er bod plant yn fwy tebygol o redeg i ffwrdd os nad ydynt yn byw gyda'u teulu, mae'r rhan fwyaf o blant sy'n rhedeg i ffwrdd yn byw gyda'u teulu.
- Plant sy'n byw gyda'r ddau riant biolegol sydd leiaf tebygol o redeg i ffwrdd. Er hynny, mae'r astudiaeth hon yn awgrymu bod newidiadau diweddar yn strwythur y teulu, wedi i rieni wahanu neu ar ôl i lys-riant symud i'r cartref, yn bwysicach na strwythur y teulu o ran deall rhesymau plant dros redeg i ffwrdd.
- Mae ansawdd y perthnasoedd teuluol yn bwysicach na ffactorau economaidd. Roedd plant a oedd wedi rhedeg i ffwrdd yn ddiweddar wedi nodi bod eu perthnasoedd â'u rhieni'n llai cadarnhaol a bod lefelau uwch o wrthdaro teuluol. Roedd un ym mhob pump o'r plant sy'n byw mewn sefyllfaoedd o'r fath wedi rhedeg i ffwrdd yn y 12 mis diwethaf.

3.191 Rhai o'r agweddau eraill ar fywydau plant sy'n effeithio ar gyfraddau'r rhai sy'n rhedeg i ffwrdd yw cyfeillgarwch, eu profiadau yn yr ysgol a'u bodlonrwydd ar eu bywyd yn gyffredinol. Mae plant sy'n rhedeg i ffwrdd yn fwy tebygol o fod wedi cael:

- Cyfeillgarwch o ansawdd gwaeth na phlant eraill
- Bywyd ysgol llai hapus. Gallant fod wedi ymddieithrio rhag addysg, ac mae hyn yn debygol o effeithio ar eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol.
- Lefelau is o fodlonrwydd. Maent bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn anfodlon ar eu bywyd na phlant eraill.

### Ymateb i bryderon

3.192 Bydd y Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi defnyddio protocolau Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan i bennu gweithdrefnau manwl i'w dilyn gan ysgolion yng nghyswllt plant neu bobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd o leoliad gofal neu sy'n derbyn gofal, sy'n destun cynllun amddiffyn plentyn neu'n adnabyddus i asiantaeth statudol am fod pryderon ynghylch eu diogelwch. Bydd hyn yn golygu hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gweithiwr cymdeithasol neu reolwr tîm sydd wedi'i ddynodi.

3.193 Ym mhob achos arall rhaid i'r pennaeth ysgol hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Lles Addysg am bob person ifanc nad oes sicrwydd neu wybodaeth ble y mae neu os oes amheuaeth bod y plentyn neu berson ifanc wedi rhedeg i ffwrdd. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn gwneud ymholiadau, gan ymweld â'r cartref, ac yn cydgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, swyddog amddiffyn plant yr awdurdod lleol a'r heddlu i sicrhau eu bod wedi'u hysbysu bod y plentyn neu berson ifanc ar goll.

### Dulliau rhagweithiol

3.194 Mae gwasanaethau addysg yn chwarae rhan hanfodol o ran atal problemau ac ymyrryd yn gynnar drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth i bob plentyn i'w atal rhag rhedeg i ffwrdd. Rhaid cynnwys gwybodaeth i blant a phobl ifanc mewn addysg bersonol a chymdeithasol am achosion a pheryglon rhedeg i ffwrdd ac am y gwasanaethau sydd ar gael i'w helpu.

3.195 Hefyd dylai'r gwasanaeth addysg ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr ynghylch sut a ble i gael cymorth os bydd plentyn mewn perygl o redeg i ffwrdd neu'n dechrau gwneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth glir a chynhwysfawr am y pwysigrwydd o roi gwybod bod y plentyn ar goll a'r cymorth sydd ar gael gan yr heddlu ac asiantaethau eraill.

3.196 Bydd yr asiantaethau sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal yn dilyn gweithdrefnau neu brotocolau penodedig wrth gydgysylltu eu hymateb pan fydd plant a phobl ifanc yn mynd ar goll neu'n rhedeg i ffwrdd o'u lleoliad.

## Plant anabl

### Diffiniad a materion allweddol

3.197 Yr un yn y bôn yw'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant sydd ag anabledd a'r rhai ar gyfer plant eraill. Er hynny, mae cryn dystiolaeth bod plant sydd ag anabledd mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin, ac mae'n ymddangos bod plant ag anableddau lluosog mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

## Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.198 Mae canllawiau ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 ynghylch cam-drin plant anabl.

3.199 Mae Pennod 4.7 o Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cynnwys plant sydd ag anabledd sy'n cael eu cam-drin.

3.200 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cysoni'r gyfraith ar wahaniaethu ac yn cryfhau'r gyfraith i hyrwyddo cynnydd ar gydraddoldeb. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn disgyblion rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail 'nodweddion gwarchodedig'. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig.

3.201 Ym Mhennod 1 o Ran 6 o'r Ddeddf Cydraddoldeb nodir bod rhaid i ysgol beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgybl anabl neu ddarpar ddisgybl anabl:

- yn y ffordd y mae'n darparu addysg i'r disgybl
- yn y ffordd y mae'n rhoi mynediad i'r disgybl at fudd, cyfleuster neu wasanaeth
- drwy beidio â darparu addysg i'r disgybl
- drwy beidio â rhoi mynediad i'r disgybl at fudd, cyfleuster neu wasanaeth
- drwy roi'r disgybl o dan unrhyw anfantais arall.

3.202 Hefyd, rhaid i'r ysgol beidio ag erlid y disgybl nac aflonyddu arno. Mae hyn yn cynnwys pob gweithgarwch ym mywyd yr ysgol, gan gynnwys bwlio. Mae'n golygu na fydd unrhyw wahaniaethu yng ngweithgareddau'r ysgol a gall olygu y bydd yn rhaid i ysgolion adolygu eu harferion, eu polisïau a'u gweithdrefnau'n gyson i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr anabl.

3.203 Y prif ddyletswyddau i'r ysgol yng nghyswllt gwahaniaethu ar sail anabledd yw:

- Peidio â thrin dysgwr, oherwydd anabledd y dysgwr, yn llai ffafriol nag y mae'n trin dysgwr nad yw'n anabl. Gwahaniaethu uniongyrchol yw hyn ac ni ellir ei gyfiawnhau.

- Peidio â chymhwyso amod, maen prawf neu arfer (fel trefniant, rheol neu weithdrefn) sy'n gymwys i'r holl ddysgwyr os bydd yn peri, neu os gallai beri, bod dysgwyr anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â dysgwyr nad ydynt yn anabl ac na ellir cyfiawnhau'r amod, y maen prawf neu'r arfer fel ffordd gymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon. Gwahaniaethu anuniongyrchol yw hyn. Ystyr anfantais sylweddol ('substantial') yn ôl y Ddeddf yw anfantais sy'n fwy nag un fach neu ddibwys. Un enghraifft o hyn yw rheol gan ysgol fod rhaid i bob dysgwr ddangos ffitrwydd corfforol cyn cael ei dderbyn i'r ysgol. Bydd hyn yn anghyfreithlon oni bai fod yr ysgol yn gallu cyfiawnhau'r rheol.

- Peidio â thrin dysgwr anabl yn llai ffafriol oherwydd rheswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd a lle na ellir cyfiawnhau triniaeth o'r fath fel ffordd

gymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon. Gwahaniaethu sy'n codi o anabledd yw hyn. Nid yw'r cymhelliad y tu ôl i'w drin felly yn bwysig. Un enghraifft yw lle y mae athrawes yn aildrefnu ei hystafell ddosbarth fel bod y dysgwyr yn eistedd mewn grwpiau bach o gwmpas byrddau. Pwrpas hyn yw hyrwyddo gwaith grŵp gan ei bod yn credu y bydd hyn yn fanteisiol iawn ar gyfer y dasg nesaf. Yn anffodus, o ganlyniad i'r aildrefnu mae dysgwr sydd â nam ar ei glyw'n eistedd â'i ochr at flaen yr ystafell ddosbarth fel nad yw'n hawdd iddo ddarllen gwefusau'r athrawes. Yn wahanol i wahaniaethu uniongyrchol, nid oes rhaid i'r dysgwr ddangos mai ei anabledd yw'r rheswm dros y driniaeth. Er mwyn dangos gwahaniaethu sy'n codi o anabledd, rhaid iddo ddangos yn hytrach fod y penderfyniad i aildrefnu'r ystafell ddosbarth yn arwain at driniaeth anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n codi o ganlyniad i'r nam ar ei glyw.

- Cymryd hynny o gamau sy'n rhesymol i osgoi, hyd y gellir drwy ffyrdd rhesymol, yr anfantais sylweddol y mae'r dysgwr anabl o dani oherwydd ei anabledd. Yr enw ar hyn yw'r ddyletswydd addasiadau rhesymol. Mae'n golygu bod yr ysgol yn rhag-weld y rhwystrau rhag dysgu ac yn cymryd camau i'w dileu hyd y gellir.

### Dangosyddion risg

3.204 Mae plant anabl yn wynebu sawl math o rwystr mewn ysgolion ac mewn cymdeithas yn gyffredinol gan gynnwys:
- rhwystrau o ran agwedd, yn enwedig agweddau negyddol tuag at bobl anabl gan bobl nad ydynt yn anabl, gan gynnwys cyflogwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a darparwyr gwasanaethau sy'n atal pobl anabl rhag gwireddu eu potensial
- polisi, o ganlyniad i ffyrdd o ddylunio a chyflawni polisïau nad ydynt yn ystyried pobl anabl
- ffisegol, e.e. drwy ddyluniad yr amgylchedd adeiledig, systemau trafnidiaeth
- y rhwystrau sy'n ymwneud â grymuso, sy'n golygu na fydd pobl anabl yn cael eu cynnwys drwy wrando arnynt ac ymgynghori â nhw.

3.205 Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn y DU am raddau'r gamdriniaeth o blant anabl yn awgrymu bod plant anabl mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin ac, os oes ganddynt anableddau lluosog, ei bod yn ymddangos eu bod yn fwy agored i'r perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Gall plant anabl fod yn arbennig o agored i'r perygl o gael eu cam-drin am nifer o resymau. Bydd rhai plant anabl:
- heb gynifer o gysylltiadau allanol â phlant eraill;
- yn cael gofal personol, gan nifer o ofalwyr o bosibl, a gall hyn olygu eu bod yn fwy agored i'r perygl o gael eu cam-drin, a'i bod yn fwy anodd pennu a chynnal terfynau corfforol;
- â llai o allu i wrthsefyll neu osgoi camdriniaeth;
- yn ei chael yn anodd cyfathrebu fel ei bod yn fwy anodd dweud wrth bobl eraill beth sy'n digwydd;
- yn ymatal rhag cwyno am eu bod yn ofni colli gwasanaethau;

- yn fwy agored na phlant eraill i'r perygl o gael eu cam-drin gan eu cyfoedion;
- mewn perygl o gael eu cam-drin oherwydd methiant i adnabod eu hanghenion penodol neu i ddarparu mesurau diogelu, gwasanaethau neu ofal priodol;
- yn arbennig o agored i'r perygl o fwlio a bygwth.

3.206 Mae Cyswllt Teulu wedi llunio arweiniad ar ddelio â bwlio i rieni plant anabl (2010) lle y mae'n awgrymu y gall plant anabl fod yn fwy agored i'r perygl o fwlio oherwydd:

- agweddau negyddol at anabledd
- diffyg dealltwriaeth o wahanol anableddau ac anhwylderau
- eu bod yn cael eu gweld yn 'wahanol'
- nad ydynt yn gweld eu bod yn cael eu bwlio
- eu bod yn gwneud gwaith gwahanol neu'n cael cymorth ychwanegol yn yr ysgol
- eu bod wedi'u hynysu i fwy o raddau na phlant eraill oherwydd eu hanabledd
- eu bod yn ei chael yn anodd sôn wrth bobl am fwlio
- eu bod yn ei chael yn fwy anodd gwneud ffrindiau oherwydd eu hanhwylder
- eu bod yn amlygu ymddygiad bwlio
- eu bod yn symud yn aml fel bod rhaid iddynt ymgynefino ag amgylcheddau newydd. Rhai enghreifftiau o symud yw symud o uned arbennig i ysgol brif ffrwd, treulio cyfnodau yn yr ysbyty a dychwelyd i'r ysgol.

### Ymateb i bryderon

3.207 Os oes pryderon am les plentyn anabl, rhaid gweithredu arnynt yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, yn yr un modd ag unrhyw blentyn arall. Mae'r un trothwyon yn berthnasol ar gyfer gweithredu. Ni fyddai'n dderbyniol goddef safonau gofal gwael ar gyfer plant anabl na fyddent yn cael eu goddef yn achos plant sydd heb anabledd. Os oes anawsterau o ran dysgu neu gyfathrebu gan blentyn anabl, rhaid rhoi sylw arbennig i'w anghenion cyfathrebu, a chael gwybod am farn y plentyn am ddigwyddiadau, a'i ddymuniadau neu ei deimladau.

3.208 Rhaid gweithredu ar bryderon ynghylch lles plentyn sydd ag anabledd yn unol â'r canllawiau ym mhob un o'r gweithdrefnau hyn gan ystyried hefyd:

- A oes anawsterau gan y plentyn o ran cyfathrebu, dysgu a/neu iechyd emosiynol, fod angen rhoi sylw arbennig i'w anghenion cyfathrebu ac i gael gwybod am farn y plentyn am ddigwyddiadau, ei ddymuniadau a'i deimladau;

- Bod angen i wasanaethau cymdeithasol a'r heddlu sicrhau bod staff sy'n cynnal cyfweliadau wedi'u hyfforddi, a bod gwybodaeth ac adnoddau

arbenigol priodol ar gael iddynt. Bydd hyn yn cynnwys y defnydd o gyfieithwyr ar y pryd a hwyluswyr os yw'n briodol;

- Bod angen i ymarferwyr wylio rhag rhagdybiaethau ynghylch anallu'r plentyn i roi tystiolaeth gredadwy. Rhaid bod yn ofalus wrth geisio cael gwybodaeth gan blant y mae eu dealltwriaeth neu ffyrdd o gyfathrebu'n gyfyngedig.

### Dulliau rhagweithiol

3.209 Bydd llawer o weithwyr proffesiynol yn gwrthod credu bod plant anabl yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a byddant yn amharod i herio rhieni. Felly mae angen rhoi sylw penodol i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon ymysg y bobl sy'n gweithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd, ac o'r angen am safonau ymarfer uchel, ac i wella gallu plant a theuluoedd i'w helpu eu hunain.

3.210 Rhai o'r camau y gellir eu cymryd yw:
- ei wneud yn arfer cyffredin i helpu plant anabl i roi gwybod am eu dymuniadau a'u teimladau yng nghyswllt eu gofal a'u triniaeth;
- sicrhau bod plant anabl yn cael addysg bersonol, addysg iechyd ac addysg gymdeithasol briodol (gan gynnwys addysg rhyw);
- sicrhau bod pob plentyn anabl yn gwybod sut i fynegi pryderon os yw'n pryderu neu wedi digio am rywbeth, a gofalu bod nifer o oedolion ar gael y gall gyfathrebu â nhw. Yn achos plant anabl sydd ag anawsterau cyfathrebu, rhaid sicrhau bod ffordd o leisio barn ar gael iddynt bob amser;
- sicrhau bod ymrwymiad pendant i ddiogelwch a lles pob plentyn, a dealltwriaeth ohonynt, ymysg darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan blant anabl;
- cadw mewn cysylltiad agos â theuluoedd, a meithrin diwylliant agored mewn gwasanaethau;
- darparu canllawiau a hyfforddiant i staff ar arferion da mewn gofal personol; delio ag ymddygiad anodd; cydsynio i driniaeth; strategaethau gwrth-fwlio; a rhywioldeb ac ymddygiad rhywiol ymysg pobl ifanc sy'n byw oddi cartref.

3.211 Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn chwarae rhan bwysig wrth ddiogelu plant anabl drwy:

- codi ymwybyddiaeth ymysg plant, teuluoedd a gwasanaethau;
- adnabod a diwallu anghenion hyfforddi rhwng asiantaethau, gan gymell y rheini sydd â gwybodaeth a sgiliau yng nghyswllt anableddau a'r rheini sydd â gwybodaeth a sgiliau yng nghyswllt amddiffyn plant i rannu arbenigedd;
- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau lleol ar gyfer diogelu plant yn diwallu anghenion plant anabl.

## Trais domestig

### Diffiniad a materion allweddol

3.212 Diffiniad Llywodraeth Cymru o gam-drin domestig[7] yw unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad, trais neu gam-drin sy'n rheoli, gorfodi, neu'n bygwth rhwng y rhai sy'n 16 mlwydd oed neu drosodd sy'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau teulu waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall y cam-drin ymgorffori'r mathau canlynol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt::jh

- Seicolegol.
- Corfforol.
- Rhywiol.
- Ariannol.
- Emosiynol.

3.213 Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys trais 'ar sail anrhydedd', enwaedu benywod (female genital mutilation) a phriodasau dan orfod, ac mae'n amlwg nad yw'r dioddefwyr wedi'u cyfyngu i un rhyw neu grŵp ethnig.

3.214 O fewn y diffiniad hyn:

- *Ymddygiad sy'n rheoli* yw ystod o weithredoedd a gynllunnir er mwyn gwneud i rywun deimlo'n israddol a/neu'n ddibynnol drwy eu hynysu rhag eu ffynonellau cymorth, cam-fanteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er eu budd eu hunain, eu hamddifadu o'r hyn sydd ei angen er mwyn bod yn annibynnol, gallu gwrthsefyll a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad beunyddiol.

- *Ymddygiad gorfodol* yw gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiad, bygythiadau, sarhad a bygylu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar eu dioddefwr.

3.215 Gall menywod a dynion ddioddef cam-drin domestig mewn perthnasoedd heterorywiol, lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, a rhwng aelodau o deuluoedd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o lawer o gam-drin domestig yn cael ei chyflawni gan ddynion yn erbyn menywod a'u plant. Menywod ifanc rhwng 16 a 24 blwydd oed sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddioddef cam-drin domestig.

3.216 Bydd plant sy'n byw ar aelwydydd lle y ceir cam-drin domestig yn agored i berygl sylweddol o niwed. Mae Adran 31(9) o Ddeddf Plant 1989 yn ehangu'r diffiniad o niwed i gynnwys niwed o weld neu glywed person arall yn cael ei gam-drin (*'impairment suffered from seeing or hearing the ill treatment of another'*). Mae gweld neu brofi cam-drin domestig yn debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd a datblygiad plant, gan gynnwys materion ymddygiadol,

[7] Llywodraeth Cymru Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig: Strategaeth Cymru Gyfan, 2005

absenoldeb, iechyd gwael, bwlio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, hunan-niweidio ac effeithiau seicogymdeithasol.

3.217 Mae ystadegau'n dangos bod cysylltiad pendant rhwng trais domestig a cham-drin ac esgeuluso plant. Ceir hanes o drais domestig yn erbyn y fam mewn un ym mhob tri o achosion amddiffyn plant. Mae plant ar aelwydydd treisgar rhwng tair a naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanafu a'u cam-drin, un ai'n uniongyrchol neu wrth geisio amddiffyn eu rhiant. O'r achosion o gam-drin plant y mae'r NSPCC yn delio â nhw, mae un ym mhob pump yn ymwneud â cham-drin domestig; mewn naw achos ym mhob deg, mae plant neu bobl ifanc yn bresennol ac yn profi effaith yn y cartref wrth i'r cam-drin ddigwydd; ac yn oddeutu hanner yr achosion, mae plant yn cael eu cam-drin hefyd.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.218 Yn 2005 lansiodd Llywodraeth Cymru Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig: Strategaeth Cymru Gyfan.

3.219 Yn 2007, cyhoeddodd Canllawiau ar Gam-drin Domestig: Cefnogi Pobl a Gweithio Aml-asiantaeth, sef cyfarwyddyd i helpu cyrff comisiynu i sicrhau bod darpariaeth briodol o gymorth a llety i deuluoedd sy'n profi cam-drin domestig ac i hybu gwaith mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau ac arferion priodol yn cael eu rhoi ar waith.

3.220 Yn 2009 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw arfer da ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau addysgol, Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

3.221 Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Fframwaith Gwasanaeth i Ddiwallu Anghenion Pobl sydd â Phroblemau Cam-drin Domestig a Chamddefnyddio Sylweddau i helpu cynllunwyr, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau ar gyfer cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau i greu cysylltiadau cadarn rhwng gwasanaethau Cam-drin Domestig a Chamddefnyddio Sylweddau a fydd yn rhoi llwybr gofal di-dor i'w holl gleientiaid.

3.222 Yn 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Yr Hawl i Fod yn Ddiogel, strategaeth integredig chwe blynedd i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a phlant y tu allan i leoliadau domestig, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, treisio, priodas dan orfod, troseddau er anrhydedd (gan gynnwys llofruddiaeth) ac enwaedu benywod. Mae adran yn y strategaeth hon o'r enw 'Gwella ein Hymateb mewn Ysgolion'.

3.223 Yn 2011, lansiodd Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n Cael eu Heffeithio gan Gam-drin Domestig. Mae arweiniad yn y ddogfen hon ar ddiogelu plant sydd, am eu bod mewn teulu/perthynas, yn ymwybodol o gam-drin domestig neu'n dargedau iddo.

3.224 Mae'r Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru) arfaethedig yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a bydd yn sail i'n strategaeth integredig, 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' ar gyfer mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, a oedd yn nodi'r cynigion deddfwriaethol a pholisi rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Chwefror 2013; mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd y ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar dri maes penodol: gwella arweinyddiaeth ac atebolrwydd; gwella addysg ac ymwybyddiaeth; a chryfhau gwasanaethau yng Nghymru. Bydd canllawiau i gefnogi'r ddeddfwriaeth yn cael eu paratoi pan ddaw'r ddeddfwriaeth yn ddeddf.

### Dangosyddion risg

3.225 Rhaid i ysgolion a staff addysgol wylio am arwyddion bod disgyblion yn byw mewn amgylchedd lle y ceir cam-drin domestig. Rhai arwyddion posibl yw triwantiaeth ac absenoldeb, newidiadau mawr mewn ymddygiad ac ymateb emosiynol annodweddiadol.

3.226 Mae'n bosibl y bydd disgyblion sydd wedi gweld cam-drin domestig yn amlygu problemau neu newidiadau mewn ymddygiad a fydd yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i ddysgu. Mae'n hanfodol bod staff yn cydnabod y gall plant fod ag angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol os byddant yn cael profiad o'r fath. Dylai pob aelod staff fod yn gyfarwydd â'r dangosyddion canlynol sy'n rhai dangosol yn hytrach na rhai 'hollgynhwysol':

- Plentyn yn datgelu beth sydd wedi digwydd yn uniongyrchol;
- Anafiadau/cleisiau anesboniadwy;
- Dillad sy'n anaddas i'r adeg o'r flwyddyn sy'n cuddio anafiadau o'r fath e.e. siwmper lewys hir yn yr haf;
- Cyrraedd yr ysgol yn hwyr/aros yn hwyr ar ôl ysgol; peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlar;
- Ffugio salwch i aros o'r ysgol/dod i'r ysgol hyd yn oed os yw'n sâl;
- Hunan-niweidio; gweithredoedd/meddyliau hunanladdol;
- Trafferth canolbwyntio, dryswch;
- Anawsterau cysgu neu fwyta;
- Colli pwysau/anhwylderau bwyta;
- Hunllefau a meddyliau sy'n torri ar draws/delweddau o drais;
- Absenoldeb o'r ysgol a/neu gyrhaeddiad is yn yr ysgol;
- Triwantiaeth; presenoldeb gwael; rhedeg i ffwrdd o'r cartref;
- Gorbryder; ofn; hunan-barch isel; mynd i'w gragen;
- Anawsterau wrth ffurfio perthynas â chyfoedion;
- Sgiliau cymdeithasol gwael/sgiliau cymdeithasol datblygedig iawn;
- Diffyg sgiliau ar gyfer datrys anghydfod/diffyg empathi ag eraill;
- Ymateb emosiynol; ymddygiad ymosodol a threisgar gan gynnwys bwlio;
- Troseddu;
- Diffyg ymddiriedaeth;
- Aeddfedrwydd datblygedig/ymdeimlad o gyfrifoldeb;

- Plant sy'n cael eu danfon a'u nôl o'r ysgol mewn oedran pan nad yw hynny'n briodol;
- Bod yn gyfrinachgar am fywyd teuluol;
- Agwedd ymosodol/dicter tuag at riant/brodyr neu chwiorydd; agwedd amddiffynnol at riant/brodyr neu chwiorydd;
- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau.

### Ymateb i bryderon

3.227 Os oes gan athro neu aelod staff arall reswm dros gredu bod plentyn mewn perygl oherwydd cam-drin domestig, neu'n dioddef cam-drin domestig, rhaid hysbysu'r athro dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ar unwaith. Bydd yr athro dynodedig yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros wneud atgyfeiriad priodol i'r gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

3.228 Yn gyffredinol, rhaid peidio â rhoi gwybod am honiadau o gam-drin domestig i'r partner sy'n cam-drin. Mae'r angen am gyfrinachedd yn bwysicach nag arfer oherwydd gallai oedolion a phlant fod mewn perygl o'u cam-drin ymhellach os bydd y camdriniwr yn dod i wybod bod y dioddefwr wedi sôn am y cam-drin wrth asiantaeth allanol. Hefyd, mae'n bosibl na fydd y dioddefwr/goroeswr yn dymuno i aelodau eraill o'r teulu wybod ei fod wedi datgelu gwybodaeth am y cam-drin, neu i weithwyr proffesiynol eraill gael eu hysbysu am y cam-drin. Ni ddylid rhannu'r wybodaeth hon heb gael caniatâd gan y dioddefwr/goroeswr. Os bydd y dioddefwr/goroeswr yn rhoi caniatâd, rhaid i'r asiantaethau sy'n asesu gael sicrwydd ei fod yn ymwybodol o'r darlun cyflawn.

3.229 Er hynny, rhaid egluro na ellir gwarantu cyfrinachedd os yw'n gwrthdaro'n uniongyrchol â pherygl dybryd i ddiogelwch plant, mewn sefyllfaoedd hirsefydlog lle y credir bod effeithiau cronnol y cam-drin yn annerbyniol neu lle y mae perygl i fywyd.

3.230 P'un a fydd y plentyn neu'r rhiant sy'n cael ei gam-drin yn datgelu'r cam-drin neu beidio, pan ddaw gweithiwr proffesiynol i wybod am gam-drin domestig mewn teulu, er mwyn asesu a gofalu am faterion sy'n ymwneud â diogelwch presennol y plant, y rhiant sy'n cael ei gam-drin a'r gweithiwr proffesiynol, dylai'r gweithiwr proffesiynol gael cadarnhad o'r canlynol:

- Natur y cam-drin;
- A oes plant eraill ar yr aelwyd. Os oes, beth yw nifer y plant, eu hoedran ac a oes ganddynt anghenion arbennig (mae plant ifanc a phlant sydd ag anghenion arbennig yn agored iawn i niwed am na allant fabwysiadu strategaethau i'w diogelu eu hunain ac maent yn dibynnu am amddiffyniad ar y rhiant sy'n cael ei gam-drin);
- A yw partner y rhiant sy'n cael ei gam-drin gydag ef, a ble mae'r plant;
- Beth yw ofnau'r plentyn neu'r rhiant sy'n cael ei gam-drin ar y pryd;
- A oes angen gofyn am gymorth ar unwaith;
- A oes rhywle diogel y gall y plentyn/plant a'r rhiant sy'n cael ei gam-drin fynd iddo.

3.231 Ni ddylai gweithwyr proffesiynol bwyso ar y plentyn i gael atebion. Yn hytrach, dylent gyfnerthu a chefnogi plant sy'n datgelu camdriniaeth drwy wneud y canlynol:

- Gwrando ar yr hyn y mae'r plentyn/y rhiant sy'n cael ei gam-drin yn ei ddweud a'i gymryd o ddifrif;
- Egluro'r angen i sicrhau ei fod ef ac eraill yn y teulu'n ddiogel. Bydd hyn yn golygu rhannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol sy'n gallu helpu'r plentyn/plant a/neu'r rhiant sy'n cael ei gam-drin i barhau'n ddiogel (terfynau cyfrinachedd).
- Sicrhau'r plentyn/plant nad oes bai arnynt am y cam-drin (sydd wedi'i gyfeirio at y rhiant sy'n cael ei gam-drin a'r plentyn/plant hefyd o bosibl), ac nad nhw sy'n gyfrifol am ei atal;
- Rhoi nifer o rifau ffôn i'r plentyn/plant, gan gynnwys yr heddlu lleol, gwasanaethau eiriolaeth lleol sy'n delio â cham-drin domestig (dylid cyfeirio at wybodaeth sydd wedi'i darparu'n lleol), adran gwasanaethau plant yr awdurdod lleol a gwasanaethau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol.

3.232 Rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau na fydd eu hymdrechion i asesu cam-drin domestig na'u hymateb i achosion o gam-drin sydd wedi'u darganfod neu eu datgelu, yn ysgogi mwy o drais. Yn benodol, rhaid i weithwyr proffesiynol gofio:

- na ddylid byth sôn am faterion sy'n ymwneud â cham-drin domestig wrth y plentyn na'r rhiant sy'n cael ei gam-drin oni bai eu bod ar eu pen eu hunain mewn lle preifat a diogel;
- nad yw gwahanu'n sicrhau diogelwch; yn aml bydd yn cynyddu'r perygl i'r plentyn/plant neu'r rhiant sy'n cael ei gam-drin, am gyfnod o leiaf.

3.233 Bydd gweithwyr proffesiynol mewn perygl bob amser wrth weithio gyda theulu y mae un neu fwy o'i aelodau'n cam-drin. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol:

- yn ymwybodol bod cam-drin domestig yn digwydd mewn nifer o'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw, ond nad yw wedi'i ddatgelu neu ei ddarganfod;
- yn sicrhau bod gweithwyr eraill yn yr asiantaeth sy'n ymwneud â'r teulu'n cael eu hysbysu am unrhyw berygl.
- yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â pholisi eu hasiantaeth ar ddiogelwch yn y gwaith;
- yn peidio ag ymweld â chartref ar eu pen eu hunain os yw'n bosibl y bydd partner sy'n cam-drin yn bresennol, ac na fyddant yn cwrdd â phartner sy'n cam-drin ar eu pen eu hunain yn eu swyddfa;
- yn osgoi mynd i sefyllfa beryglus (e.e. drwy gynnig siarad â'r camdriniwr am y rhiant sy'n cael ei gam-drin neu drwy gael eu gweld gan y camdriniwr yn fygythiad i'w berthynas);

3.234 Rhaid i reolwyr sicrhau bod gweithwyr proffesiynol wedi derbyn hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i weithio gyda phlant a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig. Mewn sesiynau

goruchwylio, dylent ganiatáu i weithwyr proffesiynol grybwyll unrhyw ofnau sydd ganddynt am fod yn darged trais eu hunain mewn achosion penodol, a gofalu hefyd eu bod yn dilyn arferion diogel ym mhob achos lle y mae gwybodaeth neu amheuaeth am gam-drin domestig.  Rhaid i bob sefydliad sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn dilyn eu polisïau mewnol ar iechyd a diogelwch.

### Dulliau rhagweithiol

3.235  Mae gwaith atal problemau ar lefel sylfaenol yn hanfodol i atal cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf. Un o'r prif amcanion yng Nghymru yw sicrhau bod yr holl sefydliadau'n ymdrechu i greu amgylchedd sy'n grymuso plant a phobl ifanc. Mae angen codi materion i'w trafod a'u cwestiynu er mwyn newid ymddygiad ac agweddau meddwl er gwell. Gall ysgolion chwarae rhan bwysig o ran herio stereoteipiau sydd wedi'u seilio ar ryw. Rhywbeth yr ydym yn ei greu yw diwylliant: rhaid i ni geisio creu diwylliant ysgol yng Nghymru sy'n croesawu amrywiaeth ac unigoliaeth ac yn rhoi gwerth ar hunan-barch a pharch tuag at eraill. Dylai gwaith i fynd i'r afael â cham-drin domestig fod yn rhan o ethos 'ysgol gyfan' ac yn rhan o ddiwylliant sefydliadau eraill fel y rhai sy'n gwneud gwaith ieuenctid.

3.236  Mae'n bwysig bod ysgolion yn mynd i'r afael â cham-drin domestig fel pwnc. Mae cam-drin domestig yn beth cyffredin ond yn beth drwg. Bydd unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd neu a fu'n dioddef oherwydd cam-drin domestig yn ei gartref yn gallu cael cysur o wybod hyn.

3.237  Dylid integreiddio gwaith ataliol â phob agwedd ar fywyd yr ysgol hyd y gellir a'i drafod ym mhob maes priodol yn y cwricwlwm, er enghraifft mewn gwersi Saesneg, Cymraeg, Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol.  Bydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol o ansawdd da yn helpu i greu ethos ysgol cadarnhaol sy'n creu amgylchedd diogel i ddisgyblion lle y gallant ddysgu a chael cyfle a hyder i rannu pryderon gydag eraill. Drwy drafod materion sy'n codi a gwrando ar farn eu cyfoedion, ceir cyfle i newid agweddau a chynnig cefnogaeth i'r rheini sy'n dioddef oherwydd cam-drin domestig. Wrth drafod cam-drin domestig mewn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol neu mewn unrhyw gyd-destun yn yr ysgol, bydd yn bwysig cofio y gall plant a phobl ifanc fod mewn gwahanol gyfnodau o ran profi camdriniaeth: bydd rhai wedi profi cam-drin domestig yn y gorffennol, bydd rhai'n ei brofi ar y pryd, ac eraill yn ei brofi yn y dyfodol.

3.238  Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod ysgolion yn arddangos taflenni a phosteri addas am gam-drin domestig o blith y rhai sydd ar gael.

3.239  Gall ysgolion ymateb i gam-drin domestig mewn nifer o ffyrdd gwahanol:

- gallai ysgolion lunio 'Datganiad Cenhadaeth' gyda disgyblion i ymateb i gam-drin domestig i'w gynnwys yn y 'Datganiad o Fwriad';
- sicrhau bod pobl a ddynodwyd i gyflawni cyfrifoldebau amddiffyn plant wedi'u hyfforddi i ddelio â materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig a'u bod yn gallu atgyfeirio yn hyderus;

- cynnwys cam-drin domestig yn yr hyfforddiant cyffredinol ac yn y polisi ysgol gyfan ar Amddiffyn Plant;
- cymryd rhan mewn hyfforddiant amlasiantaethol a Fforymau Cam-drin Domestig lleol;
- defnyddio deunydd addysgol penodol i helpu plant a phobl ifanc i ddeall gwir natur cam-drin domestig;
- defnyddio adnoddau gweledol - gall fideos a gwaith theatr fod yn ffordd ddefnyddiol iawn o gyrraedd plentyn sy'n ceisio dysgu iaith newydd. Er hynny, mae'n bwysig deall y gall y cyfrwng hwn fod yn emosiynol iawn;
- bod yn ymwybodol y gellir datgelu cam-drin drwy gyfryngau eraill, er enghraifft, wrth ysgrifennu stori neu mewn gwaith celfyddydol;
- gwahodd unigolion neu grwpiau fel Cymorth i Ferched Cymru, yr Heddlu a Hafan Cymru i ddod i siarad â phlant a phobl ifanc;
- sicrhau bod rhif ffôn y llinell gymorth cam-drin domestig (Llinell Gymorth Rhadffon Camdriniaeth yn y Cartref 24 awr 0808 80 10 800) wedi'i restru mewn deunyddiau perthnasol i ddisgyblion, er enghraifft, dyddiaduron gwaith cartref neu amserlenni ysgol.

**Camddefnyddio cyffuriau/alcohol**

### Diffiniad a materion allweddol

3.240 Mae pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol neu sylweddau eraill yn achosi niwed mawr iddyn nhw eu hunain, i'w teuluoedd, ac i'r cymunedau lle y maent yn byw. Mae hyn yn cynnwys niwed i'w hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol eu hunain, ac o bosibl i'w gallu i'w cynnal eu hunain. Gallant wneud drwg i fywyd eu teulu drwy niweidio iechyd a lles eu plant a gorfodi perthnasau eraill (gan gynnwys eu plant) i ysgwyddo'r baich o ofalu amdanynt. Gallant beri niwed i blant a phobl ifanc o bob oed, o adeg eu cenhedlu nes dod yn oedolion, a hynny'n cynnwys cam-drin ac esgeuluso corfforol ac emosiynol. Mae bron hanner (46 y cant) y digwyddiadau cam-drin domestig yn gysylltiedig ag alcohol[8]. Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol hefyd wedi cofnodi achosion o gamfanteisio rhywiol ar blant o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau ganddyn nhw eu hunain neu eu rhieni.

3.241 Ceir mwy o berygl o drais mewn teuluoedd lle y mae rhieni'n camddefnyddio sylweddau. Gall plant ddioddef oherwydd diffyg disgyblaeth a diffyg terfynau, fel bod eu bywyd yn gaotig. Mae hyn yn gallu cael effaith ddifrifol ar eu datblygiad seicolegol ac emosiynol a pheri problemau yn eu perthnasoedd pan fyddant yn hŷn. Y plant sydd fwyaf agored i niwed yw'r rheini sydd â rhieni sy'n dreisgar, yn ymosodol, yn esgeulus neu'n eu gwrthod. Mae'n bosibl na fydd y plant hyn yn dod i sylw'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cynorthwyo oni bai fod eu hymddygiad yn tynnu sylw yn yr ysgol, mewn coleg addysg bellach neu mewn lle arall y tu allan i'r cartref.

3.242 Mae'r ysgol yn lle allweddol ar gyfer dylanwadu ar ymddygiad pobl ifanc. Ceir amgylchedd trefnus mewn ysgolion hefyd lle y gellir adnabod a

[8] Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.14

helpu unigolion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd oherwydd y camddefnydd o sylweddau ganddyn nhw neu eu rhieni.

3.243 Cafwyd amcangyfrifon sy'n awgrymu bod cynifer â 17,500 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn byw mewn teuluoedd lle y gwelir effaith camddefnyddio cyffuriau gan rieni[9], a bod 64,000 o blant yng Nghymru yn profi effaith niweidiol oherwydd problemau alcohol ymysg rhieni[10]. Yn gyffredinol, amcangyfrifwyd bod tua un rhan o dair o'r achosion gwaith cymdeithasol sy'n ymwneud â gofal plant yn gysylltiedig â chamddefnydd o sylweddau gan rieni. Nodwyd bod y cynnydd yn y camddefnydd o sylweddau gan rieni, yn enwedig yfed mwy niweidiol gan famau, yn ffactor allweddol yn y twf yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y blynyddoedd diwethaf.

3.244 Yn ogystal â'r angen i ddiogelu plant y mae eu rhieni'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, mae pryderon hefyd am y peryglon i bobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Cafwyd ffigurau sy'n awgrymu bod 44 y cant o bobl 18-24 blwydd oed yng Nghymru a Lloegr yn nodi eu bod yn teimlo'n feddw iawn o leiaf unwaith y mis, ac mae dwy ran o dair o'r rhain yn cyfaddef iddynt droseddu neu ymddwyn yn afreolus pan oeddent yn yfed neu ar ôl yfed[11]. Yn ôl canlyniadau arolwg gan Sefydliad Iechyd y Byd o 40 o wledydd yn Ewrop a Gogledd America, yng Nghymru yr oedd y ganran fwyaf o blant 13 blwydd oed a fu'n feddw o leiaf ddwywaith, gan fod 27 y cant o fechgyn a 26 y cant o ferched wedi nodi hyn[12].

3.245 Mae strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018 yn nodi tystiolaeth bod 'camddefnyddio alcohol yn peri mwy o niwed nag y mae camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru heddiw' [13]. Mae'r cynnydd mawr mewn yfed yn y cartref yn peri pryder neilltuol. Ceir mwy o niwed i iechyd pobl ifanc ac i'r gymuned ehangach drwy drais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol[14].

---

[9] Y Swyddfa Gartref *Hidden Harm – Responding to the needs of children of problem drug users*, 2003 (wedi'i ddyfynnu yn Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.14)
[10] Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, *Alcohol and health in Wales: A major public health issue,* 2006 (wedi'i ddyfynnu yn Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.14)
[11] Y Swyddfa Gartref, *Young People and Crime: Findings from the 2005 Offending, Crime and Justice Survey.* (Statistical Bulletin 17/06), 2006 (wedi'i ddyfynnu yn Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.14)
[12] Currie, C., et al., 'Inequalities in young people's health. Health Behaviour in School-aged Children: international report from the 2005/2006 survey'. Copenhagen: WHO Regional Office for Europe, (*Health Policy for Children and Adolescents*; 5), 2008 wedi'i ddyfynnu yn Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.14).
[13] Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.23
[14] Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.23

3.246 Mae cysylltiad hefyd rhwng nifer y merched yn eu harddegau sy'n beichiogi a'r lledaenu ar heintiau drwy ryw a'r ffaith bod pobl ifanc yn yfed mwy o alcohol[15]. Er bod hunanladdiad ymhlith plant dan 15 oed yn hynod o brin, mae mwy o risg i bobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau gyflawni hunanladdiad neu niweidio'u hunain nag sydd i'r boblogaeth yn gyffredinol. Cafwyd gwaith ymchwil sy'n awgrymu bod camddefnyddio sylweddau'n fater sy'n effeithio ar oddeutu 60 y cant o'r plant y cafwyd gorchmynion gofal ar eu cyfer[16].

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.247 Mae adran ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 ar ddiogelu plant rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau.

3.248 Mae dogfen Llywodraeth Cymru Camddefnyddio Sylweddau: Cynllun Cyflawni 2013-15 yn ategu ei strategaeth 10 mlynedd Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018 ac mae'n disgrifio'r camau a gymerir i leihau niwed o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau.

3.249 Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 17/02: Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ar ôl cynnal ymgynghoriad yn 2012. Ceir gwybodaeth fanwl yn y canllawiau drafft ynghylch darparu addysg am gamddefnyddio sylweddau yn unol â gofynion y cwricwlwm ac anghenion penodol, ac am reoli digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau gan gynnwys cymorth, deddfwriaeth ac arferion da.

3.250 Mae'r canllawiau'n datgan y bydd darparwyr addysg yn mabwysiadu polisi ar gamddefnyddio sylweddau sy'n cynnwys elfennau sy'n ymwneud ag addysg a rheoli digwyddiadau er mwyn dangos sut y mae'r sefydliad yn delio â chamddefnydd o sylweddau. Yn ogystal â hyn, dylai sefydliadau ddarparu cyfleoedd i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer pawb y mae'r polisi yn effeithio arnynt er mwyn rhoi'r polisi ar waith.

3.251 Bydd yn bwysig bod gweithdrefn glir gan sefydliadau yn eu dogfennau polisi ar gyfer rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, a'u bod yn pennu gweithdrefnau i ddiogelu lles unrhyw blant neu bobl ifanc sydd wedi camddefnyddio sylweddau. Rhaid dirprwyo cyfrifoldeb dros reoli digwyddiadau i staff a enwir a fydd wedi cael hyfforddiant a phrofiad priodol.

---

[15] Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.23

[16] Forrester, D. a Harwin, J., 'Parental substance misuse and child care social work. Findings from the first stage of a study of 100 families'. *Child and Family Social Work*, 2006, 11, tt 325-335 (wedi'i ddyfynnu yn Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, t.42)

3.252  Dylai awdurdodau lleol helpu sefydliadau i ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau effeithiol ar gamddefnyddio sylweddau.  Hefyd dylai awdurdodau lleol geisio creu seilwaith lleol i hyrwyddo dull cyson a chydgysylltiedig o ddarparu addysg am gamddefnyddio sylweddau ar draws sefydliadau er mwyn sicrhau darpariaeth gyffredinol, arferion teg a chyllid priodol. Dylid trefnu hyn ar y cyd â'r Tîm Cynghori Rhanbarthol ar Gamddefnyddio Sylweddau/y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol/y Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau er mwyn cyfleu negeseuon cyson gan nifer o sefydliadau.

## Dangosyddion risg

3.253  Mae adroddiad y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau Pathways to Problems yn cynnig dadansoddiad trylwyr o'r rhesymau dros gymryd cyffuriau anghyfreithlon a'r ffactorau sy'n peri i bobl eu defnyddio'n rheolaidd neu mewn modd problemus. Er bod y pwnc yn ddyrys, mae astudiaethau'n dangos bod y ffactorau risg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dechrau camddefnyddio sylweddau, a'r rhai ar gyfer troseddwyr ifanc, rhai sy'n tangyflawni mewn addysg, rhieni ifanc a rhai sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl y glasoed yn debyg iawn i'w gilydd:

- triwanta cyson;
- bod â rhiant sy'n defnyddio cyffuriau mewn modd problemus a/neu'n yfed mewn modd peryglus;
- bod mewn gofal ar unrhyw adeg;
- bod yn droseddwr ifanc.

3.254  Cafwyd mwy o dystiolaeth am y ffactorau risg sy'n gwneud camddefnydd helaeth o sylweddau'n fwy tebygol.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- ffactorau teuluol (gan gynnwys goruchwyliaeth wael gan rieni, hanes o ymddygiad problemus a rhieni neu frodyr a chwiorydd sy'n defnyddio cyffuriau neu'n yfed yn drwm);
- diffyg ymgysylltu yn yr ysgol;
- anfantais gymunedol;
- dylanwadau negyddol gan gyfoedion.

3.255  Ategwyd hyn gan ystadegau sy'n dangos mai dim ond un y cant o bobl ifanc nad ydynt yn agored i niwed sy'n defnyddio cyffuriau'n gyson, ond bod y ganran yn uwch o lawer ymysg grwpiau sy'n agored i niwed. Ymhlith y rheini sy'n defnyddio cyffuriau'n gyson, mae 24 y cant o'r rhai sy'n triwanta'n rheolaidd, 33 y cant o'r rhai a fu'n ddigartref neu mewn gofal ar ryw adeg, a 39 y cant o'r rhai sydd wedi cael eu harestio.

## Ymateb i bryderon

3.256  Rhaid sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei hyfforddi i adnabod ac ymateb yn hyderus i gamddefnydd o sylweddau, gan ganolbwyntio ar leihau niwed a hyrwyddo lles. Dylid rhoi blaenoriaeth i wella hyfforddiant a chymhwysedd y gweithwyr proffesiynol a'r gofalwyr sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed.

3.257  Mae'n bwysig bod trefniadau ar waith ar lefel y Bwrdd Lleol Diogelu Plant i atgyfeirio achosion perthnasol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a chamddefnyddio sylweddau. Mewn achosion lle y mae'n bosibl bod plant yn profi niwed sylweddol am eu bod yn camddefnyddio sylweddau eu hunain, neu eu bod yn cael niwed o'r fath oherwydd camddefnydd gan rieni, rhaid i wasanaethau camddefnyddio sylweddau wneud atgyfeiriadau'n unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Bydd angen gwneud trefniadau atgyfeirio hefyd ar gyfer achosion lle nad oes niwed sylweddol i blant, er mwyn asesu ac ymateb i anghenion cyffredinol y plentyn.

3.258  Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am roi ystyriaeth lawn i'r agweddau anodd a chymhleth o waith yn y maes hwn drwy gymryd camau i sicrhau:

- bod polisïau a gweithdrefnau priodol gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- bod protocolau wedi'u gwneud rhwng asiantaethau i gydgysylltu asesiadau a chymorth, yn enwedig rhwng gwasanaethau cyffuriau oedolion a gwasanaethau plant;
- bod cydweithio agos â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol a gwasanaethau cyffuriau lleol, yn ogystal â nifer o asiantaethau eraill gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion, llysoedd, carchardai a gwasanaethau prawf.

### Dulliau rhagweithiol

3.259  Mae pwyslais penodol yn Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018 ar waith ataliol gyda phlant a phobl ifanc mewn cysylltiad ag alcohol a sylweddau eraill.  Nod Llywodraeth Cymru yw cyrraedd sefyllfa lle na fydd neb yng Nghymru'n anwybodus am ganlyniadau camddefnyddio cyffuriau neu alcohol nac am y cymorth sydd ar gael iddynt.

3.260  Un agwedd ar hyn yw addysg a chymorth mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r perygl a'r niwed o gamddefnyddio sylweddau ymysg plant a phobl ifanc, fel y bydd ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wneud dewis deallus pan fyddant yn dod ar draws cyffuriau anghyfreithlon a sylweddau cyfreithlon fel alcohol, tybaco, meddyginiaethau a sylweddau anweddol.

3.261  Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn cael ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 2004 gan gydnabod y rhan y gall ysgolion ac addysg ei chwarae wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a phroblemau sy'n ymwneud â diogelwch personol.  Yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13, roedd y cynllun ar waith mewn 91% o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru.

3.262  Rhaid egluro mewn rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion pa sylweddau sy'n gyfreithlon a pha rai sy'n anghyfreithlon ond, wrth

wneud hynny, rhaid peidio â galw plant a phobl ifanc sy'n cymryd cyffuriau anghyfreithlon neu'n yfed dan oed yn droseddwyr. Y nod yw cymell unigolion sy'n camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau neu'n pryderu am gamddefnydd eu rhieni neu eu gofalwyr o sylweddau, i geisio cymorth neu wybodaeth bellach.

3.263 Bydd gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion hefyd yn cynnig cymorth personol i blant a phobl ifanc sydd am drafod eu problemau, gan gynnwys camddefnydd o sylweddau, gyda chynghorydd annibynnol. Mae dogfen Llywodraeth Cymru Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru: Strategaeth Genedlaethol yn tynnu sylw at yr angen am ddatblygu protocolau gan wasanaethau cwnsela ar gyfer cydweithio ag asiantaethau eraill gan gynnwys atgyfeirio i asiantaethau camddefnyddio sylweddau.

3.264 Mae Llinell Gymorth Camddefnyddio Sylweddau Cymru, DAN 24/7, yn ffordd rwydd o gael gafael ar wybodaeth a chyngor bob awr o'r dydd a'r nos (gan gynnwys gwybodaeth ynghylch sut i gael cymorth pellach neu driniaeth).

## Salwch wedi'i ffugio neu ei achosi'n bwrpasol

### Diffiniad a materion allweddol

3.265 Mae salwch wedi'i ffugio neu ei achosi'n bwrpaspol ymysg plant yn fath o gam-drin, nid yn gyflwr meddygol.

3.266 Bydd ffugio symptomau ac arwyddion o salwch gan y rhoddwr gofal yn peri niwed i'r plentyn:

- un ai o ganlyniad uniongyrchol i weithredoedd y rhoddwr gofal; neu
- o ganlyniad i ymchwil a thriniaeth feddygol ddiangen.

3.267 Dylid defnyddio'r term 'salwch wedi'i ffugio neu ei achosi'n bwrpasol' yng nghyswllt rhieni sy'n peri niwed, neu berygl o newid, i'r plentyn, o ganlyniad i ffugio salwch yn fwriadol neu achosi salwch. Bydd yr achosion yn amrywio o fathau ysgafn iawn o salwch i rai sy'n ddifrifol ac yn fygythiad i fywyd. Rhaid ystyried y termau a ddefnyddir a'r meini prawf diagnostig yn ofalus. Term arall sy'n cael ei ddefnyddio yw 'ffugio pediatrig'.

3.268 Mae tair prif ffordd o ffugio neu achosi salwch mewn plentyn. Gellir cael mwy nag un gyda'i gilydd:

- ffugio symptomau ac arwyddion o salwch. Gall hyn gynnwys ffugio hanes meddygol blaenorol y plentyn;
- ffugio symptomau ac arwyddion o salwch a ffugio siartiau a chofnodion ysbytai, a samplau o hylifau'r corff. Gall gynnwys ffugio llythyrau a dogfennau hefyd;
- achosi salwch drwy amrywiaeth o ffyrdd.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.269 Yn 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw atodol i Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 o'r enw Safeguarding Children in Whom Illness is Fabricated or Induced. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys fframwaith cenedlaethol i'w ddefnyddio gan yr holl asiantaethau ac mae'n argymell bod gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ar lefel leol i lunio cyfarwyddyd mwy penodol a manwl ar gyfer achosion lle y mae salwch wedi'i ffugio neu ei achosi mewn plentyn gan ofalwr sydd â chyfrifoldebau rhianta.

3.270 Hefyd, ym Mhennod 5.3 o Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 ceir Protocol ar Salwch wedi'i Ffugio. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r egwyddorion ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

3.271 Yn ogystal â hyn, yn 2002 cyhoeddodd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ganllaw atodol o'r enw Safeguarding Children in whom Illness is Fabricated or Induced sy'n cynnwys trosolwg cynhwysfawr ar salwch sydd wedi'i ffugio ac, yn benodol, ar yr ystyriaethau cymhleth sy'n codi wrth weithio gyda theuluoedd.

### Dangosyddion risg

3.272 Mae nifer o ffactorau y dylai athrawon a staff ysgol eraill wybod amdanynt sy'n awgrymu bod salwch yn cael ei ffugio neu ei achosi'n bwrpasol.

- Bod yn absennol o'r ysgol yn gyson a heb eglurhad yn aml;
- Bod yn absennol yn rheolaidd i fynd i apwyntiad mewn ysbyty neu feddygfa;
- Honiadau mynych gan riant neu roddwr gofal fod y plentyn yn sâl yn aml a bod arno angen sylw meddygol i symptomau neu fathau o salwch nad yw staff wedi sylwi arnynt;
- Hanesion sy'n anghyson neu'n amlwg ddim yn wir am salwch, damweiniau neu farwolaethau yn y teulu.

3.273 Gellir gweld y ffactorau canlynol hefyd:
- Gorliwio salwch neu symptomau gwirioneddol;
- Ffugio symptomau, er enghraifft, dal anadl wrth gysgu, trawiadau, pyliau o asthma ac alergedd;
- Ffugio arwyddion o salwch, profion a chofnodion, er enghraifft drwy ychwanegu gwaed neu siwgr at wrin, ffugio cofnodion tymheredd;
- Achosi salwch corfforol, er enghraifft drwy wenwyno, mygu, newynu neu ddeiet amhriodol;
- Baban neu blentyn yn marw'n sydyn ac annisgwyl;
- Honiadau am gam-drin nad ydynt yn wir;
- Annog neu fynnu bod y plentyn yn ymddangos yn anabl, gan gynnwys ffugio anabledd dysgu a/neu sicrhau triniaethau neu gyfarpar arbenigol diangen i'r plentyn.

3.274 Rhaid i ysgolion fod yn effro i newidiadau amlwg yng nghyflwr corfforol neu emosiynol y plentyn, anafiadau anesboniadwy, newidiadau mewn ymddygiad a diffyg ffyniant.

### Ymateb i bryderon

3.275 Os oes gan athro neu aelod staff arall reswm dros gredu bod plentyn yn agored i'r perygl o ffugio salwch neu o salwch wedi'i achosi'n bwrpasol, neu'n dioddef o ganlyniad i ffugio salwch neu achosi salwch yn bwrpasol, rhaid hysbysu'r athro dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ar unwaith. Bydd yr athro dynodedig yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros atgyfeirio'r achos yn briodol i'r gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

## Enwaedu benywod

### Diffiniad a materion allweddol

3.276 Mae Enwaedu Benywod yn cynnwys dulliau o weithredu sy'n newid neu'n anafu organau cenhedlu benywod yn fwriadol am resymau heblaw rhai meddygol. Mae'n amrywio o bigo symbolaidd i'r clitoris neu'r blaengroen, i ddulliau gweithredu eithaf helaeth i dynnu croen a chulhau'r wain. Cafwyd pob un o'r mathau hyn o enwaedu benywod yn y DU. Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o enwaedu benywod yw: 'all procedures (not operations) which involve partial or total removal of the external female genitalia or injury to the female genital organs whether for cultural or other non-therapeutic reasons'. Bydd cymunedau'n tueddu i ddefnyddio geiriau lleol am yr arfer hwn, gan gynnwys 'sunna'.

3.277 Mae enwaedu benywod yn cael ei ystyried yn gam-drin plant yn y DU ac mae wedi'i gydnabod yn rhyngwladol yn ymyriad difrifol â hawl y plentyn i fywyd, cyfanrwydd ei gorff a'i hawl i iechyd. Ni ellir ei gyfiawnhau fel arfer diwylliannol neu grefyddol ac mae arweinwyr pob un o'r prif grefyddau wedi codi llais yn ei erbyn. Mae enwaedu benywod yn anghyfreithlon, caiff ei gyflawni ar blentyn nad yw'n gallu ei wrthsefyll na rhoi unrhyw fath o gydsyniad cydnabyddedig. Yn y DU, amcangyfrifwyd bod cynifer â 24,000 o ferched o dan 15 oed mewn perygl o gael eu cam-din drwy enwaedu.

3.278 Gall enwaedu benywod arwain at ganlyniadau difrifol i iechyd menywod ac at farwolaeth mewn rhai achosion. Heintiau, poen difrifol, gwaedu, problemau wrinol, a thetanws yw rhai o'r canlyniadau tymor byr. Yn y tymor hir, gall menywod ddioddef poen cronig, heintiau, systiau, crawniadau, anawsterau â'r mislif, nam ar yr arennau neu fethiant yr arennau, niwed i'r system atgenhedlu, mwy o berygl o gael HIV a heintiau eraill a drosglwyddir drwy ryw, a phroblemau o ran ffrwythlondeb. Mae menywod sydd wedi'u henwaedu'n fwy tebygol o lawer o brofi anawsterau difrifol wrth eni plant gan gynnwys yr angen i gael toriad Cesaraidd, gwaedu peryglus o drwm ar ôl geni'r baban, cyfnod hir yn yr ysbyty ar ôl yr enedigaeth, a marwolaeth y fam neu'r ffetws. Gall menywod hefyd brofi trawma seicolegol

difrifol, problemau iechyd meddwl a phroblemau seicorywiol gan gynnwys ôl-fflachiau, iselder, gorbryder, a thrafferthion rhywiol.

3.279 Gan amlaf, honnir bod enwaedu benywod yn digwydd yn unol â chredoau crefyddol. Fodd bynnag, nid yw'n ofyniad nac yn rhwymedigaeth grefyddol. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng enwaedu benywod ac Islam ac nid oes cyfiawnhad drosto yn y Corân. Yn 2006, mewn cynhadledd ryngwladol ar enwaedu benywod yn yr Aifft, cafwyd datganiad gan glerigwyr Mwslimaidd blaenllaw nad yw enwaedu benywod yn arfer Islamaidd. Drwy'r byd, nid yw'r rhan fwyaf o Fwslimiaid yn arfer enwaedu benywod. Nid yw enwaedu benywod yn cael ei oddef yn y Beibl na'r Torah, nac mewn athrawiaethau Cristnogol neu Iddewig.

3.280 Mae nifer o'r cymunedau sy'n arfer enwaedu benywod yn credu ei fod yn weithred gariadus yn hytrach nag un greulon, a rhieni'r ferch neu ei theulu estynedig sy'n gyfrifol fel arfer am drefnu enwaedu benywod, gan gredu ei fod er budd y plentyn.

3.281 Rhai o'r rhesymau a gynigir dros barhau â'r arfer yw: gwarchod eu hunaniaeth ddiwylliannol ac anrhydedd y teulu, cadw traddodiad, sicrhau diweirdeb y fenyw, glendid a pharatoi ar gyfer priodas. Mewn rhai diwylliannau credir bod merch yn aflan os na fydd wedi'i henwaedu ac na fydd yn gallu trin bwyd neu ddiod.

3.282 Gwelir yn amlach fod rhai gweithwyr iechyd proffesiynol yn enwaedu benywod gan gredu ar gam ei fod yn rhoi mwy o amddiffyniad rhag heintiau a phoen ac yn gwneud geni plant yn fwy diogel. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fanteision iechyd iddo, ac mae'r meddygoli ar enwaedu benywod wedi'i gondemnio gan bob grŵp rhyngwladol gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.283 Mae Protocol Cymru Gyfan: Llurgunio Organau Rhywiol Merched a luniwyd gan Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar ran Byrddau Lleol Diogelu Plant Cymru yn rhoi cyfarwyddyd manwl ar y mater hwn.

3.284 Mae'r Swyddfa Gartref wedi llunio canllawiau amlasiantaethol sy'n disgrifio'r camau sydd i'w cymryd gan weithwyr proffesiynol rheng flaen fel athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol i amddiffyn merched a menywod a chynnig cymorth i ddiwallu eu hanghenion.

3.285 Yn y DU, mae Deddf Anffurfio Organau Rhywiol Menywod 2003 wedi gwneud pob math o enwaedu ar fenywod yn anghyfreithlon. Mae'r Ddeddf hon wedi disodli Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985. Mae'n drosedd i unrhyw un (beth bynnag fo'i genedligrwydd a'i statws preswylio):

- enwaedu benywod yn y DU;
- rhoi cymorth i enwaedu benywod yn y DU;
- rhoi cymorth i ferch ei henwaedu ei hun yn y DU;

- rhoi cymorth o'r DU i berson nad yw o'r DU enwaedu benyw sy'n un o wladolion y DU neu'n breswylydd parhaol yn y DU y tu allan i'r DU.

3.286 Mae Deddf 2003 yn ei gwneud yn drosedd am y tro cyntaf i wladolion y DU neu breswylwyr parhaol y DU:
- enwaedu benywod mewn gwlad dramor;
- rhoi cymorth i un o wladolion neu breswylwyr parhaol y DU enwaedu benywod mewn gwlad dramor – byddai hyn yn cynnwys mynd â merch i wlad dramor ar gyfer enwaedu;
- rhoi cymorth i berson nad yw o'r DU sydd mewn gwlad dramor enwaedu merch/menyw sy'n un o wladolion neu breswylwyr parhaol y DU – byddai hyn yn cynnwys mynd â merch i wlad dramor ar gyfer enwaedu;
- rhoi cymorth i ferch ei henwaedu ei hun y tu allan i'r DU;

hyd yn oed mewn gwledydd lle y mae'r arfer yn gyfreithlon.

3.287 Er mwyn adlewyrchu'r niwed difrifol y mae enwaedu benywod yn ei achosi, mae Deddf 2003 hefyd yn cynyddu'r gosb o 5 mlynedd i hyd at 14 blynedd mewn carchar.

3.288 The only defence in the 2003 Act is where surgery on a girl is performed for her physical or mental health, or during any stage of labour, or after just giving birth or for any purposes connected with the labour or birth and any such surgery is performed by a person approved within the meaning of section 1(3) of the 2003 Act.

3.289 Mae dau gonfensiwn rhyngwladol sy'n cynnwys erthyglau y gellir eu cymhwyso i enwaedu benywod. Mae'r gwladwriaethau sydd wedi'u llofnodi, gan gynnwys y DU, wedi ymrwymo o dan y safonau hyn i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn enwaedu benywod:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU ar 16 Rhagfyr 1991, oedd yr offeryn rhwymol cyntaf a oedd yn datgan yn glir fod arferion traddodiadol niweidiol yn ymyriad â hawliau dynol. Yn benodol, mae'n ei gwneud yn ofynnol bod Llywodraethau'n cymryd pob cam effeithiol a phriodol er mwyn dileu arferion traddodiadol sy'n niweidiol i iechyd plant;

- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, a ddaeth i rym ym 1981, yn cydnabod bod enwaedu benywod yn fath o drais wedi'i seilio ar ryw yn erbyn menywod. Mae'n galw ar y Llywodraethau sydd wedi'i lofnodi i gymryd camau priodol ac effeithiol er mwyn dileu'r arfer hwn, gan gynnwys cyflwyno strategaethau addysg a gofal iechyd priodol.

### Dangosyddion risg

3.290 Ymysg y cymunedau yn y DU lle y mae'r perygl mwyaf o gam-drin drwy enwaedu benywod y mae rhai sy'n hanu o Kenya, Somalia, y Swdan, Sierra Leone, yr Aifft, Nigeria ac Eritrea. Rhai o'r cymunedau o'r tu allan i

Affrica sy'n arfer enwaedu benywod yw rhai Yemenïaidd, Affganistanaidd, Cwrdaidd, Indonesaidd a Phacistanaidd.

3.291 Rhai o'r arwyddion bod merch mewn perygl o enwaedu neu'n cael ei pharatoi ar gyfer enwaedu mewn gwlad dramor yw bod y teulu'n trefnu i gael brechiadau ac yn paratoi i'r plentyn gael gwyliau neu absenoldeb wedi'i gynllunio o'r ysgol, neu fod merch yn sôn am gymryd gwyliau hir yn ei gwlad enedigol neu mewn gwlad arall lle y mae'r arfer yn gyffredin, gan gynnwys gwledydd yn Affrica a'r Dwyrain Canol. Bydd merched mewn perygl neilltuol o enwaedu yn ystod gwyliau'r haf, pryd y gallai teuluoedd fynd â'u plant i wlad dramor i gael triniaeth o'r fath. Gallai'r plentyn sôn hefyd am 'driniaeth arbennig' neu achlysur neu seremoni arbennig sydd yn yr arfaeth. Mewn llawer o achosion ni fydd merched yn ymwybodol eu bod mewn perygl o enwaedu.

3.292 Un o'r dangosyddion sy'n awgrymu bod enwaedu benywod wedi digwydd eisoes yw bod y ferch yn absennol o'r ysgol neu o weithgareddau eraill am gyfnodau hir a bod newid amlwg yn ei hymddygiad wedi iddi ddychwelyd. Rhai enghreifftiau o hyn yw treulio cyfnodau hir y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ystod y dydd, oherwydd problemau ynglŷn â'r bledren neu'r mislif o bosibl, neu fod merch yn gofyn am gael ei hesgusodi o gymryd rhan mewn gwersi ymarfer corff heb i'w meddyg teulu argymell hynny. Mae rhai athrawon wedi nodi achosion lle y mae plant yn ei chael yn anodd eistedd yn llonydd ac yn ymddangos yn anghyfforddus, neu lle y maent yn cwyno am boen rhwng eu coesau, neu'n sôn am rywbeth y mae rhywun wedi'i wneud iddynt nad ydynt yn cael siarad amdano. Rhaid i weithwyr proffesiynol wylio hefyd am ganlyniadau emosiynol a seicolegol i'r arfer, fel iselder neu fod plentyn yn mynd i'w gragen.

3.293 Rhaid cymryd bod perygl yn wynebu unrhyw ferch sydd wedi'i geni i fenyw a gafodd ei henwaedu, neu sydd â chwaer sydd wedi'i henwaedu eisoes, a bod perygl hefyd i ferched eraill yn y teulu estynedig. Hefyd rhaid ystyried y perygl i blant mewn teuluoedd eraill, ar ôl i bryderon gael eu codi am achosion o enwaedu benywod neu am rywun sy'n enwaedu benywod.

### Ymateb i bryderon

3.294 Os ceir unrhyw wybodaeth neu os oes pryder bod merch mewn perygl uniongyrchol o enwaedu, neu ei bod wedi cael ei henwaedu, rhaid atgyfeirio'r mater ar unwaith o dan y trefniadau amddiffyn plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol lleol. Mae enwaedu benywod yn creu perygl o niwed sylweddol i'r plentyn ac felly bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Amddiffyn Plant yr Heddlu yn ymchwilio i'r achos (yn gyntaf) o dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

3.295 Os ydych yn pryderu y gallai merch neu fenyw ifanc gael ei chymryd i wlad dramor ar gyfer enwaedu, dylech gysylltu hefyd â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Mae FORWARD yn sefydliad ar gyfer y DU sy'n cynnig cymorth, cwnsela a lle diogel i ferched a menywod sôn am eu profiadau.

Hefyd gall addysgu a gweithio gyda theuluoedd i atal enwaedu unrhyw ferched eraill yn y teulu.

3.296 Mae'r NSPCC wedi sefydlu Llinell Gymorth Enwaedu Benywod ac yn ei rhedeg gyda chymorth Heddlu Llundain, ac ar y cyd â nifer o grwpiau gwirfoddol a phroffesiynol, gan gynnwys elusennau sy'n ymwneud ag enwaedu benywod. Mae'n wasanaeth ar gyfer y DU gyfan sydd ar gael ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos. Mae ei staff wedi'i hyfforddi'n arbennig i roi cyngor ar amddiffyn plant dros y ffôn a gallant gynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth i aelodau o'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol. Gall ei staff atgyfeirio achosion hefyd, os yw'n briodol, i asiantaethau statudol a gwasanaethau eraill. Nod y llinell gymorth arbenigol hon yw diogelu plant yn well yn y DU drwy adnabod ac amddiffyn mwy o ferched sydd mewn perygl o enwaedu neu sydd wedi dioddef oherwydd enwaedu. Bydd hefyd yn hwyluso camau i rannu gwybodaeth, yn ôl yr angen, â'r heddlu ac asiantaethau perthnasol fel y gellir casglu gwybodaeth a chymryd camau priodol yn erbyn y rheini sy'n hwyluso enwaedu merched. Rhif ffôn y llinell gymorth yw 0800 028 3550 a gellir anfon negeseuon e-bost i fgmhelp@nspcc.org.uk.

### Priodas dan orfod a thrais er anrhydedd

#### Diffiniad a materion allweddol

3.297 Mae priodasau dan orfod yn fater hollol wahanol i briodasau a drefnwyd, a rhaid peidio â chymysgu rhwng y ddau. Mae priodasau a drefnwyd yn gwbl gyfreithlon ac yn arwain at berthynas lwyddiannus a sefydlog rhwng partneriaid bodlon sydd wedi cydsynio iddynt. Priodas dan orfod yw un lle nad yw un neu ddau o'r partneriaid wedi cydsynio i'r briodas (neu yn achos rhai sydd ag anabledd dysgu neu anabledd corfforol, heb allu cydsynio iddi), a lle y maent yn cael eu cam-drin neu eu rhoi dan bwysau. Mae priodas dan orfod a chadw pobl yn groes i'w hewyllys yn anghyfreithlon.

3.298 Mae priodas dan orfod yn erbyn hawliau dynol ac yn gyson â'r diffiniad o drais domestig gan Wasanaeth Erlyn y Goron, a'i ddiffiniad o gam-drin plant hefyd, os yw'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Gall y pwysau a roddir ar bobl i briodi yn groes i'w hewyllys fod yn bwysau corfforol (gan gynnwys bygythiadau, trais corfforol a thrais rhywiol) neu'n bwysau emosiynol a seicolegol (er enghraifft, peri i rywun deimlo ei fod yn dwyn anfri ar y teulu). Ffactor posibl arall yw camfanteisio ariannol (er enghraifft, cymryd cyflog rhywun neu beidio â rhoi arian iddo).

3.299 Ceir rhai priodasau dan orfod yn y DU sydd heb elfen dramor. Mewn achosion eraill bydd partner yn dod o wlad dramor neu ddinesydd Prydeinig yn cael ei anfon i wlad dramor i briodi. Bydd rhai dioddefwyr yn mynd dramor ar ôl cael eu twyllo gan eu teulu, a chael bod eu teulu wedi paratoi priodas ar eu cyfer heb iddynt wybod a heb iddynt gydsynio. Ni fyddant yn gwybod at bwy i droi am gymorth yn aml.

3.300 Gall effaith priodasau o'r fath fod yn ddifrifol, a hyd yn oed yn angheuol. Mae ymchwil wedi dangos mai tua 16 mlwydd yw oedran y rhan

fwyaf o blant Asiaidd sy'n rhedeg i ffwrdd, sef y cyfnod yn eu bywyd pryd y maent yn debygol o gael eu gorfodi i briodi, a bod niferoedd y merched Asiaidd yn eu harddegau sy'n eu lladd eu hunain neu'n ceisio eu lladd eu hunain yn uwch na'r cyfartaledd.

3.301 Yn achos menywod ifanc sydd â rhyddid cyfyngedig ac sydd mewn perygl o briodas dan orfod, mae'n bosibl mai ysgolion a cholegau fydd yr unig le i gael cymorth. Mae hawliau unigolion wedi cael eu hesgeuluso weithiau oherwydd parch cyfeiliornus at wahaniaethau diwylliannol. Mewn rhai achosion methwyd â gwahaniaethu rhwng priodas dan orfod a phriodas a drefnwyd.

3.302 Mae trais er anrhydedd yn drosedd neu'n ddigwyddiad sydd wedi neu a allai fod wedi'i gyflawni i ddiogelu neu amddiffyn anrhydedd y teulu a/neu'r gymuned. Nid yw'n cyfeirio at fath penodol o drais ond yn hytrach at y rheswm neu'r cymhelliad ar gyfer trais. Mae'n ymyriad sylfaenol â hawliau dynol, a dylid ei ystyried yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

3.303 Mae trais er anrhydedd yn rhan o gyd-destun ehangach trais yn erbyn menywod, er ei fod hefyd yn cynnwys dioddefwyr a goroeswyr gwrywaidd. Er bod modd ei ystyried yng nghyd-destun trais domestig gan fod llawer o'r trais yn cael ei gyflawni gan bartner y ferch a chan y teulu agos, gall trais pellach gael ei achosi gan aelodau o'r teulu estynedig a'r gymuned sy'n cefnogi gweithredoedd y teulu neu'n cydgynllwynio yn y trais neu'n ei gyflawni ar ran y teulu.

3.304 Ceir nifer o wahanol fathau o drais er anrhydedd yn erbyn plant a phobl ifanc gan gynnwys priodas dan orfod, treisio, ymosodiadau corfforol, herwgydio, bygythiadau o drais (gan gynnwys llofruddio), enwaedu benywod neu fod yn dyst i drais yn erbyn brawd neu chwaer neu aelod arall o'r teulu. Mae hyn yn amlygu'r ffaith bod trais er anrhydedd yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant gan fod plant mewn perygl o gael niwed difrifol drwy gam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol ac emosiynol.

3.305 Cyflawnir trais er anrhydedd yn erbyn oedolion a phlant am nifer o resymau gan gynnwys, ymysg pethau eraill:

- Rheoli ymddygiad a rhywioldeb nas dymunir (gan gynnwys anfoesoldeb tybiedig; bod yn hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu drawsrywiol)
- Amddiffyn anrhydedd y teulu
- Ymateb i bwysau gan y teulu, y gymuned neu grŵp cyfoedion
- Cryfhau cysylltiadau teuluol
- Cadw at ddelfrydau diwylliannol a/neu grefyddol tybiedig (cyfeiliornus neu hen-ffasiwn)
- Cadw cyfoeth, eiddo neu dir o fewn y teulu
- Atal perthnasoedd anaddas
- Hyrwyddo cais am breswylio neu ddinasyddiaeth yn y DU
- Ymddygiad anfoesol tybiedig gan gynnwys:
  - Colur neu ddillad anaddas
  - Bod yn berchen ar ffôn symudol a/neu ei ddefnyddio

- Cusanu neu ddangos arwyddion eraill o agosatrwydd yn gyhoeddus
- Gwrthod priodas dan orfod
- Dioddef treisio neu fath arall o ymosodiad rhywiol difrifol
- Perthnasoedd rhwng rhai o grefydd wahanol
- Ceisio cael ysgariad

3.306 Ochr yn ochr â throseddu yn erbyn dioddefwyr, gellir cael mathau o ymddygiad gormesol gan gynnwys:

- Caethiwo rhywun i dŷ
- Cyfyngiadau gormodol
- Gwrthod caniatâd i gael unrhyw fath o gysylltiad dros y ffôn, y Rhyngrwyd, â ffrindiau neu rai y tu allan i'r teulu agos
- Gwrthod caniatáu iddynt gael gafael ar basbortau, tystysgrifau geni, cyfrifon banc a mathau eraill o ddogfennau swyddogol

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.307 Mae dogfen Llywodraeth EM Multi-agency practice guidelines: Handling cases of Forced Marriage a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009 yn rhoi cyngor ar gamau i'w cymryd gan weithwyr proffesiynol y rheng flaen fel athrawon, swyddogion heddlu a gweithwyr cymdeithasol ac iechyd.

3.308 Mae'n ategu'r canllawiau statudol The Right to Choose, a ddaeth i rym wrth weithredu Deddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) ym mis Tachwedd 2008, sy'n egluro'r cyfrifoldebau strategol cyffredinol sydd gan Brif Weithredwyr ac uwch-reolwyr wrth ddelio â phriodas dan orfod yn lleol.

3.309 Lluniwyd y ddogfen Forced marriage and learning disabilities: multi-agency practice guidelines i helpu gweithwyr proffesiynol i ddelio ag achosion o briodas dan orfod sy'n ymwneud â phobl ag anableddau dysgu. Mae'r canllawiau'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn a helpu ymarferwyr i adnabod arwyddion o'r arfer hwn, sy'n gymhleth ac yn gudd yn aml.

3.310 Ceir canllawiau ar briodas dan orfod ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

3.311 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Tair Blynedd: Priodas dan Orfod a Thrais ar sail Anrhydedd.

### Dangosyddion risg

3.312 Er bod y rhan fwyaf o'r achosion yn ymwneud â menywod ifanc a merched rhwng 13 a 30 oed, mae nifer sylweddol o ddioddefwyr gwrywaidd. Mae ystadegau a gafwyd gan Uned Priodas dan Orfod y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn dangos ei bod wedi rhoi cyngor neu gymorth yn 2012 mewn 1485 o achosion a oedd yn ymwneud â'r posibilrwydd o briodas dan orfod; roedd 18 y cant o'r achosion hyn yn ymwneud â dioddefwyr gwrywaidd. Hefyd mae Cyngor Pacistaniaid Prydain wedi amcangyfrif bod amharodrwydd ar ran dynion mewn bron 40 y cant o briodasau dan orfod.

3.313  Mae'r rhan fwyaf o'r achosion o briodas dan orfod a gofnodwyd hyd yn hyn yn y DU yn ymwneud â theuluoedd o Dde Asia. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod poblogaeth fawr sefydledig sy'n hanu o Dde Asia yn y DU. Er hynny, mae'n glir nad problem sy'n ymwneud â phobl o Dde Asia yn unig yw priodas dan orfod gan fod achosion wedi codi yng nghyswllt teuluoedd o Ddwyrain Asia, y Dwyrain Canol, Ewrop ac Affrica.

3.314  Anaml y bydd pobl ifanc yn gallu datgelu eu teimladau am briodas dan orfod. Er hynny, mae rhai arwyddion a all awgrymu bod priodas dan orfod yn yr arfaeth:

- absenoldeb ac absenoldeb cyson, absenoldeb hir a methu â dychwelyd o ymweliadau â'r wlad enedigol;
- dirywiad o ran ymddygiad, brwdfrydedd, perfformiad neu brydlondeb;
- cyfyngiadau gormodol gan rieni, rheoli symudiadau a gwrthod caniatâd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlar;
- hanes o frodyr neu chwiorydd sy'n gadael addysg i briodi'n gynnar;
- ofn ynghylch gwyliau ysgol sydd i ddod;
- cael eu gwylio gan frodyr a chwiorydd neu gefndryd a chyfnitherod yn yr ysgol;
- tystiolaeth o hunan-niweidio, triniaeth am iselder, ymgais i gyflawni hunanladdiad, ynysu cymdeithasol, anhwylderau bwyta neu gamddefnyddio sylweddau.

3.315  Gall priodas dan orfod ddod i'r golwg pan roddir sylw i faterion teuluol eraill, fel trais domestig, hunan-niweidio, cam-drin neu esgeuluso plant, gwrthdaro â'r glasoed o fewn y teulu neu bersonau sydd ar goll/wedi rhedeg i ffwrdd.

## Ymateb i bryderon

3.316  Gall materion cymhleth a sensitif godi mewn achosion o briodas dan orfod y bydd angen rhoi gwybod amdanynt ar unwaith i'r person dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant (os yw'r plentyn o dan 18 oed).  Rhaid cysylltu â'r heddlu ac adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol hefyd.

3.317  Os oes pryderon bod plentyn (bachgen neu ferch) mewn perygl o fynd drwy briodas dan orfod, dylai ysgolion a sefydliadau addysg bellach gysylltu ag Uned Priodas dan Orfod y Llywodraeth, lle y mae gweithwyr achos profiadol ar gael i gynnig cymorth ac arweiniad. Gellir ffonio'r uned ar 020 7008 0151 rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu anfon neges e-bost i fmu@fco.gov.uk.

3.318  Mae'n bwysig bod pawb sy'n gysylltiedig ag achos o briodas dan orfod yn sylweddoli bod perygl mawr mewn ceisio ymateb iddo drwy gyfryngu. Ni ddylai awdurdodau lleol gysylltu ag aelodau o'r teulu ynghylch priodas dan orfod o dan unrhyw amgylchiadau, gan ei bod yn bosibl eu bod yn cyd-weld â'r ffordd y mae'r person ifanc yn cael ei drin, a gallent fod â rhan mewn trefniadau i fynd â'r person ifanc dramor i'w orfodi i briodi. Felly gellid tanseilio diogelwch y person ifanc drwy gysylltu ag aelodau o'r teulu a'i roi mewn mwy o berygl o gael niwed drwy drais corfforol. Yn y gorffennol cafwyd bod

cysylltiad rhwng gwrthod mynd ymlaen â phriodas dan orfod a'r hyn a elwir yn 'droseddau er anrhydedd'.

3.319 Bydd y rheini sy'n ceisio ffoi oddi wrth briodas dan orfod yn debygol o droi am gymorth at y gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael i fenywod sy'n dianc rhag trais, gan gynnwys llochesau. Er mwyn diogelu'r rheini sy'n wynebu'r perygl o briodas dan orfod, neu'n ffoi oddi wrthi, rhaid darparu hyfforddiant priodol i'r gweithwyr proffesiynol hynny (yn enwedig rhai sy'n gorfodi'r gyfraith a gwasanaethau cymdeithasol) ar fanylion yr arferion yn y maes hwn ac ar y peryglon o gymhwyso gweithdrefnau ar gyfer ailuno teuluoedd o feysydd gwaith cymdeithasol eraill.

### Dulliau rhagweithiol

3.320 Mae'n bwysig bod pobl sydd mewn perygl o gael niwed yn sgil yr arfer hwn yn ymwybodol ohono, ac yn gwybod beth i'w wneud a ble i droi am gymorth os bydd yn digwydd iddyn nhw. Bydd codi ymwybyddiaeth a gwaith ataliol yn rhan allweddol o'r ymateb gan bob awdurdod lleol i'r perygl o briodas dan orfod. Gellir gwneud hyn drwy:

- ganolbwyntio ar arwyddion o berygl mewn ysgolion, colegau, lleoliadau ieuenctid ac mewn cymunedau lleol fel y bydd dioddefwyr yn gwybod am yr opsiynau sydd ar gael, sut i ofyn am gymorth a'r cymorth sydd ar gael iddynt yn yr ardal leol;
- darparu hyfforddiant a chymorth i ymarferwyr ar faterion sy'n gysylltiedig â phriodas dan orfod, y perygl i ddioddefwyr a'r cymorth sydd ar gael;
- ei gwneud yn haws i bobl ifanc roi gwybod am achosion o briodas dan orfod;
- gwella'r cydgysylltu a'r cydweithio ar briodas dan orfod rhwng yr holl asiantaethau a gwasanaethau allweddol mewn cysylltiad ag unrhyw fforymau neu brotocolau ar briodas dan orfod (ysgolion, swyddogion lles addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Adrannau Addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol)

3.321 Rhaid i sefydliadau addysgol geisio creu "amgylchedd agored" lle y mae myfyrwyr yn teimlo'n ddiogel a chyfforddus wrth drafod eu problemau – amgylchedd lle y bydd priodas dan orfod yn cael ei thrafod yn agored o fewn y cwricwlwm, a lle y mae cymorth a chwnsela ar gael fel mater o drefn. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn gwybod y bydd staff yn gwrando arnynt ac yn cymryd eu pryderon o ddifrif.

3.322 Bydd ysgolion, colegau a phrifysgolion yn gallu creu amgylchedd "agored" a chefnogol drwy gymryd y camau hyn:

- Cylchredeg ac arddangos copïau o bosteri'r Uned Priodas dan Orfod ar briodas dan orfod
- Arddangos gwybodaeth berthnasol e.e. manylion llinell gymorth yr NSPCC ar gyfer amddiffyn plant Asiaidd, Child Line, Careline a grwpiau menywod du ac ethnig lleiafrifol sy'n berthnasol
- Trefnu i ffôn preifat fod ar gael os bydd ar fyfyrwyr angen cael cymorth heb dynnu sylw

- Addysgu athrawon, darlithwyr a staff eraill am ystyriaethau sy’n ymwneud â phriodas dan orfod a’r symptomau sy’n ei hamlygu – dylid cynnwys hyfforddiant priodol yn y rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus
- Atgyfeirio myfyrwyr i swyddog lles addysg, tiwtor bugeiliol, mentor dysgu neu gwnselydd ysgol fel y bo’n briodol
- Annog pobl ifanc i gael cyngor, gwybodaeth a chymorth priodol

3.323 Gall ysgolion a cholegau gynnwys priodas dan orfod yn y cwricwlwm drwy drafod gwahanol fathau o briodas (priodas wedi’i seilio ar gariad, priodas wedi’i threfnu a phriodas dan orfod) mewn dosbarthiadau perthnasol. Ymhlith y rhain y mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Dinasyddiaeth, Addysg Grefyddol, Drama, Llenyddiaeth Saesneg, Hanes a Chymdeithaseg.

**Gofal maeth gan gynnwys maethu preifat**

### Diffiniad a materion allweddol

3.324 Plant sy’n derbyn gofal maeth yw’r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn aml. Bydd y rhan fwyaf o ofalwyr maeth yn rhoi gofal diogel o ansawdd da i blant. Fodd bynnag, gan fod gofal maeth yn cael ei ddarparu’n breifat yng nghartref y rhoddwr gofal, gall fod yn anodd adnabod achosion o gam-drin ac i blant fynegi pryderon.

3.325 Os bydd unrhyw honiad neu bryder ynghylch cam-drin neu amheuaeth o gam-drin yng nghyswllt gofalwr maeth neu unrhyw aelod o deulu’r gofalwr maeth, rhaid ei atgyfeirio i’r rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol sy’n gyfrifol am amddiffyn plant, plant sy’n derbyn gofal a maethu. Er mwyn y plentyn a’r rhoddwr gofal mae’n bwysig ymchwilio’n llawn ac yn drylwyr i unrhyw bryderon. Os ceir honiad yn erbyn gofalwr maeth, bydd y goblygiadau iddo ef a’i deulu’n ddifrifol.

3.326 Amlygwyd y perygl i blant o dan drefniadau maethu preifat yn ymchwiliad Victoria Climbié yn 2000. Mae’n ddyletswydd ar bob gweithiwr proffesiynol i roi gwybod i’r awdurdod lleol os daw i wybod am drefniant maethu preifat.

3.327 Mae trefniant maethu preifat yn gytundeb preifat nad yw’n cynnwys yr awdurdod lleol ar gyfer gofalu am blentyn o dan 16 oed (o dan 18 oed, os yw’n anabl) gyda rhywun heblaw rhiant neu berthynas agos y bwriedir iddo bara am 28 o ddiwrnodau neu’n hwy. Gall y gofalwr maeth preifat fod yn ffrind i’r teulu, yn rhiant i un o ffrindiau’r plentyn, neu’n rhywun nad oedd y plentyn na’i deulu’n ei adnabod o’r blaen ond sy’n barod i gynnig gofal maeth preifat i’r plentyn. Mae’n ofynnol bod y gofalwyr maeth preifat a’r personau sydd â chyfrifoldeb rhieni yn hysbysu’r awdurdod lleol am y trefniant.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.328 Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen Amddiffyn Plant, Cefnogi Gofalwyr Maeth: Protocol a Phecyn Hyfforddi ar gyfer Ymdrin â

Honiadau yn erbyn Gofalwyr Maeth i helpu gwasanaethau maethu yn y sectorau cyhoeddus ac annibynnol a rheolwyr amddiffyn plant i ddelio â honiadau yn erbyn gofalwyr maeth.

3.329 Mae Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i godi ymwybyddiaeth o'r angen i hysbysu'r awdurdod am unrhyw blant sy'n cael eu maethu'n breifat yn ei ardal.

3.330 Os bydd athrawon neu weithwyr proffesiynol eraill yn dod i wybod am drefniant maethu preifat, a hwythau heb eu bodloni bod yr awdurdod lleol wedi'i hysbysu amdano, neu y bydd yn cael ei hysbysu amdano, rhaid iddynt roi gwybod i'r awdurdod lleol am y trefniant. Mae'n arfer da hysbysu'r rhieni maeth am yr atgyfeiriad ond, os credir y gallai hynny roi'r plentyn mewn perygl o gael niwed, nid oes angen cael cydsyniad y rhieni maeth.

3.331 Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i'w fodloni ei hun bod lles y plant sy'n cael eu maethu'n breifat yn ei ardal yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo'n foddhaol, a sicrhau bod y gofalwyr maeth preifat yn cael unrhyw gyngor sy'n ymddangos yn angenrheidiol.

3.332 Mae Deddf Plant 1989 wedi creu nifer o droseddau yng nghyswllt maethu preifat, gan gynnwys methiant i roi gwybod am drefniant neu gydymffurfio ag unrhyw ofyniad neu waharddiad y mae'r awdurdod wedi'i osod. Mae Deddf Plant 2004 yn cryfhau'r trefniadau lleol ar gyfer hysbysu. O dan baragraff 7A o Atodlen 8 i Ddeddf Plant 1989, mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn codi ymwybyddiaeth yn eu hardal o'r gofynion i'w hysbysu, ac yn sicrhau bod cyngor sy'n ymddangos yn angenrheidiol yn cael ei roi i'r rheini sy'n gysylltiedig â maethu plant yn breifat, neu â'r bwriad i faethu plant yn breifat. Bydd hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr maeth preifat.

### Ymweliadau cyfnewid tramor

#### Diffiniad a materion allweddol

3.333 Mae dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn thema bwysig ym mhob cyfnod addysg yng Nghymru. Drwy ymweliadau cyfnewid tramor bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle amhrisiadwy i gael blas ar ddiwylliannau eraill, cryfhau eu hawydd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith mewn sefyllfaoedd go iawn. Fodd bynnag, mae ymweliadau cyfnewid yn wahanol i deithiau ysgol eraill gan y bydd y bobl ifanc yn treulio llawer o amser gyda'r teuluoedd sy'n eu lletya, felly ni fyddant yn cael eu goruchwylio'n uniongyrchol gan athrawon drwy'r amser.

#### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.334 Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, o dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ac Adran 28 o Ddeddf Plant 2004. Felly, mae'n bwysig bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn glir ynghylch sut y byddant yn parhau i

gwrdd â'u dyletswyddau statudol ar gyfer diogelu plant wrth drefnu ymweliadau cyfnewid tramor.

3.335 Mae Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ('Deddf 2012') a ddaeth i rym ym Medi 2012 wedi diwygio Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ('Deddf 2006') ac wedi gwneud newidiadau yn y gweithdrefnau diogelu ar gyfer pobl sy'n dod i gysylltiad agos â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae wedi uno'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol gan sefydlu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eu lle.

3.336 Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed gan gynnwys plant drwy gynnal gwiriadau cofnodion troseddol (mae dau fath: y tystysgrifau datgelu 'safonol' a 'manylach'). Bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn penderfynu pwy i'w gynnwys yn y ddwy restr o bobl a waherddir sydd wedi niweidio neu sy'n creu perygl o niweidio plant neu oedolion sy'n agored i niwed ac na chaniateir iddynt weithio gyda nhw mewn 'gweithgaredd a reoleiddir'[17].

3.337 Yn Neddf Diogelu Rhyddidau 2012 mae 'gweithgaredd a reoleiddir' wedi'i ailddiffinio'n weithgareddau heb oruchwyliaeth (gan gynnwys addysgu, gofalu am blant a'u goruchwylio) a wneir yn rheolaidd[18] o fewn ystod gyfyngedig o fannau penodedig lle y mae cyfle i ddod i gysylltiad â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Bellach nid yw gweithgareddau gan wirfoddolwyr a gaiff eu goruchwylio[19] ar lefel resymol o ddydd i ddydd yn cael eu cyfrif yn weithgaredd a reoleiddir. Yn yr un modd ag o'r blaen, nid yw gweithgaredd a reoleiddir yn cynnwys trefniadau teuluol na threfniadau personol, anfasnachol[20].

3.338 Rhaid cael gwiriad cofnodion troseddol manylach a gwiriad o'r rhestr wahardd briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rolau sy'n dod o dan y diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir. Ar gyfer rolau sydd heb eu dynodi'n weithgaredd a reoleiddir ond sy'n cynnwys gwaith gyda phlant, mae'n bosibl o hyd i gyflogwyr gael gwiriadau cofnodion troseddol ond nid yw'n ofynnol – ond bellach mae'n anghyfreithlon gwirio a yw rhywun ar restr o bobl a waharddwyd oni bai ei fod yn ymgymryd â gweithgaredd a reoleiddir.

3.339 Mae dwy ffordd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymweliadau cyfnewid tramor, ac mae'r goblygiadau o ran gwiriadau o gofnodion troseddol a rhestrau gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn wahanol:

---

[17] Rhan 1 o Atodlen 4 i Ddeddf 2006

[18] Ystyr 'rheolaidd' yw wedi'i gyflawni gan yr un person yn aml (unwaith yr wythnos neu'n amlach), neu ar bedwar diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 o ddiwrnodau (neu, mewn rhai achosion, dros nos).

[19] Er mwyn penderfynu a yw goruchwyliaeth yn ddigonol, rhaid i sefydliadau roi sylw i'r Canllawiau Statudol ar Oruchwylio a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

[20] Adran 58 o Ddeddf 2006

## a) Ymweliadau cyfnewid tramor wedi’u trefnu gan ysgolion

3.340 Bydd ysgol neu awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn ddarparwr gweithgaredd a reoleiddir o dan adran 6(2) o Ddeddf 2006 os yw’n gyfrifol am drefnu neu reoli gweithgaredd a reoleiddir; neu os bydd yn gwneud trefniadau, neu’n awdurdodi camau i wneud trefniadau (boed yng nghyswllt contract gwasanaethau neu gontract am wasanaethau neu fel arall) i berson arall gymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir.

3.341 Where a school organises a foreign exchange visit, it should carry out Enhanced Disclosure and barred list checks on the adults who will be providing care and accommodation to the visiting child because those adults will be engaged in regulated activity. The checks should be performed before the visiting child’s arrival.

3.342 Bydd yr awdurdod lleol neu ysgol yn cyflawni trosedd os bydd yn caniatáu i berson weithio mewn gweithgaredd a reoleiddir gan wybod ei fod wedi’i wahardd[21].

3.343 Mae trefniant lle y bydd plentyn sy’n ymweld yn aros gyda theulu derbyn am 28 o ddiwrnodau neu fwy yn cael ei ystyried yn ‘drefniant maethu preifat’. Rhaid i ysgolion a gofalwyr hysbysu’r awdurdod lleol mewn amgylchiadau o’r fath hon.

3.344 Nid yw’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gallu gweld cofnodion troseddol sy’n cael eu dal mewn gwledydd tramor. Felly nid yw awdurdodau lleol nac ysgolion yng Nghymru’n gallu gwirio teuluoedd sy’n derbyn plant mewn gwledydd tramor yn yr un ffordd. Dylai ysgolion weithio mewn partneriaeth ag ysgolion mewn gwledydd tramor i sicrhau eu bod yn cynnal gwiriadau tebyg cyn mynd ymlaen â’r ymweliad. Os ydynt yn dymuno, gall awdurdodau lleol ac ysgolion gysylltu â llysgenhadaeth dramor neu Uchel Gomisiwn y wlad dan sylw a chael gwybod a oes modd gwneud gwiriadau tebyg yn y wlad honno.

## b) Ymweliadau cyfnewid tramor wedi’u trefnu gan rieni

3.345 Os bydd rhieni’n trefnu ymweliad cyfnewid tramor, neu’n arfer eu crebwyll ac yn derbyn y cyfrifoldeb am ddewis y teulu a fydd yn derbyn eu plant, mae hynny’n cael ei ystyried yn drefniant preifat rhwng y ddau deulu ac felly’n dod o fewn cwmpas y diffiniad o drefniant teuluol a phersonol yn Neddf 2012, ac nid yw’n weithgaredd a reoleiddir. Felly, nid yw’n ofynnol cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mewn achosion o’r fath, mae’n debygol y bydd perthynas wedi datblygu rhwng y ddau deulu dros amser, felly gall y rhieni wneud dewis deallus ynghylch anfon eu plentyn i aros gyda’r teulu sy’n derbyn.

[21] Adran 9 o Ddeddf 2006

## Dulliau rhagweithiol

3.346 Yn ogystal â’r trefniadau uchod ar gyfer datgelu a gwahardd, dylid ystyried cymryd mesurau ychwanegol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn ystod ymweliadau cyfnewid tramor. P’un a yw’r ymweliad wedi’i drefnu gan ysgol, awdurdod lleol neu rieni, mae’n bwysig bod cydgysylltu agos rhwng y partneriaid ar drefniadau’r ymweliad fel bod y ddau’n glir ynghylch sut y bydd disgyblion yn derbyn gofal, sut y byddant yn treulio eu hamser, a phwy fydd gyda nhw.

3.347 Arferion da yw:

- annog **disgyblion cyfnewid** i ddod i gysylltiad drwy’r e-bost a thros y ffôn ymhell cyn mynd ar yr ymweliad;
- bod **rhieni** yn cysylltu â’i gilydd i gael sicrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer derbyn plant;
- bod **ysgolion** yn ceisio ffurfio cysylltiadau sefydlog, hirdymor, dwyochrog ag ysgolion sy’n bartneriaid iddynt mewn gwledydd tramor, gan eu hadolygu’n gyson.

3.348 Mae rhestr isod o rai o’r materion i’w hystyried wrth gynllunio ymweliad cyfnewid:

- A yw’r teuluoedd a’r bobl ifanc yn cydweddu o ran materion fel rhyw’r plant, anghenion deietegol, credoau crefyddol, anghenion mynediad ac anghenion penodol eraill, ac a yw’r teulu derbyn wedi cael gwybodaeth berthnasol ac wedi rhoi cydsyniad priodol?
- A gafwyd cadarnhad bod y teuluoedd yn addas ac nad oes unrhyw bryderon ynghylch diogelu plant wedi’u codi?
- A oes cynlluniau wrth gefn i symud plentyn ar fyr rybudd?
- A rannwyd Cod Ymddygiad/disgwyliadau â’r teuluoedd sy’n derbyn a phawb sy’n gysylltiedig?
- A yw’r trefniadau cysgu wedi’u cadarnhau ac a fydd preifatrwydd ar gyfer cymryd cawod/defnyddio’r toiled etc?
- A ystyriwyd diogelwch a lles y bobl ifanc wrth deithio? A yw hyn yn cynnwys gyrwyr/cludiant priodol pan fydd y plant gyda’r teulu sy’n derbyn?
- A yw’r bobl ifanc wedi cael cyfarwyddyd ynghylch y terfynau sydd wedi’u gosod, mannau ac amseroedd cyfarfod, a’r dull o gysylltu â’r arweinwyr os bydd angen?
- A yw’r bobl ifanc a’r teuluoedd sy’n eu derbyn yn gwybod am y gweithdrefnau argyfwng gan gynnwys rhif ffôn ar gyfer cysylltu ddydd a nos?
- A fydd yr arweinwyr yn cysylltu â’r holl bobl ifanc bob dydd ac a oes gan y bobl ifanc ‘air allweddol’ i’w ddefnyddio i roi gwybod eu bod am i’r arweinydd ddod i’w gweld ar unwaith?
- A fydd yr arweinwyr yn ymweld ar hap â’r teuluoedd sy’n derbyn plant yn rheolaidd yn ystod yr ymweliad?
- A fydd ffôn ar gael i’r bobl ifanc a/neu a allant ddefnyddio ffôn symudol i alw neu anfon negeseuon testun at y staff os bydd angen?
- A yw’r bobl ifanc wedi’u cyfarwyddo ynghylch diogelwch personol?

- A ddarparwyd ‘cardiau cymorth’ dwyieithog i’r bobl ifanc i’w cadw wrth law, gydag enwau cyswllt, rhifau ffôn ac ymadroddion allweddol?
- A drafodwyd pa weithgareddau a fydd yn dderbyniol neu’n annerbyniol ar y diwrnodau gyda’r teulu ac a ofynnwyd am gytundeb y rhiant/gofalwr cyn yr ymweliad os oes angen?
- A gafwyd gwybodaeth o wefan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, neu gan ei huned cyngor teithio, cyn dewis pa wlad i ymweld â hi a chyn mynd ar yr ymweliad?

**Cyffwrdd â disgyblion/ataliaeth**

## Diffiniad a materion allweddol

3.349 Yn yr adran hon rydym yn trafod ystod eang o strategaethau sy’n cynnwys rhywfaint o rym corfforol i atal disgyblion rhag eu niweidio eu hunain neu bobl eraill, a rhag difrodi eiddo neu achosi anhrefn. Mae hyn yn amrywio o dywys disgybl i ddiogelwch gerfydd ei law neu ei fraich, hyd at amgylchiadau eithafol lle y mae angen atal disgybl i rwystro trais neu anaf iddo’i hun neu i eraill.

3.350 O dan adran 93 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, mae pŵer cyfreithiol gan bob aelod o staff yr ysgol i ddefnyddio hynny o rym sy’n rhesymol yn yr amgylchiadau i atal disgybl rhag gwneud, neu rhag parhau i wneud, unrhyw un o’r pethau canlynol:

- cyflawni trosedd (neu, yn achos disgybl sydd o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, rhywbeth a fyddai’n drosedd pe byddai disgybl hŷn yn ei gyflawni);
- achosi anaf corfforol i unrhyw berson, neu ddifrodi ei eiddo (gan gynnwys eiddo’r disgybl ei hun);
- amharu ar y gallu i gynnal trefn a disgyblaeth yn yr ysgol neu ymysg unrhyw ddisgyblion sy’n cael addysg yn yr ysgol, boed hynny yn ystod sesiwn addysgu neu ar adeg arall

3.351 Yn ôl adran 95 o’r Ddeddf, yr aelodau staff sy’n cael arfer y pŵer hwn yw unrhyw athro sy’n gweithio yn yr ysgol, ac unrhyw berson arall y mae’r pennaeth wedi’i awdurdodi i reoli neu i fod yn gyfrifol am ddisgyblion. Mae hyn:

- yn cynnwys staff cymorth y mae eu cyfrifoldeb fel arfer yn cynnwys goruchwylio disgyblion, fel cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth dysgu, mentoriaid dysgu a goruchwylwyr amser cinio.
- Gall hefyd gynnwys pobl y mae’r pennaeth wedi’u hawdurdodi dros dro i reoli neu fod yn gyfrifol am ddisgyblion fel aelodau staff cyflogedig nad yw eu swydd fel arfer yn cynnwys goruchwylio disgyblion (er enghraifft, staff sy’n ymwneud ag arlwyo neu adeiladau) a gwirfoddolwyr di-dâl (er enghraifft, rhieni sy’n mynd gyda disgyblion ar ymweliadau sydd wedi’u trefnu gan yr ysgol).
- Nid yw’n cynnwys disgyblion sy’n swyddogion.

3.352 Nid yw’r gyfraith yn diffinio pryd y mae’n rhesymol defnyddio grym. Bydd hynny’n dibynnu bob amser ar yr union amgylchiadau mewn achos

penodol. Er mwyn ei ystyried yn gyfreithlon, byddai'n rhaid i'r grym fod yn gymesur â'r canlyniadau y mae i fod i'w hatal. Maint y grym a ddefnyddir fydd y lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r canlyniad a ddymunir. Ni ellid cyfiawnhau defnyddio grym i atal camymddwyn dibwys.

3.353 Mae defnyddio grym i roi cosb yn anghyfreithlon bob amser. Y rheswm am hyn yw y byddai'n gyson â'r diffiniad o gosb gorfforol, a gafodd ei diddymu gan Adran 548 o Ddeddf Addysg 1996.

3.354 Ni ddylai ysgolion byth geisio cyfyngu gallu staff i ddefnyddio grym drwy fabwysiadu polisi 'dim cyffwrdd'. Mae'r pŵer i ddefnyddio grym yn helpu i sicrhau diogelwch y disgyblion a'r ysgol, a'r perygl o fabwysiadu polisi 'dim cyffwrdd' yw y gallai beri i aelod staff dorri ei ddyletswydd i ofalu am ddisgyblion, neu ei atal rhag cymryd camau i rwystro disgybl rhag anafu pobl eraill.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.355 Yr amcan wrth ddeddfu ar ddefnyddio grym oedd darparu pŵer clir a thryloyw sy'n galluogi staff i ddefnyddio grym rhesymol ar ddisgyblion mewn amgylchiadau penodol gan amddiffyn plant a phobl ifanc ar yr un pryd rhag trais corfforol, anaf neu gam-drin, yn unol ag Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

3.356 Yn 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol er mwyn darparu cyfarwyddyd ynghylch datblygu polisïau ar ymyrryd corfforol cyfyngol. Mae'n galluogi asiantaethau statudol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn mewn lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i rannu fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai hawliau sylfaenol yn gyffredin i bob unigolyn yng Nghymru, o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol a Deddf Hawliau Dynol 1998.

3.357 Yr amcan y mae'n rhaid ei gyflawni drwy bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymyrryd corfforol cyfyngol yw diwallu anghenion dynodedig y defnyddiwr gwasanaethau, ar adeg benodol, yng nghyd-destun y lleoliad gwasanaeth dan sylw, gan ddiogelu ar yr un pryd yr unigolyn hwnnw, y bobl y mae'n rhyngweithio â nhw a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau iddo. Dylai sefydliadau ganolbwyntio ar dri maes:

- Atal yr angen am ymyrryd corfforol cyfyngol drwy ddatblygu strategaethau ataliol;
- Gweithio gyda'r unigolyn i ostwng lefel yr ymateb a fydd yn angenrheidiol os nodir y gallai fod angen ymyrryd corfforol cyfyngol yn ystod y broses gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.
- Os nodir na fydd modd osgoi sefyllfaoedd sy'n galw am ymyrryd corfforol cyfyngol, sicrhau cynllunio a hyfforddi o flaen llaw i gadw pawb sy'n gysylltiedig yn fwy diogel.

3.358 Yn 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ganllaw benodol ar Ymyriad diogel ac effeithiol: defnyddio grym rhesymol sy'n disgrifio sut y mae'r pŵer i gael ei ddefnyddio, yn enwedig er mwyn:

- helpu staff ysgolion i ddeall beth y mae'r gyfraith yn ei olygu iddyn nhw'n ymarferol;
- amddiffyn disgyblion drwy leihau'r perygl o ddefnyddio grym yn amhriodol;
- cynnig cyngor ar arferion da.

3.359 Mae'r canllawiau'n datgan y bydd pob Awdurdod Lleol yn mabwysiadu polisi ar ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol a fydd yn adlewyrchu ethos o barch, gofal a diogelwch mewn ysgolion. Amcan y polisi fydd:

- darparu fframwaith, gyda'r canllawiau, lle y gall ysgolion ddatblygu eu polisïau eu hunain
- hyrwyddo dull cydlynol, cyson a chydgysylltiedig o weithredu ar draws gwahanol ysgolion ac, os yw'n briodol, ag asiantaethau eraill
- cynnig sail ar gyfer monitro'r gweithredu ar bolisïau mewn ysgolion
- rhoi cyngor i ysgolion ynghylch sut i fonitro a gwerthuso eu defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol er mwyn gwella'r ymarfer yn lleol ac ar draws yr awdurdod.

3.360 Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn datblygu ei bolisi ar ddefnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol drwy ymgynghori ag ysgolion, asiantaethau eraill a chyrff proffesiynol gan gynnwys Byrddau Lleol Diogelu Plant. Rhaid i'r awdurdod lleol egluro i ba raddau y mae ei bolisi'n adlewyrchu cydweithio o fewn yr awdurdod lleol a hefyd ag asiantaethau eraill. Po fwyaf fydd y cydweithio, mwyaf fydd yr ymdeimlad o gydberchenogaeth a phwrpas cyffredin. Elfen ganolog yn y polisi fydd y disgwyliad clir y bydd y defnydd o ymyrraeth gorfforol mewn ysgolion yn rhesymol a chymesur yn yr amgylchiadau.

3.361 Mae'n arfer da i'r ysgol fabwysiadu polisi clir ar y defnydd o rym rhesymol i reoli neu atal disgyblion. Arfer da hefyd fydd ymgynghori ar y polisi â llywodraethwyr, staff, undebau llafur cydnabyddedig, disgyblion a phobl sydd â chyfrifoldeb rhieni, a bod y polisi'n cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu a'i gyfleu i staff, disgyblion a rhieni un ai drwy ei gynnwys ym mholisi ymddygiad yr ysgol neu ei ddarparu ar wahân. Os bydd yr awdurdod lleol yn darparu polisi enghreifftiol ar ddefnyddio grym, mae'n bosibl y bydd ysgolion a gynhelir, yn benodol, am ei ystyried wrth lunio ac adolygu eu polisïau eu hunain, gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn adlewyrchu amgylchiadau penodol eu hysgol.

3.362 Byddai'n synhwyrol cynnwys disgrifiad ym mholisi'r ysgol ar ddefnyddio grym o'r mathau o amgylchiadau lle y mae'r ysgol yn credu bod cyfiawnhad dros ddefnyddio grym i atal disgybl (er enghraifft, i'w atal rhag anafu rhywun) a'r mathau o amgylchiadau lle y mae'r ysgol yn credu bod cyfiawnhad dros ddefnyddio grym i fynnu bod disgybl yn cydymffurfio â chyfarwyddyd rhesymol (er enghraifft, i adael ystafell ddosbarth). Mae'n bwysig bod yr holl aelodau staff – y rhai sydd wedi'u hawdurdodi a'r rhai sydd heb eu hawdurdodi – yn deall y pwerau sydd ganddynt a'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Rhaid iddynt

wybod beth sy'n dderbyniol a beth sy'n annerbyniol. Yn yr un modd, rhaid rhoi gwybod i'r holl ddisgyblion am y pwerau sydd ar gael i staff yr ysgol a'r amgylchiadau lle y gellir defnyddio'r pwerau hynny.

3.363 Rhaid i bolisi'r ysgol ar ddefnyddio grym fod yn gyson â'i pholisi ar ymddygiad ond nid oes rhaid iddo fod yn rhan ohono. Ceir cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a pholisïau ymddygiad ysgol yn Cylchlythyr 47/2006: Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion. Rhaid i'r polisi fod yn gyson hefyd â pholisïau'r ysgol ar amddiffyn plant ac iechyd a diogelwch.

## Dangosyddion risg

3.364 Bydd y penderfyniad ynghylch defnyddio grym a pha rym i'w ddefnyddio wedi'i seilio bob amser ar amgylchiadau'r achos penodol ac – yn hanfodol yn achos disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a/neu anableddau – gwybodaeth am yr unigolyn dan sylw.

3.365 Rhaid i'r penderfyniadau ynghylch a yw union amgylchiadau'r digwyddiad yn cyfiawnhau'r defnydd o rym sylweddol fod yn rhai rhesymol. Fel arfer, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau o'r fath yn gyflym, heb fawr ddim amser i ystyried. Er hynny, rhaid i staff wneud y penderfyniadau cliriaf posibl ynghylch:

- difrifoldeb y digwyddiad, a gaiff ei asesu yn ôl effaith yr anaf, difrod neu anhrefn sy'n debygol os na ddefnyddir grym. Po fwyaf yw'r posibilrwydd o gael anaf, difrod neu anhrefn ddifrifol, mwyaf tebygol yw hi y bydd cyfiawnhad dros ddefnyddio grym;

- y tebygolrwydd o gael y canlyniad arfaethedig drwy ddulliau eraill. Po leiaf fydd y tebygolrwydd o gael y canlyniad arfaethedig drwy ddulliau eraill, mwyaf tebygol yw hi y bydd cyfiawnhad dros ddefnyddio grym;

- y peryglon sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth gorfforol o'u cymharu â'r peryglon o ddefnyddio strategaethau eraill. Po leiaf fydd y peryglon sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth gorfforol o'u cymharu â strategaethau eraill, mwyaf tebygol yw hi y bydd cyfiawnhad dros ddefnyddio grym.

## Dulliau rhagweithiol

3.366 Rhaid canolbwyntio ar atal, hyd y gellir, yr angen i ddefnyddio grym ar ddisgyblion, drwy greu hinsawdd dawel, drefnus a chefnogol yn yr ysgol a fydd yn lleihau'r perygl a'r bygythiad o drais o unrhyw fath. Ateb yn niffyg popeth arall yw'r defnydd o rym a dylai ysgolion leihau'r posibilrwydd o fod angen defnyddio grym.

3.367 Gall ysgolion gymryd nifer o gamau i'w gwneud yn llai tebygol y bydd sefyllfaoedd yn codi lle y bydd angen defnyddio grym:

- creu hinsawdd dawel, drefnus a chefnogol yn yr ysgol a fydd yn lleihau'r perygl a'r bygythiad o drais o unrhyw fath;

- meithrin perthnasoedd effeithiol rhwng disgyblion a staff sy'n hanfodol i sicrhau trefn;

- mabwysiadu dull ysgol gyfan o ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol fel y rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu;

- datblygu staff mewn modd strwythuredig sy'n eu helpu i ddatblygu sgiliau i reoli ymddygiad yn gadarnhaol, i reoli gwrthdaro a hefyd i'w cefnogi ei gilydd yn ystod digwyddiad ac ar ei ôl. Ceir arweiniad pellach yn nogfen Llywodraeth Cymru Cylchlythyr 47/2006: Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion;

- rheoli digwyddiadau penodol yn effeithiol. Mae'n bwysig cyfathrebu'n dawel â'r disgybl, gan ddefnyddio iaith ac iaith corff anfygythiol a sicrhau bod y disgybl yn gallu gweld ffordd allan o'r sefyllfa. Rhai strategaethau posibl yw bod yr aelod staff yn mynd â'r disgybl i ystafell dawel, oddi wrth y rhai sy'n bresennol neu ddisgyblion eraill, fel y gall yr aelod staff wrando ar ei bryderon; neu fod aelod staff penodol y mae'r disgybl yn ei adnabod yn dda yn dod atynt;

- lle bynnag y bo modd, rhybuddio'r disgybl o'r angen posibl i ddefnyddio grym cyn ei ddefnyddio.

**Pobl ifanc sy'n cael cyfathrach rywiol**

### Diffiniad a materion allweddol

3.368 Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn pennu mai 16 yw'r oedran cyfreithiol ar gyfer gweithgarwch rhywiol, boed yn heterorywiol neu'n gyfunrywiol. Yn ogystal â hyn, mae'n datgan nad yw plant o dan 13 oed yn ddigon hen i gydsynio i weithgarwch rhywiol. O dan y gyfraith, mae cyflawni gweithgarwch rhywiol â phlentyn sy'n iau na 13 blwydd oed yn drosedd ddifrifol ac mae hyn yn adlewyrchu'r farn mewn cymdeithas na ddylai plant sy'n iau na 13 blwydd oed gyflawni gweithgarwch rhywiol, ac y gallen nhw fod yn agored iawn i'r perygl o gamfanteisio arnynt a'u paratoi i bwrpas rhyw.

3.369 Os credir bod person ifanc yn cael neu'n bwriadu cael cyfathrach rywiol, beth bynnag fo'i ryw neu ei gyfeiriadedd rhywiol, rhaid i'r asiantaeth sy'n gysylltiedig wneud asesiad o'i anghenion o ran iechyd, addysg, cymorth a/neu amddiffyn. Rhaid cyflawni'r asesiad hwn yn unol â'r wybodaeth a'r cyfarwyddyd sydd yn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.370 Mae protocol ym mhennod 5.4 o Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles pobl ifanc sy'n cael cyfathrach

rywiol. Pwrpas y protocol yw helpu'r bobl sy'n gweithio gyda phobl ifanc i adnabod achosion o gam-drin yn y perthnasoedd hyn a lle y mae angen posibl i ddiogelu plant a phobl ifanc neu ddarparu gwasanaethau ychwanegol iddynt.

3.371 Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn gwbl ymwybodol o'r pum pwynt yng nghanllawiau Fraser[22]:

- Y bydd y person ifanc yn deall cyngor y gweithiwr proffesiynol;
- Na ellir perswadio'r person ifanc i roi gwybod i'w rieni;
- Bod y person ifanc yn debygol o ddechrau cael neu barhau i gael cyfathrach rywiol heb driniaeth atal cenhedlu;
- Os na fydd y person ifanc yn cael triniaeth atal cenhedlu, y bydd ei iechyd corfforol neu feddyliol, neu'r ddau, yn debygol o ddirywio;
- Bod angen i'r person ifanc gael cyngor neu driniaeth atal cenhedlu, ar ôl cael cydsyniad rhiant neu beidio, er ei les ei hun.

## Dangosyddion risg

3.372 Er mwyn penderfynu a yw perthynas yn creu perygl o niweidio'r person ifanc, rhaid ystyried y ffactorau canlynol:

- A yw'r plentyn/person ifanc yn gymwys i ddeall a chydsynio i'r gweithgarwch rhywiol y mae'n ymwneud ag ef. Rhaid cymhwyso canllawiau Fraser a chofnodi'r penderfyniadau;
- Ble a chyda phwy mae'r plentyn neu berson ifanc yn preswylio, a yw'n mynychu ysgol ac a yw ef neu ei frodyr neu chwiorydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol neu unrhyw asiantaeth gofal cymdeithasol etc;
- Natur y berthynas rywiol rhwng y rhai yn yr achos dan sylw, yn enwedig os oes diffyg cydbwysedd o ran oed neu bŵer;
- A oedd neu a oes ymddygiad ymosodol agored, gorfodaeth neu lwgrwobrwyo yn yr achos dan sylw, gan gynnwys camddefnydd o alcohol neu sylweddau eraill i ddileu rhwystrau ymddygiad;
- A oes unrhyw elfen o gamfanteisio rhywiol masnachol gan gynnwys, yn benodol, elfennau o anwyldeb, arian, cyffuriau, alcohol;
- A yw ymddygiad y plentyn/person ifanc, er enghraifft drwy gamddefnyddio alcohol neu sylweddau eraill, yn ei roi mewn sefyllfa lle na all wneud dewis deallus ynghylch y gweithgarwch rhywiol;
- Unrhyw ymdrech i sicrhau cyfrinachedd ar ran y partner rhywiol heblaw'r hyn sy'n cael ei ystyried yn arferol mewn perthynas rhwng pobl ifanc yn eu harddegau;

---

[22] Canllawiau Fraser yw'r canllawiau a nodwyd gan yr Arglwydd Fraser yn ei ddyfarniad ar achos yn Nhŷ'r Arglwyddi: Victoria Gillick v West Norfolk and Wisbech Health Authority and Department of Health and Social Security (1985). Er bod y meini prawf hyn yn cyfeirio at atal cenhedlu yn benodol, barnwyd bod yr egwyddorion yn gymwys i driniaethau eraill, gan gynnwys erthylu. Roedd canllawiau Fraser wedi'u bwriadu ar gyfer meddygon yn benodol ond credir ei fod yn arfer da iddynt gael eu dilyn gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr hybu iechyd wrth roi cyngor ar atal cenhedlu i bobl ifanc o dan 16 oed. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar faterion sy'n ymwneud â chydsynio mewn taflen wybodaeth a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Cynllunio Teulu sydd ar gael yma: http://www.fpa.org.uk/professionals/factsheets/consent#cr5GGmSbtb17LwCW.99

- A yw'r dulliau y mae'r partner rhywiol wedi'u defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth ac ymddiriedaeth a/neu gyfrinachedd y plentyn neu berson ifanc yn gyfystyr â pharatoi i bwrpas camfanteisio rhywiol. Mae paratoi i bwrpas camfanteisio rhywiol yn debygol o gynnwys ymdrech gan y camfanteisiwr rhywiol (a fydd yn hŷn na'r plentyn neu berson ifanc fel arfer) i ddod yn ffrindiau â'r plentyn/person ifanc drwy ei faldodi neu ei gymell â rhoddion, moethau, arian, cyffuriau, i feithrin perthynas o ymddiriedaeth â theulu'r plentyn/person ifanc, i feithrin perthynas â'r plentyn neu berson ifanc drwy'r Rhyngrwyd etc er mwyn cam-drin y plentyn/person ifanc;
- A yw'r plentyn yn gwadu, yn bychanu neu'n derbyn pryderon amdano;
- A yw'r partner rhywiol yn adnabyddus i un o'r asiantaethau am ei fod wedi cael perthnasoedd eraill â phlant/pobl ifanc sy'n peri pryder; cymerir y bydd ymholiadau'n cael eu gwneud gyda'r heddlu;
- A oes anghenion dysgu gan y plentyn neu berson ifanc;
- A oes hanes o redeg i ffwrdd o'i gartref gan y plentyn.

## Ymateb i bryderon

### Plant o dan 13 oed

3.373 O dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, nid yw plant o dan 13 oed yn ddigon hen i gydsynio i weithgarwch rhywiol. Ym mhob achos lle y mae'r person ifanc sy'n cael cyfathrach rywiol yn iau na 13 oed, rhaid cael asesiad llawn gan yr asiantaeth sy'n gysylltiedig. Rhaid asesu pob achos ar ei ben ei hun ac ystyried gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant i'r gwasanaethau cymdeithasol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn ystyrlon, bydd angen enwi'r person ifanc yn ogystal â'i bartner rhywiol os yw'r manylion ar gael.

3.374 Ni all gweithiwr proffesiynol benderfynu peidio ag atgyfeirio achos o'r fath i'r gwasanaethau cymdeithasol oni bai ei fod wedi'i drafod â'r swyddog sydd wedi'i ddynodi / enwi ar gyfer amddiffyn plant yn yr asiantaeth sy'n cyflogi'r gweithiwr proffesiynol. Os na wneir atgyfeiriad, bydd y gweithiwr proffesiynol a'r asiantaeth dan sylw yn llwyr atebol am y penderfyniad a rhaid cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn glir.

3.375 Os ceir bod merch o dan 13 oed yn feichiog, rhaid atgyfeirio'r achos i'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud asesiad cychwynnol a chynhelir cyfarfod/trafodaeth strategaeth a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau iechyd ac addysg.

3.376 Roedd argymhelliad 12 yn yr Adroddiad ar Ymchwiliad Bichard yn nodi y dylai'r Llywodraeth ailddatgan y cyfarwyddyd bod yr heddlu i'w hysbysu cyn gynted â phosibl am drosedd sydd wedi'i chyflawni, neu y mae amheuaeth ei bod wedi'i chyflawni, yn erbyn plentyn – oni bai fod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailddatgan yr argymhelliad hwn ym Mhennod 8, paragraff 8.29 yn ei chanllawiau Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

### Pobl ifanc rhwng 13 a 16 oed

3.377  Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn cadarnhau mai 16 fydd yr oedran cydsynio o hyd ar gyfer gweithgarwch rhywiol, er ei bod yn derbyn bod gweithgarwch rhywiol yn digwydd heb gamfanteisio rhwng rhai yn eu harddegau ac nad yw hyn yn achosi niwed yn aml. Mae hyn yn ffordd o gydnabod bod y grŵp hwn o bobl ifanc yn parhau'n agored i niwed, hyd yn oed os nad ydynt yn derbyn hynny eu hunain.

3.378  Bydd yn rhaid asesu anghenion y bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn sy'n cael cyfathrach rywiol gan ddefnyddio'r protocol hwn. Bydd y penderfyniad i drafod yr achos â'r gwasanaethau cymdeithasol neu beidio yn dibynnu ar yr asesiad o faint y perygl/anghenion gan y bobl sy'n gweithio gyda'r person ifanc. Dylid ystyried atgyfeirio'r achos os bydd y person ifanc yn beichiogi neu'n camesgor neu'n terfynu'r beichiogrwydd yn fwriadol.

3.379  Mae'r gwahaniaeth hwn yn y weithdrefn yn adlewyrchu'r ffaith bod gweithgarwch rhywiol o dan 16 oed yn parhau'n anghyfreithlon, ond nad yw pobl ifanc o dan 13 oed yn gallu cydsynio i weithgarwch rhywiol.

### Pobl ifanc rhwng 17 a 18 oed

3.380  Er nad yw gweithgarwch rhywiol yn drosedd bellach rhwng rhai sy'n hŷn na 16 oed, mae amddiffyniad ar gael o hyd i bobl ifanc o dan 18 oed drwy weithdrefnau amddiffyn plant o dan Ddeddf Plant 1989. Mae angen ystyried o hyd a oes camfanteisio rhywiol drwy buteindra a chamddefnyddio pŵer yn yr amgylchiadau sydd wedi'u disgrifio uchod. Wrth gwrs, gall pobl ifanc fod yn agored i'r perygl o droseddau fel treisio ac ymosod ac, os ceir digwyddiad perthnasol, mae'n bosibl y bydd angen trafod yr amgylchiadau gyda'r person ifanc.

3.381  Yn achos pobl ifanc sydd dros 16 oed ac o dan 18 oed, gellir cael diffyg cydbwysedd pŵer yn y berthynas ac ni fydd y plentyn neu berson ifanc yn cael ei ystyried yn un sy'n gallu cydsynio os yw'r partner rhywiol yn weithiwr proffesiynol sy'n camfanteisio ar ymddiriedaeth neu'n aelod o'r teulu yn ôl y diffiniad yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003.

## Ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin gan blant a phobl ifanc

### Diffiniad a materion allweddol

3.382  Gall plant achosi bygythiad corfforol neu rywiol i blant eraill. Nid yw'r ffin rhwng yr hyn sy'n gam-drin a'r hyn sy'n agwedd arferol ar blentyndod neu arbrofi yn hawdd ei phennu.  Gellir defnyddio'r term 'ymddygiad rhywiol niweidiol' pan fydd unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n cyflawni gweithred rywiol, un ai'n groes i ewyllys y dioddefwr neu heb gael cydsyniad deallus.  Ni all plant ifanc roi cydsyniad deallus, er y gallent gydymffurfio ag ymddygiad. Gellir sicrhau cydymffurfio drwy ymddygiad ymosodol, dylanwadu, codi ofn

neu lwgrwobrwyo.  Felly mae angen ystyried diffyg cydbwysedd o ran oed, pŵer, statws, maint corfforol ac awdurdod swyddogol wrth bennu'r ddynameg bosibl mewn gweithgarwch rhywiol ymhlith pobl ifanc.

3.383  Hyd yn oed os nodwyd ymddygiad rhywiol mewn disgybl a'i fod yn dilyn rhaglen o driniaeth, bydd angen ei addysgu a'i reoli o hyd yn yr ysgol neu goleg addysg bellach. Bydd angen rheoli'r ymddygiad ar lefel yr ysgol neu'r coleg addysg bellach, yr ystafell ddosbarth, y cwricwlwm a'r unigolyn.

### Dyletswyddau statudol a chanllawiau

3.384  Mae canllawiau ar weithredu amlasiantaethol i ddelio â cham-drin gan blant a phobl ifanc ym Mhennod 9 o Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.  Nodir bod tair egwyddor allweddol ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill:

- bod dull cydgysylltiedig o weithredu gan asiantaethau cyfiawnder ieuenctid, lles plant, addysg (gan gynnwys seicoleg addysgol) ac iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl plant a'r glasoed);

- bod anghenion plant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill yn cael eu hystyried ar wahân i anghenion eu dioddefwyr;

- bod asesiad yn cael ei wneud o'r plant hyn ym mhob achos, gan werthfawrogi'r posibilrwydd bod ganddynt anghenion datblygu sylweddol sydd heb eu diwallu, yn ogystal ag anghenion penodol sy'n deillio o'u hymddygiad.

3.385  Mae trafodaeth ym Mhennod 4.9 o Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar blant sy'n amlygu ymddygiad rhywiol niweidiol.  Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ynghyd â Barnardo's Cymru i lunio Protocol Cymru Gyfan ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol. Bydd y protocol yn ceisio hyrwyddo dull cyson o weithredu yn yr holl asiantaethau yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc y mae eu hymddygiad yn peri pryder.

3.386  Yn Chwefror 2013, cyhoeddwyd adroddiad ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Ofsted, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Examining Multi-agency Responses to Children and Young People who Sexually Offend.  Rhai o'r canfyddiadau oedd bod gweithwyr proffesiynol yn aml yn methu cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar a bod nifer sylweddol o blant a oedd wedi cyflawni troseddau rhywiol wedi cael eu hatgyfeirio o'r blaen i wasanaethau plant ond bod arwyddocâd eu hymddygiad rhywiol wedi'i ddiystyru neu heb gael ei gydnabod – fel bod cyfle wedi'i golli ar gyfer y plant eu hunain a'r rhai a allai ddioddef oherwydd eu hymddygiad.

3.387  Cafwyd nifer o argymhellion yn yr adroddiad, gan gynnwys argymhelliad bod Byrddau Lleol Diogelu Plant yn hyrwyddo gwaith effeithiol ar

y cyd gyda phlant a phobl ifanc sy'n amlygu neu sy'n debygol o ddatblygu ymddygiad rhywiol niweidiol drwy:

- sicrhau bod y Strategaeth Cymorth Cynnar yn nodi ac yn cydnabod anghenion plant a phobl ifanc sy'n amlygu neu sy'n debygol o ddatblygu ymddygiad rhywiol niweidiol, a bod cymorth ac ymyrraeth yn cael eu darparu iddynt cyn gynted â phosibl;

- monitro effeithiolrwydd yr ymateb amlasiantaethol i blant a phobl ifanc o'r fath yn eu hardal, yn enwedig o ran adnabod achosion o'r fath, asesu ar y cyd a'r ymyriadau ar eu cyfer nhw a'u teuluoedd ac, os yw'n briodol, y rhai sy'n dioddef oherwydd eu hymddygiad;

- datblygu a gweithredu strategaethau i ddelio â diffygion ymddangosiadol;

- agor sianelau cyfathrebu â chadeirydd a chydgysylltydd y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn yr ardal mewn achosion lle y mae budd cyffredin.

### Dangosyddion risg

3.388 Mae plant sy'n byw oddi cartref yn agored iawn i'r perygl o gael eu cam-drin gan eu cyfoedion.

3.389 Mae'n debygol bod anghenion sylweddol gan blant neu bobl ifanc sy'n cam-drin eraill – gan gynnwys y rheini sy'n cam-drin yn rhywiol neu'n cyflawni troseddau rhywiol. Bydd plant a phobl ifanc o'r fath yn debygol o fod yn blant mewn angen, a bydd rhai ohonynt hefyd yn profi niwed sylweddol, neu mewn perygl o'i brofi, ac mae'n bosibl bod angen eu hamddiffyn hwythau. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant sy'n cam-drin eraill yn rhai a all fod:
- wedi profi chwalfeydd sylweddol yn eu bywyd,
- wedi bod yn agored i drais o fewn y teulu,
- wedi gweld neu wedi dioddef cam-drin corfforol neu rywiol,
- wedi cael problemau yn eu datblygiad addysgol,
- wedi cyflawni troseddau eraill.

### Ymateb i bryderon

3.390 Rhaid rhoi'r un ystyriaeth i gam-drin gan blant a phobl ifanc ag i gam-drin gan oedolion. Os oes gan athro neu aelod staff arall reswm dros gredu bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin, neu ei fod yn cael ei gam-drin, rhaid hysbysu'r athro dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ar unwaith. Bydd yr athro dynodedig yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros wneud atgyfeiriad priodol i'r gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

3.391 Os bydd plentyn neu berson ifanc yn cam-drin eraill, rhaid ei ddal yn atebol am ei ymddygiad camdriniol. Wrth wneud hynny, rhaid ei ddynodi ac ymateb iddo mewn ffordd sy'n diwallu ei anghenion yn ogystal ag amddiffyn eraill.

3.392 Felly os bydd plentyn neu berson ifanc arall, boed yn aelod o'r teulu neu beidio, yn honni bod plentyn yn cael ei gam-drin, rhaid dilyn y gweithdrefnau amddiffyn plant yng nghyswllt y dioddefwr ac yng nghyswllt y plentyn yr honnir ei fod yn cam-drin.

3.393 Rhaid ystyried anghenion plant a phobl ifanc sy'n cam-drin plant eraill ar wahân i anghenion y rheini sy'n dioddef oherwydd eu hymddygiad, a rhaid gwneud asesiad ym mhob achos. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried eu hanghenion emosiynol a therapiwtig yn ogystal â'r angen i amddiffyn plant eraill rhag eu cam-drin yn y dyfodol.

3.394 Rhaid ystyried lles plant eraill hefyd, er enghraifft plant sy'n byw yn yr un cartref preswyl.

3.395 Rhaid sicrhau dull cydgysylltiedig o ymateb i honiadau am gam-drin rhywiol gan blant a phobl ifanc sy'n cynnwys y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau addysg (gan gynnwys seicoleg addysgol a lles addysg), y gwasanaeth iechyd (gan gynnwys gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed) a gwasanaethau arbenigol ar gyfer ymddygiad niweidiol os ydynt ar gael.

### Dulliau rhagweithiol

3.396 Mae tystiolaeth ymchwil i oedolion sy'n cam-drin wedi dangos bod llawer ohonynt wedi dechrau cam-drin yn ystod eu plentyndod neu lasoed a bod nifer sylweddol ohonynt wedi cael eu cam-drin eu hunain. Felly gall ymyriadau cynnar ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill fod yn bwysig o ran amddiffyn y cyhoedd drwy atal neu ffrwyno ymddygiad camdriniol.

3.397 Mae'n bwysig bod staff y gwasanaeth addysg yn cael cyfarwyddyd clir a hyfforddiant i'w helpu i adnabod perthnasoedd rhwng plant sy'n or-gymhellol, yn amhriodol neu'n gamfanteisiol. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol y gall plant a phobl ifanc gyflawni troseddau rhywiol. Rhaid iddynt beidio â diystyru ymddygiad rhywiol camdriniol gan gymryd ei fod yn normal ac yn rhan o'r broses o ymaddasu, a rhaid iddynt wybod bod y gyfraith yn pennu nad yw plentyn o dan 13 oed yn gallu cydsynio i weithgarwch rhywiol. Rhaid i staff beidio â gosod trothwyon uchel cyn gweithredu.

# Pennod 4: Arferion recriwtio mwy diogel

## Cyflwyniad

4.1 Mae'n hollbwysig integreiddio camau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant â rheolaeth ar adnoddau dynol er mwyn creu amgylcheddau diogel i blant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol bod ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau addysg eraill yn mabwysiadu gweithdrefnau recriwtio a dethol a phrosesau eraill ar gyfer rheoli adnoddau dynol sy'n helpu i atal, gwrthod, neu adnabod pobl a allai gam-drin plant, neu sy'n anaddas i weithio gyda nhw am resymau eraill.

4.2 Er mwyn creu arferion mwy diogel ar gyfer recriwtio, rhaid ystyried a chynnwys materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu a hyrwyddo lles plant ym mhob cam yn y broses. Rhaid dechrau â'r broses o gynllunio'r ymarferiad recriwtio a sicrhau, os yw'r swydd yn cael ei hysbysebu, fod yr hysbyseb yn datgan yn glir fod y sefydliad wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

4.3 Hefyd mae angen proses gyson a thrwyadl i graffu ar ymgeiswyr, gwirio eu hunaniaeth ac unrhyw gymwysterau academaidd neu alwedigaethol, cael geirda gan ganolwyr am eu cymeriad a'u gwaith proffesiynol, gwirio eu hanes cyflogaeth flaenorol a sicrhau bod eu hiechyd a gallu corfforol yn addas i'r swydd. Cynhelir cyfweliad wyneb yn wyneb hefyd ac, os yw'n briodol, gwiriad cofnodion troseddol neu wiriad o restrau gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (mae mwy o gyfarwyddyd am hyn ym Mhennod 5).

4.4 Yn y bennod hon rhoddir cyngor ar arferion i'w dilyn i sicrhau proses gyson a thrwyadl. Y bwriad yw helpu pob math o ysgolion, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion nas cynhelir ac ysgolion annibynnol, colegau addysg bellach, ac awdurdodau lleol sy'n arfer swyddogaethau addysg i adolygu eu harferion a'u gweithdrefnau, a'u haddasu os yw'n briodol, mewn ffyrdd a fydd yn creu mwy o ddiogelwch i blant a phobl ifanc drwy helpu i rwystro ac atal cam-drin.

4.5 Rhaid cymhwyso'r mesurau sydd wedi'u disgrifio yn y bennod hon at bob person sy'n gweithio mewn lleoliad addysg lle y mae plant dan 18 oed a fydd yn debygol o gael ei ystyried yn oedolyn diogel a dibynadwy gan y plant a phobl ifanc. Nid yw hyn yn gyfyngedig i bobl sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd, neu a fydd yn gyfrifol am blant o ganlyniad i'w gwaith. Mae hefyd yn cynnwys pobl sy'n gweithio'n rheolaidd mewn lleoliad fel ysgol pan fydd disgyblion yn bresennol, ond na fyddant yn dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant o ganlyniad i'w swydd ond a fydd, er hynny, yn cael eu hystyried yn bobl ddiogel a dibynadwy am eu bod yn bresennol yn y lleoliad yn gyson. Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres, e.e. staff sydd wedi'u cyflogi gan gontractwyr, a gwirfoddolwyr di-dâl.

4.6 Nid yw'r bennod hon yn cynnig canllawiau ar bob agwedd ar faterion recriwtio a dethol staff na materion cyflogaeth. Nid yw'n cynnwys yr holl ystyriaethau sy'n berthnasol i'r pwnc hwnnw. Ni all gymryd lle hyfforddiant ar y

meysydd hynny ac ar dechnegau cyf-weld ac asesu. Bydd angen hyfforddiant priodol ar benaethiaid, prifathrawon ac eraill sy'n recriwtio ac yn dethol staff a gwirfoddolwyr ac yn rheoli gwasanaethau a sefydliadau. Bydd arnynt angen cymorth a chyngor hefyd gan eu cynghorydd personél neu adnoddau dynol i sicrhau bod eu harferion yn cwrdd â gofynion cyfraith cyflogaeth.

## Y broses recriwtio

4.7 Prif elfennau'r broses recriwtio yw:

- sicrhau bod y swydd-ddisgrifiad yn cyfeirio at y cyfrifoldeb dros ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- sicrhau bod manyleb y person yn cyfeirio'n benodol at addasrwydd i weithio gyda phlant;
- cael gwybodaeth gynhwysfawr gan ymgeiswyr, a chraffu arni, a holi am unrhyw anghysonder neu amryfusedd a'u datrys yn foddhaol;
- cael geirda annibynnol am gymeriad a gwaith proffesiynol sy'n ateb cwestiynau penodol er mwyn asesu addasrwydd yr ymgeisydd i weithio gyda phlant a holi am unrhyw fater sy'n peri pryder;
- cyfweliad wyneb yn wyneb a fydd yn ystyried addasrwydd yr ymgeisydd i weithio gyda phlant yn ogystal â'i addasrwydd i'r swydd;
- gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd llwyddiannus;
- gwirio unrhyw gymwysterau academaidd neu alwedigaethol y mae'r ymgeisydd llwyddiannus wedi honni iddo eu hennill;
- gwirio ei hanes cyflogaeth a'i brofiad blaenorol;
- gwirio bod ei iechyd a'i allu corfforol yn ddigonol ar gyfer y swydd;
- os yw'n briodol, cael Datganiad Manylach gan y DBS. Mae canllawiau manwl ym Mhennod 4 ar y gwiriadau sy'n angenrheidiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg. (D.S. Mae'n bwysig peidio â dibynnu'n llwyr ar wiriadau'r DBS er mwyn gwrthod ymgeiswyr anaddas. Mae'r gwiriadau hynny'n fesur diogelwch hanfodol, ond yr unig rai y byddant yn eu dangos yw camdrinwyr sydd wedi cael collfarn, neu wedi dod i sylw'r heddlu, neu wedi'u cynnwys ar restr wahardd. Bydd llawer o unigolion sy'n anaddas i weithio gyda phlant yn rhai sydd heb gael collfarn, ac ni fyddant ar restrau gwahardd y DBS.)

### Datganiad polisi ar recriwtio a dethol

4.8 Rhaid i'r cyflogwr fabwysiadu datganiad polisi ysgrifenedig clir ar recriwtio a dethol a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â chanllawiau

cenedlaethol a lleol. Bydd y datganiad yn disgrifio pob agwedd ar y broses a bydd yn cydgysylltu â'i bolisi a'i weithdrefnau ar amddiffyn plant.

4.9 Mae'n bwysig bod y datganiad polisi'n cynnwys datganiad clir am ymrwymiad y sefydliad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Rhaid cynnwys datganiad priodol mewn unrhyw bolisi enghreifftiol ar recriwtio a dethol y bydd awdurdod lleol neu gynghorydd adnoddau dynol yn ei ddarparu i sefydliadau. Er enghraifft:

> *"Mae'r awdurdod/ysgol/coleg hwn wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl y bydd pob un o'i staff a'i wirfoddolwyr yn rhannu'r ymrwymiad hwn."*

4.10 Dylid cynnwys y datganiad hwn mewn:

- Deunydd cyhoeddusrwydd
- Gwefannau recriwtio
- Hysbysebion
- Pecynnau gwybodaeth i ymgeiswyr
- Manylebau person
- Swydd-ddisgrifiadau
- Fframweithiau cymhwysedd
- Hyfforddiant cynefino

**Cynllunio a hysbysebu**

4.11 Mae cynllunio'n hanfodol ar gyfer recriwtio llwyddiannus. Rhaid bod yn glir ynghylch y cymysgedd o briodoleddau, cymwysterau a phrofiad a fydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus, a'r angen i gyfeirio at unrhyw faterion penodol yn yr hysbyseb ar gyfer y swydd er mwyn peidio â denu ceisiadau diangen. Bydd yn hollbwysig cynllunio'r ymarferiad recriwtio ei hun, gan enwi'r rhai a fydd yn gysylltiedig, aseinio cyfrifoldebau, a neilltuo digon o amser ar gyfer y gwaith ym mhob cam fel na fydd mesurau diogelu'n cael eu lleihau neu eu hesgeuluso. Er enghraifft, bydd yn bwysig trefnu'r broses dethol fel bod modd cael geirda am ymgeiswyr y rhestr fer cyn y cyfweliad.

4.12 Bydd angen ystyried manyleb y person yn fanwl a'i drafftio'n ofalus. Bydd yr amser a'r ymdrech a geir yn y rhan hon o'r broses yn helpu i leihau'r perygl o benodi ymgeisydd anaddas. Arfer da arall yw sicrhau bod yr holl ddeunydd arall a fydd yn rhan o'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, yn gyfredol a'i fod yn nodi'n glir beth fydd graddau'r berthynas a'r cysylltiad â phlant, a maint y cyfrifoldeb dros blant a fydd gan y person yn y swydd. Mae pob math o waith mewn ysgol neu coleg addysg bellach neu leoliad tebyg yn cynnwys rhywfaint o gyfrifoldeb dros ddiogelu plant, er y bydd graddau'r cyfrifoldeb hwnnw'n amrywio yn ôl natur y swydd.

4.13 Os bydd swydd yn cael ei hysbysebu, bydd yn bwysig bod yr hysbyseb yn cynnwys datganiad am ymrwymiad y cyflogwr i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, a chyfeiriad at yr angen am gael Datganiad Manylach drwy'r DBS gan yr ymgeisydd llwyddiannus, os bydd yn briodol, yn ogystal â'r manylion arferol am y swydd a'r cyflog, cymwysterau angenrheidiol, etc.

## Ffurflen gais

4.14 Bydd cyflogwyr yn defnyddio'r ffurflen gais i gael set gyffredin o ddata craidd gan yr holl ymgeiswyr. Nid yw'n arfer da i gyflogwyr dderbyn *curriculum vitae* a luniwyd gan ymgeiswyr yn lle ffurflen gais gan mai dim ond y wybodaeth y mae'r ymgeisydd am ei chyflwyno a fydd ynddo a gallai adael allan manylion perthnasol.

4.15 Ar gyfer ymgeiswyr am bob math o swydd bydd y ffurflen yn cynnwys:
- manylion adnabod llawn yr ymgeisydd gan gynnwys ei enwau presennol a blaenorol, ei ddyddiad geni[23], ei gyfeiriad presennol, a'i rif Yswiriant Gwladol;
- datganiad o unrhyw gymwysterau academaidd a/neu alwedigaethol a enillodd yr ymgeisydd sy'n berthnasol i'r swydd y mae'n ymgeisio amdani ynghyd â manylion y corff dyfarnu a'r dyddiad dyfarnu;
- ei hanes llawn mewn trefn gronolegol ers ymadael ag addysg uwchradd, gan gynnwys cyfnodau mewn addysg neu hyfforddiant ôl-uwchradd, a gwaith rhan-amser a gwirfoddol yn ogystal â chyflogaeth amser llawn, gyda dyddiadau dechrau a gorffen, esboniadau am gyfnodau pan nad oedd mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, a'r rhesymau dros ymadael â chyflogaeth;
- datganiad am unrhyw berthynas deuluol neu berthynas agos â chyflogeion neu gyflogwyr presennol (gan gynnwys cynghorwyr a llywodraethwyr);
- manylion canolwyr. Cyflogwr presennol neu ddiweddaraf yr ymgeisydd fydd un canolwr, a bydd dau ganolwr yn ddigon fel arfer. Os nad yw ymgeisydd yn gweithio gyda phlant ar hyn o bryd, ond ei fod wedi gweithio gyda phlant yn y gorffennol, bydd yn bwysig cael geirda hefyd gan y cyflogwr a oedd yn cyflogi'r person yn fwyaf diweddar i weithio gyda phlant. Bydd y ffurflen yn nodi'n glir na dderbynnir geirda oddi wrth berthnasau nac oddi wrth bobl sy'n ysgrifennu am eu bod yn ffrindiau'n unig;
- datganiad o'r priodoleddau personol a'r profiad y mae'r ymgeisydd yn credu eu bod yn berthnasol i'w addasrwydd i'r swydd sydd wedi'i hysbysebu ac o'r ffordd y mae'n cyflawni manyleb y person.

4.16 Bydd y ffurflen gais yn cynnwys esboniad bod y swydd yn esempt rhag darpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ac felly bod rhaid datgan pob collfarn, rhybuddiad ac ymrwymiad i gadw'r heddwch, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu hystyried yn rhai a 'ddisbyddwyd'. A bydd yn gofyn hefyd am ddatganiad wedi'i lofnodi gan y person nad yw ar restr wahardd, nad yw wedi'i anghymhwyso rhag gweithio gyda phlant, nac yn destun sancsiynau a osodwyd gan gorff rheoleiddio, e.e. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC), ac un ai nad yw wedi cael unrhyw gollfarn neu rybuddiad neu wedi ymrwymo i gadw'r heddwch, neu ei fod wedi atodi manylion ei gofnod mewn amlen wedi'i selio a'r gair 'cyfrinachol' arni.

[23] Nid yw gofyn am ddyddiad geni yn wahaniaethol. Mae angen y wybodaeth hon i sicrhau bod yr ymgeisydd wedi'i adnabod yn gywir.

4.17 Dylid nodi'r canlynol ar y ffurflen gais:

- os yw'n briodol, y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu Datgeliad gan y DBS ar y lefel sy'n briodol i'r swydd;
- y bydd y darpar gyflogwr yn gofyn am eirda ar yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer, ac y gall gysylltu â chyflogwyr blaenorol i gael gwybodaeth i gadarnhau profiad neu gymwysterau penodol, cyn y cyfweliad;
- os yw'r ymgeisydd yn gweithio gyda phlant ar hyn o bryd, un ai am dâl neu'n wirfoddol, y bydd ei gyflogwr presennol yn cael ei holi am dramgwyddau disgyblu sy'n ymwneud â phlant, gan gynnwys unrhyw dramgwyddau lle y mae cyfnod y gosb wedi dod i ben (hynny yw, lle na ellid ystyried rhybudd blaenorol mewn unrhyw wrandawiad disgyblu newydd, er enghraifft) ac a gafwyd unrhyw bryderon ar sail amddiffyn plant ynghylch yr ymgeisydd ac, os cafwyd, y canlyniad i unrhyw ymchwiliad neu weithdrefn ddisgyblu. Os nad yw'r ymgeisydd yn gweithio gyda phlant ar y pryd ond ei fod wedi gwneud hynny yn y gorffennol, holir y cyflogwr blaenorol hwnnw am y materion hynny;
- bod darparu gwybodaeth anwir yn drosedd ac y gallai arwain at wrthod y cais, neu at ddiswyddo yn y fan a'r lle os caiff yr ymgeisydd ei ddewis.

4.18 Rhaid gofyn hefyd i ymgeiswyr am swyddi addysgu:

- a ydynt wedi ennill statws Athro Cymwysedig;
- a ydynt wedi cael eu cofrestru gan CyngACC.

4.19 Gofynnir i ymgeiswyr am swyddi addysgu mewn colegau addysg bellach a oes ganddynt gymhwyster addysgu, ac am y manylion amdano.

**Swydd-ddisgrifiad**

4.20 Bydd y swydd-ddisgrifiad yn nodi'n glir beth yw:

- prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd;
- cyfrifoldeb yr unigolyn ar gyfer hyrwyddo a diogelu lles y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt, neu'n dod i gysylltiad â nhw.

**Manyleb y person**

4.21 Bydd manyleb y person:

- yn nodi'r cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni'r rôl, ynghyd ag unrhyw ofynion eraill, mewn cysylltiad â gweithio gyda phlant a phobl ifanc;

- yn disgrifio'r cymwyseddau a'r priodoleddau y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu eu dangos;

- yn egluro y bydd unrhyw faterion perthnasol sy'n codi o eirda gan ganolwyr yn cael eu trafod yn y cyfweliad, os bydd yr ymgeisydd yn cyrraedd y rhestr fer.

- yn egluro sut y bydd y gofynion hyn yn cael eu mesur a'u hasesu yn ystod y broses ddethol. Er enghraifft:
  *"Yn ogystal â gallu'r ymgeiswyr i gyflawni dyletswyddau'r swydd, bydd y cyfweliad yn edrych hefyd ar faterion sy'n ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant gan gynnwys:*
    a. *yr ysgogiad i weithio gyda phlant a phobl ifanc;*
    b. *y gallu i ffurfio a chynnal perthnasoedd priodol a therfynau personol â phlant a phobl ifanc;*
    c. *y gallu emosiynol i wrthsefyll ymddygiad heriol;*
    d. *agweddau meddwl at ddefnyddio awdurdod a chynnal disgyblaeth"*;

**Pecyn gwybodaeth yr ymgeisydd**

Bydd y pecyn yn cynnwys copi o'r canlynol:
- y ffurflen gais, a nodiadau esboniadol ar gyfer llenwi'r ffurflen;
- y swydd-ddisgrifiad a manyleb y person;
- unrhyw wybodaeth berthnasol am yr awdurdod lleol neu'r sefydliad a'r broses recriwtio, a datganiadau polisi perthnasol fel polisi'r awdurdod neu'r sefydliad ar gyfle cyfartal, recriwtio cyn-droseddwyr, etc;
- datganiad polisi'r sefydliad ar amddiffyn plant;
- datganiad o delerau ac amodau'r swydd.

**Craffu a llunio rhestr fer**

4.22 Rhaid craffu ar bob un o'r ffurflenni cais i sicrhau eu bod wedi'u llenwi'n briodol, nad oes unrhyw anghysonderau yn y wybodaeth a roddwyd, ac i nodi unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. Ni dderbynnir unrhyw ffurflenni cais anghyflawn a dylid eu dychwelyd i'w cwblhau. Dylid cofnodi unrhyw anghysondeb neu amryfusedd neu fylchau mewn cyflogaeth a welir wrth graffu er mwyn eu trafod wrth ystyried gosod yr ymgeisydd ar y rhestr fer. Yn ogystal â'r rhesymau dros fylchau amlwg mewn cyflogaeth, bydd angen ymchwilio hefyd i'r rhesymau dros unrhyw newidiadau mynych mewn cyflogaeth nad ydynt yn dangos cynnydd mewn gyrfa neu gyflog, neu symudiadau o swydd barhaol i swydd athro llanw neu waith dros dro ar ganol gyrfa, er mwyn eu gwirio. Rhaid asesu pob ymgeisydd i'r un graddau ar sail y meini prawf ym manyleb y person heb eithriad na gwyriad.

**Geirda**

4.23 Yr amcan wrth ofyn am eirda yw cael gwybodaeth wrthrychol a ffeithiol i'w hystyried wrth benderfynu ynghylch penodiadau. Rhaid cysylltu â'r canolwr yn uniongyrchol bob tro a gofyn iddo ei ddarparu. Ni ddylai cyflogwyr ddibynnu ar eirda neu lythyr cymeradwyaeth sydd wedi'i ddarparu gan yr ymgeisydd, nac ar eirda neu lythyr cymeradwyaeth penagored sydd heb gael ei ddarparu'n unswydd ar gyfer y cais. Cafwyd achosion lle y mae ymgeiswyr wedi ffugio geirda. Gall geirda neu lythyr cymeradwyaeth penagored fod yn ganlyniad i gytundeb cyfaddawdol ac nid yw'n debygol o gynnwys unrhyw

sylwadau anffafriol. Mae canllawiau manwl ar ddarparu geirda bellach ymlaen.

**Gwiriadau cyn cyfweld**

4.24 Os bydd un o ymgeiswyr y rhestr fer yn honni bod ganddo gymhwyster penodol neu brofiad blaenorol sy’n berthnasol iawn i’r swydd y mae’n ymgeisio amdani sydd heb ei gadarnhau mewn geirda, arfer da fydd gwirio’r ffeithiau cyn y cyfweliad er mwyn trafod unrhyw anghysondeb yn y cyfweliad. Fel arfer gellir gwirio’r cymhwyster neu’r profiad yn gyflym drwy ffonio’r cyflogwr blaenorol perthnasol a gofyn am gadarnhad o’r ffeithiau drwy lythyr.

**Cynnwys disgyblion a myfyrwyr**

4.25 Mae cynnwys disgyblion a myfyrwyr yn y broses recriwtio a dethol mewn rhyw ffordd, neu arsylwi ar y rhyngweithio rhyngddynt ac ymgeiswyr y rhestr fer, yn rhywbeth cyffredin sydd wedi’i gydnabod yn arfer da. Mae gwahanol ffyrdd o wneud hyn. Er enghraifft, gellir gofyn i ymgeiswyr am swyddi addysgu gyflwyno gwers, a/neu byddai myfyrwyr ac un o’r llywodraethwyr neu uwch aelodau staff yn gallu dangos yr ysgol neu’r coleg addysg bellach i ymgeiswyr y rhestr fer, a/neu gallent gwrdd â disgyblion ac aelodau staff.

**Cyfweliadau**

4.26 Bydd y cyfweliad yn asesu rhinweddau pob un o’r ymgeiswyr ar sail gofynion y swydd, yn edrych ar ei addasrwydd i weithio gyda phlant. Bydd y broses ddethol ar gyfer pobl a fydd yn gweithio gyda phlant yn cynnwys cyfweliad wyneb yn wyneb bob tro, hyd yn oed os nad oes mwy nag un ymgeisydd.

**Gwahoddiad i’r cyfweliad**

4.27 Yn ogystal â nodi’r trefniadau ar gyfer cyfweliadau – amser a lle, sut i gyrraedd yr ystafell gyf-weld, aelodaeth y panel cyf-weld – bydd y gwahoddiad yn atgoffa ymgeiswyr am y dull o gynnal y cyfweliad a’r meysydd a drafodir gan gynnwys addasrwydd i weithio gyda phlant. Gellir tynnu sylw at y wybodaeth berthnasol drwy amgáu copi o fanyleb y person.

4.28 Rhaid pwysleisio hefyd yn y gwahoddiad y bydd angen gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd llwyddiannus yn drwyadl i sicrhau mai ef yw’r person y mae’n honni ei fod ac, os bydd yn briodol cael Datgeliad gan y DBS, y bydd yn ofynnol i’r person lenwi ffurflen gais am Ddatgeliad gan y DBS ar unwaith. Felly dylid cyfarwyddo pob ymgeisydd i ddod â dogfennau sy’n dangos eu hunaniaeth a fydd yn cwrdd â gofynion y DBS, h.y. trwydded yrru gyfredol neu basbort sy’n cynnwys llun, neu dystysgrif geni lawn, ynghyd â dogfen fel bil cyfleustod neu ddatganiad ariannol sy’n dangos enw a chyfeiriad presennol yr ymgeisydd ac, os yw’n briodol, dogfennau am newid enw.

4.29 Dylid gofyn hefyd i ymgeiswyr ddod â dogfennau i gadarnhau unrhyw gymwysterau addysgol neu broffesiynol sy'n angenrheidiol neu'n berthnasol i'r swydd, e.e. tystysgrif neu ddiploma gwreiddiol, neu gopïau ohonynt wedi'u hardystio, neu lythyr yn eu cadarnhau gan y corff dyfarnu. D.S. Os na fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos dogfennau gwreiddiol neu gopïau ardystiedig ohonynt, rhaid cael cadarnhad o'i gymwysterau perthnasol drwy lythyr gan y corff dyfarnu.

4.30 Rhaid cadw copi o'r dogfennau a ddefnyddiwyd i wirio hunaniaeth a chymwysterau'r ymgeisydd llwyddiannus yn y ffeil bersonél.

**Panel cyfweld**

4.31 Er y gall un person gynnal cyfweliad, nid yw hynny'n cael ei gymeradwyo. Gwell yw cael o leiaf ddau gyfwelydd ac, mewn rhai achosion, e.e. ar gyfer swyddi uwch neu swyddi arbenigol, gall panel mwy fod yn briodol. Drwy gael panel o ddau o leiaf, gall un aelod arsylwi ar yr ymgeisydd a'i asesu, gan wneud nodiadau, tra bydd yr ymgeisydd yn siarad â'r llall. Bydd hefyd yn golygu ei bod yn llai tebygol y bydd unrhyw ddadl ynghylch yr hyn a ddywedwyd neu a ofynnwyd yn y cyfweliad.

4.32 Bydd yn bwysig bod aelodau'r panel:

- yn rhai sydd â'r awdurdod angenrheidiol i wneud penderfyniad am y penodiad;
- wedi'u hyfforddi'n briodol;
- yn cwrdd cyn y cyfweliadau:
    a. i ffurfio consensws am y safon sy'n ofynnol ar gyfer y swydd dan sylw;
    b. i ystyried y materion a drafodir â phob ymgeisydd a pha un o aelodau'r panel a fydd yn holi am bob un;
    c. i gytuno ar y meini prawf asesu, a fydd yn unol â manyleb y person.

4.33 Dylai'r panel gytuno ar set o gwestiynau y bydd yn eu gofyn i bob un o'r ymgeiswyr ynghylch gofynion y swydd, a'r materion y bydd yn eu trafod â phob ymgeisydd, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd ar ffurflen gais yr ymgeisydd ac mewn geirda (os yw ar gael). Ymateb yr ymgeisydd i gwestiwn am fater penodol a fydd yn penderfynu a ofynnir cwestiwn dilynol a beth fydd y cwestiwn hwnnw. Os oes modd, bydd yn well osgoi cwestiynau damcaniaethol gan eu bod yn caniatáu atebion damcaniaethol. Bydd yn well gofyn cwestiynau wedi'u seilio ar gymhwysedd fel y bydd yr ymgeisydd yn dweud sut y mae wedi ymateb neu wedi delio â sefyllfa wirioneddol, neu gwestiynau am agweddau meddwl yr ymgeisydd a'i ddealltwriaeth o'r materion dan sylw.

**Cwmpas y cyfweliad**

4.34 Yn ogystal ag asesu a gwerthuso addasrwydd yr ymgeisydd i gyflawni swydd benodol, dylai'r panel cyf-weld ymchwilio hefyd i:

- agwedd meddwl yr ymgeisydd at blant a phobl ifanc;

- ei allu i hybu agenda'r awdurdod neu'r sefydliad ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- bylchau yn hanes cyflogaeth yr ymgeisydd;
- pryderon neu anghysonderau sy'n codi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a/neu gan ganolwr.

4.35 Hefyd dylai'r panel ofyn i'r ymgeisydd a yw'n dymuno datgan unrhyw beth o gofio bod gofyniad am Ddatgeliad gan y DBS.

4.36 Os na fydd geirda wedi dod i law, am ba bynnag reswm, cyn y cyfweliad, dylid gofyn i'r ymgeisydd hefyd yn y cyfweliad a oes unrhyw beth y mae am ei ddatgan neu ei drafod yng nghyd-destun y cwestiynau sydd neu a fydd yn cael eu gofyn i'w ganolwyr. Mae'n hollbwysig cael y geirda a chraffu arno cyn cadarnhau penodiad a chyn i'r person ddechrau gweithio.

**Cynnig penodi dan amodau**

4.37 Bydd y cynnig i benodi'r ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar y canlynol:
- derbyn o leiaf ddau eirda boddhaol (os nad yw'r rhain wedi dod i law – gweler Geirda am Gymeriad a Gwaith Proffesiynol bellach ymlaen yn pennod 4);
- gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd (os nad oedd modd ei gwirio'n syth ar ôl y cyfweliad);
- os yw'n briodol, Datgeliad boddhaol gan y DBS;
- gwirio ffitrwydd meddygol yr ymgeisydd;
- gwirio cymwysterau (os nad oeddent wedi'u gwirio ar ôl y cyfweliad);
- gwirio statws proffesiynol os oes angen e.e. cofrestriad CyngACC, statws Athro Cymwysedig (oni bai ei fod wedi'i esemptio'n briodol), Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP);
- (ar gyfer swyddi addysgu) gwirio bod y cyfnod ymsefydlu statudol wedi'i gwblhau'n llwyddiannus (os cafwyd statws Athro Cymwysedig ar ôl 7 Mai 1999);
- (ar gyfer swyddi nad ydynt yn swyddi addysgu) cwblhau'r cyfnod prawf yn foddhaol.

## Gwiriadau cyn penodi

4.38 Mae'n bwysig cwblhau gwiriadau trwyadl cyn penodi ar bawb y bydd eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad â phlant a phobl ifanc, er mwyn atal pobl anaddas rhag dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc a hefyd er mwyn cynnal uniondeb y proffesiwn addysgu.

4.39 Mae'n ofynnol bod y rheini sy'n cyflogi pobl i weithio mewn ysgolion, neu staff mewn colegau addysg bellach sy'n darparu addysg, yn cynnal y gwiriadau recriwtio a fetio canlynol ar rai y bwriedir eu penodi:
- gwiriadau hunaniaeth;

- gwiriadau i gadarnhau cymwysterau sy'n ofynion cyfreithiol ar gyfer y swydd, gan gynnwys: Statws Athro Cymwysedig, cofrestriad gan CyngACC a gofynion am ffitrwydd meddygol os yw'n briodol;
- gwiriadau i gadarnhau'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig;
- Datgeliadau gan y DBS (mae canllawiau manwl ar ddatgeliadau'r DBS ym Mhennod 5).

4.40 Mae'r gofyniad am gynnal y gwiriadau uchod yn gymwys i staff mewn ysgolion, colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol sy'n gwneud penodiadau perthnasol.

4.41 Yr un yw'r set o wiriadau sy'n ofynnol ar gyfer staff cyflenwi â honno ar gyfer staff a gyflogir gan ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae hyn yn gymwys i bobl sy'n cael eu cyflogi drwy asiantaethau cyflogi hefyd.

4.42 O dan Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogi a Busnesau Cyflogi 2003, ni chaniateir i asiantaethau cyflogi na busnesau cyflogi gyflwyno neu gyflenwi rhywun sy'n chwilio am waith i gyflogwr heb wirio bod yr un sy'n chwilio am waith a'r cyflogwr yn ymwybodol o unrhyw ofynion cyfreithiol neu ofynion gan gyrff proffesiynol y mae'n rhaid i'r naill neu'r llall eu bodloni i alluogi'r un sy'n chwilio am waith i weithio i'r cyflogwr. Felly, yn achos asiantaethau a busnesau cyflogi sy'n cyflenwi staff i ysgolion neu golegau addysg bellach, rhaid i'r asiantaethau sicrhau bod staff cyflenwi'n meddu ar y cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd y mae'r cyflogwr yn ceisio ei llenwi.

4.43 Rhaid i ysgolion a cholegau addysg bellach sicrhau bod eu contractau neu drefniadau â'r asiantaethau cyflenwi yn rhoi rhwymedigaeth ar yr asiantaeth i gyflawni'r un gwiriadau ag y mae ysgolion a cholegau addysg bellach yn eu cwblhau ar gyfer eu staff. Ar gyfer pob aelod unigol o'r staff cyflenwi, rhaid i ysgolion a cholegau addysg bellach gael cadarnhad gan yr asiantaeth fod y gwiriadau priodol wedi'u cwblhau a'u bod yn foddhaol.

4.44 Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol, ysgolion, a cholegau addysg bellach yn sicrhau bod y telerau mewn unrhyw gontract y maent yn ei osod sy'n cynnwys gofyniad bod y contractwr yn cyflogi staff i weithio gyda phlant y mae'r awdurdod lleol, yr ysgol neu'r coleg addysg bellach yn gyfrifol amdanynt, neu i ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer, yn cynnwys gofyniad hefyd fod y contractwr yn mabwysiadu ac yn gweithredu'r mesurau sydd yn y canllawiau hyn. Byddant hefyd yn monitro cydymffurfiaeth gan y contractwr. Mae mwy o gyngor ar fetio contractwyr ym Mhennod 5. Mae hefyd yn bwysig bod ysgolion a cholegau yn sicrhau bod y rheini sy'n darparu gwasanaethau dan gontract sy'n dod â nhw i gysylltiad â phlant yn cynnal gwiriadau priodol.

4.45 Yng ngolwg plant mae gwirfoddolwyr yn oedolion diogel a dibynadwy ac, os yw ysgol neu goleg addysg bellach yn chwilio am wirfoddolwyr, ac yn ystyried ymgeiswyr nad oes ganddo fawr ddim gwybodaeth ddiweddar amdanynt, dylai fabwysiadu'r un mesurau recriwtio â'r rhai ar gyfer staff cyflogedig. Ceir canllawiau penodol ar yr angen am wiriad gan y DBS ar gyfer gwirfoddolwyr ym Mhennod 5, paragraffau 5.88 – 5.98.

4.46 Rhaid cwblhau'r holl wiriadau perthnasol a chael canlyniadau boddhaol cyn penodi rhywun (D.S. yn achos Datgeliadau gan y DBS, rhaid cael y dystysgrif cyn penodi, neu mor fuan â phosibl ar ôl hynny).

4.47 Rhaid cadw cofnod i ddangos bod y gwiriadau uchod wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl gyflogeion perthnasol.

4.48 Bydd yr holl wiriadau:

- yn cael eu cadarnhau drwy lythyr (yn achos staff asiantaeth, rhaid i benaethiaid a phrifathrawon ofyn am gadarnhad drwy lythyr gan asiantaethau cyflenwi fod y gwiriadau perthnasol wedi'u gwneud);
- yn cael eu cofnodi ar y ffeil bersonél (gan ddilyn cyngor perthnasol yng Nghod Ymarfer y DBS a threfniadau'r sefydliad ar gyfer diogelu data);
- yn destun ymholiadau pellach os ydynt yn anfoddhaol neu os oes anghysonderau yn y wybodaeth a ddarparwyd.

4.49 Os ceir twyll neu ddichell ddifrifol fwriadol yng nghyswllt cais am gyflogaeth, gall hynny fod yn drosedd (Cael Mantais Ariannol drwy Ddichell). Mewn achosion o'r fath, dylai'r cyflogwr ystyried hysbysu'r heddlu.

**Hunaniaeth**

4.50 Mae'r bwysig sicrhau mai'r un yw'r person â'r un y mae'n honni ei fod. Mewn rhai achosion, bydd yr ymgeisydd yn adnabyddus i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach neu'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol neu sefydliad cyfagos. Fel arall, bydd yn rhaid i'r cyflogwr ofyn am weld prawf o hunaniaeth fel tystysgrif geni, trwydded yrru, neu basbort. Os yw athro neu weithiwr yn cael ei ddarparu gan drydydd parti, fel asiantaeth neu fusnes cyflogi, bydd yr ysgol neu sefydliad addysg bellach yn gwirio mai'r un yw'r person sydd wedi dod atynt â'r person sydd wedi'i atgyfeirio gan yr asiantaeth neu fusnes cyflogi. D.S. Bydd angen prawf o hunaniaeth hefyd ar gyfer y cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) am Ddatgeliad Safonol neu Fanylach.

4.51 Os yw unigolyn wedi'i ddarparu gan asiantaeth, rhaid i'r ysgol, awdurdod lleol neu goleg addysg bellach gadarnhau mai'r un yw'r person sy'n dod atynt â'r person sydd wedi'i atgyfeirio gan yr asiantaeth drwy gynnal y gwiriadau hunaniaeth sydd wedi'u nodi uchod.

**Cymwysterau academaidd**

4.52 Rhaid i gyflogwyr wirio ym mhob achos fod yr ymgeisydd wedi ennill unrhyw gymwysterau academaidd neu broffesiynol sydd wedi'u nodi yn ei gais drwy ofyn am weld y dystysgrif neu ddiploma perthnasol, neu lythyr cadarnhau oddi wrth y corff dyfarnu. Os nad yw'r dogfennau gwreiddiol ar gael, rhaid i'r cyflogwr weld copïau ohonynt sydd wedi'u hardystio'n briodol.

**Cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

4.53 Mae'n ofynnol bod pob athro sydd wedi ennill Statws Athro Cymwysedig sy'n addysgu mewn ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru yn cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC). Rhaid i gyflogwyr gael cadarnhad gan CyngACC fod athrawon sy'n ymgeisio am swyddi mewn ysgolion o'r fath wedi'u cofrestru gan y Cyngor.

4.54 Os yw athro wedi cael ei gofrestru, mae hyn yn golygu:

- ei fod wedi ennill Statws Athro Cymwysedig. Mae'n ofynnol bod pawb a gaiff ei benodi neu ei gyflogi i addysgu mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir wedi ennill Statws Athro Cymwysedig neu'n dod o dan un o'r eithriadau sydd yn Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999;

- ei fod wedi talu'r ffi gofrestru flynyddol i CyngACC;

- nad yw wedi'i gynnwys ar restr wahardd;

- nad yw wedi methu'r cyfnod prawf;

- nad yw ei enw wedi'i dynnu o'r gofrestr oherwydd cyfyngiad a osodwyd gan CyngACC neu unrhyw Gyngor Addysgu Cyffredinol arall.

4.55 Yn unol ag adran 3 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, bydd pob athro sy'n gwneud cais am gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) am y tro cyntaf, neu athro sydd wedi gadael i'w gofrestriad ballu, yn destun gwiriad addasrwydd gan CyngACC. Mae'r gwiriadau addasrwydd yn galluogi CyngACC i wirio cymwysterau; i sicrhau bod cyfnod ymsefydlu wedi'i gwblhau'n foddhaol; i sicrhau nad oes gwaharddiadau na chyfyngiadau ar gyflogaeth, gorchmynion disgyblu na datgymwysiadau, ac i gael datgeliad manylach llawn gan y DBS.

4.56 Hefyd, rhaid i gyflogwyr sicrhau bod gwiriadau ar hunaniaeth athrawon, eu cofnod troseddol, eu ffitrwydd meddygol, eu geirda gan ganolwyr a'u hanes cyflogaeth flaenorol yn cael eu cynnal yn unol â'r testun isod.

4.57 Mae darpariaethau yn Neddf Addysg 2002 ar gyfer cynnal gwiriadau gan CyngACC ar addasrwydd athrawon sy'n gwneud cais am gofrestru. Daeth y darpariaethau hyn ddod i rym yn Mai 2006. Caiff y Cyngor benderfynu a fydd yn cynnwys gwiriadau cofnodion troseddol gyda'r DBS mewn unrhyw wiriad ar addasrwydd athrawon newydd sy'n gwneud cais am gofrestru ac athrawon sy'n gwneud cais am ailgofrestru ar ôl bod y tu allan i'r gwasanaeth am gyfnod.

4.58 Yr unig athrawon â Statws Athro Cymwysedig sydd wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i gofrestru gyda CyngACC yw:

- athrawon sydd wedi'u cyflogi i ddarparu addysg ran-amser i bersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol yn unig;
- neu'r rheini sy'n darparu addysg amser llawn i bersonau sydd wedi cyrraedd 19 blwydd oed yn unig;
- neu addysg ran-amser ac addysg amser llawn o'r fath.

4.59 Y rheini sydd wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i ennill Statws Athro Cymwysedig yw:

- athrawon dan hyfforddiant sy'n gwneud ymarfer dysgu;
- athrawon sy'n gweithio er mwyn cael Statws Athro Cymwysedig drwy raglen yn y gweithle;
- athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor ond sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau amser;
- athrawon heb gymwysterau (e.e. hyfforddwyr), lle y mae'r ysgol wedi methu â dod o hyd i athro cymwysedig sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol.

4.60 Nid yw'r eithriadau hyn yn gymwys i ymgeiswyr am swyddi pennaeth a dirprwy bennaeth mewn ysgolion a gynhelir: rhaid iddynt fod â Statws Athro Cymwysedig.

4.61 Mae athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor wedi'u hesemptio ar hyn o bryd rhag y gofyniad i gofrestru gyda CyngACC ac i ddal Statws Athro Cymwysedig er bod eu cyflogaeth yn ddarostyngedig i gyfyngiadau amser – gweler Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999. Fodd bynnag, gellir dyfarnu Statws Athro Cymwysedig i athro o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ar ei gais a bydd athro sydd wedi'i hyfforddi dramor yn gallu mynd ymlaen i ennill Statws Athro Cymwysedig drwy ddilyn y Rhaglen Athrawon Graddedig. Ar ôl hynny, byddai'n ofynnol i'r athro gael ei gofrestru gan CyngACC.

**Addysg bellach: cymwysterau addysgu cydnabyddedig**

4.62 Rhaid i'r coleg addysg bellach gael Datganiadau Manylach gan y DBS ar gyfer y rheini sy'n darparu addysg ac yn cyflawni gwaith rheolaidd sy'n cynnwys gofalu am, hyfforddi neu oruchwylio personau sydd o dan 18 oed, neu fod â chyfrifoldeb llwyr drostynt. Mae hyn yn gymwys i athrawon sydd eisoes wedi ymgymhwyso, rhai sy'n gweithio er mwyn ymgymhwyso a'r rheini sydd heb ymgymhwyso eto.

4.63 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gael gweithlu addysgu cwbl gymwys mewn addysg bellach. Mae'n ofynnol bod colegau addysg bellach yn gwirio cymwysterau pob athro newydd mewn addysg bellach. O dan Reoliadau a wnaed yn 2001 mae'n ofynnol bod pob athro newydd mewn addysg bellach yn dal cymhwyster addysgu cydnabyddedig, neu'n gweithio i ennill un. Rhaid i staff addysgu amser llawn ddod yn gymwys o fewn dwy flynedd ar ôl cynnig lle iddynt ar gwrs hyfforddi sydd wedi'i gymeradwyo. Yn achos staff rhan-amser, y terfyn amser yw pedair blynedd. Y cymwysterau a dderbynnir yw'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion neu Dystysgrif Addysg wedi'i dyfarnu gan Sefydliad Addysg Uwch.

**Dogfennau sy'n rhoi hawl i weithio yn y DU**

4.64 O dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006, mae dyletswydd ar gyflogwyr i atal gweithio anghyfreithlon drwy wirio dogfennau er mwyn cadarnhau bod hawl gan berson i weithio yn y DU. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i bawb sy'n dechrau gweithio i gyflogwr ar neu ar ôl 29 Chwefror 2008. Mae'r rheolau blaenorol o dan adran 8 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn parhau'n gymwys i staff a ddechreuodd weithio i gyflogwr rhwng 27 Ionawr 1997 a 28 Chwefror 2008.

4.65 Mae'n ofynnol bod cyflogwyr yn gwirio dogfennau 'hawl i weithio' i gadarnhau:

- nad yw eu cyfnod wedi dod i ben (heblaw pasbortau'r DU, y gallant fod wedi dod i ben);
- eu bod yn cynnwys lluniau sy'n debyg i'r cyflogai;
- eu bod yn cynnwys dyddiad geni sy'n ymddangos yn gyson ag edrychiad y cyflogai;
- bod y fisa yn cynnwys y math o waith y bydd y cyflogai'n ei wneud (gan gynnwys unrhyw derfyn ar nifer yr oriau y caiff weithio);
- bod rheswm da dros unrhyw wahaniaeth rhwng enwau ar ddwy ddogfen (e.e. priodas neu ysgariad).

4.66 Dylai cyflogwyr wirio dogfennau a chadw copïau o ddogfennau derbyniol, gwreiddiol cyn i rywun ddechrau gweithio. Os oes terfyn amser ar arhosiad y person, dylai cyflogwyr wirio'r dogfennau eto o leiaf unwaith bob 12 mis. Os oes cyfyngiad ar y math o waith y caiff person ei wneud a/neu ar nifer yr oriau y caiff weithio, rhaid peidio â thorri'r cyfyngiadau hynny wrth ei gyflogi.

4.67 O dan adran 15 o Ddeddf 2006, os na fydd cyflogwr yn cyflawni'r gwiriadau hyn, ac os ceir ei fod yn cyflogi gweithiwr anghyfreithlon, gellir gosod dirwy ariannol ar y cyflogwr sy'n cael ei galw'n 'gosb sifil'. O dan reoliadau cyfredol gall person derbyn dirwy hyd at uchafswm o £10,000 am bob gweithiwr anghyfreithlon.

4.68 Y diffiniad o weithiwr anghyfreithlon yw rhywun:

- sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo;
- sy'n hŷn nag 16 oed;
- na chaniateir iddo gyflawni'r gwaith dan sylw un ai am nad yw wedi cael caniatâd i ddod i'r DU neu aros yn y DU neu am fod y caniatâd a gafodd i ddod i'r DU neu aros yn y DU:
    - o yn annilys;
    - o yn anghymwys bellach am ei fod wedi'i gwtogi, ei ddirymu neu ei ddileu neu am fod amser wedi mynd heibio neu fel arall; neu
    - o yn cynnwys amod sy'n ei atal rhag derbyn y gyflogaeth.

4.69 Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi cyhoeddi'r ddogfen Full guide for employers on preventing illegal working in the UK ar gyfer cyflogwyr a staff Adnoddau Dynol sy'n ymwneud â recriwtio a chyflogi pobl. Mae'n egluro:

- y gyfraith ar weithio anghyfreithlon;

- dyletswyddau cyfreithiol cyflogwyr;
- y gwiriadau o ddogfennau y mae'n rhaid i gyflogwyr eu cyflawni;
- lluniau o'r gwahanol ddogfennau y gellid eu rhoi i gyflogwyr;
- y gwahanol fathau o statws mewnfudo sydd gan bobl;
- y canlyniadau o beidio â chynnal gwiriadau o ddogfennau neu gael eich dal yn cyflogi gweithiwr anghyfreithlon.

4.70 Rhaid i gyflogwyr beidio â gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail ei genedligrwydd, a dylent drin pob ymgeisydd am swydd yn yr un ffordd ym mhob cam o'r broses recriwtio. Felly pan fydd rhywun yn llwyddo yn ei gais am swydd, dylai cyflogwyr ofyn iddo gyflwyno ei ddogfennau cyn dechrau gweithio. Ni ddylai cyflogwyr ffurfio rhagdybiaethau ynghylch hawl rhywun i weithio yn y DU ar sail ei gefndir, edrychiad neu acen.

4.71 Er mwyn helpu cyflogwyr i gydymffurfio â'r gyfraith ar weithio anghyfreithlon drwy wirio dogfennau heb wahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail hil, mae Asiantaeth Ffiniau'r DU hefyd wedi cyhoeddi Code of Practice for employers on the avoidance of unlawful discrimination in employment practice while seeking to prevent illegal working.

4.72 Ar hyn o bryd mae Asiantaeth Ffiniau'r DU yn datgan fod gwladolion o wledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn gallu byw a gweithio yn y DU heb wneud cais drwy system bwyntiau'r DU. Bydd gwladolion y gwledydd canlynol yn gallu gweithio yma heb unrhyw gyfyngiad:

- Awstria
- Cyprus
- Denmarc
- Estonia
- Ffrainc
- Gweriniaeth Iwerddon
- Gwlad Belg
- Gwlad Groeg
- Gwlad Pwyl
- Gwlad yr Iâ
- Hwngari
- Latfia
- Liechtenstein
- Lithiwania
- Lwcsembwrg
- Malta
- Norwy
- Portiwgal
- Sbaen
- Slofacia
- Slofenia
- Sweden
- Y Ffindir
- Yr Almaen
- Yr Eidal
- Yr Iseldiroedd
- Y Swistir
- Y Weriniaeth Tsiec

4.73 Mae trefniadau gwahanol ar gyfer gwladolion Bwlgaria a Rwmania (sy'n cael eu galw'n 'wledydd A2'). Mae'n bosibl y bydd angen iddynt gael cerdyn gweithiwr ar gyfer gwledydd sydd wedi'u derbyn i'r UE cyn dod i weithio i'r DU, a hefyd y bydd angen i'w cyflogwr gael trwydded waith ar eu cyfer. Ceir gwybodaeth fanwl ar wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU am y ffordd o wirio bod gweithwyr o Fwlgaria a Rwmania wedi cael yr hawl i weithio yma.

**Geirda am gymeriad a gwaith proffesiynol**

4.74 Dylid gofyn am eirda bob amser, a'i gael yn uniongyrchol gan y canolwr. Nid arfer da yw dibynnu'n llwyr ar eirda neu lythyrau cymeradwyaeth sydd wedi'u darparu gan yr ymgeisydd. Rydym yn argymell yn gryf fod y sefydliad sy'n recriwtio'n cael geirda gan y cyflogwr presennol neu fwyaf diweddar.

4.75 Yr amcan wrth ofyn am eirda yw cael gwybodaeth wrthrychol a ffeithiol i'w hystyried wrth benderfynu ynghylch penodiadau. Rhaid cysylltu â'r canolwr yn uniongyrchol bob tro a gofyn iddo ei ddarparu. Ni ddylai cyflogwyr ddibynnu ar eirda neu lythyr cymeradwyaeth sydd wedi'i ddarparu gan yr ymgeisydd, nac ar eirda neu lythyr cymeradwyaeth penagored sydd heb gael ei ddarparu'n unswydd ar gyfer y cais. Cafwyd achosion lle y mae ymgeiswyr wedi ffugio geirda. Gall geirda neu lythyr cymeradwyaeth penagored fod yn ganlyniad i gytundeb cyfaddawdol ac nid yw'n debygol o gynnwys unrhyw sylwadau anffafriol.

4.76 Gorau oll os gellir gofyn am eirda am bob un o ymgeiswyr y rhestr fer, gan gynnwys rhai mewnol, a dylid eu cael cyn y cyfweliad fel bod modd holi'r canolwr am unrhyw destun pryder sy'n codi a'i drafod â'r ymgeisydd yn y cyfweliad. Mewn amgylchiadau eithriadol mae'n bosibl na fydd modd cael geirda cyn y cyfweliad, un ai oherwydd oedi ar ran y canolwr, neu am fod yr ymgeisydd yn gryf yn erbyn cysylltu â'i gyflogwr presennol bryd hynny, ond cael geirda fydd y nod ym mhob achos. Mater i'r person sy'n cynnal y broses recriwtio yw penderfynu a fydd yn derbyn cais gan ymgeisydd am beidio â chysylltu â'i gyflogwr presennol oni bai mai ef fydd yr ymgeisydd a ffefrir ar ôl y cyfweliad, ond nid yw'n arfer a gymeradwyir.

4.77 Ym mhob achos lle na chafwyd geirda am yr ymgeisydd a ffefrir cyn y cyfweliad, bydd y darpar gyflogwr yn sicrhau bod y geirda'n cael ei dderbyn ac y bydd craffu arno, ac y bydd unrhyw bryderon yn cael eu datrys yn foddhaol cyn cadarnhau'r penodiad.

4.78 Ym mhob cais am eirda, dylid gofyn am wybodaeth wrthrychol y gellir ei gwirio ac nid barn oddrychol. Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio profforma ar gyfer geirda. Dylid cynnwys copi o'r swydd-ddisgrifiad a manyleb y person ar gyfer y swydd y mae'r person yn ymgeisio amdani gyda phob cais am eirda. Dylid holi ym mhob cais:

- am berthynas y canolwr â'r ymgeisydd, e.e. a oedd yn berthynas waith; os felly, beth oedd; ers pa bryd y mae'r canolwr yn adnabod yr ymgeisydd, ac yn rhinwedd pa swydd;

- a yw'r canolwr wedi'i fodloni bod y person yn meddu ar y gallu angenrheidiol ac yn addas i ymgymryd â'r swydd dan sylw, a gofyn am sylwadau penodol am addasrwydd yr ymgeisydd i'r swydd, a sut y mae wedi dangos ei fod yn cyflawni manyleb y person;
- a yw'r canolwr wedi'i fodloni'n llwyr bod yr ymgeisydd yn addas i weithio gyda phlant, ac, os nad yw, gofyn am fanylion penodol am bryderon y canolwr a'i reswm dros gredu nad yw'r person yn addas o bosibl;

a dylid atgoffa'r canolwr :
- bod cyfrifoldeb ganddo i sicrhau bod y geirda'n gywir ac nad yw'n cynnwys unrhyw gamfynegi neu fylchau o bwys;
- y gellir trafod ffeithiau perthnasol yn y geirda â'r ymgeisydd.

4.79 Yn ogystal â'r uchod, dylid gofyn hefyd mewn ceisiadau i gyflogwr presennol neu flaenorol yr ymgeisydd ynghylch gwaith gyda phlant am:
- gadarnhau manylion swydd bresennol yr ymgeisydd, ei gyflog a hanes o salwch;
- sylwadau penodol y gellir eu gwirio am berfformiad ac ymddygiad yr ymgeisydd yn y gorffennol;
- manylion unrhyw weithdrefnau disgyblu y mae'r ymgeisydd wedi mynd drwyddynt lle y mae'r sancsiwn disgyblu'n parhau;
- manylion unrhyw weithdrefnau disgyblu y mae'r ymgeisydd wedi mynd drwyddynt a oedd yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles plant neu bobl ifanc, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau disgyblu lle y mae'r sancsiwn disgyblu wedi darfod, a chanlyniad y rheini;
- manylion unrhyw honiadau neu bryderon a fynegwyd ynghylch yr ymgeisydd sy'n ymwneud â diogelwch a lles plant neu bobl ifanc neu ymddygiad tuag at blant neu bobl ifanc, a chanlyniad y pryderon hynny e.e. a ymchwiliwyd i'r honiadau neu bryderon, y casgliad a gafwyd, a sut y cafodd y mater ei ddatrys.

4.80 Ar ôl cael geirda, dylid ei wirio i sicrhau bod yr holl gwestiynau penodol wedi'u hateb yn foddhaol. Os na chafwyd ateb i bob cwestiwn neu os yw'r geirda'n aneglur neu'n amhendant, dylid cysylltu â'r canolwr a gofyn iddo ddarparu atebion neu ymhelaethu drwy lythyr fel y bo'n briodol. Bydd hefyd yn bwysig cymharu'r wybodaeth a roddodd y canolwr am yr ymgeisydd a'i gyflogaeth flaenorol â'r wybodaeth yn ffurflen gais yr ymgeisydd i sicrhau eu bod yn gyson. Dylid trafod unrhyw anghysonder yn y wybodaeth â'r ymgeisydd.

4.81 Dylid ystyried unrhyw wybodaeth am gamau disgyblu neu honiadau blaenorol yng nghyd-destun yr achos penodol. Nid yw'n debygol y bydd pryderon yn codi o achosion lle'r oedd y mater wedi'i ddatrys yn foddhaol gryn amser yn ôl, neu lle y cafwyd bod yr honiad yn ddi-sail, neu lle nad oedd angen camau disgyblu ffurfiol ac na chafwyd unrhyw bryderon pellach. Mae pryderon mwy difrifol neu ddiweddar, neu faterion a oedd heb eu datrys yn foddhaol, yn fwy tebygol o beri pryder. Bydd hanes o bryderon neu honiadau mynych dros amser yn debygol o beri pryder hefyd.

**Hanes cyflogaeth flaenorol**

4.82 Rhaid i gyflogwyr ofyn bob tro am wybodaeth am gyflogaeth flaenorol a chael esboniadau boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. Os nad yw ymgeisydd am swydd addysgu neu swydd arall mewn lleoliad addysgol yn cael ei gyflogi fel athro neu weithiwr ar y pryd, bydd hefyd yn ddoeth cysylltu â'r ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol lle'r oedd wedi'i gyflogi'n fwyaf diweddar i gael cadarnhad o fanylion ei gyflogaeth a'i resymau dros ymadael.

**Iechyd**

4.83 Mae'n ofynnol bod pawb a gaiff ei benodi i swydd lle y bydd yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â phlant neu bobl ifanc yn feddygol ffit (gweler Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999).

**Gwiriadau cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwirio rhestrau gwahardd**

4.84 Ceir canllawiau manwl ym Mhennod 5 ynghylch pa staff y mae angen gwiriad cofnodion troseddol neu wiriad o restrau gwahardd ar eu cyfer cyn derbyn cyflogaeth mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach, ac am y trefniadau newydd sydd wedi'u cyflwyno o dan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ganlyniad i Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.

## Ar ôl penodi: cynnal diwylliant diogelach

4.85 Mae'n bwysig bod pob aelod o staff y sefydliad yn cael hyfforddiant a chyrsiau cynefino priodol er mwyn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau o ran diogelu plant a bod yn hyderus wrth eu cyflawni. Bydd angen hefyd i staff, disgyblion, myfyrwyr a rhieni fod yn hyderus y gallant godi materion neu fynegi pryderon am ddiogelwch neu les plant, a chael eu clywed a'u cymryd o ddifrif. Gellir cyflawni hyn drwy gynnal ethos sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn amddiffyn staff. Bydd hyn wedi'i seilio ar y canlynol:

- datganiad ysgrifenedig clir o'r safonau ymddygiad a therfynau ymddygiad priodol ar gyfer staff a disgyblion sydd wedi'i ddeall a'i gymeradwyo gan bawb;
- hyfforddiant a chyrsiau cynefino priodol;
- briffio rheolaidd a thrafod materion perthnasol;
- cynnwys deunydd perthnasol yn y cwricwlwm o'r fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd;
- sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau addysg yn gyfarwydd â'r canllawiau arfer da yn Atodiad A i'r canllawiau hyn;
- system adrodd glir ar gyfer disgyblion, dysgwyr, aelodau staff neu bersonau eraill sy'n pryderu am ddiogelwch plant.

**Rhaglen gynefino**

4.86 Rhaid cael rhaglen gynefino ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr a benodir o'r newydd yn y sefydliad, gan gynnwys staff addysg, beth bynnag fo'u profiad blaenorol. Pwrpas y rhaglen gynefino yw:

- darparu hyfforddiant a gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad;
- cynorthwyo unigolion mewn ffordd sy'n addas i'r rôl y byddant yn ei chyflawni ;
- cadarnhau'r ymddygiad a ddisgwylir gan staff yn yr ysgol neu goleg addysg bellach;
- cynnig cyfleoedd i aelod staff neu wirfoddolwr newydd drafod unrhyw faterion neu bryderon ynghylch ei rôl neu ei gyfrifoldebau;
- galluogi mentor neu reolwr llinell y person i adnabod unrhyw bryderon neu ystyriaethau ynghylch gallu neu addasrwydd y person ar y dechrau a rhoi sylw iddynt ar unwaith.

4.87 Bydd cynnwys a natur y broses gynefino'n amrywio yn ôl rôl a phrofiad blaenorol yr aelod staff neu wirfoddolwr newydd ond, yng nghyswllt diogelu a hyrwyddo lles plant, bydd y rhaglen gynefino yn cynnwys gwybodaeth a datganiadau ysgrifenedig ynghylch:

- polisïau a gweithdrefnau i ddiogelu a hyrwyddo lles e.e. amddiffyn plant, gwrth-fwlio, gwrth-hiliol, ymyrraeth gorfforol neu ataliaeth, gofal personol, diogelwch ar y Rhyngrwyd ac unrhyw drefniadau lleol ar gyfer amddiffyn a diogelu plant;
- arferion diogel a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan staff a disgyblion yn y sefydliad;
- sut a chyda phwy y codir unrhyw bryderon am y materion hyn;
- gweithdrefnau personél perthnasol eraill e.e. disgyblu, medrusrwydd a chwythu'r chwiban.

4.88 Bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar amddiffyn plant ar lefel sy'n briodol i rôl y person.

## Athrawon Newydd Gymhwyso

4.89 Mae hyfforddiant sefydlu yn hyrwyddo datblygiad athrawon newydd gymhwyso yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn eu swydd drwy eu cymell i ganolbwyntio a myfyrio ar gynnydd yn eu proffesiynoldeb, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau. Mae hyfforddiant sefydlu hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol i fentoriaid sefydlu drwy sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn cael darpariaeth sefydlu o ansawdd uchel drwy gynnig cymorth, cyngor, adborth ac anogaeth.

4.90 Mae hyfforddiant sefydlu'n ofyniad statudol ar gyfer pob athro newydd gymhwyso yng Nghymru sy'n ennill statws athro cymwysedig ar ôl 1 Ebrill 2003. Mae'r cyfnod ymsefydlu statudol yn helpu athrawon newydd gymhwyso drwy bontio rhwng addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon ac arferion proffesiynol effeithiol. Fel arfer bydd y cyfnod ymsefydlu yn cynnwys tri

thymor llawn (h.y. un flwyddyn ysgol) neu gyfnod cyfatebol, er bod cyfle i athrawon rhan-amser gael seibiant o'u gwaith neu gyflogaeth drwy weithio fel athrawon llanw dros gyfnod byr.

4.91 Mae hyfforddiant sefydlu yng Nghymru'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- rhaglen o ddatblygiad proffesiynol, monitro a chymorth wedi'i seilio ar y blaenoriaethau craidd yn y meysydd y gwyddom eu bod yn allweddol i wella safonau addysgu a gwella canlyniadau dysgwyr. Y blaenoriaethau yw llythrennedd, rhifedd, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, anghenion dysgu ychwanegol, rheoli ymddygiad ac ymarfer myfyriol;
- cymorth gan fentor drwy gydol y cyfnod ymsefydlu;
- gostyngiad o 10% yn amserlen yr athro newydd gymhwyso (mae hyn wedi'i nodi yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol);
- asesu ar sail Safonau Athrawon wrth eu Gwaith.

4.92 Er mwyn gallu cynnwys cyfnod o gyflogaeth yn y cyfnod ymsefydlu statudol, rhaid i'r athro newydd gymhwyso fod â statws athro cymwysedig, bod wedi cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) a bod wedi'i gyflogi mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir.

4.93 Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r arian ar gyfer y rhaglen sefydlu. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan CyngACC.

4.94 Daeth rheoliadau diwygiedig ar sefydlu i rym ar 1 Medi 2012 sydd wedi cryfhau'r trefniadau sefydlu drwy wneud cynnwys y rhaglen sefydlu'n fwy cyson a'r dulliau asesu'n fwy trwyadl. Bydd y newidiadau'n sicrhau dull mwy effeithiol o sefydlu athrawon newydd gymhwyso. Byddant yn helpu i wella ansawdd y cymorth i athrawon newydd gymhwyso yn eu cyfnod ymsefydlu, ac i sicrhau penderfyniadau o'r ansawdd gorau gan y Corff Priodol (h.y. yr awdurdod lleol) ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu.

4.95 Mae sefydliadau addysg bellach ac ysgolion annibynnol yn gallu cynnig hyfforddiant sefydlu statudol hefyd os byddant yn dewis, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â phob agwedd ar Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012.

4.96 Ar gyfer athrawon newydd gymhwyso sy'n dechrau ar eu cyfnod ymsefydlu ar neu ar ôl 1 Medi 2012, bydd trefniadau newydd ar waith. Y prif newidiadau yw:

- Bydd yn ofynnol i athrawon newydd gymhwyso gwblhau cyfnod ymsefydlu o dri thymor ysgol neu gyfnod cyfatebol ar ffurf 380 o sesiynau ysgol (mae un sesiwn yn cyfateb i un bore neu un prynhawn o addysgu);
- Bydd athrawon newydd gymhwyso sydd heb gyflogaeth reolaidd yn gallu cronni sesiynau ysgol nes byddant wedi cwblhau 380 o sesiynau;
- Asesir athrawon newydd gymhwyso ar sail Safonau Athrawon wrth eu Gwaith ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu a bydd yn ofynnol iddynt gasglu tystiolaeth i ddangos sut y mae eu hymarfer yn cwrdd â Safonau Athrawon wrth eu Gwaith;

- Darperir cymorth a goruchwyliaeth i athrawon newydd gymhwyso drwy bartneriaeth rhwng yr ysgol(ion) lle y mae'r athro'n gweithio a mentor allanol sy'n gweithio ar ran y corff priodol;
- Cyflwyno'r dewis o gymryd Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol i athrawon newydd gymhwyso sy'n dechrau ar eu cyfnod ymsefydlu o fis Medi 2012. Bwriedir iddi redeg ochr yn ochr â'r cyfnod ymsefydlu a darparu sylfaen ar gyfer datblygiad proffesiynol cynnar ar ôl y cyfnod ymsefydlu.  Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol ar gael ar wefan Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd.

**Monitro a sicrwydd**

4.97 Drwy fonitro'r broses recriwtio a threfniadau sefydlu gellir gwella arferion recriwtio ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys:

- trosiant staff a'r rhesymau dros ymadael;
- cyfweliadau ymadael;
- presenoldeb recriwtiaid newydd mewn hyfforddiant amddiffyn plant.

# Pennod 5: Fetio staff a gwirfoddolwyr o dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd

## Cyflwyniad

5.1 Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb i bawb, a rhaid cynnwys trefniadau clir ac effeithiol ar gyfer diogelu plant mewn gweithdrefnau ac arferion cyffredinol. Mae'n hanfodol bod ysgolion, yn ogystal ag asiantaethau sy'n cyflenwi staff yn y sector addysg, yn mabwysiadu gweithdrefnau cadarn ar gyfer fetio cyn cyflogi sy'n lleihau'r risg o gyflogi pobl a allai gam-drin plant, neu sy'n anaddas i weithio gyda nhw am reswm arall.

5.2 Yn y bennod hon rydym yn disgrifio'r prosesau fetio sydd i'w dilyn gan awdurdodau lleol, yr holl ysgolion, gan gynnwys ysgolion nas cynhelir ac ysgolion annibynnol, colegau addysg bellach, asiantaethau cyflenwi a chontractwyr. Disgrifir y gwiriadau fetio y mae'n rhaid eu gwneud ar gyfer pawb sy'n dymuno gweithio gyda phlant a phobl ifanc drwy gyflawni rôl yn y gwasanaeth addysg, gan gynnwys athrawon, gweithwyr eraill, sy'n gweithio am dâl neu heb dâl, llywodraethwyr ysgolion a cholegau addysg bellach, staff o wledydd tramor a staff asiantaeth sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg.

5.3 Mae'r canllawiau yn y bennod hon yn egluro'r gofynion newydd am fetio cyn cyflogi a ddaeth i rym ar 10 Medi 2012 sy'n rhan o'r trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae'r bennod hon yn egluro cefndir y trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd, effaith y newidiadau hyn ar y sector addysg, y gofynion fetio sydd heb newid, a'r cofnodion o wiriadau fetio y mae'n rhaid eu cadw.

5.4 Er bod fetio cyn cyflogi yn gam ataliol allweddol i leihau'r posibilrwydd y bydd plant yn dioddef niwed gan bobl sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth, nid yw ond yn un o'r elfennau pwysig yn y broses recriwtio a rhaid ei ystyried ochr yn ochr ag agweddau allweddol eraill sydd wedi'u trafod yn fwy manwl ym Mhennod 4, fel ffurflen gais yr ymgeisydd, y cyfweliad, geirda a gwybodaeth am eu hanes a'u profiad mewn gwaith.

5.5 Rhaid rhoi mesurau eraill ar waith hefyd i ddiogelu plant ar ôl penodi staff. Dylai staff newydd gael hyfforddiant priodol a chael eu hysbysu am bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Mae hefyd yn bwysig bod ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn sicrhau bod ymwelwyr yn hysbysu staff y dderbynfa neu unigolyn a enwebwyd wrth gyrraedd ac ymadael, bod mesurau i ddangos yn glir eu bod yn ymwelwyr a'u bod yn cael eu hebrwng a'u goruchwylio'n briodol drwy gydol eu hymweliad. Bydd mannau gweithio y gellir eu gwylio, os ydynt ar gael, a chyngor, cyfarwyddyd a hyfforddiant ynghylch ymddygiad amhriodol yn cyfrannu at greu amgylchedd diogelach i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr. Mae rheolaeth wyliadwrus, barhaus o ddydd i ddydd yn hanfodol, er mwyn sylwi cyn gynted â phosibl ar ymddygiad sy'n anarferol neu'n peri pryder.

## Cefndir y trefniadau datgelu a gwahardd newydd

### Y Cynllun Fetio a Gwahardd gwreiddiol o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006

5.6 Yn 2002 roedd y gofid am lofruddio'r ddwy ferch ysgol, Holly Wells a Jessica Chapman, gan y gofalwr yn eu hysgol Ian Huntley wedi arwain at brotestiadau gan y cyhoedd a dynnodd sylw at y ffordd y mae pobl sy'n gweithio gyda phlant yn cael eu fetio. Sefydlwyd ymchwiliad cyhoeddus i ystyried y mater, dan arweiniad yr Arglwydd Bichard, a chyhoeddwyd adroddiad ar ei argymhellion yn 2004. Ymysg pethau eraill, galwyd am gynllun i gofrestru'r bobl hynny a oedd yn dymuno gweithio neu wirfoddoli i gyflawni rhai rolau penodol gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

5.7 O ganlyniad i hyn, crëwyd Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 gan Lywodraeth y DU. Roedd y ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Fetio a Gwahardd i wirio cofnodion y rheini a oedd am weithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed.

5.8 O dan y Cynllun Fetio a Gwahardd, byddai'n ofynnol bod pobl a oedd am weithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, am dâl neu'n wirfoddol, yn mynd drwy broses cyn dechrau gweithio a fyddai'n asesu gwybodaeth amdanynt a oedd yn cael ei dal. Pe byddai'r asesiad yn dangos eu bod yn achosi perygl o niwed i grwpiau hyglwyf, byddent yn cael eu gwahardd rhag gweithio am dâl neu'n wirfoddol gyda'r grwpiau hyn.

5.9 Nid oedd y cysyniad hwn o wirio addasrwydd y rheini sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn beth newydd, gan fod cynlluniau gwahardd wedi bod ar waith er 1926. Roedd y Cynllun Fetio a Gwahardd wedi'i fwriadu i ddatblygu a disodli'r prosesau gwahardd blaenorol a'r nod oedd sefydlu proses fwy cyson ar gyfer fetio unigolion a oedd yn dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed am dâl neu'n wirfoddol. Y rhain oedd:

- Y rhestr o dan y Ddeddf Amddiffyn Plant;
- Rhestr 99 (gwybodaeth wedi'i dal o dan Adran 142 o'r Ddeddf Addysg);
- Y rhestr o dan y Ddeddf Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed;
- Gorchmynion Anghymhwyso'r Llysoedd.

5.10 Byddai'r rheini a oedd yn gweithio'n agos iawn gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed yn rheolaidd – gan gyflawni'r hyn sy'n cael ei alw'n 'Weithgaredd a Reoleiddir' ac yn cynnwys rolau fel athrawon, nyrsys a gweithwyr cymdeithasol – yn gorfod ymgeisio i gael eu cofrestru o dan y Cynllun Fetio a Gwahardd, a byddai'r sefydliadau cyflogi'n gorfod gwirio'r cofrestriad hwnnw.

5.11 Ni ellid cofrestru unigolion a oedd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Byddai dwy ffordd o wahardd unigolion:

- byddai pob person a oedd wedi cael collfarn neu rybuddiad am rai troseddau difrifol yn cael ei wahardd yn awtomatig rhag gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, felly ni ellid ei gofrestru; neu
- os cafwyd gwybodaeth arall am unigolyn, byddai awdurdod canolog (yr Awdurdod Diogelu Annibynnol) yn ystyried gwahardd yr unigolyn hwnnw, a byddai'n ei wahardd os oedd yn achosi perygl parhaus i blant neu oedolion sy'n agored i niwed.

5.12 Byddai'r Cynllun Fetio a Gwahardd hefyd wedi cyflwyno ail fath o weithgaredd (a allai fod yn waith am dâl neu'n waith gwirfoddol), o'r enw 'Gweithgarwch Rheoledig', lle y byddai unigolion mewn swyddi ategol neu swyddi sy'n rhoi hawl iddynt weld gwybodaeth sensitif am blant neu oedolion sy'n agored i niwed yn gorfod cael eu gwirio hefyd. Byddai hyn wedi cynnwys, er enghraifft, staff derbynfa mewn clinigau cleifion allanol, staff arlwyo a gofalwyr mewn colegau addysg bellach a chlercod cofnodion mewn ysbytai.

5.13 Yn wreiddiol, byddai wedi bod yn ofynnol i 11 miliwn o unigolion gofrestru o dan y Cynllun Fetio a Gwahardd, gan fod eu gwaith yn dod o fewn y diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

5.14 Mewn ymateb i bryderon am gwmpas y Cynllun, roedd y Llywodraeth ar y pryd wedi comisiynu ei Phrif Gynghorydd ar Ddiogelwch Plant, Syr Roger Singleton, i gynnal adolygiad o'r Cynllun. Roedd adroddiad Syr Roger Singleton, 'Drawing the Line', a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2009, yn argymell diwygio'r cynllun fetio a gwahardd, a fyddai wedi cynnwys tua 9.3 miliwn o unigolion.

**Adolygiadau o'r Cynllun Fetio a Gwahardd a'r Gyfundrefn Cofnodion Troseddol**

5.15 Wrth ddod i rym ym mis Mai 2010, cafwyd datganiad gan y Llywodraeth Glymblaid yn ei Rhaglen Lywodraethu am ei bwriad i leihau'r Cynllun Fetio a Gwahardd fel ei fod o faint mwy cymesur a "synhwyrol". Ym Mehefin 2010 cyhoeddodd Gweinidogion na fyddai'r Cynllun Fetio a Gwahardd yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2010 fel y bwriadwyd a bod adolygiad mewnol i'w gynnal, a chomisiynwyd adolygiad annibynnol hefyd o'r Gyfundrefn Cofnodion Troseddol.

5.16 Credai'r Llywodraeth Glymblaid fod y Cynllun Fetio a Gwahardd yn ymateb anghymesur i'r perygl a oedd wedi'i achosi gan leiafrif bach o bobl a oedd yn dymuno niweidio pobl hyglwyf, ac y byddai'n creu biwrocratiaeth ganolog gymhleth a beichus a fyddai'n cwmpasu gormod o bobl o lawer. Dadleuai y byddai'r Cynllun Fetio a Gwahardd yn cael effaith wrthgynhyrchiol drwy gymell oedolion da eu bwriad i beidio â gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Credai fod y Cynllun Fetio a Gwahardd yn symud y cyfrifoldeb dros sicrhau recriwtio diogel yn rhy bell oddi wrth y cyflogwr ac at y wladwriaeth, a bod hyn yn hybu ymddygiad gwrth-risg yn hytrach nag ymddygiad cyfrifol gan gyflogwyr drwy roi'r argraff bod y Cynllun canolog hwn yn gallu dileu pob risg drwy'r system gwirio cyn cyflogi.

5.17 Ym mis Chwefror 2011 cyhoeddwyd adroddiadau'r Adolygiad Ailfodelu o'r Cynllun Fetio a Gwahardd a'r rhan gyntaf o'r adolygiad o'r Gyfundrefn Cofnodion Troseddol. Daeth yr adolygiadau i'r casgliad bod rhan hanfodol i'w chwarae gan gyflogwyr wrth sicrhau arferion recriwtio diogel ond bod rhaid ategu hyn drwy gynllun canolog cymesur ar gyfer gwahardd unigolion. Cawsant hefyd fod dryswch ynghylch pam yr oedd dau gorff cyhoeddus gwahanol – y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol – yn ymwneud â gwirio cyn cyflogi. Cafwyd nifer o argymhellion gan yr adolygiadau o'r Cynllun Fetio a Gwahardd a'r Gyfundrefn Cofnodion Troseddol a oedd yn cynnwys:

- Rhoi'r gorau i'r bwriad i gofrestru tua naw miliwn o bobl gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol – na fydd yn ofynnol i bobl gofrestru gyda'r cynllun ac na fydd monitro parhaus;
- Lleihau cwmpas y cynllun gwahardd fel ei fod yn cynnwys dim ond y bobl hynny a all ddod i gysylltiad agos neu reolaidd heb oruchwyliaeth â grwpiau hyglwyf;
- Bod gwiriadau o gofnodion troseddol yn drosglwyddadwy;
- Sefydlu system ar-lein i ganiatáu i gyflogwyr wirio am ddiweddariadau o wybodaeth am yr ymgeisydd.

## Newidiadau yn sgîl Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

5.18 O ganlyniad i'r adolygiadau o'r Cynllun Fetio a Gwahardd a'r Gyfundrefn Cofnodion Troseddol, gwnaeth Llywodraeth y DU nifer o newidiadau mewn systemau fetio a gwahardd cyn cyflogi. Yn lle'r Cynllun Fetio a Gwahardd arfaethedig, sefydlwyd y trefniadau datgelu a gwahardd newydd drwy Ddeddf Diogelu Rhyddiadau 2012.

5.19 Daeth y trefniadau datgelu a gwahardd newydd i rym ar 10 Medi 2012. Maent yn cadw rhai o nodweddion y Cynllun Fetio a Gwahardd (gan gynnwys y ddyletswydd i atgyfeirio a gwahardd cymryd ymlaen person sydd ar restr wahardd i gyflawni gweithgaredd a reoleiddir). Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd yn galw am gofrestru na monitro (fel na cheir y gronfa ddata arfaethedig o 9.3 miliwn o bobl o dan y Cynllun Fetio a Gwahardd) ac nid ydynt ond yn cynnwys y rheini a all ddod i gysylltiad agos neu reolaidd â grwpiau hyglwyf, sef "Gweithgaredd a Reoleiddir" yn ôl y diffiniad mewn deddfwriaeth – felly mae'r categori "Gweithgarwch Rheoledig" wedi cael ei ddiddymu. Fodd bynnag, yn achos yr unigolion hynny nad ydynt yn gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir ond sydd, er hynny, yn gweithio am dâl neu'n wirfoddol gyda phobl sy'n agored i niwed, fe all cyflogwyr gael gwiriadau o gofnodion troseddol, er nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny.

5.20 Cyflwynwyd nifer o newidiadau pwysig eraill ym Medi 2012 a oedd yn ymwneud â datgelu gwybodaeth yn ôl disgresiwn un o Brif Swyddogion yr

Heddlu, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth sydd ar dystysgrif yn gywir, yn berthnasol ac y dylid ei datgelu. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i ofyn am sylwadau, prawf mwy trwyadl ar berthnasedd, a phroses adolygu gan Fonitor Annibynnol.

5.21 Cafwyd newidiadau eraill mewn trefniadau datgelu a gwahardd ym Mehefin 2013, a oedd yn cynnwys rhoi tystysgrifau i ymgeiswyr yn unig yn hytrach na chyrff sydd wedi'u cofrestru, a lansio gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r gwasanaeth tanysgrifio hwn yn galluogi unigolion i wneud cais am ddiweddaru eu gwiriad cofnodion troseddol fel y gallant fynd â thystysgrifau'r DBS gyda nhw pan fyddant yn symud o rôl i rôl. Wedyn gall cyflogwyr wneud Gwiriadau Statws ar-lein o dystysgrif yr unigolyn ar unwaith yn ddi-dâl i weld a oes unrhyw wybodaeth newydd wedi dod i law ers rhoi tystysgrif y DBS.

5.22 Yn yr adran hon rydym yn rhoi disgrifiad mwy manwl o'r prif newidiadau o dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd:

- Sefydlu Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd – uno'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol
- Tystysgrifau i ymgeiswyr yn unig – nid ydynt yn cael eu hanfon i Gyrff Cofrestredig bellach, dim ond i'r unigolion eu hunain
- Gwasanaeth Diweddaru'r DBS – gellir trosglwyddo gwiriadau cofnodion troseddol a gall cyflogwyr wneud gwiriadau ar-lein ar unwaith yn ddi-dâl i sicrhau bod tystysgrifau'n gyfredol ac yn ddilys
- Diddymu cofrestru a monitro parhaus
- Terfyn oedran isaf (16) ar gyfer gwneud cais am wiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol
- Diffiniad newydd o 'Weithgaredd a Reoleiddir'
- Diddymu 'Gweithgarwch Rheoledig'
- Diddymu 'gwybodaeth Ychwanegol'
- Prawf mwy trwyadl ar berthnasedd pan fydd yr heddlu'n ystyried datgelu gwybodaeth sydd wedi'i dal yn lleol ar Dystysgrif Datgeliad Manylach
- Cyfle i ofyn am Sylwadau
- Hawl newydd i ymgeiswyr ofyn am adolygiad gan y Monitor Annibynnol o wybodaeth sy'n cael ei dal yn lleol a ddatgelwyd gan yr heddlu

**Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd (DBS)**

5.23 Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol wedi uno a'r enw ar y corff newydd yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Yr enw newydd ar wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yw gwiriadau'r DBS.

5.24 Bydd y DBS yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau mwy diogel wrth recriwtio ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau hyglwyf, gan gynnwys plant, drwy wirio cofnodion troseddol a rhestrau gwahardd:

- **Gwirio cofnodion troseddol –** Mae'r gwasanaeth gwirio yn caniatáu i gyflogwyr weld hanes cofnodion troseddol pobl sy'n gweithio, neu sy'n gwneud cais am weithio, mewn swyddi penodol, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys gwaith gyda phlant neu oedolion mewn sefyllfaoedd penodol. Bydd y DBS yn rhoi tri math o Ddatgeliad, pob un yn cyfateb i lefel wirio wahanol. Bydd lefel y gwiriad yn dibynnu ar ddyletswyddau'r swydd benodol dan sylw. Ar gyfer swyddi sy'n cynnwys gofal, goruchwyliaeth neu gyfrifoldeb gan un person am blant neu oedolion bydd angen gwiriad manylach y DBS (gwiriad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn hynny). Mae hyn yn cynnwys gwirio a yw rhywun ar ddwy restr y DBS (rhestrau'r Awdurdod Diogelu Annibynnol cyn hynny) o unigolion a waharddwyd am eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant neu oedolion.

- **Atgyfeirio a gwahardd –** Yn adain gwahardd y DBS mae gweithwyr achos arbenigol yn prosesu atgyfeiriadau am unigolion sydd wedi gwneud niwed neu achosi perygl o niwed i blant a/neu grwpiau hyglwyf. Byddant yn penderfynu pwy a gaiff ei osod ar y rhestr wahardd ar gyfer plant a/neu'r rhestr wahardd ar gyfer oedolion a'i atal dan y gyfraith rhag gweithio gyda phlant neu grwpiau hyglwyf. Bydd cyflogwyr yn torri'r gyfraith os byddant yn cyflogi rhywun neu'n caniatáu iddo wirfoddoli ar gyfer gwaith o'r math hwn a'r person hwnnw ar un o'r rhestrau gwahardd.

**Tystysgrifau i ymgeiswyr yn unig**

5.25 O 17 Mehefin 2013, ni fydd y DBS yn anfon copi o dystysgrif DBS yr unigolyn i Gyrff Cofrestredig. Mae'r newid hwn yn rhan o ymgais gan Lywodraeth y DU i roi mwy o reolaeth i'r unigolyn dros ei ddata ei hun. Bellach bydd yr unigolyn yn gallu herio'r wybodaeth sydd wedi'i datgelu gan y DBS, cyn i'w gyflogwr presennol neu ddarpar gyflogwr ei gweld. Yn lle hynny, bydd y DBS yn rhoi tystysgrifau i ymgeiswyr yn unig. Bydd angen i gyflogwyr ofyn i ymgeiswyr am gael gweld eu Tystysgrif DBS.

**Gwasanaeth Diweddaru'r DBS**

5.26 Bydd Gwasanaeth Diweddaru'r DBS yn creu newid sylweddol yn y ffordd y mae unigolion yn defnyddio eu gwiriad cofnodion troseddol a'r ffordd y mae cyflogwyr yn gwirio eu haddasrwydd. Gall olygu na fydd angen llenwi ffurflenni cais bellach ac na fydd angen aros i wiriadau gael eu cwblhau. Yn y pen draw, ar ôl cyflwyno'r Gwasanaeth Diweddaru, ni fydd angen gwneud cynifer o wiriadau cofnodion troseddol, a bydd pawb yn arbed amser ac arian o ganlyniad.

5.27 O 17 Mehefin 2013, bydd unrhyw un sy'n gwneud cais am ei wiriad cofnodion troseddol nesaf i'r DBS (yn y ffordd arferol) yn gallu dewis tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru am £13 y flwyddyn. Drwy wneud hyn, gellir diweddaru gwiriad cofnodion troseddol yr unigolyn fel y bydd yn gallu mynd â'i dystysgrif DBS gydag ef wrth symud o rôl i rôl, o fewn yr un gweithlu, ac mae'n bosibl na fydd angen iddo wneud cais am un arall byth eto.

5.28 Pan fydd cyflogwr yn cymryd staff newydd ymlaen, os byddant wedi cofrestru gyda Gwasanaeth Diweddaru'r DBS, gall y cyflogwr wedyn wneud gwiriad ar-lein ar unwaith, yn ddi-dâl, o dystysgrif yr unigolyn (wedi iddo gydsynio i hynny) i weld a yw unrhyw wybodaeth newydd wedi dod i law ers rhoddi'r dystysgrif DBS – yr enw ar hyn yw gwiriad Statws. Os yw'r unigolyn wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru, dim ond os bydd y system yn hysbysu'r cyflogwr bod newid wedi digwydd y byddai'r cyflogwr yn gorfod gofyn am wiriad cofnodion troseddol newydd.

5.29 Ni chodir tâl am wiriadau statws a gall y cyflogwr eu gwneud yn ôl yr angen, ar yr amod bod yr unigolyn wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru. Rhaid i'r cyflogwr gael cydsyniad yr unigolyn hefyd un ai ar lafar neu drwy lythyr (gall y cyflogwr ofyn am gydsyniad bob tro y bydd yn gwneud gwiriad statws neu ystyried gofyn am gydsyniad parhaus gan yr unigolyn). Gall cyflogwyr ddewis talu'r ffi danysgrifio flynyddol i'r Gwasanaeth Diweddaru ar ran yr ymgeisydd, neu ad-dalu'r swm iddo. Bydd yr unigolyn yn gallu gweld pwy sydd wedi gwneud gwiriadau Statws, a pha bryd, ar ei gyfrif ar-lein.

5.30 Er mwyn gwneud gwiriad Statws ar Dystysgrif DBS yr unigolyn, mae'n ofynnol bod y cyflogwr:

- yn cael cydsyniad yr ymgeisydd;
- yn cadarnhau bod ganddo hawl gyfreithiol i wneud y gwiriad Statws;
- yn gweld y Dystysgrif wreiddiol i sicrhau ei bod o'r un math ac ar yr un lefel â'r un y mae ganddo hawl gyfreithiol i wneud cais amdani;
- yn sicrhau bod y gwiriadau priodol wedi'u cwblhau i weld pa wybodaeth, os o gwbl, sydd wedi'i datgelu am yr ymgeisydd;
- yn gwirio hunaniaeth y person;
- yn cadarnhau bod yr enw ar y Dystysgrif DBS yn cyfateb i'r hunaniaeth hon;
- yn cofnodi rhif cyfeirnod y Dystysgrif DBS, enw'r person a'i ddyddiad geni;
- yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y DBS. Mae hyn yn cynnwys gofyniad am bolisi ar recriwtio cyn-droseddwyr (mae enghraifft ar wefan y DBS yn www.gov.uk/dbs), a threfnu i'r polisi fod ar gael i'r person.

**Diddymu'r gofyniad am gofrestru a monitro parhaus**

5.31 Y bwriad gwreiddiol – yn y Cynllun Fetio a Gwahardd – oedd bod unrhyw un a oedd am weithio gyda grwpiau hyglwyf, gan gynnwys plant, yn gorfod cofrestru o dan y cynllun a chael ei fonitro'n barhaus am unrhyw wybodaeth newydd am gofnodion troseddol. Nid oedd hyn wedi dod i rym ac mae'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau wedi'i ddiddymu. Ni fydd y gofyniad am gofrestru a monitro yn cael ei gyflwyno.

**Terfyn oedran isaf ar gyfer gwiriadau Datgelu**

5.32 O hyn ymlaen ni fydd rhywun o dan 16 oed yn gallu gwneud cais am wiriad DBS.

**Diffiniad newydd o ‘Weithgaredd a Reoleiddir’**

5.33 Dim ond y rheini a all ddod i gysylltiad rheolaidd neu agos â phlant ac oedolion sy’n agored i niwed, sef drwy ‘Weithgaredd a Reoleiddir’ yn ôl y diffiniad mewn deddfwriaeth, sy’n dod o dan y trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd. Mae’n bwysig nodi, ar gyfer ysgolion a cholegau addysg bellach, fod diffiniad a chwmpas Gweithgaredd a Reoleiddir gyda phlant wedi newid. Rhaid bod yn glir ynghylch y diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir oherwydd:

- Bydd angen gwiriad DBS manylach a gwiriad o’r rhestr wahardd briodol (ar gyfer plant, oedolion, neu’r ddau) ar gyfer rolau sy’n gyson â’r diffiniad newydd o Weithgaredd a Reoleiddir;

- Bydd corff yn torri’r gyfraith os bydd yn caniatáu i berson weithio mewn gweithgaredd a reoleiddir gan wybod ei fod wedi’i wahardd;

- Os byddwch yn diswyddo neu’n symud rhywun o weithgaredd a reoleiddir (neu os byddech wedi gwneud hynny pe na byddai wedi ymadael eisoes) am ei fod wedi gwneud niwed neu achosi perygl o niwed i grwpiau hyglwyf gan gynnwys plant, mae’n ofynnol o dan y gyfraith eich bod yn anfon gwybodaeth am y person hwnnw i’r DBS (yr enw ar hyn yw ‘ddyletswydd i atgyfeirio’). Mae peidio â gwneud hynny’n drosedd. Os ydych yn credu bod y person wedi cyflawni trosedd, fe’ch cynghorir yn daer hefyd i drosglwyddo’r wybodaeth i’r heddlu. Mae mwy o wybodaeth am y broses atgyfeirio ym Mhennod 6.

5.34 Y diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir yw gweithgaredd heb oruchwyliaeth mewn ystod gyfyngedig o sefydliadau lle y mae cyfle i ddod i gysylltiad â phlant – gelwir y rhain yn lleoedd penodedig (‘specified places’) mewn deddfwriaeth ac maent yn cynnwys ysgolion, cartrefi plant, safleoedd gofal plant a sefydliadau cyn ysgol.

5.35 O dan y trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd, mae ‘Gweithgaredd a Reoleiddir’ yn cynnwys y gweithgareddau heb oruchwyliaeth a ganlyn:

- Addysgu
- Hyfforddi
- Rhoi cyfarwyddyd
- Gofalu am blant neu eu goruchwylio
- Darparu cyngor/cyfarwyddyd ar les
- Gyrru cerbyd i blant yn unig.

5.36 Yn ogystal â hyn, er mwyn ei gyfrif yn Weithgaredd a Reoleiddir, rhaid i weithgaredd heb oruchwyliaeth o’r fath gael ei gyflawni mewn lle penodedig o’r fath yn rheolaidd. Ystyr ‘rheolaidd’ yw ei fod yn cael ei gyflawni gan yr un person yn aml (unwaith yr wythnos neu’n amlach), neu ar bedwar neu fwy o ddiwrnodau mewn cyfnod o 30 niwrnod (neu, mewn rhai achosion, dros nos).

5.37 Yn yr un modd ag o'r blaen, nid yw'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir yn cynnwys trefniadau teuluol na threfniadau anfasnachol, personol.

5.38 Rhai o'r gweithgareddau nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn Weithgaredd a Reoleiddir o dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd yw:

- Gweithgareddau a gyflawnir gan wirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwylio ar lefel resymol o ddydd i ddydd;
- Gwasanaethau achlysurol neu dros dro fel gwaith cynnal neu atgyweirio.

5.39 Yn achos yr unigolion hynny nad ydynt yn gweithio mewn Gweithgaredd a Reoleiddir ond sydd, er hynny, yn gweithio am dâl neu'n wirfoddol gyda phlant, fe all eu cyflogwyr gael gwiriadau cofnodion troseddol, ond ni fydd yn ofynnol iddynt wneud hynny – ond bydd yn anghyfreithlon iddynt wirio a ydynt ar restr wahardd.

**Diddymu 'Gweithgarwch Rheoledig'**

5.40 Nid yw'r categori 'Gweithgarwch Rheoledig' yn bodoli bellach o dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd. Roedd y categori hwn yn cynnwys pobl a all fod â llai o gysylltiad â phlant na'r rheini mewn Gweithgaredd a Reoleiddir, er enghraifft, rhai sy'n delio â chofnodion, ac aelodau o Fwrdd Llywodraethwyr. O'r blaen, gallai cyflogwyr wirio a oedd pobl a oedd yn gweithio mewn Gweithgarwch Rheoledig ar y rhestrau gwahardd, ond ni allant wneud hyn bellach (er y gallai gweithiwr fod yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS ar sail y rôl sydd ganddo). O ganlyniad i hyn, o fis Medi 2012 nid yw ysgol neu goleg addysg bellach yn gallu gwirio a yw aelodau o Fwrdd Llywodraethwyr ar restr wahardd, ond gallant gael Gwiriad Datgeliad Manylach o hyd. Ceir mwy o wybodaeth am wirfoddolwyr bellach yn Bennod 5.

**Diddymu 'Gwybodaeth Ychwanegol'**

5.41 Mae 'gwybodaeth ychwanegol' yn wybodaeth sensitif sy'n cael ei dal ar gofnodion yr heddlu lleol ond nad yw'n rhan o gofnod troseddol yr unigolyn. O dan y system flaenorol, roedd Deddf yr Heddlu 1997 yn galluogi heddluoedd i ddarparu 'gwybodaeth ychwanegol' i ddarpar gyflogwyr yn unig, heb ddatgelu'r wybodaeth honno i'r ymgeisydd. Roedd hyn yn gymwys, er enghraifft, lle y byddai datgelu gwybodaeth i'r ymgeisydd yn mynd yn groes i'r amcan o atal neu ddarganfod trosedd am fod yr ymgeisydd, o bosibl, yn destun ymchwiliad gan yr heddlu ar y pryd.

5.42 Mae Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 wedi dileu'r ddarpariaeth hon yn Neddf yr Heddlu, er mwyn tryloywder ac ar sail egwyddor. Roedd yn anghymesur yng nghyd-destun rhyddid yr unigolyn ac nid oedd yn caniatáu i'r ymgeisydd weld gwybodaeth amdano sy'n cael ei throsglwyddo i drydydd parti. Nid oedd y weithdrefn wedi'i defnyddio'n gyson gan yr holl heddluoedd a dim ond mewn nifer bach iawn o achosion yr oedd wedi'i defnyddio (tua 200 y flwyddyn).

5.43 Mae hyn yn gwneud y broses ddatgelu'n fwy tryloyw ac agored, ond nid yw'n effeithio ar y gallu i ddiogelu'r cyhoedd. Bydd yr heddlu yn gallu rhannu gwybodaeth o hyd fel y maent yn gwneud ar faterion eraill, drwy arfer eu pwerau dan y gyfraith gyffredin. Maent yn defnyddio'r pwerau hyn i atal troseddu a diogelu'r cyhoedd, a gellir trosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol i ddarpar gyflogwyr mewn achosion lle y mae'r heddlu'n credu bod hynny'n deg a chymesur.

**Prawf mwy trwyadl ar berthnasedd**

5.44 Mae'r penderfyniad ynghylch pa wybodaeth i'w chynnwys ar Dystysgrifau Datgeliad Manylach yn cael ei wneud gan y gwasanaeth heddlu o hyd, am fod ganddo brofiad helaeth o asesu gwybodaeth leol i weld a yw'n berthnasol ac yn ddibynadwy. Mae'n bosibl y bydd y rhan o'r dystysgrif o dan y pennawd 'Other relevant information Disclosed at the Chief Police Officer(s) discretion' yn cynnwys gwybodaeth o'r fath sydd wedi'i chymeradwyo ar gyfer datgelu. Bydd y wybodaeth hon wedi'i darparu gan yr heddlu o'u cofnodion lleol a gall ymwneud â'r ymgeisydd, neu drydydd parti mewn rhai amgylchiadau; gall hefyd fod yn wybodaeth gefndir am gollfarn sydd wedi'i chofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

5.45 O'r blaen, y maen prawf ar gyfer datgelu gwybodaeth gan un o Brif Swyddogion yr Heddlu ar Dystysgrifau Datgeliad Manylach oedd ei fod o'r farn "y gall fod yn berthnasol" i'r swydd y mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais amdani.

5.46 O dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, rhaid i'r heddlu gymhwyso prawf mwy trwyadl yn awr cyn penderfynu a fyddant yn datgelu gwybodaeth. Mae'r maen prawf wedi'i dynhau fel ei fod yn galw am wybodaeth y mae'r Prif Swyddog "yn credu'n rhesymol ei bod yn berthnasol" i'r swydd y gwneir cais amdani. Mae hyn yn gosod trothwy mwy manwl ar gyfer datgelu gwybodaeth sydd, felly, yn fwy cymesur .

5.47 Mae'r newidiadau ym mhrawf perthnasedd yr heddlu wedi'u nodi mewn Canllawiau Statudol ar Ddatgelu, a fydd yn hwyluso gweithredu mwy cyson rhwng yr holl heddluoedd. Wrth benderfynu pa wybodaeth a ddarperir, os o gwbl, i'w chynnwys mewn Tystysgrif Datgeliad Manylach, rhaid i brif swyddogion gymhwyso'r egwyddorion a ganlyn:

- Na fydd rhagdybiaeth o blaid nac yn erbyn darparu eitem neu gategori penodol o wybodaeth;
- Dim ond os yw'r prif swyddog yn credu'n rhesymol bod y wybodaeth yn berthnasol i'r diben a ragnodwyd ar gyfer y dystysgrif y bydd y wybodaeth yn cael ei rhoi. Rhaid barnu bod y wybodaeth yn ddigon difrifol, yn ddigon cyfredol ac yn ddigon credadwy;
- Dim ond os yw'r prif swyddog yn credu y dylid cynnwys y wybodaeth yn y dystysgrif y bydd yn cael ei darparu;
- Rhaid i'r prif swyddog ystyried a ddylid rhoi cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno sylwadau;

- Rhaid cael trywydd archwilio digonol a chlir i gofnodi'r broses benderfynu a rheoli ansawdd;
- Rhaid gwneud penderfyniadau'n amserol;
- Bydd y wybodaeth sydd i'w chynnwys yn cael ei darparu mewn modd ystyrlon a chyson, gan nodi'r rhesymau dros ei datgelu'n glir;
- Bydd unrhyw ddirprwyo ar gyfrifoldebau'r prif swyddog yn briodol ac wedi'i gofnodi'n llawn.

**Cyfle i ofyn am sylwadau**

5.48 Pan fydd un o Brif Swyddogion yr Heddlu yn ystyried datgelu gwybodaeth, gellir cael rhai amgylchiadau lle y bydd yn gwahodd yr ymgeisydd i gyflwyno sylwadau. Fel arfer, dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y gofynnir am sylwadau:

- os gwelir bod posibilrwydd bod y wybodaeth yn ffug, yn annibynadwy neu wedi dyddio;
- os nad yw canlyniad yr achos yn hysbys;
- os nad yw'r ymgeisydd yn gwybod am y wybodaeth sy'n cael ei dal gan yr heddlu a heb erioed gael cyfle i'w herio.

**Hawl adolygu newydd – Monitor Annibynnol**

5.49 Newid pwysig arall o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yw cyflwyno rôl y Monitor Annibynnol. Os bydd yr ymgeisydd o'r farn bod unrhyw wybodaeth sydd ar Dystysgrif Datgeliad Manylach yn wybodaeth na ddylid ei chynnwys, gall ofyn yn awr i'r Monitor Annibynnol adolygu'r wybodaeth ar sail unrhyw ystyriaeth heblaw cywirdeb y datgeliad.

5.50 Mae'r Broses Adolygu newydd hon wedi'i chynnwys yn y broses bresennol ar gyfer datrys anghydfodau ynghylch Tystysgrifau Datgeliad Manylach. Fel arfer, bydd yr anghydfod yn cael ei gyfeirio'n gyntaf at Brif Swyddog(ion) yr Heddlu gan ofyn am ailystyried testun y datgeliad sydd wedi'i gymeradwyo. Os bydd yn penderfynu dileu neu newid y wybodaeth yn unol â'r cais, rhoddir tystysgrif newydd.

5.51 Fodd bynnag, os bydd Prif Swyddog yr Heddlu yn penderfynu na fydd yn dileu neu'n diwygio'r wybodaeth yn unol â chais y cwsmer, caiff yr achos ei atgyfeirio i'r Monitor Annibynnol. Os bydd y Monitor Annibynnol yn penderfynu o blaid y cwsmer, bydd yn rhoi cyfarwyddyd i roddi tystysgrif ddiwygiedig.

5.52 O wanwyn 2013, pan fydd tystysgrifau'n cael eu cyflwyno i ymgeiswyr yn unig, bydd cyfle mwy byth gan yr ymgeisydd i wrthwynebu gwybodaeth ar y dystysgrif y mae'n credu ei bod yn anghywir ac amherthnasol ac na ddylid ei datgelu, cyn ei rhannu ag eraill i wneud penderfyniad ar ei addasrwydd ar gyfer swydd.

## Ar gyfer pwy y mae angen gwiriad DBS?

5.53 Dim ond rhai mathau o gyflogwyr sydd â hawl gyfreithiol i ofyn i rywun wneud cais am wiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Yr enw ar hyn yw gofyn 'cwestiwn esempt' – cais dilys i berson ddatgelu ei hanes troseddol llawn, gan gynnwys collfarnau wedi'u disbyddu – y bydd yr ymgeisydd o dan rwymedigaeth gyfreithiol wrth ei ateb i ddatgelu collfarnau wedi'u disbyddu.

5.54 Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn galluogi i gollfarn droseddol cael ei anwybyddu ar ôl cyfnod o adsefydlu. Fodd bynnag, mae rhai cyflogaeth wedi eu heithrio o'r Deddf er mwyn caniatáu i unigolion ymatal rhag rhoi manylion am unrhyw gollfarnau blaenorol mewn perthynas i'w cyflogaeth neu gyflogaeth arfaethedig. Mae unrhyw waith sy'n golygu dod i gysylltiad rheolaidd â phlant mewn sefydliad addysg bellach neu leoliad addysgol yn esempt, fel y nodir isod:

- Mae Atodlen 1 i Ran II o Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 yn datgan bod y mathau o gyflogaeth a'r galwedigaethau penodol canlynol ar y rhestr o 'esemptiadau':
  - Unrhyw gyflogaeth fel athro mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach ac unrhyw gyflogaeth arall a gyflawnir yn llwyr neu'n rhannol o fewn safle ysgol neu sefydliad addysg bellach, sef cyflogaeth o fath sy'n galluogi deiliad y swydd i ddod i gysylltiad â phersonau o dan 18 oed sy'n bresennol yn yr ysgol neu sefydliad addysg bellach yng nghwrs ei ddyletswyddau arferol.
  - Perchenogion ysgolion annibynnol.

- Mae adran 36 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 yn datgan bod y swyddi canlynol yn esempt hefyd:
  - unrhyw waith mewn ysgol neu goleg chweched dosbarth, ar safle gofal dydd, neu mewn cartref plant neu ysbyty;
  - unrhyw swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu am, hyfforddi, goruchwylio neu fod â chyfrifoldeb llwyr dros blant o dan 18 oed;
  - unrhyw swydd sy'n golygu dod i gysylltiad â phlentyn heb oruchwyliaeth o dan drefniadau sydd wedi'u gwneud gan rieni neu warcheidwad y plentyn, ysgol y plentyn neu ddarparwr gofal dydd cofrestredig;
  - swydd llywodraethwr mewn coleg chweched dosbarth.

5.55 Felly, bydd unrhyw un sy'n ymgeisio am un o'r swyddi uchod wedi'i esemptio rhag y darpariaethau yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, a rhaid iddo roi manylion ysgrifenedig am bob collfarn am drosedd, gan gynnwys y rheini a fyddai'n cael eu hystyried fel arfer yn 'gollfarnau wedi'u disbyddu'.

5.56 Os nad yw'r rôl ar y rhestr o 'eithriadau' o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, nid oes gofyniad cyfreithiol bod rhywun sydd â chofnod troseddol yn datgelu unrhyw gollfarnau sydd wedi'u disbyddu. Os yw ymgeisydd wedi cael collfarn sydd wedi'i disbyddu, rhaid i'r cyflogwr drin yr

ymgeisydd fel pe bai'r gollfarn heb ddigwydd. Mae gwrthod cyflogi person a adsefydlwyd ar sail collfarn sydd wedi'i disbyddu yn erbyn y gyfraith o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

5.57 Mae'r DBS yn cynnig tri math gwahanol o wiriad cofnodion troseddol: gwiriad safonol, gwiriad manylach, a gwiriad manylach ynghyd â gwirio rhestrau gwahardd. Bydd y cyflogwr neu sefydliad sy'n gofyn i rywun wneud cais am wiriad cofnodion troseddol yn rhoi mwy o wybodaeth i'r ymgeisydd am lefel y gwiriad sy'n ofynnol.

- Mae **gwiriad safonol** ar gael ar gyfer rhai galwedigaethau penodedig, trwyddedau ac ar gyfer derbyn ymgeiswyr i broffesiynau penodedig. Mae rhestr o'r rhain yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975. Bydd yn cynnwys manylion yr holl gollfarnau sydd wedi'u disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion olaf sydd ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

- Mae **gwiriad manylach** ar gael ar gyfer swyddi sydd wedi'u rhestru yn adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997 – ar gyfer pobl sy'n cyflawni gweithgareddau penodol neu'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant neu oedolion; ymgeiswyr am drwyddedau hapchwarae a loterïau; a phenodiadau barnwrol. Mae rhestr o'r rhain yn Rhan V o Ddeddf yr Heddlu 1997. Bydd yn cynnwys yr un wybodaeth o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu â'r gwiriad safonol ond bydd hefyd yn cynnwys gwiriad o gofnodion heddlu lleol.

- Mae'r **gwiriad manylach ynghyd â gwirio rhestrau gwahardd** ar gael yn benodol ar gyfer unigolion sydd mewn gweithgaredd a reoleiddir a nifer bach o swyddi sydd wedi'u rhestru yn rheoliadau Deddf yr Heddlu, er enghraifft, darpar rieni mabwysiadol. Bydd yn cynnwys yr un wybodaeth o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a gwiriad o gofnodion heddlu lleol yn ogystal â gwiriad o'r rhestrau gwahardd ar gyfer gweithio gyda phlant a/neu oedolion. Mae'r DBS wedi cyhoeddi taflen wybodaeth sy'n egluro pa droseddau a fydd neu a allai arwain at gynnwys rhywun yn rhestrau gwahardd y DBS, ar ôl cyflwyno sylwadau amdanynt.

5.58 Mae proses wirio gyfrinachol gan y DBS hefyd ar gyfer ymgeiswyr trawsrywiol nad ydynt am ddatgelu manylion eu hunaniaeth flaenorol i ddarpar gyflogwr. Mae gwybodaeth ar gael drwy'r e-bost: sensitive@dbs.gsi.gov.uk.

**Staff addysgu a staff eraill sy'n gweithio am dâl**

5.59 Rhaid cynnal gwiriad fetio cyn cyflogi ar yr holl staff addysgu a staff eraill a benodir i swyddi mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach sy'n ymwneud â gofalu am, goruchwylio neu fod yn llwyr gyfrifol am blant cyn iddynt ddechrau yn eu swyddi.

5.60 O dan y trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd mae athrawon a staff nad ydynt yn addysgu'n cael eu hystyried yn weithwyr sy'n cyflawni

Gweithgaredd a Reoleiddir heb oruchwyliaeth mewn Lle Penodedig fel ysgol. Oherwydd hyn, yn achos y mathau o staff sydd wedi'u rhestru isod, bydd angen o hyd am Dystysgrif Datgeliad Manylach ac am wirio a yw rhywun ar 'restr wahardd' y DBS o unigolion sy'n anaddas i weithio gyda phlant:

- athrawon amser llawn a rhan-amser;
- staff nad ydynt yn addysgu fel:
  - a) cynorthwywyr ystafell ddosbarth mewn ysgol
  - b) cynorthwywyr technegol/labordy mewn ysgol
  - c) llyfrgellwyr ysgol
  - d) staff swyddfeydd ysgolion
  - e) gofalwyr ysgolion
  - f) staff arlwyo ysgolion
  - g) staff glanhau ysgolion
  - h) staff tiroedd ysgolion
  - i) nyrsys ysgol
  - j) bwrsariaid ysgol
  - k) cynorthwywyr ieithoedd modern

**Staff asiantaethau**

5.61 O dan Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogi a Busnesau Cyflogi 2003, ni chaniateir i asiantaethau cyflogi na busnesau cyflogi gyflwyno neu gyflenwi rhywun sy'n chwilio am waith i gyflogwr heb wirio bod yr un sy'n chwilio am waith a'r cyflogwr yn ymwybodol o unrhyw ofynion cyfreithiol neu ofynion gan gyrff proffesiynol y mae'n rhaid i'r naill neu'r llall eu bodloni i alluogi'r un sy'n chwilio am waith i weithio i'r cyflogwr.

5.62 Os yw'r ysgol neu sefydliad addysg bellach yn cyflogi staff cyflenwi'n uniongyrchol, rhaid i'r ysgol neu sefydliad addysg bellach sicrhau bod holl wiriadau perthnasol y DBS wedi'u cwblhau yn yr un modd ag ar gyfer yr holl staff cyflogedig eraill.

5.63 Lle y mae athrawon cyflenwi'n cael eu cyflogi gan asiantaeth, rhaid i'r ysgol fynnu (yn y contract neu drwy drefniadau eraill y mae'n eu gwneud â'r asiantaeth gyflenwi) fod yr asiantaeth gyflenwi'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig i gadarnhau:

- ei bod wedi gofyn am Ddatgeliadau perthnasol gan yr unigolion hynny;
- a gafwyd y Datgeliadau neu beidio;
- ac os cafwyd nhw, a oedd unrhyw wybodaeth wedi'i datgelu ynddynt.

5.64 Os na fydd yr asiantaeth wedi cael y Dystysgrif Datgeliad eto, rhaid i'r ysgol fynnu bod yr asiantaeth yn ei hysbysu am y cynnwys cyn gynted ag y mae'n cael y Datgeliad.

5.65 Caiff ysgolion ofyn i athrawon cyflenwi ddangos eu copi o'r Datgeliad Manylach i roi sicrwydd bod y gwiriad wedi'i wneud, a chaiff ysgolion ofyn i asiantaethau gadarnhau bod y ddogfen yn ddilys.

5.66 Rhaid i'r ysgol neu goleg addysg bellach gofnodi a yw'r gwiriadau hynny wedi'u cwblhau ar y Cofnod Canolog Sengl – mae mwy o wybodaeth am hyn ym mharagraffau 5.124 – 5.127.

**Darpariaeth frys yn absenoldeb staff nad ydynt yn addysgu**

5.67 Yn ogystal â hyn, ceir sefyllfaoedd annisgwyl lle y bydd angen i staff heblaw staff addysgu ddarparu gwasanaeth yn lle staff parhaol os ceir argyfwng. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud trefniadau dros dro ar frys ar gyfer y staff hyn mewn amgylchiadau o'r fath cyn gwneud gwiriad fetio.

5.68 Mewn sefyllfaoedd lle nad oes modd cael gwiriad fetio o flaen llaw, rhaid i benaethiaid wneud asesiad o risg a rhaid cymryd pob cam angenrheidiol mewn sefyllfa o'r fath i ddiogelu plant a phobl ifanc.

**Ymgeiswyr am gyrsiau hyfforddiant athrawon**

5.69 Mae'n debygol y bydd angen Tystysgrif Datgeliad Manylach ar gyfer yr ymgeiswyr canlynol am le mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon:

- myfyrwyr a fydd yn gwneud ymarfer addysgu mewn ysgolion;
- myfyrwyr a fydd yn gyfrifol am ofalu am, hyfforddi, goruchwylio neu fod yn llwyr gyfrifol am blant yn ystod y cwrs;
- myfyrwyr a fydd yn dod i gysylltiad â phlant heb oruchwyliaeth yn ystod y cwrs.

5.70 Dylid gofyn i fyfyrwyr o'r fath gael Datgeliad ar ôl i'r sefydliad benderfynu cynnig lle a chyn dechrau'r cwrs. Mae'n bosibl y bydd y sefydliad am gynnig lle ar yr amod bod y gwiriad yn foddhaol.

5.71 Cyfrifoldeb y sefydliad yw penderfynu a fydd yn derbyn ymgeisydd i gwrs ar ôl ystyried unrhyw gofnod troseddol sydd gan y person hwnnw. Fodd bynnag, mae'n glir y bydd angen i sefydliadau ystyried barn yr awdurdodau addysg lleol a phenaethiaid yr ysgolion lle y byddant yn lleoli athrawon dan hyfforddiant, a'r math o droseddau y byddent yn eu hystyried yn annerbyniol.

5.72 Rhaid i sefydliadau beidio â datgelu gwybodaeth a gafwyd drwy Ddatgeliad i drydydd parti fel ysgol neu awdurdod addysg lleol heb gael cydsyniad ysgrifenedig gan y person dan sylw. Yn unol â Deddf yr Heddlu 1997, mae datgelu gwybodaeth o'r fath heb ganiatâd yn drosedd. Mae'n bwysig bod darparwyr hyfforddiant athrawon yn cydymffurfio â chod ymarfer y DBS.

5.73 Bydd darparwyr hyfforddiant athrawon yn sicrhau eu bod wedi gweld tystysgrifau datgeliad cyn i'r hyfforddai ddechrau ar rannau o'i hyfforddiant sy'n digwydd mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

5.74 Bydd penaethiaid a phrifathrawon yn cael arfer eu disgresiwn i ganiatáu i unigolyn ddechrau ar hyfforddiant mewn ysgol neu goleg addysg bellach cyn cael y Datgeliad, ar yr amod bod yr hyfforddai o dan oruchwyliaeth briodol (yn unol â'r Canllawiau Statudol ar Oruchwylio.)

**Ysgolion estynedig**

5.75 Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd eisoes yn cynnig brecwast a chlybiau ar ôl ysgol a gwasanaethau eraill. Bydd y ddarpariaeth o glybiau cyn ac ar ôl ysgol yn cael ei datblygu ymhellach o dan yr agenda ysgolion estynedig. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o wasanaethau fel gofal plant, cymorth astudio, gwahanol fathau o ddysgu i deuluoedd a chymorth i rieni, atgyfeirio cyflym a rhwydd at nifer o wasanaethau arbenigol i ddisgyblion a defnydd o gyfleusterau'r ysgol gan y gymuned ar gyfer gweithgareddau fel chwaraeon a TGCh. Cynigir y gwasanaethau hyn ar safle'r ysgol, ar safleoedd ysgolion eraill, neu drwy ddarparwyr eraill.

5.76 Bydd y gofynion ar ysgolion yng nghyswllt staff a gwirfoddolwyr presennol yr ysgol yn cael eu hymestyn i gynnwys y rheini sy'n darparu gwasanaethau estynedig. Felly os bydd y corff llywodraethu'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau dan oruchwyliaeth neu reolaeth uniongyrchol staff yr ysgol, bydd trefniadau'r ysgol ar gyfer penodi, recriwtio a gwiriadau fetio a chadw cofnodion yn gymwys i hyn. Os yw ysgolion yn bwriadu darparu gofal plant yn uniongyrchol, dylent gysylltu ag Estyn i gael gwybodaeth am y broses gofrestru gan ei bod yn ofynnol ar hyn o bryd i Estyn gofrestru darpariaeth gofal plant i blant dan wyth oed ar wahân.

5.77 Lle y mae trydydd parti'n gyfrifol am redeg y gwasanaethau, rhaid cael llinellau atebolrwydd clir a chytundebau ysgrifenedig sy'n pennu'r cyfrifoldeb dros gynnal gwiriadau recriwtio a fetio ar staff a gwirfoddolwyr. Mae hyn yn gymwys hefyd i Ganolfannau Cychwyn Cadarn, y bydd nifer cynyddol ohonynt ar safleoedd ysgol. Gall awdurdodau lleol roi gwybod i ysgolion am ddarparwyr cofrestredig y gallent gydgysylltu â nhw er mwyn darparu gwasanaethau.

5.78 Os bydd ysgol yn dewis darparu gofal plant drwy ddarparwyr yn y sectorau preifat neu wirfoddol, dylai ddefnyddio darparwyr sydd wedi'u cofrestru gan Estyn ar gyfer plant o dan wyth oed. Rhaid i ddarparwyr gofal plant cofrestredig wneud cais i'r DBS am Ddatgeliadau Manylach. Cyfrifoldeb y darparwr gofal plant yw sicrhau bod unrhyw aelodau staff newydd, neu bobl newydd sy'n byw neu'n gweithio ar y safle, yn addas i ofalu am blant neu i ddod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd. Rhaid i'r darparwr gofal plant cofrestredig sicrhau nad yw ei staff na'i wirfoddolwyr ar restr wahardd a'u bod wedi gwneud cais i'r DBS am Ddatgeliad Manylach.

5.79 Rhaid gwneud cytundebau ysgrifenedig ag unrhyw ddarparwr neu grŵp sy'n drydydd parti ar y safle. Bydd y cytundebau hyn yn pennu priod gyfrifoldebau'r corff llywodraethu a'r darparwr neu grŵp. Gall awdurdodau lleol roi cyngor ar yr agweddau ymarferol ar ddarparu gwasanaethau estynedig, a rhannu cytundebau ysgrifenedig sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn mannau eraill. Bydd y rhain yn pennu'r cyfrifoldeb dros feysydd fel iechyd a diogelwch, recriwtio a gwiriadau fetio. Os datblygir gwasanaethau, bydd yn bwysig ymgynghori â darparwr yswiriant yr ysgol i sicrhau yswiriant digonol ar gyfer y ddarpariaeth. Rhaid darparu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff a

darparwyr sy'n rheoli neu weithio ar y safle y tu allan i oriau ar faterion fel gweithdrefnau ar gyfer gadael adeiladau mewn argyfwng. Rhaid i staff a'u cymdeithasau proffesiynol wybod i bwy y maent yn atebol ac am beth, a rhaid ymgynghori â nhw wrth ddatblygu gwasanaethau.

5.80 Os yw'r corff llywodraethu'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau dan oruchwyliaeth neu reolaeth uniongyrchol staff yr ysgol, bydd trefniadau'r ysgol ar gyfer penodi staff yn gymwys i hyn. Mae'n bwysig bod llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw.

**Gwladolion gwledydd tramor a staff sydd wedi byw y tu allan i'r DU**

5.81 Rhaid gwneud gwiriadau ar wladolion y DU sydd wedi byw y tu allan i'r DU am gyfnod yn yr un modd â'r holl staff eraill mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Fodd bynnag, ni fydd Datgeliadau'r DBS fel arfer yn dangos troseddau sydd wedi'u cyflawni gan unigolion pan oeddent yn byw dramor (heblaw yn achos aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd, a nifer bach o achosion eraill lle y byddai cofnodion troseddol o wledydd tramor sydd ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn cael eu datgelu drwy wiriad cofnodion troseddol). Felly mae'n bosibl na fydd gwiriad cofnodion troseddol ar staff sydd wedi byw dramor am gyfnod yn rhoi darlun llawn o gofnod troseddol yr unigolyn.

5.82 Yn achos pobl sydd heb fyw yn y DU erioed, ni fydd diben mewn gofyn am Ddatgeliad drwy'r DBS wedi iddynt ddod i'r wlad hon gan na fydd gan y person hwnnw gofnod troseddol yn y wlad hon.

5.83 Os nad yw'r ymgeisydd yn un o wladolion y DU, neu os yw wedi byw y tu allan i'r DU am gyfnod, gall cyflogwyr ofyn iddo gael 'Tystysgrif Ymddygiad Da' neu wiriad cyfatebol o gofnodion troseddol gan yr heddlu perthnasol yn ei wlad enedigol, gan lysgenhadaeth dramor neu Uchel Gomisiwn y wlad dan sylw, yn ogystal ag unrhyw fath arall o eirda o'i wlad enedigol.

5.84 Mewn rhai achosion, gall fod yn bosibl hefyd i gyflogwyr gael gwiriad o'r fath drwy'r llysgenhadaeth briodol yn y DU – ond rhaid cael caniatâd gan yr ymgeisydd. Mae rhestr o fanylion cyswllt y llysgenadaethau yn Llundain yn: https://www.gov.uk/government/publications/foreign-embassies-in-the-uk.

5.85 Bydd tystysgrifau o ymddygiad da a lefel y wybodaeth sydd ynddynt yn amrywio o wlad i wlad: bydd rhai'n cynnwys cofnodion troseddol llawn ac eraill yn cynnwys rhannau ohonynt yn unig. Mae manylion ynghylch sut i wneud cais am dystysgrifau ymddygiad da a/neu dystysgrifau cofnodion troseddol ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/criminal-records-checks-for-overseas-applicants. Mae'n bwysig bod y cyflogwr neu'r ymgeisydd yn cael cyfieithiad ardystiedig o'r dystysgrif ymddygiad da. Mae'n bosibl y bydd llysgenadaethau'n gallu helpu i gael hynny.

5.86 Os yw'r ymgeisydd yn hanu o wlad neu wedi byw mewn gwlad lle na ellir gwirio cofnodion troseddol at bwrpas amddiffyn plant, neu os yw'n ffoadur sydd â chaniatâd i aros yn y DU sydd heb fodd i gael gwybodaeth berthnasol,

rhaid i gyflogwyr gymryd gofal ychwanegol wrth gysylltu â chanolwyr a gwneud gwiriadau cefndir eraill. Er enghraifft, dylid gofyn am eirda ychwanegol, a chysylltu â chanolwyr dros y ffôn yn ogystal â thrwy lythyr.

5.87 Rhaid cwblhau'r gwiriadau hyn cyn i'r unigolyn ddechrau yn ei swydd.

**Gwirfoddolwyr**

5.88 Y diffiniad o wirfoddolwr yw person sy'n cyflawni gweithgaredd sy'n golygu treulio amser yn ddi-dâl (heblaw am gostau teithio a threuliau parod eraill sydd wedi'u cymeradwyo), gan wneud rhywbeth er budd rhywun (unigolion neu grwpiau) heblaw perthnasau agos neu'n ychwanegol at berthnasau agos.

5.89 O dan y trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd, cafwyd newid yn y fetio ar wirfoddolwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Yn awr mae dau fath o wirfoddolwr yn gweithio mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach:

- Y rheini sy'n gweithio heb oruchwyliaeth;
- Y rheini sy'n gweithio o dan oruchwyliaeth

5.90 Y ffaith bod gwirfoddolwr yn cael ei oruchwylio neu beidio a fydd yn penderfynu a yw'n gweithio mewn Gweithgaredd a Reoleiddir: bydd hynny wedyn yn pennu a oes angen Tystysgrif Datgeliad Manylach. Ers Medi 2012, yn sgîl newidiadau yn y diffiniad o 'Weithgaredd a Reoleiddir' o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau, ni fydd gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach yn cael eu cyfrif yn rhai sydd mewn Gweithgaredd a Reoleiddir os gall yr ysgol neu sefydliad addysg bellach sicrhau eu bod o dan oruchwyliaeth resymol a rheolaidd. Mater i ysgolion a sefydliadau fydd penderfynu a yw lefel yr oruchwyliaeth yn bodloni'r safonau yn y Canllawiau Statudol ar Oruchwylio.

5.91 Mae canllawiau yn yr adran hon ar y trefniadau fetio newydd ar gyfer gwahanol fathau o wirfoddolwyr, yn unol â'r diffiniad newydd o 'Weithgaredd a Reoleiddir' ac ar ôl diddymu'r categori 'Gweithgarwch Rheoledig' o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.

### Gwirfoddolwyr sy'n gweithio heb oruchwyliaeth

5.92 Mae gwirfoddolwyr sydd heb eu goruchwylio'n cael eu cyfrif o hyd yn rhai sy'n gweithio mewn Gweithgaredd a Reoleiddir ac felly bydd angen Tystysgrif Datgeliad Manylach ar eu cyfer a gwiriad o'r rhestrau gwahardd.

5.93 Gan gydnabod bod gwirfoddolwyr yn werthfawr i nifer o sefydliadau sy'n poeni ynghylch diogelu plant, mae'r DBS yn prosesu ceisiadau am ddatgeliadau ar gyfer gwirfoddolwyr yn ddi-dâl, ac mae'r Gwasanaeth Diweddaru ar gael am ddim i wirfoddolwyr hefyd.

5.94 Mae'r DBS yn dibynnu ar gyflogwyr i wneud penderfyniad gofalus wrth gyflwyno ffurflen gais ar gyfer gwirfoddolwr fod y person hwnnw'n bodloni diffiniad y DBS o wirfoddolwr sef: person sy'n cyflawni gweithgaredd sy'n golygu treulio amser yn ddi-dâl (heblaw am gostau teithio a threuliau parod eraill sydd wedi'u cymeradwyo), gan wneud rhywbeth er budd trydydd parti heblaw perthynas agos neu'n ychwanegol at berthynas agos. Er mwyn bod yn gymwys i gael gwiriad ar wirfoddolwr yn ddi-dâl, rhaid i'r cyflogwr fod yn sicr na fydd yr ymgeisydd yn cael budd uniongyrchol o'r swydd y mae'r cais i'r DBS yn cael ei gyflwyno ar ei chyfer. Mae'n ofynnol na fydd yr ymgeisydd:

- yn cael unrhyw dâl (heblaw am gostau teithio a threuliau parod eraill sydd wedi'u cymeradwyo);
- ar leoliad;
- ar gwrs lle y mae'n rhaid cyflawni rôl y swydd hon; a/neu na fydd
- mewn swydd hyfforddai a fydd yn arwain at rôl amser llawn/cymhwyster.

## Gwirfoddolwyr sy'n gweithio o dan oruchwyliaeth

5.95 Os yw gwirfoddolwr yn cael ei oruchwylio, yna, o dan y trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd, ni fydd yn cael ei ystyried yn un sy'n gweithio mewn Gweithgaredd a Reoleiddir ac felly nid yw'n orfodol bellach fod yr ysgol neu sefydliad addysg bellach yn cael Tystysgrif Datgeliad Manylach. Er hynny, mae hawl gan yr ysgol o hyd i gael tystysgrif o'r fath os yw'n dymuno. Er enghraifft, os yw'r ysgol yn credu bod pryder ymysg staff lleol na ellir cynnig goruchwyliaeth ddigonol yn gyson, yna bydd hawl gan yr ysgol i wneud cais am Dystysgrif Datgeliad Manylach, heb wiriad o'r rhestrau gwahardd.

5.96 Mae yn erbyn y gyfraith bellach i ysgol neu sefydliad addysg bellach wirio a yw gwirfoddolwr o dan oruchwyliaeth wedi'i gynnwys ar restr wahardd, gan nad yw'n cael ei ystyried yn un sydd mewn Gweithgaredd a Reoleiddir.

## Penderfynu beth yw 'Goruchwyliaeth Ddigonol'

5.97 Ni all Llywodraeth Cymru ddyfarnu neu benderfynu beth yw goruchwyliaeth ddigonol gan y bydd union natur a lefel yr oruchwyliaeth yn amrywio o achos i achos yn ôl amryw o sefyllfaoedd ac amgylchiadau. Yn unol â'r ddyletswydd statudol, mater i'w benderfynu gan yr awdurdod lleol, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yw a ydynt yn gallu darparu lefel o oruchwyliaeth sy'n ddigonol, yn eu barn nhw, i gael sicrwydd rhesymol ar gyfer amddiffyn plant sydd o dan eu gofal.

5.98 Rhaid i'r sefydliadau sicrhau bod yr oruchwyliaeth yn bodloni'r safonau statudol yn y Canllawiau Statudol ar Oruchwylio a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yng nghyswllt gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant. Rhaid i'r ysgol neu sefydliad ddal sylw ar y canllawiau hyn.

5.99 Er mwyn peidio â chyfrif gwaith dan oruchwyliaeth yn Weithgaredd a Reoleiddir (os byddai fel arall, pe na byddai'n cael ei oruchwylio), rhaid cyflawni tair dyletswydd gyfreithiol bwysig:

1. **Rhaid cael goruchwyliaeth gan berson sy'n cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir ei hun**;

2. **Rhaid bod yr oruchwyliaeth yn digwydd yn rheolaidd ac o ddydd i ddydd:** Mae'r ddyletswydd i sicrhau bod yr oruchwyliaeth yn 'rheolaidd' yn golygu, er enghraifft, na fydd y rhan fwyaf o'r goruchwylio'n digwydd yn wythnosau cyntaf y gweithgaredd ac wedyn yn lleihau, gan ddod yn rhywbeth achlysurol. Rhaid iddi ddigwydd yn barhaus, pa un a yw'r gwirfoddolwr newydd ddechrau neu'n cyflawni'r gweithgaredd ers cryn amser;

3. **Rhaid i'r oruchwyliaeth fod yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau i sicrhau bod plant wedi'u hamddiffyn:** Gall lefel yr oruchwyliaeth amrywio yn ôl holl amgylchiadau'r achos. Dylai ysgolion a sefydliadau addysg bellach ystyried y ffactorau canlynol wrth bennu lefel yr oruchwyliaeth yn y sefydliad mewn achos penodol :

    - oedran y plant, gan gynnwys unrhyw wahaniaeth oedran mawr;
    - nifer y plant y bydd yr unigolyn yn gweithio gyda nhw;
    - a fydd gweithwyr eraill yn helpu i ofalu am y plant neu beidio;
    - natur gwaith yr unigolyn (neu, mewn lle penodedig fel ysgol, y cyfle sydd gan yr unigolyn i ddod i gysylltiad â phlant);
    - pa mor hyglwyf yw'r plant (po fwyaf hyglwyf yw'r plant, mwyaf tebygol yw hi y bydd sefydliadau'n pennu bod y gweithwyr mewn Gweithgaredd a Reoleiddir);
    - nifer y gweithwyr a fyddai'n cael eu goruchwylio gan bob goruchwyliwr.

**Ymwelwyr ag ysgolion**

5.100 Fel arfer, ni fydd angen fetio pobl sy'n ymweld ag ysgolion i fynychu cyfarfodydd, danfon nwyddau neu wneud gwaith cynnal cyn caniatáu iddynt ddod ar safle'r ysgol. Rhai enghreifftiau o bobl nad oes angen iddynt wneud cais am Ddatgeliad yw:

- ymwelwyr sy'n dod i weld y pennaeth, y prifathro neu aelod staff arall neu rai a fydd yn dod i gysylltiad â phlant am gyfnod byr ac aelod staff yn bresennol;
- ymwelwyr neu gontractwyr sy'n dod ar y safle yn unswydd i wneud gwaith atgyweirio brys neu drin cyfarpar ac na fyddai disgwyl iddynt

gael eu gadael heb oruchwyliaeth ar safle'r ysgol neu goleg addysg bellach;

- gwirfoddolwyr neu rieni sy'n dod gyda staff a phlant ar dripiau achlysurol lle na fyddant yn aros dros nos, neu'n helpu mewn digwyddiadau penodol unigol e.e. diwrnod mabolgampau, ffair ysgol, diwrnod agored y coleg;

- pobl sydd ar y safle cyn neu ar ôl oriau'r ysgol neu'r coleg pan na fydd plant yn bresennol, e.e. grwpiau lleol sy'n llogi safleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol neu hamdden, glanhawyr ar gontract sy'n dod ar y safle wedi i'r plant fynd adref neu cyn iddynt gyrraedd.

5.101 Fodd bynnag, rhaid i ymwelwyr o'r fath gael eu rheoli gan staff ysgol. Dylid:

- trefnu bod staff yr ysgol yn cofnodi ymwelwyr pan fydd yn cyrraedd ac yn ymadael;
- rhoi mynediad iddynt i rannau penodol o'r ysgol yn unig, os yw'n briodol;
- trefnu bod aelod staff yn eu hebrwng o gwmpas safle'r ysgol, os oes modd;
- rhoi cerdyn ymwelydd/contractwr iddynt, os byddant yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth, i ddangos yn glir pwy ydynt; a chyfyngu eu cysylltiad â disgyblion i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni pwrpas eu hymweliad;
- sicrhau bod mannau gweithio'r ymwelwyr sy'n gwneud gwaith adeiladu, cynnal neu atgyweirio yn cael eu hynysu oddi wrth ddisgyblion am resymau iechyd a diogelwch.

**Aelodau bwrdd llywodraethwyr**

5.102 O dan y trefniadau newydd ar gyfer datgelu a gwahardd, nid yw'r categori 'Gweithgarwch Rheoledig' yn bodoli bellach. Roedd y categori hwn yn cynnwys pobl a all gael llai o gysylltiad â phlant na phobl sydd mewn Gweithgaredd a Reoleiddir, gan gynnwys aelodau Bwrdd Llywodraethwyr.

5.103 Yn sgîl hyn, nid yw'n ofynnol bellach fod llywodraethwyr ysgol yn cael Tystysgrif Datgeliad Manylach cyn derbyn eu penodi. Mae hefyd yn golygu ei bod yn erbyn y gyfraith i ysgol wirio a yw aelodau Bwrdd Llywodraethwyr wedi'u cynnwys ar restr wahardd.

5.104 Er hynny, mae hawl o hyd gan ysgolion i ofyn am wiriad Tystysgrif Datgeliad Manylach heb wirio'r rhestrau gwahardd ac, os yw llywodraethwr yn peri pryder, dylid gofyn iddo gael Datgeliad Manylach hefyd. Dylid gofyn i bob llywodraethwr arall lofnodi datganiad i gadarnhau ei fod yn addas i gyflawni'r rôl.

5.105 Os yw llywodraethwyr mewn swyddi sy'n cynnwys gwaith rheolaidd ym mhresenoldeb plant, neu os ydynt yn gofalu am, yn hyfforddi, yn goruchwylio

neu'n llwyr gyfrifol am blant, rhaid gofyn iddynt gael Datgeliad Manylach (yn yr un modd â gwirfoddolwyr eraill).

## Pa bryd a pha mor aml y mae'n rhaid gwneud cais am Ddatgeliad?

5.106 Ar ôl uno'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol i ffurfio'r DBS, nid yw'n ofynnol bod ysgolion, colegau addysg bellach neu awdurdodau lleol yn gofyn i'w staff presennol sydd mewn swydd, nad oeddent yn gymwys o'r blaen i gael gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol, i wneud cais am Ddatgeliad newydd gan y DBS oni bai:

- fod pryderon ynghylch addasrwydd y person i weithio gyda phlant; neu
- fod yr unigolyn yn symud i waith sy'n dod ag ef i fwy o gysylltiad â phlant ac nad oedd ei waith blaenorol yn galw am Ddatganiad Manylach.

5.107 Rhaid cael Datgeliadau newydd ar gyfer staff:

- sy'n ymgymryd â swydd newydd gyda chyflogwr gwahanol;
- a gaiff eu hailbenodi neu eu hailethol yn llywodraethwr;
- sy'n absennol o'u swydd am dri mis neu fwy;
- sy'n symud i swydd lle y mae cyfrifoldeb mwy o lawer dros blant a phobl ifanc
- y mae gan y cyflogwr le i bryderu ynghylch eu haddasrwydd i weithio gyda phlant.

5.108 Yn ôl amgylchiadau'r unigolyn a'i hanes cyflogaeth, mae'n bosibl na fydd angen gwiriad fetio newydd ar gyfer staff sy'n addysgu a staff eraill sy'n gweithio am dâl sy'n symud i ysgol, awdurdod lleol neu goleg addysg bellach newydd. Caiff cyflogwyr ddibynnu ar wiriadau a wnaed yn ystod unrhyw gyflogaeth flaenorol ar yr amod:

- bod modd gwirio ei hanes cyflogaeth blaenorol yn y sector addysg;
- nad yw'n absennol o'i swydd am fwy na thri mis;
- bod modd cadarnhau bod Datgeliad wedi'i wneud cyn iddo orffen gweithio yn ei ysgol flaenorol.

5.109 Mater i'r cyflogwr yn y pen draw yw penderfynu a fydd yn derbyn gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol/DBS a roddwyd o'r blaen ac a yw'r gwiriad yn ddigon diweddar neu addas i'r diben presennol. Nid oes dyddiad dod i ben swyddogol ar gyfer gwiriad cofnodion troseddol a roddwyd gan y DBS. Dim ond gwybodaeth a gafwyd o wiriad gan y DBS ar ddyddiad penodol ac at ddiben penodol a geir ar dystysgrifau'r DBS, felly dylid ystyried y materion canlynol cyn gwneud penderfyniad:

- Y posibilrwydd bod cofnod troseddol yr ymgeisydd neu wybodaeth berthnasol arall wedi newid ers rhoi'r dystysgrif.
- Bod y penderfyniad gan Brif Swyddog yr Heddlu i ddatgelu gwybodaeth ar dystysgrif Swyddfa Cofnodion Troseddol/DBS wedi'i seilio ar y swydd y cafwyd gwiriad cofnodion troseddol ar ei chyfer yn wreiddiol. Ni allwch gymryd na fydd gwybodaeth arall yn cael ei datgelu ar gyfer swydd wahanol.

- Bod y wybodaeth a ddatgelwyd wedi'i seilio ar hunaniaeth yr ymgeisydd, a oedd wedi'i dilysu gan gorff cofrestredig arall, pan wnaethpwyd y cais am y gwiriad gwreiddiol. Felly, rhaid sicrhau bod manylion yr hunaniaeth ar y dystysgrif yn cyfateb i fanylion yr ymgeisydd.

5.110 Rhaid cofio bod tystysgrifau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol i'w trin yn yr un ffordd â thystysgrifau'r DBS.

**Dechrau gweithio cyn cael Datgeliad**

5.111 Os oes angen cael Datgeliad, dylid ei gael cyn i'r unigolyn ddechrau yn ei swydd, os oes modd. Beth bynnag, rhaid ei gael cyn gynted â phosibl ar ôl penodi'r unigolyn a rhaid cyflwyno'r cais am Ddatgeliad cyn i'r unigolyn ddechrau yn ei swydd. Mae penaethiaid, prifathrawon ac awdurdodau lleol yn cael arfer disgresiwn i ganiatáu i unigolyn ddechrau yn ei swydd yn eu hysgolion neu golegau cyn cael y Datgeliad, ond dylent sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei oruchwylio'n briodol. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod yr oruchwyliaeth yn bodloni'r safonau statudol yn y Canllawiau Statudol ar Oruchwylio a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yng nghyswllt gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant.

5.112 Bydd yr oruchwyliaeth sy'n briodol i unigolion sy'n dechrau yn eu swydd cyn cael Datgeliad yn adlewyrchu'r hyn a wyddys am y person dan sylw, am ei brofiad, am natur ei ddyletswyddau ac am lefel ei gyfrifoldeb. Yn achos unigolion sydd â phrofiad cyfyngedig a lle y mae'r wybodaeth a gafwyd amdanynt gan ganolwyr yn gyfyngedig, mae'n bosibl y bydd angen goruchwyliaeth ar lefel uchel. Yn achos rhai mwy profiadol lle y cafwyd gwybodaeth fwy manwl gan ganolwyr a thystiolaeth gadarn o ymddygiad da mewn gwaith perthnasol blaenorol, gall goruchwyliaeth ar lefel is fod yn briodol. Rhaid egluro i bob aelod staff na chafwyd Datgeliad ar ei gyfer y bydd yn dod o dan oruchwyliaeth ychwanegol o'r fath. Rhaid pennu natur yr oruchwyliaeth ac egluro rolau'r staff a fydd yn goruchwylio. Dylid adolygu'r trefniadau'n rheolaidd bob pythefnos o leiaf nes cael y Datgeliad.

5.113 Cyn cymryd gweithiwr ymlaen o asiantaeth gyflenwi, rhaid i'r ysgol neu goleg addysg bellach gael hysbysiad ysgrifenedig gan yr asiantaeth sy'n dangos ei bod wedi gofyn am Ddatgeliadau perthnasol am yr unigolyn hwnnw, sy'n nodi a gafwyd y Datgeliad neu beidio ac, os cafwyd ef, a oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth a ddatgelwyd. Os yw gwybodaeth wedi'i datgelu, rhaid i'r ysgol neu goleg addysg bellach gael copi o'r Datgeliad gan yr asiantaeth. Os na fydd yr asiantaeth wedi cael y Datgeliad Swyddfa Cofnodion Troseddol eto, rhaid i'r ysgol fynnu bod yr asiantaeth yn rhoi gwybod iddi am y cynnwys cyn gynted ag y bydd yn ei chyrraedd.

5.114 Os bydd Datgeliad yn dangos bod lle i bryderu am aelod staff o asiantaeth neu aelod staff sydd wedi'i gyflogi'n uniongyrchol, rhaid tynnu'r aelod staff o'r ysgol neu goleg addysg bellach cyn gwneud ymholiadau pellach.

## Sut i benderfynu a yw cofnod troseddol y person yn berthnasol

5.115 Rhaid barnu ar addasrwydd yr ymgeisydd ar sail y canlyniadau o'r holl wiriadau cyn penodi perthnasol sydd wedi'u gwneud arno. Nid yw'r ffaith bod gan rywun gofnod troseddol yn golygu o reidrwydd ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant neu bobl ifanc. Ni ddylech ddiystyru rhywun ar gyfer swydd dim ond am fod gwybodaeth wedi'i datgelu ar dystysgrif DBS neu wiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol a roddwyd o'r blaen.

5.116 Rhaid i gyflogwyr benderfynu ynghylch addasrwydd yr unigolyn i weithio gyda phlant, gan ystyried dim ond y troseddau hynny a all fod yn berthnasol i swydd benodol neu sefyllfa benodol.

5.117 Ni all Llywodraeth Cymru gynghori cyflogwyr ynghylch a ddylent gyflogi person penodol. Wrth benderfynu a yw collfarnau'n berthnasol, dylid ystyried nifer o bwyntiau:

- **Natur y trosedd:** Fel arfer, bydd collfarnau am droseddau rhywiol neu dreisgar neu gollfarnau sy'n ymwneud â chyffuriau'n awgrymu'n gryf iawn bod rhywun yn anaddas i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

- **Natur y swydd:** Yn aml bydd natur y swydd yn bwysig wrth asesu a yw collfarn yn berthnasol. Er enghraifft, byddai troseddau difrifol sy'n ymwneud â rhyw, trais, cyffuriau neu alcohol yn peri pryder neilltuol os oedd y swydd yn cynnwys darparu gofal. Byddai troseddau sy'n gysylltiedig â gyrru neu yfed yn berthnasol i swyddi sy'n galw am gludo plant a phobl ifanc.

- **Oed y trosedd:** Mae'n bosibl y bydd troseddau a ddigwyddodd flynyddoedd lawer yn ôl yn llai perthnasol na throseddau diweddar. Fodd bynnag, mae collfarnau am droseddau treisgar neu rywiol difrifol neu droseddau difrifol yng nghyswllt camddefnyddio sylweddau'n fwy tebygol o beri pryder parhaus nag ambell achos o anonestrwydd, er enghraifft, pan oedd y person yn ifanc. Rhaid pwyso a mesur y cyfle i adsefydlu troseddwyr ochr yn ochr â'r angen i amddiffyn plant a phobl ifanc.

- **Amlder y trosedd:** Mae cyfres o droseddau dros gyfnod yn fwy tebygol o beri pryder nag ambell gollfarn am drosedd bach.

5.118 Os bydd Datgeliad yn dangos bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod cyfyngiadau ar gyflogi person penodol, rhaid peidio â phenodi'r person hwnnw o dan unrhyw amgylchiadau i swydd a fyddai'n torri'r cyfyngiadau hynny, a rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r pennaeth neu brifathro coleg am delerau'r cyfyngiadau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u gosod ar gyflogi'r person dan sylw.

5.119 Os yw rhywun wedi'i wahardd rhag gweithio yn y gwasanaeth addysg ar y sail nad yw'n berson addas a phriodol i'w gyflogi'n athro neu'n weithiwr

gyda phlant a phobl ifanc, bydd wedi'i anghymhwyso hefyd rhag pob gwaith gyda phlant mewn swydd a reoleiddir yn unol ag adran 36 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000.

5.120 Mae'n drosedd i berson anghymwysedig ymgeisio am, cynnig cyflawni, derbyn neu wneud unrhyw waith yn y swyddi a reoleiddir a nodwyd yn y Ddeddf. Mae hefyd yn drosedd i gyflogwr gynnig gwaith mewn swydd a reoleiddir i unigolyn gan wybod ei fod wedi'i anghymhwyso rhag gweithio gyda phlant, neu fethu tynnu unigolyn o'r fath o waith o'r fath. Bydd y DBS yn hysbysu'r heddlu os bydd person anghymwysedig yn ceisio cael gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

**Recriwtio cyn-droseddwyr**

5.121 Os ydych yn gwneud gwiriadau cofnodion troseddol, rhaid i chi fabwysiadu polisi ar gyflogi cyn-droseddwyr. Rhaid i chi ei ddangos i unrhyw ymgeisydd sy'n gofyn am ei weld. Mae'r DBS wedi llunio polisi enghreifftiol ar recriwtio cyn-droseddwyr i roi arweiniad i sefydliadau.

**Ceisiadau twyllodrus**

5.122 Os ceir twyll neu ddichell ddifrifol fwriadol yng nghyswllt cais am gyflogaeth, gall hynny fod yn drosedd (Cael Mantais Ariannol drwy Ddichell). Mewn achosion o'r fath, yn ogystal ag ystyried camau disgyblu, dylai'r cyflogwr ystyried hysbysu'r heddlu am y mater.

## Sut i storio a thrin gwybodaeth o dystysgrifau'r DBS

5.123 Mae'n ofynnol bod unrhyw un sy'n cael un o dystysgrifau safonol neu fanylach y DBS yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer personau cofrestredig ac eraill sy'n derbyn gwybodaeth o wiriadau'r DBS, a gyhoeddwyd o dan adran 122 (2) o Ddeddf yr Heddlu 1997. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol:

- **bod gwybodaeth a ddatgelir yn cael ei defnyddio'n deg** a'i hystyried at y diben y cafwyd hi yn unig;

- **bod gwybodaeth a ddatgelir yn cael ei thrin a'i storio'n briodol**;

- **bod pob corff cofrestredig yn meddu ar bolisi ysgrifenedig ar drin a chadw** gwybodaeth o dystysgrifau'r DBS yn gywir a diogel. Mae'r DBS wedi llunio datganiad polisi enghreifftiol ar drin a storio gwybodaeth o dystysgrifau'r DBS i'w ddefnyddio neu ei addasu i'r diben hwn os dymunir;

- **na fydd gwybodaeth yn cael ei chadw'n hwy na bo angen ac y caiff ei dinistrio wedi i gyfnod priodol fynd heibio**. Fel arfer, ni fydd hyn yn fwy na chwe mis ar ôl dyddiad y penderfyniad i recriwtio neu gymryd camau perthnasol eraill neu ar ôl y dyddiad pan ddatryswyd unrhyw anghydfod. Dim ond os bydd amgylchiadau eithriadol iawn yn

cyfiawnhau hynny y gellir cadw'r wybodaeth am gyfnod hwy. Cyn dinistrio'r Datgeliad, rhaid cadw cofnodion sy'n dangos ar ba ddyddiad y cafwyd y Datgeliad, a chan bwy (h.y. ysgol, coleg addysg bellach, awdurdod lleol, asiantaeth gyflenwi), lefel y Datgeliad, a'r rhif cyfeirnod unigryw. Bydd y pennaeth neu brifathro'r coleg neu'r awdurdod lleol am ystyried cadw cofnod hefyd o'r wybodaeth arall a ddefnyddiwyd i asesu addasrwydd.

5.124 Rhaid i sefydliadau fodloni'r DBS eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Bydd hyn yn golygu ymateb i geisiadau gan y DBS am gynnal gwiriadau sicrwydd, yn ogystal â rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth o gamymddwyn o dan y Cod neu gamddefnydd o dystysgrifau'r DBS.

**Cofnod canolog sengl o wiriadau Datgelu a gwahardd**

5.125 Yn ogystal â'r gwahanol gofnodion staff a gedwir fel arfer gan ysgolion a cholegau addysg bellach, rhaid iddynt gynnal a chadw cofnod canolog sengl o wiriadau recriwtio a fetio.

5.126 Rhaid i ysgolion a cholegau addysg bellach gadw cofnod o'r bobl ganlynol:

- yr holl staff sy'n cael eu cyflogi i weithio yn yr ysgol a'r staff mewn colegau addysg bellach sy'n darparu addysg;
- yr holl staff sydd wedi'u cyflogi'n staff cyflenwi yn yr ysgol neu'n staff cyflenwi sy'n darparu addysg mewn coleg addysg bellach, pa un a ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, y coleg addysg bellach neu'r awdurdod lleol neu drwy asiantaeth.

5.127 Rhaid dangos yn y cofnod canolog a yw'r canlynol wedi'u cwblhau neu beidio:

- Gwiriadau hunaniaeth;
- Gwiriadau o gymwysterau ar gyfer unrhyw gymwysterau sy'n ofynnol o dan y gyfraith i gyflawni'r swydd
- Ar gyfer y rheini sy'n ymgeisio am swyddi addysgu, gwiriad cofrestru gyda CyngACC os yw'n briodol;
- Gwiriadau o'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig;
- Datgeliadau Manylach y DBS (mewn colegau addysg bellach, dim ond ar gyfer staff sy'n darparu addysg neu'n gofalu am, yn hyfforddi, yn goruchwylio neu'n arfer cyfrifoldeb llwyr dros bersonau o dan 18 oed yn rheolaidd);
- Gwiriadau ychwanegol o gofnodion gwledydd tramor os yw'n briodol (mae cyngor ar staff sydd wedi byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig ym mharagraffau 5.81 – 5.87).

5.128 Rhaid dangos hefyd yn y cofnod y dyddiad y cwblhawyd pob gwiriad neu y cafwyd y dystysgrif berthnasol, a rhaid dangos pwy a wnaeth y gwiriad.

**Rhannu gwybodaeth o Ddatgeliad**

5.129 Rhaid trin gwybodaeth a ddatgelwyd drwy Ddatgeliad DBS yn gyfrinachol. O dan Ddeddf yr Heddlu 1997, trosedd yw trosglwyddo unrhyw wybodaeth a ddatgelwyd mewn Datgeliad Safonol neu Ddatgeliad Manylach i rywun na fydd arno ei hangen yng nghwrs ei ddyletswyddau.

5.130 Er hynny, mae Rheoliadau o dan Ddeddf yr Heddlu yn darparu ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth mewn gwahanol amgylchiadau. Er enghraifft:

- ceir trosglwyddo Datgeliad o asiantaeth i asiantaeth, rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau, a rhwng ysgolion/colegau addysg bellach ac asiantaethau os bydd gwrthrych y data yn cydsynio drwy lythyr;

- mae'r person a gydlofnododd y cais am Ddatgeliad yn gallu rhannu'r wybodaeth ag aelod arall o'r corff cofrestredig os oes ar y person arall angen y wybodaeth i gyflawni ei ddyletswyddau;

- os oedd y person wedi cydlofnodi'r cais ar ran corff arall (e.e. os oedd awdurdod addysg lleol wedi trefnu gwiriad ar ran ysgol) gall y cydlofnodydd drosglwyddo'r wybodaeth i'r corff hwnnw;

- os bydd corff yn cael gwybodaeth gan berson cofrestredig fel y nodwyd uchod, gellir rhannu'r wybodaeth ag aelodau o'r corff hwnnw sydd ag angen y wybodaeth i gyflawni eu dyletswyddau;

- gall asiantaethau drosglwyddo gwybodaeth o Ddatgeliad i ysgolion neu golegau addysg bellach os yw addasrwydd y gwrthrych i weithio yn yr ysgol neu goleg addysg bellach yn cael ei ystyried;

- gellir trosglwyddo gwybodaeth i adran o'r llywodraeth.

5.131 Os bydd unrhyw un sydd â gwybodaeth o Ddatgeliad yn ei feddiant yn ansicr a yw'n gallu trosglwyddo'r wybodaeth i rywun arall, dylai ofyn am gyngor gan brif gydlofnodydd y corff cofrestredig a awdurdododd y gwiriad.

# Pennod 6: Ymateb i honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill

## Cyflwyniad

6.1 Mae'n hanfodol bod y mesurau sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 4 ynghylch arferion recriwtio diogelach yn cael eu cymhwyso'n drylwyr pryd bynnag y caiff rhywun ei recriwtio i weithio gyda phlant, ond nid hynny fydd diwedd y mater. Mae ysgolion a cholegau addysg bellach yn amgylcheddau diogel i'r rhan fwyaf o blant, ac mae'r mwyafrif helaeth o bobl sy'n gweithio gyda phlant yn poeni am eu diogelwch a'u lles. Ond rhaid peidio â bod yn ddifater. Gwyddom fod rhai pobl yn ceisio dod i gysylltiad â phlant er mwyn eu cam-drin ac yn aml iawn na fydd plant sydd wedi'u cam-drin yn datgelu'r cam-drin ar y pryd. Rydym hefyd yn gwybod bod sail i rai o'r honiadau o gam-drin yn erbyn staff, ac rydym yn parhau i weld nifer o achosion o flwyddyn i flwyddyn lle y mae athrawon a staff eraill yn cael collfarn am droseddau sy'n ymwneud â cham-drin plant.

6.2 Felly mae'n hollbwysig bod pawb sy'n gweithio mewn ysgol neu unrhyw leoliad arall sy'n darparu ar gyfer plant yn ymwybodol o'r materion hyn, ac o'r angen am fabwysiadu ffyrdd o weithio ac arferion priodol i ostwng nifer yr honiadau. Mae yr un mor bwysig bod pawb yn gallu mynegi pryderon am ymarfer gan gydweithwyr sy'n ymddangos yn wael neu'n anniogel, a bod y pryderon hynny, a phryderon sydd wedi'u mynegi gan blant, rhieni ac eraill yn cael eu clywed a'u cymryd o ddifrif.

6.3 Yn aml bydd yn anodd rhoi coel ar bryderon yn enwedig os ydynt yn ymwneud a chydweithiwr dibynadwy a hir ei wasanaeth. Gwaetha'r modd, bydd pryderon o'r fath yn ddilys mewn rhai achosion ac mae'n bwysig eu cymryd o ddifrif a pheidio â'u diystyru. Mewn achosion lle nad yw pryderon wedi'u cymryd o ddifrif yn y gorffennol, mae'r person wedi parhau i gam-drin plant, a hynny am flynyddoedd lawer weithiau. Felly mae'n hanfodol bod pob pryder yn cael ei gymryd o ddifrif a bod camau'n cael eu cymryd os yw hynny'n briodol. Mae canllawiau yn y bennod hon ar ddelio â honiadau yn erbyn staff y gwasanaeth addysg.

6.4 Os ceir honiad o gam-drin yn erbyn athro neu aelod staff arall neu wirfoddolwr mewn lleoliad addysgol, mae'n hollbwysig ei fod yn cael ei drafod yn deg, yn gyflym ac yn gyson, mewn ffordd sy'n amddiffyn y plentyn yn effeithiol ac ar yr un pryd yn gofalu am y person sy'n destun i'r honiad.

6.5 Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gofal tuag at eu gweithwyr. Dylent wneud yn siŵr eu bod yn rhoi cymorth effeithiol i unrhyw un sy'n wynebu honiad, a rhoi enw cyswllt i'r gweithiwr os yw'n cael ei atal o'i waith.

6.6 Ceir y fframwaith ar gyfer rheoli achosion lle y mae honiadau o gam-drin yn erbyn pobl sy'n gweithio gyda phlant yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 12/2007: Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004. Mae'r bennod hon yn delio'n benodol â honiadau o gam-drin yn erbyn

athrawon a staff eraill sy'n gweithio mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

6.7 Mae'n ofynnol bod gweithdrefnau gan bob ysgol a choleg addysg bellach i ddelio â honiadau, ac mae'n bwysig bod pob aelod staff a gwirfoddolwr yn gwybod beth i'w wneud os bydd yn cael honiad yn erbyn aelod arall o'r staff, neu os yw'n pryderu am ymddygiad aelod arall o'r staff. Bydd y weithdrefn yn nodi'n glir fod rhaid rhoi gwybod am bob honiad ar unwaith, i'r pennaeth neu brifathro fel arfer, a bydd yn enwi'r person, sef cadeirydd y llywodraethwyr yn aml, y mae'n rhaid ei hysbysu am honiadau os yw'r pennaeth neu brifathro'n absennol neu os yw'r honiad neu bryder yn ymwneud â'r pennaeth neu brifathro. Bydd y gweithdrefnau hefyd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Amddiffyn Plant a fydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor a monitro achosion.

**Camfanteisio ar ymddiriedaeth**

6.8 Mae'n bwysig bod holl staff y gwasanaeth addysg yn gwybod bod ymddwyn yn amhriodol gyda phlant neu tuag atynt yn annerbyniol. Yn benodol, o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 bydd yn drosedd i berson sy'n hŷn na 18 oed (e.e. athro, gweithiwr ieuenctid) gael perthynas rywiol â phlentyn sy'n iau na 18 oed os yw'r person hwnnw mewn swydd o ymddiriedaeth mewn cysylltiad â'r plentyn hwnnw, hyd yn oed os yw'r berthynas yn gydsyniol. Bydd hyn yn gymwys lle y mae'r plentyn mewn addysg amser llawn a'r person yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n addysgu'r plentyn.

6.9 Yn y gwasanaeth addysg, mae pob perthynas rhwng staff a disgyblion wedi'i seilio ar ymddiriedaeth. Yn gyffredinol, gellir dweud bod perthynas ymddiriedus yn un lle y mae gan un parti bŵer neu ddylanwad dros y llall oherwydd ei waith neu natur ei weithgarwch. Mae'n bosibl y bydd pŵer gan y person yr ymddiriedir ynddo i ddyfarnu bod y person arall wedi llwyddo neu fethu. Gall y berthynas gael ei hystumio gan ofn neu ffafriaeth. Mae'n hanfodol bod pawb sydd mewn swydd o ymddiriedaeth yn deall y pŵer y mae hynny'n ei roi iddynt dros y rheini sydd o dan eu gofal, a'r cyfrifoldeb sydd ganddynt o ganlyniad. Tra bydd perthynas ymddiriedus o'r fath yn bodoli, byddai caniatáu i'r berthynas ddatblygu mewn ffordd a allai arwain at berthynas rywiol yn anghywir. Bydd y berthynas rywiol yn anghyfartal o'i hanfod o fewn perthynas ymddiriedus ac felly'n annerbyniol. Bydd hefyd yn amhriodol am ei bod yn newid y berthynas ymddiriedus 'broffesiynol'.

6.10 Yn Neddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000 nodwyd nifer o alwedigaethau sy'n dod o dan y ddeddfwriaeth ar gamfanteisio ar ymddiriedaeth. Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n gweithio mewn sefydliad addysgol.

6.11 Prif bwrpas y darpariaethau ar gamfanteisio ar ymddiriedaeth yw amddiffyn pobl ifanc 16 a 17 flwydd oed, y credir eu bod yn agored iawn i'r perygl o gamfanteisio gan y rheini sydd mewn safle o ymddiriedaeth neu awdurdod yn eu bywyd.

6.12 Yn amodol ar nifer bach o ddiffiniadau, mae'n drosedd i berson sydd mewn swydd o ymddiriedaeth gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch rhywiol â pherson o dan 18 oed sydd mewn perthynas ymddiriedus ag ef, beth bynnag fo'r oedran cydsynio hyd yn oed os yw'r berthynas rhyngddynt yn gydsyniol.

6.13 Ceir perthynas ymddiriedus lle y mae gan aelod o staff neu wirfoddolwr bŵer neu ddylanwad dros bobl ifanc 16 neu 17 oed oherwydd y gwaith neu natur y gweithgarwch a gyflawnir.

6.14 Yr un yw'r egwyddorion beth bynnag fo'r cyfeiriadedd rhywiol: nid yw perthnasoedd cyfunrywiol na pherthnasoedd heterorywiol yn dderbyniol o fewn perthynas ymddiriedus. Mae'r egwyddorion yr un mor gymwys i bawb beth bynnag fo'i ryw, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. Mae'n bwysig iawn osgoi stereoteipio rhywiol neu unrhyw fath arall o stereoteipio yn y maes hwn. Hefyd, mae'n bwysig cydnabod y gall menywod yn ogystal â dynion gamfanteisio ar swydd o ymddiriedaeth.

6.15 Rhaid i bob aelod staff sicrhau bod ei berthnasoedd â phobl ifanc yn briodol i'w hoed a'u rhyw a gofalu na fydd ei iaith na'i ymddygiad yn achosi sylw neu ddyfalu. Mae angen meddwl yn ofalus am agweddau meddwl, ymarweddiad ac iaith, yn enwedig pan fydd aelodau staff yn delio â bechgyn a merched yn eu glasoed.

6.16 Mae'r ddogfen ganllaw Caring for young people and the vulnerable? Guidance for preventing abuse of trust a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Swyddfa Gartref, Swyddfa Gogledd Iwerddon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Adran Iechyd, a'r Adran dros Addysg a Chyflogaeth yn pennu'r prif egwyddorion ar gyfer datblygu cod ymddygiad i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant er mwyn eu gwarchod rhag gweithgarwch rhywiol o fewn perthynas ymddiriedus. Nid yw'r canllawiau hyn yn statudol ond maent yn cynnwys egwyddorion arfer da. Eu pwrpas yw helpu sefydliadau i lunio eu codau ymddygiad eu hunain ar gyfer diogelu ac atal camfanteisio ar ymddiriedaeth sy'n cynnwys rhyw fath o weithgarwch rhywiol.

**Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill**

6.17 Mae'r canllaw hon yn ymwneud â delio gyda achosion lle y mae honiadau a all ddangos y byddai person yn achosi perygl o niwed i blant pe byddai'n parhau i weithio'n rheolaidd mewn cysylltiad agos â phlant yn ei swydd bresennol, neu mewn unrhyw fath o waith. Mae'n berthnasol i bob achos lle y mae honiad bod athro neu aelod staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) mewn ysgol neu goleg addysg bellach sy'n darparu addysg i blant dan 18 mlwydd oed:

- wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi gwneud niwed i blentyn, neu a all fod wedi gwneud niwed i blentyn;

- wedi cyflawni’r hyn a allai fod yn drosedd yn erbyn neu mewn cysylltiad â phlentyn; neu

- wedi ymddwyn tuag at blentyn neu blant mewn ffordd sy’n dangos y byddai’n achosi perygl o niwed iddynt pe byddai’n gweithio’n rheolaidd neu mewn cysylltiad agos â phlant.

**Ystyriaethau cychwynnol**

6.18 Mae angen defnyddio synnwyr cyffredin a bod yn ddoeth wrth ymdrin â’r gweithdrefnau ar gyfer delio â honiadau. Mae’n bosibl na fydd nifer o achosion yn bodloni'r meini prawf uchod, ac mewn achosion o'r fath dylid dilyn trefniadau lleol i ddatrys achosion yn syth. Bydd rhai honiadau mor ddifrifol bydd angen iddynt gael sylw ar unwaith gan wasanaethau cymdeithasol plant a/neu gan yr heddlu, ond nid yw hyn yn digwydd yn aml iawn.

6.19 Dylid rhoi gwybod i Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) ar gyfer amddiffyn plant am <u>bob</u> honiad sy’n dod i sylw ysgol ac sydd, i bob golwg, yn bodloni’r meini prawf uchod, er mwyn i’r Swyddog hwnnw allu cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol plant a’r heddlu fel y bo’n briodol.

**Cael honiad**

6.20 Rhaid rhoi gwybod am honiadau ar unwaith i’r pennaeth neu brifathro (neu gadeirydd y llywodraethwyr os yw’r honiad yn erbyn y pennaeth), i gadeirydd y pwyllgor rheoli neu berchennog ysgol annibynnol (‘y rheolwr achos’).

6.21 Yn y lle cyntaf, bydd y rheolwr achos yn trafod yr honiad ar unwaith â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Amddiffyn Plant. Yn y drafodaeth gychwynnol bydd y swyddog dynodedig a’r rheolwr achos yn ystyried natur, cynnwys a chyd-destun yr honiad ac yn cytuno ar gwrs gweithredu. Ceir cadarnhad drwy’r ymholiadau cyntaf hyn:

- Fod honiad wedi’i wneud
- Beth yr honnwyd iddo ddigwydd
- Pa bryd ac ymhle y cafwyd y digwyddiad(au) honedig
- Pwy a oedd yn gysylltiedig
- Am unrhyw bobl eraill a oedd yn bresennol.

6.22 Efallai y bydd y LADO yn gofyn i reolwr yr achos ddarparu neu gael gafael ar wybodaeth ychwanegol sy’n berthnasol, er enghraifft hanes blaenorol, a yw plentyn neu ei deulu wedi gwneud honiadau tebyg o’r blaen, a beth yw cysylltiad presennol yr aelod o staff â’r plant.

6.23 Mae’n bosibl y bydd sefyllfaoedd lle y bydd y rheolwr achos am gysylltu â’r heddlu ar unwaith, er enghraifft, os credir bod y person yn achosi perygl i blant ar y pryd. Os nad oes tystiolaeth o hynny, bydd y rheolwr achos

yn trafod yr honiadau â'r swyddog dynodedig er mwyn penderfynu a oes angen cynnwys yr heddlu wrth ystyried yr honiad.

6.24 Ar ôl rhannu a gwerthuso'r wybodaeth ar y dechrau, mae'n bosibl y penderfynir bod yr honiad yn amlwg yn anwir ac na chymerir camau pellach ynghylch yr unigolyn sy'n destun i'r honiad neu'r pryder. Os felly, rhaid i'r rheolwr achos a'r swyddog dynodedig gofnodi'r penderfyniad hwn a'r cyfiawnhad drosto, a rhaid cytuno ar y wybodaeth sydd i'w rhoi mewn llythyr i'r unigolyn a phwy a fydd yn ei rhoi. Wedyn bydd y rheolwr achos a'r swyddog dynodedig yn ystyried pa gamau i'w cymryd yng nghyswllt yr unigolyn a'r rheini a wnaeth yr honiad.

6.25 Ni ddylid byth seilio'r penderfyniad i beidio â chymryd camau pellach ar farn y cyflogwr am gymeriad a/neu amgylchiadau personol y cyflogai dan sylw nac am y person sydd wedi gwneud yr honiad.

## Atal o'r gwaith

6.26 Dylid gwerthuso a rheoli'r risg bosibl o niwed i blant a achosir gan aelod o staff sydd wedi'i gyhuddo yng nghyswllt y plentyn neu'r plant sy'n gysylltiedig â'r honiadau. Mewn rhai achosion, bydd angen i reolwr yr achos ystyried atal yr aelod o staff o'r gwaith nes bod yr achos wedi'i ddatrys.

6.27 Mae'n rhaid i gyflogwyr ystyried yn ofalus a yw amgylchiadau achos yn cyfiawnhau atal aelod o staff rhag cael cyswllt â phlant yn yr ysgol, neu a oes modd rhoi trefniadau eraill ar waith nes bod yr honiad neu'r pryder wedi'i ddatrys.

6.28 Ni ddylai atal o'r gwaith fod yn ymateb awtomatig i honiad yn erbyn rhywun; dylid ystyried pob opsiwn i osgoi atal o'r gwaith cyn cymryd y cam hwnnw; os yw rheolwr yr achos yn bryderus am les plant eraill yn y gymuned neu am deulu'r aelod o staff, dylid rhoi gwybod i'r LADO neu i'r heddlu am hynny. Mae'n annhebygol iawn y gellir cyfiawnhau atal o'r gwaith ar sail pryderon o'r fath yn unig.

6.29 Dylid ystyried atal o'r gwaith dim ond mewn achosion pan fydd rheswm i amau bod plentyn neu blant eraill yn yr ysgol yn wynebu risg o niwed arwyddocaol, neu pan fydd yr achos mor ddifrifol y gallai fod yn sail ar gyfer diswyddo. Fodd bynnag, ni ddylid atal yr aelod o staff o'r gwaith yn awtomatig. Mae'n rhaid i reolwr yr achos ystyried yn ofalus a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau atal yr unigolyn rhag cael cyswllt â phlant yn yr ysgol neu'r coleg addysg bellach, neu nes bod yr honiad wedi cael ei ddatrys. Efallai y bydd hefyd am ofyn am gyngor gan ei gynghorydd personol a chan y LADO.

6.30 Mewn achosion y penderfynir ei bod yn briodol atal aelod o staff, dylid rhoi cadarnhad ysgrifenedig o fewn un diwrnod gwaith, gan roi cymaint o fanylion ag y bo modd am y rhesymau dros ei atal. Nid yw'n dderbyniol i gyflogwr adael unigolyn sydd wedi cael ei atal heb unrhyw gymorth. Dylid rhoi gwybod i'r unigolyn pan mae'n cael ei atal pwy yw ei enw cyswllt yn y

sefydliad, a dylid rhoi manylion cyswllt y person hwnnw iddo.

6.31 Ni chaiff gwasanaethau cymdeithasol plant na'r heddlu fynnu bod rheolwr yr achos yn atal aelod o staff, ond dylid rhoi sylw priodol i'r cyngor a geir ganddynt. Y pennaeth neu'r corff llywodraethu sydd â'r grym i atal unigolyn o'r gwaith, er bod y dasg hon yn cael ei dirprwyo i gadeirydd y llywodraethwyr fel arfer. Fodd bynnag, os yw trafodaeth am strategaeth yn dod i'r casgliad y dylai gwasanaethau cymdeithasol plant wneud ymholiadau a/neu y dylai'r heddlu ymchwilio i'r mater, dylai'r LADO holi'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol beth yw'r farn ynghylch a oes angen atal yr aelod o staff sydd wedi cael ei gyhuddo rhag cael cyswllt â phlant er mwyn helpu'r ysgol i ystyried a ddylid atal. Nid yw'r ffaith bod yr heddlu'n gysylltiedig ag achos yn golygu ei bod yn rhaid atal aelod o staff; dylai'r penderfyniad gael ei wneud ar sail achos, a hynny ar ôl cynnal asesiad risg.

**Hysbysu'r person sy'n destun i'r honiad**

6.32 Bydd y rheolwr achos yn rhoi gwybod am yr honiad i'r person y mae'r honiad yn ei erbyn cyn gynted â phosibl ar ôl ymgynghori â'r swyddog dynodedig. Mae'n bwysig iawn bod y rheolwr achos yn rhoi cymaint â phosibl o wybodaeth iddo bryd hynny. Fodd bynnag, os oes angen cael trafodaeth ar strategaeth, neu os oes angen cynnwys yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol plant, ni fydd y rheolwr achos yn gwneud hyn heb ymgynghori'n gyntaf â'r asiantaethau hynny a chael cytundeb ganddynt ar y wybodaeth y gellir ei datgelu i'r person. Os yw'r cyflogai dan sylw'n aelod o undeb llafur, dylid ei gynghori i gysylltu â'r sefydliad hwnnw.

**Hysbysu rhieni/gofalwyr**

6.33 Rhaid rhoi gwybod am yr honiad i rieni neu ofalwyr y plentyn neu blant sy'n gysylltiedig cyn gynted â phosibl os nad ydynt yn gwybod amdano'n barod. Fodd bynnag, os oes angen cynnal trafodaeth ar strategaeth, neu os oes angen cynnwys yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol plant, ni fydd y rheolwr achos yn gwneud hyn heb ymgynghori'n gyntaf â'r asiantaethau hynny a chael cytundeb ganddynt ar y wybodaeth y gellir ei datgelu i'r rhieni neu ofalwyr. Dylid rhoi gwybod i rieni a gofalwyr hefyd am ddatblygiadau yn yr achos, a'u hysbysu am y canlyniad os na cheir achos troseddol, gan gynnwys eu hysbysu bod proses ddisgyblu'n mynd ymlaen.

6.34 Fodd bynnag. bydd y trafodion mewn gwrandawiad disgyblu a'r wybodaeth a ystyrir wrth ddod i benderfyniad yn gyfrinachol ac ni ellir eu datgelu. Rhaid hysbysu rhieni a gofalwyr hefyd am y gwaharddiad ar adrodd neu gyhoeddi honiadau yn erbyn athrawon yn Neddf Addysg 2011. Os yw rhieni neu ofalwyr yn dymuno gwneud cais i'r llys am ddileu cyfyngiadau ar ohebu, dylid eu cyfarwyddo i geisio cyngor cyfreithiol.

**Atgyfeirio i'r heddlu a gwasanaethau cymdeithasol**

6.35 Os na ellir dangos bod y cyhuddiad yn anwir a bod rheswm dros amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol,

a/neu fod trosedd wedi'i gyflawni yn erbyn plentyn, rhaid cynnull trafodaeth ar strategaeth yn unol â *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* a *Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*.

6.36 Os yw'r honiad yn ymwneud â chyffwrdd, bydd y drafodaeth ar strategaeth neu'r gwerthusiad cychwynnol gyda'r heddlu yn ystyried y ffaith bod hawl gan athrawon a staff eraill mewn ysgolion a cholegau addysg bellach i ddefnyddio grym rhesymol i reoli neu atal disgyblion mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys camau i atal ymddygiad sy'n tarfu ar eraill.

**Ystyriaethau i gyrff llywodraethu**

6.37 Ar y pwynt hwn, dylai'r rheolwr achos ystyried a oes angen atal yr aelod staff o'i waith. Rhaid i gyflogwyr ystyried yn ofalus a yw amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau atal y person rhag dod i gysylltiad â phlant yn yr ysgol neu a ellir rhoi trefniadau eraill ar waith nes bydd yr honiad neu bryder wedi'i ddatrys.

6.38 Tra bydd yr awdurdodau statudol yn ystyried yr honiad, ni fydd cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn cymryd unrhyw gamau heblaw adolygu a chadarnhau aelodaeth y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo staff. Bydd yn bwysig hefyd ar y pwynt hwn fod corff llywodraethu'r ysgol yn hysbysu awdurdodau perthnasol eraill fel yr awdurdod esgobaethol ac unrhyw ymddiriedolwyr yn ôl yr angen.

**Trafodaeth ar strategaeth a chyfarfod strategaeth**

6.39 Yn y drafodaeth ar strategaeth, rhennir yr holl wybodaeth a gafwyd neu a gasglwyd hyd hynny a phenderfynir ar y camau nesaf ac a fydd cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal. Bydd y cyfarfod strategaeth yn penderfynu a fydd ymholiadau gan y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu'n mynd ymhellach ac, os byddant, bydd yn cynllunio proses yr ymholiadau a'r rheolaeth arnynt. Gall yr awdurdodau statudol benderfynu atgyfeirio'r mater i Wasanaeth Erlyn y Goron os yw'n bosibl bod trosedd wedi'i gyflawni. Fel arall gall y cyfarfod benderfynu nad oes angen ymholiadau pellach a bydd y cyflogwr yn delio â'r honiad yn unol â'i weithdrefnau disgyblu ei hun.

6.40 Os yw'n glir nad oes angen ymchwiliad gan yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol plant, a bod y drafodaeth ar strategaeth neu'r gwerthusiad cychwynnol wedi penderfynu hynny, bydd Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Amddiffyn Plant yn trafod y camau nesaf â'r rheolwr achos. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr opsiynau sydd ar gael i'r ysgol neu goleg addysg bellach yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau'r honiad a'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael. Bydd yr opsiynau'n amrywio o beidio â chymryd camau pellach i ddiswyddo yn y fan a'r lle drwy wrandawiad disgyblu neu benderfyniad i beidio â defnyddio gwasanaethau'r person yn y dyfodol os yw'r honiad yn erbyn gwirfoddolwr.

6.41 Mewn rhai achosion bydd angen gwneud ymholiadau pellach er mwyn penderfynu ar y camau nesaf. Y broses i ysgolion a gynhelir mewn achosion o’r fath yw bod Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol, y pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethu yn trafod sut, a chan bwy, y cynhelir ymchwiliad annibynnol. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi darparu’n barod ar gyfer ymchwiliadau annibynnol i honiadau, yn aml drwy’r gwasanaethau personél y mae ysgolion a cholegau addysg bellach yn gallu eu prynu gan yr awdurdod. Mae’n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod cyfleuster fforddiadwy ar gael i ysgolion a cholegau addysg bellach ar gyfer ymchwiliadau annibynnol. Ar gyfer ysgolion a gynhelir, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gwasanaeth ymchwilio annibynnol i ystyried honiadau o gam-drin sy’n gyfystyr â chamymddwyn difrifol yn erbyn athrawon ac aelodau staff.

6.42 Yn achos llawer o honiadau mae’n debygol na fydd erlyniad am drosedd yn dilyn ac y bydd y cyflogwr yn cymryd camau disgyblu. Gellir osgoi oedi a dyblygu drwy argymell yn y cyfarfod strategaeth fod y swyddog heddlu a/neu weithiwr cymdeithasol sy’n cyf-weld yn gofyn am gydsyniad gan yr unigolion a holir i rannu’r wybodaeth a roddir â’r cyflogwr a/neu’r gwasanaeth ymchwilio annibynnol ar derfyn yr ymholiadau a/neu’r gwrandawiad llys.

**Goruchwylio a monitro**

6.43 Yn unol â Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ddylai fod â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y canlynol:

- sicrhau bod gan yr awdurdod weithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau yn unol â'r canllawiau hynny;
- datrys unrhyw faterion rhyngasiantaethol;
- cysylltu â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ynglŷn â'r mater.

6.44 Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol ddynodi swyddogion i fod yn rhan o’r gwaith canlynol:

- rheoli a goruchwylio achosion unigol;
- rhoi cyngor ac arweiniad i gyflogwyr a mudiadau gwirfoddol;
- cysylltu â’r heddlu ac asiantaethau eraill;
- monitro cynnydd achosion i sicrhau yr ymdrinnir â nhw mor gyflym ag y bo modd, gan ddilyn proses drylwyr a theg

6.45 Yn y canllawiau hyn rydym wedi cyfeirio at yr unigolyn dynodedig hwn fel LADO. Bydd Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol yn darparu cyngor a chyfarwyddyd i’r rheolwr achos, yn ogystal â chydgysylltu â’r heddlu ac asiantaethau eraill, ac yn monitro achosion i sicrhau eu bod yn cael eu trafod mor gyflym ag y gellir drwy broses sy’n deg a thrwyadl. Dylid eu hadolygu bob pythefnos neu bob mis, yn ôl cymhlethdod yr achos.

6.46 Dylai heddluoedd ddynodi swyddogion a fydd yn gyfrifol am:

- gydgysylltu â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol;
- cymryd rhan yn y drafodaeth ar strategaeth neu'r gwerthusiad cychwynnol;
- adolygu'r cynnydd ar achosion y mae'r heddlu'n ymchwilio iddynt;
- rhannu gwybodaeth ar ôl cwblhau'r ymchwiliad neu erlyniad.

6.47 Os bydd y drafodaeth am strategaeth neu asesiad cychwynnol yn penderfynu bod angen ymchwiliad gan yr heddlu, dylai'r heddlu hefyd bennu dyddiad targed ar gyfer adolygu cynnydd yr ymchwiliad, a chysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron ynghylch beth ddylid ei wneud: cyhuddo'r unigolyn; parhau i ymchwilio; neu ddod â'r ymchwiliad i ben. Pryd bynnag y bo modd, dylai'r adolygiad hwnnw gael ei gynnal ddim mwy na phedair wythnos ar ôl y gwerthusiad cyntaf. Dylid pennu'r dyddiadau ar gyfer adolygiadau dilynol, yn ddelfrydol bob pythefnos, yn y cyfarfod os yw'r ymchwiliad yn parhau.

**Rhannu gwybodaeth**

6.48 Mewn trafodaeth ar strategaeth neu werthusiad cychwynnol o'r achos, bydd yr asiantaethau sy'n gysylltiedig yn rhannu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ganddynt am y person sy'n destun i'r honiad, ac am y dioddefwr honedig.

6.49 Os yw'r heddlu'n cymryd rhan, bydd yn bwysig, lle bynnag y bo modd, fod y cyflogwr yn gofyn i'r heddlu gael cydsyniad gan yr unigolion sy'n gysylltiedig i rannu eu datganiadau a'u tystiolaeth i'w defnyddio ym mhroses ddisgyblu'r cyflogwr. Dylid gwneud hyn wrth i ymchwiliad yr heddlu fynd ymlaen a bydd yn galluogi'r heddlu i rannu gwybodaeth berthnasol yn ddi-oed ar derfyn eu hymchwiliad neu unrhyw achos llys.

6.50 Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant ddilyn gweithdrefn debyg wrth wneud ymholiadau i benderfynu a oes angen amddiffyniad neu wasanaethau ar y plentyn neu blant sydd wedi'u henwi yn yr honiad. Drwy wneud hyn bydd yn bosibl trosglwyddo unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i achos disgyblu a geir yn ystod yr ymholiadau hynny i'r cyflogwr neu i'r gwasanaeth ymchwilio annibynnol yn ddi-oed.

**Cyfnodau gweithredu**

6.51 Bydd o fantais i bawb bod achosion yn cael eu datrys mor gyflym â phosibl drwy ymchwiliad sy'n deg a thrwyadl. Rhaid rhoi blaenoriaeth i ymchwiliadau i honiadau gan berson priodol er mwyn osgoi oedi. Mae'r cyfnodau targed wedi'u dangos isod. Bydd yr amser a gymerir i ymchwilio i achos penodol a'i ddatrys yn dibynnu ar nifer o ffactorau gwahanol gan gynnwys natur, difrifoldeb a chymhlethdod yr honiad, ond rhaid cyrraedd y targedau hyn os nad oes amgylchiadau eithriadol.

6.52 Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o achosion, gan gynnwys unrhyw apêl, yn cael eu datrys o fewn 80 diwrnod ysgol neu 16 wythnos ysgol.

6.53 Dylid datrys yr achosion lle y mae'n amlwg ar unwaith fod yr honiad yn anwir neu'n faleisus o fewn un wythnos.

6.54 Where the initial consideration decides that the allegation does not involve a possible criminal offence it will be for the employer to deal with it, although if there are concerns about child protection, the employer should discuss with the LADO. In such cases, if the nature of the allegation does not require formal disciplinary action (i.e. a hearing before the governing body staff disciplinary and dismissal committee), the employer should start appropriate action (i.e. the lesser misconduct process) within five school days. If a disciplinary hearing is required and can be held without further investigation, the hearing should be held within 40 school days.

**Cymryd camau ar ôl ymchwiliad i drosedd neu erlyniad**

6.55 Dylai'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron roi gwybod ar unwaith i'r cyflogwr a Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar ôl cwblhau ymchwiliad i drosedd neu unrhyw dreial sy'n dilyn, neu os penderfynwyd terfynu ymchwiliad heb ddwyn cyhuddiad, neu beidio â mynd ymlaen i erlyn yn yr achos ar ôl cyhuddo'r person. Yn yr amgylchiadau hynny bydd Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol yn trafod yr angen am unrhyw gamau pellach gyda'r rheolwr achos. Os oes angen, dylid trefnu cyfarfod strategaeth i ystyried canlyniad y gwrandawiad llys, ac i benderfynu ar unrhyw gamau ac argymhellion pellach.

6.56 Bydd y camau a gymerir yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a bydd angen ystyried y canlyniad i ymchwiliad yr heddlu neu'r treial, yn ogystal â'r safon profi wahanol sydd ei hangen mewn achosion disgyblu ac achosion troseddol.

6.57 Yn achos staff cyflogedig mewn ysgolion a gynhelir bydd hyn yn golygu eu hatgyfeirio ar unwaith i'r corff llywodraethu fel y gall gwblhau'r broses ddisgyblu.

Os cadarnheir yr honiad a bod y person yn cael ei ddiswyddo neu fod y cyflogwr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person, neu fod y person yn ymddiswyddo neu'n peidio fel arall â darparu ei wasanaethau, bydd Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol yn trafod â'r rheolwr achos a'i gynghorydd personél a ddylid atgyfeirio'r person i'r DBS er mwyn ystyried ei gynnwys yn y rhestrau gwahardd.

6.58 Mae'n ofyniad cyfreithiol i gyflogwyr gyfeirio unigolyn at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os ydynt yn meddwl ei fod wedi ymddwyn mewn ffordd a achosodd niwed (neu sy'n debygol o achosi niwed) i blentyn (gall yr ymddygiad hwn gynnwys ymddygiad rhywiol amhriodol); neu os yw unigolyn fel arall yn peri risg o niwed i blentyn. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r

ddyletswydd i gyfeirio unigolyn at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn codi pan mae cyflogwr wedi atal yr unigolyn rhag gwneud gwaith perthnasol gyda phlant, neu os yw'r unigolyn wedi dewis rhoi'r gorau i wneud gwaith perthnasol mewn achosion lle byddai wedi cael ei atal pe na bai wedi gwneud hynny. Bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystyried a ddylid atal yr unigolyn rhag gweithio mewn gweithgarwch sy'n cael ei reoleiddio, a fydd yn cynnwys y rhan fwyaf o waith mewn ysgolion a sefydliadau eraill. Bydd gan awdurdodau lleol, ysgolion, colegau addysg bellach a chyrff eraill ddyletswydd statudol i wneud adroddiadau, ac i ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylid cyfeirio achosion cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r aelod o staff ymddiswyddo neu gael ei atal, ac o fewn mis i roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r unigolyn.

6.59 Dylid cyfeirio achosion o gamymddwyn proffesiynol at y corff rheoleiddio perthnasol.

**Cymryd camau ynghylch honiadau di-sail neu faleisus**

6.60 Os penderfynir, ar ôl cynnal ymchwiliad, fod honiad yn ddi-sail neu'n faleisus, rhaid hysbysu Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol fel y gall gyfeirio'r mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn penderfynu a oes angen gwasanaethau ar y plentyn dan sylw, neu a all fod wedi'i gam-drin gan rywun arall. Os dangosir bod yr honiad wedi'i ddyfeisio'n fwriadol neu ei fod yn faleisus, bydd y pennaeth, y prifathro neu'r perchennog yn ystyried a yw'n briodol cymryd camau disgyblu yn erbyn y disgybl a wnaeth yr honiad (rhaid nodi hyn yn glir ym mholisi disgyblu disgyblion yr ysgol); neu a ddylid gofyn i'r heddlu ystyried a yw'n briodol cymryd camau yn erbyn y person sy'n gyfrifol os nad oedd yn ddisgybl. Ym Medi 2010 cyhoeddwyd canllawiau ar-lein i'r heddlu gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar aflonyddu o dan Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997.

**Cyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir – gweithdrefnau disgyblu a diswyddo**

6.61 Ar ôl ystyried yr honiad gan yr awdurdodau statudol, caiff y mater ei gyfeirio'n ôl i'r corff llywodraethu er mwyn cwblhau'r broses disgyblu staff. Dylai'r LADO drafod y camau nesaf gyda'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Bydd yr opsiynau sydd ar gael i'r ysgol yn dibynnu ar natur yr honiad ac ar yr amgylchiadau, ac ar y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael.

6.62 Dylai'r pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr a'r LADO drafod y canlynol:

- A ellir penderfynu nad oes angen cymryd camau pellach, ac os felly dylid cofnodi'r rheswm a'r cyfiawnhad dros hynny;
- A oes tystiolaeth glir o gamymddwyn ac y dylid defnyddio gweithdrefnau camymddwyn llai difrifol yr ysgol i ddelio â hyn;

- A yw’r honiad yn dangos yn glir bod camymddwyn difrifol wedi digwydd ac y dylid defnyddio gweithdrefnau camymddwyn difrifol yr ysgol i ddelio â hyn;
- A yw’r honiad yn awgrymu camymddwyn difrifol ond bod angen rhagor o wybodaeth, neu fod natur gymhleth yr achos yn gofyn am ymchwiliad annibynnol.

Mae cyrff llywodraethu’n gyfrifol am ymddygiad a disgyblaeth staff ysgol, ac am unrhyw weithdrefnau i roi cyfle i aelodau staff ddatrys unrhyw gwynion am eu cyflogaeth, yn unol â Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 a Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007. Mae’n ofynnol bod y corff llywodraethu’n mabwysiadu rheolau a rheoliadau i reoleiddio ymddygiad a disgyblaeth yr holl staff y mae’n eu cyflogi neu y mae’n gyfrifol amdanynt o ddydd i ddydd. Nid yw hyn yn cynnwys rhai staff ategol, athrawon cyflenwi na gwirfoddolwyr.

6.63 O dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 mae’n ofynnol bod cyrff llywodraethu’n sefydlu dau bwyllgor:

- Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff – i benderfynu a fydd person a gyflogir yn yr ysgol yn gorffen gweithio yno, yn cael terfynu ei gontract cyflogaeth neu’n peidio â chael ei adnewyddu, ac i wrando ar sylwadau ynghylch materion o’r fath;

- Pwyllgor Apelau Disgyblu a Diswyddo Staff – i ystyried apelau ynghylch penderfyniadau o’r fath.

6.64 Yn unol a adrannau 35(8) a 36(8) y Deddf Addysg 2002, rhaid i cyrff llywodraethu ystyried canllaw statudol Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 02/2013: Gweithdrefnau Effeithiol i Ddisgyblu a Diswyddo Staff. Mae’n pennu’r gofynion manwl ar gyfer cyfansoddiad y pwyllgorau hynny, cyfrifoldebau cyfreithiol y cyrff llywodraethu ar faterion disgyblu, y gweithdrefnau i ddelio â honiadau am gamymddwyn difrifol a llai difrifol ac ymddygiad, ac yn rhoi cyngor penodol i’w dilyn gan gyrff llywodraethu ysgolion pan geir honiad o gam-drin yn erbyn aelod staff. Mae polisi disgyblu staff enghreifftiol yn y Cylchlythyr sydd hefyd yn statudol.

6.65 Os bydd achos o camdriniaeth wedi mynd i’r llys ac wedi arwain at rybuddiad neu ddedfryd o garchar, rhaid cwblhau’r broses disgyblu a diswyddo yn yr un modd er mwyn penderfynu’n ffurfiol a ddylid terfynu contract cyflogaeth yr aelod staff neu beidio yn unol â Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006.

**Ymchwiliadau annibynnol**

6.66 Mae rheoliad 7(3) Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 yn gosod gofyniad ar gyrff llywodraethu i penodi ymchwilydd annibynnol i ymchwilio i honiadau o natur amddiffyn plant yn erbyn staff cyn cynnal unrhyw wrandawiad disgyblu ynghylch yr honiadau hynny. Pwrpas yr

ymchwiliad annibynnol yw sicrhau bod ymchwiliad cwbl ddiduedd ac amhleidiol yn cael ei gynnal.

6.67 Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati mewn ychydig i ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r rheoliadau mewn perthynas ag ymchwiliadau annibynnol o honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon ac aelodau eraill o staff. Bydd y canllawiau ar weithdrefnau disgyblu a diswyddo ar gyfer staff ysgol yn cael eu diwygio i adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad.

6.68 Wedi i'r awdurdodau statudol gwblhau eu hymchwiliadau, bydd pennaeth yr ysgol (os nad nhw y mae'r honiad wedi ei gwneud), cadeirydd y llywodraethwyr a Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol yn cwrdd i benderfynu a oes angen ymchwiliad annibynnol a phwy a ddylai ei gynnal. Mae'n ddyletswydd llywodraethwyr i apwyntion Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol. Os penderfynir y corff llywodraethu atgyfeirio'r achos i'r Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol, rhaid cofnodi'r rheswm dros wneud hynny.

6.69 Gall y corff llywodraethu benderfynu pwy i'w benodi'n ymchwilydd annibynnol, yn amodol ar y cyfyngiadau canlynol sydd wedi'u gosod yn rheoliad 7(4) sy'n datgan na fydd yr ymchwilydd annibynnol:

- yn llywodraethwr ar yr ysgol dan sylw;
- yn rhiant/gofalwr i ddisgybl cyfredol neu flaenorol yn yr ysgol dan sylw;
- yn aelod staff cyfredol neu flaenorol yn yr ysgol dan sylw; nac
- yn berson sy'n cael ei gyflogi ar y pryd gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.

6.70 Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes yn darparu ar gyfer ymchwilio i honiadau yn annibynnol, yn aml fel rhan o'r gwasanaeth personél y gall ysgolion eu prynu gan yr awdurdod.

6.71 Er mwyn helpu cyrff llywodraethu mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol i ddarparu ymchwilwyr profiadol a hyfforddedig i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn ddi-dâl i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sydd o dan dyletswydd i apwyntio Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol (rheoliad 7(2)). Bydd y Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol (IIS) yn ystyried achosion o honiadau am gamdriniaeth sy'n cael eu cyfeirio, ac os caiff yr honiadau eu profi, mae hyn yn cyfrif fel camymddwyn difrifol. Ni fydd IIS yn ystyried achosion heb ddim cymhlethdodau sydd wedi arwain at rybudd, euogfarn troseddol nac achosion a fyddai'n cael eu hystyried yn gamymddwyn llai difrifol.

6.72 Wedi i gadeirydd y llywodraethwyr ofyn am ymchwiliad annibynnol, cyfrifoldeb yr ymchwilydd fydd:

- pennu meysydd yr ymchwiliad a chwmpas yr ymchwiliad;
- ystyried yr holl dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth a gafwyd oddi wrth yr awdurdodau statudol, ac ymchwilio i'r ffeithiau ynghylch yr honiad. Gall hyn alw am gyf-weld tystion er y bydd yr ymchwilydd yn ceisio

lleihau'r angen am hyn os gellir cael gwybodaeth o dystiolaeth ddogfennol gan gynnwys gwybodaeth oddi wrth yr awdurdodau statudol;

- llunio adroddiad sy'n cynnwys canfyddiadau ffeithiol wedi'u seilio ar y dystiolaeth a ddarparwyd;
- cyflwyno'r adroddiad yn y gwrandawiad disgyblu ac unrhyw wrandawiad apêl, os gofynnir.

6.73 Bydd yr ymchwilydd yn canolbwyntio bob amser ar dystiolaeth ffeithiol. Bydd yr ymchwilydd yn cyflwyno'r canfyddiadau'n amhleidiol yn yr adroddiad ac mewn unrhyw gyflwyniad i'r pwyllgor. Ni ddylai'r ymchwilydd gyfleu barn unrhyw un o'r partïon sy'n gysylltiedig. Ni ddylai'r ymchwilydd wneud unrhyw sylwadau, na mynegi unrhyw farn bersonol am yr aelod staff, yr honiad neu'r dystiolaeth a gasglwyd, y corff llywodraethu na'r awdurdod lleol.

6.74 Wrth ymchwilio i honiadau yn erbyn staff ysgol, gall yr ymchwilydd annibynnol ofyn am gytundeb gan yr awdurdodau statudol i rannu gwybodaeth a gasglwyd yn ystod ymchwiliad amddiffyn plant. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhannu o fewn fframwaith y protocolau amlasiantaethol lleol sydd wedi'u mabwysiadu ym mhob ardal Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Rhagdybir y bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu ac y bydd unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymchwiliad annibynnol yn cael ei rhannu â'r holl bartïon.

6.75 Felly, er mwyn osgoi'r angen i ailgyfweld plant ac oedolion sy'n agored i niwed, lle y mae gwybodaeth yn cael ei dal gan yr awdurdodau statudol a lle y cafwyd unrhyw gydsyniad angenrheidiol gan rieni, gofalwyr neu warcheidwaid, dylid rhannu gwybodaeth berthnasol a phriodol â'r ymchwilydd annibynnol. Dylid hefyd ystyried cael cydsyniad y plentyn os yw'n briodol.

6.76 Ar ôl cwblhau'r adroddiad, dylid ei roi i bennaeth yr ysgol a chadeirydd y llywodraethwyr (neu gadeirydd y llywodraethwyr a llywodraethwr arall yng nghyswllt honiadau yn erbyn y pennaeth). Ni ddylid ei anfon i'r awdurdod lleol. Corff llywodraethu'r ysgol yw perchennog yr adroddiad oherwydd ei gyfrifoldeb cyfreithiol i gynnal y broses ddisgyblu. Bydd angen i'r corff llywodraethu ystyried canfyddiadau'r adroddiad a phenderfynu un ai:

- bod tystiolaeth i ategu penderfyniad bod sail i'r honiad a'i fod yn dangos camymddwyn difrifol ac y bydd felly'n galw am gynnal gwrandawiad gan y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff; neu

- fod tystiolaeth i ategu penderfyniad bod yr honiad yn dangos camymddwyn llai difrifol y gall pennaeth yr ysgol ddelio ag ef (neu gadeirydd y llywodraethwyr os yw'r honiad yn erbyn y pennaeth); neu

- nad oes tystiolaeth i ategu'r honiad ac nad oes angen cymryd camau pellach yn erbyn yr aelod staff.

6.77 Os bydd yr ymchwiliad yn dangos bod yr honiad yn faleisus a/neu'n flinderus, neu wedi'i wneud er mantais bersonol, yna dylai'r corff llywodraethu ystyried cymryd camau disgyblu lle y bo'n briodol yn erbyn y person neu ddisgybl a wnaeth yr honiad yn unol â'r polisi perthnasol, e.e. polisi ymddygiad yr ysgol, fel y bo'n briodol.

6.78 Os dangoswyd bod rhiant/gofalwr neu rywun nad yw'n gyflogai wedi gwneud honiad anwir neu faleisus/blinderus yn erbyn aelod staff, dylai'r aelod staff geisio cyngor cyfreithiol iddo'i hun ar y camau gweithredu sydd ar gael iddo. Nid yw hyn yn fater i'r corff llywodraethu.

**Gwrandawiadau disgyblu**

6.79 Os bydd yr ymchwiliad yn dangos bod tystiolaeth ddigonol, yn ôl pob golwg, i gyfiawnhau cynnal gwrandawiad disgyblu gyda'r pwyllgor disgyblu a diswyddo, rhaid trefnu gwrandawiad. Bydd yn fuddiol cysylltu ag adran adnoddau dynol yr awdurdod lleol pan gynhelir gwrandawiad ynghylch camymddwyn difrifol.

6.80 Dylid rhoi cymaint o wybodaeth ddogfennol â phosibl i'r aelod staff ar yr amod na fydd hyn yn peryglu aelod staff neu ddisgybl neu'n ei roi mewn sefyllfa anodd, e.e. drwy enwi disgybl a all fod yn dyst, neu enwi aelod staff sydd wedi chwythu'r chwiban.

6.81 Yn unol â Rheoliad 13 a Rheoliad 21 o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, cyn dod i benderfyniad, rhaid i gyrff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor sydd wedi'i gynnig gan y bobl ganlynol:

- Mewn ysgolion a gynhelir o bob math: y prif swyddog addysg neu ei gynrychiolydd sydd â'r hawl i fod yn bresennol er mwyn rhoi cyngor ym mhob gwrandawiad sy'n ymwneud ag unrhyw benderfyniad i ddiswyddo neu ddisgyblu aelod staff (Rheoliad 17(9) o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006);

- Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir: y swyddog esgobaethol neu ei gynrychiolydd sydd â'r un hawliau i gynghori â'r prif swyddog addysg;

- Mewn ysgolion sefydledig gall y corff llywodraethu gytuno â'r awdurdod esgobaethol i roi'r un hawliau i gynghori i'r swyddog esgobaethol neu ei gynrychiolydd;

- Ym mhob ysgol, mae gan y pennaeth hawl i fod yn bresennol ym mhob gwrandawiad o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo staff i roi cyngor, ac eithrio:
    - os mai'r pennaeth yw'r person y cymerir camau disgyblu yn ei erbyn
    - os yw'r pennaeth yn dyst i'r digwyddiad a arweiniodd at ystyried camau disgyblu
    - os mai'r pennaeth yw'r swyddog cyflwyno.

**Penderfyniadau mewn gwrandawiad**

6.82 Ar ôl ystyried y dystiolaeth a'r cyngor a roddwyd, gall y pwyllgor ddod i'r casgliad:

- nad yw'r honiad wedi'i brofi ac na chymerir unrhyw gamau
- bod yr ymddygiad honedig yn gamymddwyn llai difrifol ac y dylid rhoi rhybudd llafar ffurfiol, rhybudd ysgrifenedig neu rybudd ysgrifenedig olaf
- bod yr honiad o gamymddwyn difrifol wedi'i brofi ac yn ôl difrifoldeb y camymddwyn y gosodir sancsiwn priodol, gan gynnwys:
    - gofyniad am hyfforddiant a datblygiad penodol
    - diraddio i swydd ar raddfa is (os yw'n ymarferol) a/neu golli cyflog
    - diswyddo yn y fan a'r lle.

6.83 Os penderfynir diswyddo aelod staff a bod yr awdurdod lleol yn dal contract cyflogaeth yr aelod staff hwnnw, rhaid i'r pwyllgor anfon copi o'r llythyr at y prif swyddog addysg wedi i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl gan yr aelod staff ddod i ben ac os nad yw wedi apelio. Bydd yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn diswyddo'r aelod staff a rhaid iddo wneud hynny o fewn 14 o ddiwrnodau gwaith ar ôl cael ei hysbysu am y penderfyniad gan y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff neu gan y pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo staff (Rheoliad 17 o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006).

6.84 Os penderfynir diswyddo aelod staff a bod yr aelod staff wedi'i gyflogi gan gorff llywodraethu'r ysgol (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig), bydd y llythyr cadarnhau at yr aelod staff hefyd yn cynnwys hysbysiad diswyddo ac unrhyw gyfnod rhybudd sy'n briodol.

**Apelau disgyblu**

6.85 Mae gan yr aelod staff hawl i apelio yn erbyn penderfyniad gan y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff. Gall y pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo staff gadarnhau penderfyniad gan y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff, gosod cosb lai neu ddod i'r casgliad na ddylid cymryd camau yn erbyn yr aelod staff. Ni chaiff y pwyllgor osod cosb fwy llym.

**Ymddiswyddo gan staff**

6.86 Os bydd y person y cafwyd honiad yn ei erbyn yn ymddiswyddo, neu'n peidio â darparu ei wasanaethau, ni fydd hyn yn atal camau i ymchwilio i'r honiad yn unol â'r canllawiau hyn a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghylchlythyr 02/2013: Gweithdrefnau Effeithiol i Ddisgyblu a Diswyddo Staff. Mae'n bwysig gwneud pob ymdrech i ddod i

gasgliad ym mhob achos sy'n ymwneud â honiad sy'n berthnasol i ddiogelwch neu les plant, gan gynnwys achosion lle y mae'r person dan sylw'n gwrthod cydweithredu â'r broses.

6.87 Lle bynnag y bo modd, rhaid rhoi pob cyfle i'r un y cafwyd honiad yn ei erbyn i ateb yr honiad a gwneud sylwadau amdano. Fodd bynnag, bydd y broses o gofnodi'r honiad ac unrhyw dystiolaeth ategol, a phenderfynu a ellir ei gadarnhau ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael, yn parhau hyd yn oed os na ellir gwneud hynny neu os na cheir cydweithrediad gan yr un sy'n destun i'r honiad. Gall fod yn anodd dod i gasgliad mewn amgylchiadau o'r fath, ac mae'n bosibl na fydd modd gosod unrhyw sancsiynau disgyblu os bydd cyfnod rhybudd y person yn dod i ben cyn cwblhau'r broses. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod y corff llywodraethu yn cwblhau'r proses disgyblu oherwydd os yw'r penderfyniad oedd y dylid yr aelod o staff cael ei diswyddo os oeddent dal yn y swydd, mae gan y corff llywodraethu dyletswydd i wneud atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac y CyngACC. Mae hefyd yn bwysig i ddod i gasgliad a'i gofnodi lle bynnag y bo modd a bod y cyflogwr yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Reoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009.

6.88 Yn yr achosion hyn, **ni** ddylid defnyddio 'trefniadau cyfaddawdu' fel y'i gelwir, lle mae unigolyn yn cytuno i ymddiswyddo os yw'r cyflogwr yn cytuno i beidio â dilyn camau disgyblu, a lle mae'r ddwy ochr yn cytuno ar eiriau i'w defnyddio mewn unrhyw eirdaon yn y dyfodol. Ni fydd cytundeb o'r fath yn atal ymchwiliad manwl gan yr heddlu pan fo hynny'n briodol, ac ni fydd ychwaith yn atal y corff llywodraethu rhag cwblhau'r broses disgyblu. Bydd angen i'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff gwrdd o hyd, ac os yw'n penderfynu y byddai, ar sail tystiolaeth, wedi diswyddo'r aelod o staff pe bai'n dal yn gyflogedig, mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y corff llywodraethu i gyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

### Gofalu am y rheini sy'n gysylltiedig

6.89 Mae cyflogwyr o dan ddyletswydd gofal tuag at eu cyflogeion. Dylent gymryd camau i reoli a lleihau'r straen sy'n deillio o'r broses o drafod honiadau. Mae gofal am yr unigolyn yn hanfodol wrth gyflawni'r ddyletswydd hon. Rhaid hysbysu unigolion am bryderon neu honiadau cyn gynted â phosibl ac egluro'r camau sy'n debygol o ddilyn os na cheir gwrthwynebiad gan y gwasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu. Dylid cynghori'r unigolyn i gysylltu â'i gynrychiolydd undeb llafur, os oes ganddo un, neu gydweithiwr i gael cymorth. Hefyd rhaid trefnu i wasanaethau cwnsela lles neu gyngor meddygol fod ar gael iddo os yw'r cyflogwr yn eu darparu.

6.90 Rhaid i'r rheolwr achos benodi cynrychiolydd a enwir a fydd yn rhoi gwybod i'r person sy'n destun i'r honiad am ddatblygiadau yn yr achos ac yn ystyried pa gymorth arall a fydd yn briodol i'r unigolyn. Yn achos staff mewn ysgolion a gynhelir, gall hynny gynnwys cymorth drwy drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer iechyd galwedigaethol neu les gweithwyr. Rhaid bod yn neilltuol o ofalus pan fydd cyflogeion wedi'u hatal o'u gwaith i sicrhau eu bod yn cael

gwybod am ddatblygiadau yn eu hachos ac am faterion cyfredol sy'n ymwneud â'u gwaith. Ni ddylid rhwystro cysylltiadau cymdeithasol â'u cydweithwyr a'u ffrindiau oni bai fod tystiolaeth sy'n awgrymu bod cysylltiadau o'r fath yn debygol o amharu ar y broses o gasglu a chyflwyno tystiolaeth.

**Cyfrinachedd**

6.91 Os ceir honiad am gam-drin, bydd yn bwysig iawn bod yr ysgol neu goleg addysg bellach yn gwneud pob ymdrech i gadw cyfrinachedd a gwylio rhag cyhoeddusrwydd dieisiau wrth ystyried neu ymchwilio i'r honiad. Cyflwynwyd cyfyngiadau ar ohebu yn Neddf Addysg 2011 a oedd yn atal cyhoeddi unrhyw ddeunydd a allai arwain at adnabod athro y cafwyd honiad yn ei erbyn gan neu ar ran disgybl yn yr un ysgol (lle y byddai hynny'n dangos mai'r athro hwnnw yw testun yr honiad). Bydd y cyfyngiadau ar ohebu'n gymwys nes bydd y person sy'n destun honiad yn cael ei gyhuddo o drosedd, neu nes bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am ymchwiliad neu benderfyniad mewn achos disgyblu sy'n codi o'r honiad. Bydd y cyfyngiadau ar ohebu'n dod i ben hefyd os bydd yr unigolyn y mae'r cyfyngiadau'n gymwys iddo'n ildio ei hawl i beidio â chael ei adnabod drwy gyhoeddi mai ef yw testun yr honiad neu drwy roi cydsyniad ysgrifenedig i rywun arall wneud hynny neu os bydd barnwr yn codi cyfyngiadau ar ôl cael cais i wneud hynny. Cychwynnodd y darpariaethau hyn ar 1 Hydref 2012.

6.92 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n gosod cyfyngiadau'n ei gwneud yn glir bod "cyhoeddi" deunydd a allai arwain at adnabod athro sy'n destun honiad wedi'i wahardd. Mae "cyhoeddi" yn cynnwys unrhyw araith, deunydd ysgrifenedig, rhaglen berthnasol neu fath arall o gyfathrebu ar ba ffurf bynnag sydd wedi'i gyfeirio at y cyhoedd yn gyffredinol neu unrhyw ran o'r cyhoedd. Oherwydd hyn, byddai rhiant sydd, er enghraifft, yn cyhoeddi'r manylion am honiad ar wefan rhwydweithio cymdeithasol yn mynd yn groes i'r cyfyngiadau ar ohebu (os byddai'r hyn a gyhoeddwyd yn gallu arwain at adnabod yr athro gan aelodau o'r cyhoedd).

6.93 Yn unol â chanllawiau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, ni fydd yr heddlu fel arfer yn darparu unrhyw wybodaeth i'r wasg nac i'r cyfryngau a allai ddangos pwy yw'r unigolyn sy'n destun ymchwiliad, oni bai a nes bod yr unigolyn yn cael ei gyhuddo o drosedd troseddol. (Mewn amgylchiadau eithriadol lle hoffai'r heddlu wyro oddi wrth y rheol honno, e.e. apêl i ddod o hyd i unigolyn sydd o dan amheuaeth, mae'n rhaid iddynt wneud cais i lys ynadon i ofyn am gael codi cyfyngiadau adrodd).

6.94 Dylai'r rheolwr achos gymryd cyngor gan Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol, yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol plant er mwyn cytuno ar y canlynol:

- Pwy sydd ag angen gwybod ac, yn bwysig, pa wybodaeth y gellir ei rhannu;
- Sut i ddelio â dyfalu, datgelu heb ganiatâd a chlecs;
- A oes gwybodaeth y bydd yn rhesymol ei rhoi i'r gymuned ehangach i leihau dyfalu;

- Sut i ddelio â diddordeb y wasg os bydd yn codi.

**Cadw cofnodion**

6.95 Os ceir bod honiadau'n faleisus, rhaid dileu'r manylion amdanynt o gofnodion personol. Fodd bynnag, ar gyfer pob honiad arall, mae'n bwysig bod cofnod clir a chynhwysfawr o'r honiad, manylion am y ffordd y cafodd yr honiad ei drafod a'i ddatrys, a nodyn am unrhyw gamau gweithredu neu benderfyniadau a gafwyd, yn cael eu cadw ar ffeil bersonél gyfrinachol y person a oedd yn destun yr honiad, a bod copi'n cael ei ddarparu iddo.

6.96 Cedwir y cofnod er mwyn gallu darparu gwybodaeth fanwl os ceir cais am eirda yn y dyfodol, os yw'n briodol. Bydd yn rhoi eglurhad mewn achosion lle y mae Datgeliadau gan y DBS yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth gan yr heddlu am honiad nad oedd wedi arwain at gollfarn am drosedd. Bydd hefyd o gymorth i atal ymchwilio i honiad o'r newydd heb fod angen os bydd honiad yn dod i'r golwg eto ar ôl cyfnod, fel a welir weithiau. Rhaid cadw'r cofnod nes bydd y person sy'n destun i'r honiad yn cyrraedd yr oed ymddeol arferol o leiaf neu am gyfnod o 10 mlynedd ar ôl dyddiad yr honiad os yw hynny'n hirach.

6.97 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau ar gofnodion cyflogaeth mewn Cod Arferion Cyflogaeth ac mewn Canllawiau Atodol, sy'n cynnwys cyngor ymarferol ar gadw cofnodion cyflogaeth.

**Geirda gan y cyflogwr**

6.98 Ni ddylid cynnwys achosion lle y profwyd bod honiad yn anwir, heb ei gadarnhau, yn ddi-sail neu'n faleisus mewn geirda gan y cyflogwr. Os oes hanes o bryderon neu honiadau mynych y cafwyd bod pob un ohonynt yn ddi-sail, yn faleisus etc, ni ddylid cynnwys hyn mewn geirda ychwaith.

**Dysgu gwersi**

6.99 Ar derfyn achos lle y mae'r honiad wedi'i gadarnhau, bydd Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol yn adolygu amgylchiadau'r achos gyda'r rheolwr achos i benderfynu a oes angen gwneud unrhyw welliannau yng ngweithdrefnau neu arferion yr ysgol er mwyn ceisio atal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys materion sy'n codi o'r penderfyniad i atal yr aelod staff o'i waith, hyd y cyfnod atal ac a oedd cyfiawnhad dros ei atal. Bydd angen dysgu gwersi hefyd mewn achosion lle'r oedd yr unigolyn wedi'i atal o'i waith a'i dderbyn yn ôl wedyn. Bydd y swyddog dynodedig a'r rheolwr achos yn ystyried sut y gellir cynnal ymchwiliadau tebyg yn y dyfodol heb atal yr unigolyn o'i waith.

## Atgyfeirio i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC)

6.100 Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws addysgu drwy gynnal a hyrwyddo ymarfer ac ymddygiad o'r safon

uchaf er mwyn athrawon, disgyblion a'r cyhoedd.  O dan Adran 134 o Ddeddf Addysg 2002, a Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, mae'n ofynnol bod pob athro cymwysedig sy'n cyflawni gwaith penodedig athro mewn ysgol a gynhelir yn cael ei gofrestru gan CyngACC.

6.101 O dan Reoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009, mae'n rhaid i gyflogwyr athrawon sydd wedi'u cofrestru â Chyngor Addysg Cyffredinol Cymru ac asiantaethau cyflenwi ddweud wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru am unrhyw achosion o gamymddwyn ac anghymhwysedd proffesiynol, lle nad yw'r athrawon wedi niweidio, neu wedi peri risg o niwed, i blant a/neu oedolion agored i niwed.

6.102 Yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel y mae wedi'i diwygio gan Ddeddf Addysg 2002, mae CyngACC yn gyfrifol am ymchwilio a chynnal gwrandawiadau mewn achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu achosion lle y mae athro wedi cael collfarn (ar unrhyw adeg) am drosedd perthnasol, neu lle y mae'n ymddangos y gall athro cofrestredig fod yn euog ohono neu fod wedi cael collfarn am hynny.

6.103 Mae'n ofynnol bod cyflogwyr yn rhoi gwybod i CyngACC yn uniongyrchol am achosion lle y mae athrawon cymwysedig wedi'u diswyddo ar sail anghymhwysedd neu lle y byddai'r cyflogwr wedi'u diswyddo neu wedi ystyried eu diswyddo pe na byddent wedi ymddiswyddo.

6.104 Bydd yr holl atgyfeiriadau i CyngACC yn cael eu hystyried a chynhelir ymchwiliadau a gwrandawiadau ar eu cyfer er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys camau i amddiffyn aelodau o'r cyhoedd, i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn ac i ddatgan a chynnal cymhwysedd ac ymddygiad o safon briodol.  Gall CyngACC ymchwilio i bob atgyfeiriad iddo lle y mae honiad bod athro cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a/neu lle y mae wedi cael collfarn (ar unrhyw adeg) am drosedd perthnasol.

6.105 Mae pwerau CyngACC yn y materion hyn wedi'u datgan yn fwy manwl yn Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001, fel y maent wedi'u diwygio.

6.106 Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau i CyngACC i wneud Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y broses ar gyfer ymchwilio i achosion sydd wedi'u hatgyfeirio, ac am rôl a phwerau Pwyllgor Ymchwilio, Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a Phwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol CyngACC.

# Pennod 7: Cyfeiriadau at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## Cyflwyniad

7.1 Mae’r bennod hon yn amlinellu'r amgylchiadau a phrosesau am wneud atgyfeiriad i’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

7.2 O dan adrannau 35 a 36 o’r Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 mae rhaid i bob darparwr Gweithgaredd a Reoleiddir a phob cyflenwr personél adrodd i’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) pobol sydd wedi gwneud niwed i blant neu oedolion sy’n agored i niwed neu ei fod, neu wedi bod, yn achosi perygl o niwed iddynt.

7.3 Bydd y DBS yn sicrhau bod risg yn cael ei asesu drwy ddull annibynnol, amhleidiol a strwythuredig ar gyfer pobl a all barhau i beri pryder o ran diogelu plant oherwydd eu gweithredoedd neu ymddygiad.

7.4 Os bydd y DBS yn gwahardd person rhag gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant neu oedolion sy’n agored i niwed, bydd y person hwnnw’n torri’r gyfraith os bydd yn gweithio neu’n gwirfoddoli, neu’n ceisio neu’n cynnig gweithio neu wirfoddoli gyda’r grwpiau hynny mewn gweithgaredd a reoleiddir. Bydd unrhyw sefydliad sy’n cyflogi rhywun sydd wedi’i wahardd rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion sy’n agored i niwed yn cyflawni trosedd os bydd yn caniatáu i’r person hwnnw gymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda grŵp penodol gan wybod ei fod wedi’i wahardd rhag gweithio gyda’r grŵp hwnnw.

7.5 Er mwyn atgyfeirio, defnyddiwch ffurflen atgyfeirio’r DBS sydd ar gael yn www.gov.uk/dbs. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ar y ffurflen ac anfonwch unrhyw wybodaeth berthnasol, fel ymchwiliadau disgyblu neu gofnodion cyfarfodydd.

7.6 Mae’r siart llif isod yn crynhoi sut i benderfynu a oes rhaid gwneud atgyfeiriad i’r DBS. Mae’r bennod hon yn rhoi fwy o fanylion am rwymedigaeth gyfreithiol a phwerau cyflogeion i wneud atgyfeiriad i’r DBS ac yr amgylchiadau pryd mae rhaid i reolyddion gwneud atgyfeiriad i’r DBS.

**Siart llif: Sut i penderfynu a oes angen gwneud cyfeiriad i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**



## Y ddyletswydd i atgyfeirio

7.7 O dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 mae dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr pobl sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed i atgyfeirio person i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mewn amgylchiadau penodol.

7.8 Mae dyletswydd gyfreithiol ar y grwpiau canlynol i atgyfeirio achosion:

a. Darparwyr gweithgaredd a reoleiddir – sefydliadau (gan gynnwys awdurdodau lleol os ydynt yn gyflogwr) neu unigolion sy'n gyfrifol am reoli gweithgaredd a reoleiddir (a gyflawnir am dâl neu'n ddi-dâl) ac sy'n gwneud trefniadau i bobl weithio yn y gweithgaredd hwnnw;

b. Cyflenwyr personél – sefydliadau sy'n cyflenwi pobl i weithio mewn gweithgaredd a reoleiddir (am dâl neu'n wirfoddol), gan gynnwys:

i. asiantaethau cyflogi sy'n gwneud trefniadau i ddod o hyd i waith i berson gyda chyflogwr neu'n ei gyflenwi i gyflogwr i'w gyflogi;

ii. busnesau cyflogi sy'n cymryd person ymlaen ac yn ei gyflenwi i gyflogwr i weithio o dan reolaeth y cyflogwr;

iii. sefydliadau addysgol sy'n gwneud trefniadau i gyflenwi myfyriwr wedi iddo ddilyn cwrs yn y sefydliad i ddarparwr gweithgaredd a reoleiddir fel ysgol.

### Amodau ar atgyfeirio o dan y ddyletswydd i atgyfeirio

7.9 O dan y Ddyletswydd i Atgyfeirio, mae dau amod i'w bodloni gan ddarparwyr gweithgaredd a reoleiddir neu gyflenwyr personél cyn atgyfeirio person, sef:

1. Bod y cyflogwr wedi symud y person yn barhaol neu ei ddiswyddo rhag gweithio (am dâl neu'n ddi-dâl) mewn 'gweithgaredd a reoleiddir' gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed (neu y byddai wedi gwneud hynny pe na byddai'r person wedi ymadael, ymddiswyddo neu ymddeol neu pe na byddai ei swydd wedi'i dileu);

2. Bod y cyflogwr yn credu bod y person:

(a) Wedi ymddwyn mewn ffordd berthnasol – gweithredu neu ddiffyg gweithredu:
- sy'n peryglu plentyn neu sy'n debygol o beryglu plentyn[24];

[24] Bydd ymddygiad y person yn peryglu'r plentyn os bydd: yn gwneud niwed i'r plentyn; yn peri i'r plentyn gael niwed; yn rhoi'r plentyn mewn perygl o gael niwed; yn ceisio gwneud niwed i blentyn; neu'n ysgogi person arall i wneud niwed i blentyn.

- a fyddai, o'i gyflawni eto, yn peryglu plentyn neu'n debygol o beryglu plentyn;
- sy'n gysylltiedig â deunydd rhywiol sy'n ymwneud â phlant (gan gynnwys bod â deunydd o'r fath yn ei feddiant);
- sy'n gysylltiedig â delweddau rhywiol eglur sy'n dangos trais yn erbyn person (gan gynnwys bod â delweddau o'r fath yn ei feddiant);
- sydd o natur rywiol ac yn cynnwys plentyn;

neu

(b) Wedi bodloni'r 'Prawf Niwed' mewn cysylltiad â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed: h.y. ni chafwyd ymddwyn mewn ffordd berthnasol (h.y. dim gweithredu na diffyg gweithredu) ond mae perygl o niwed i blant neu oedolion sy'n agored i niwed yn bodoli o hyd. Rhaid cael tystiolaeth gredadwy o berygl o niwed, yn hytrach na "theimlad" bod rhywun yn achosi perygl i blant a/neu oedolion sy'n agored i niwed. Er enghraifft, byddai athro sydd wedi cyfaddef wrth ei bennaeth ei fod yn teimlo atyniad rhywiol at blant (ond sydd heb ymddwyn 'mewn ffordd berthnasol') yn bodloni'r prawf niwed;

neu

(c) Wedi cael rhybuddiad neu gollfarn am drosedd perthnasol (wedi'i wahardd yn awtomatig) – trosedd difrifol a fydd, ar ôl ystyried sylwadau os caniateir hynny, yn arwain yn awtomatig at wahardd y person rhag gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

7.10 Cyn atgyfeirio person, rhaid i'r cyflogwr ymchwilio'n gyntaf (hyd yn oed os yw'r person wedi gadael ei gyflogaeth) i gasglu digon o dystiolaeth a gwybodaeth i wneud penderfyniad deallus bod sail i'r honiad. Mae'n hollbwysig bod tystiolaeth ategol yn cael ei darparu i'r DBS wrth atgyfeirio person: nid oes pwerau ymchwilio gan y DBS ac mae'n dibynnu ar dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno wrth atgyfeirio person. Os na chyflwynir tystiolaeth neu wybodaeth sylweddol am honiadau, bydd llawer ohonynt yn cael eu rhoi o'r neilltu gan na fydd sail i weithredu gan y DBS. Os bydd y cyflogwr yn cael gwybodaeth berthnasol ychwanegol ar ôl atgyfeirio person, dylai ei darparu i'r DBS. Drwy wneud hyn, bydd y DBS wedi cael yr holl wybodaeth a thystiolaeth sydd ar gael er mwyn penderfynu ar yr achos.

## Y pŵer i atgyfeirio

7.11 Nid oes dyletswydd gyfreithiol ar fathau eraill o sefydliadau i atgyfeirio personau i'r DBS ond mae ganddynt bŵer cyfreithiol i wneud hyn o dan adrannau 39, 41 neu 45 o'r Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Y sefydliadau hyn yw:

- Awdurdodau lleol (lle nad yw'n darparu gweithgaredd a reoleiddir fel cyflogwr – fel arfer pan fydd yr awdurdod yn cyflawni rôl diogelu plant);

- Ceidwaid Cofrestrau[25];
- Awdurdodau Goruchwylio[26].

**Amodau ar atgyfeirio o dan y pŵer i atgyfeirio**

7.12 O dan y Pŵer i Atgyfeirio, mae dau amod i'w bodloni gan awdurdodau lleol (pan nad ydynt yn gweithredu fel darparwr gweithgaredd a reoleiddir), ceidwaid cofrestrau ac awdurdodau goruchwylio cyn atgyfeirio person, sef:

1. Bod y sefydliad yn credu:
a. bod y person y mae'n ei atgyfeirio yn cyflawni neu wedi cyflawni gweithgaredd a reoleiddir, neu y gallai gyflawni gweithgaredd a reoleiddir yn y dyfodol; a
b. y gallai'r DBS farnu ei bod yn briodol cynnwys y person mewn rhestr wahardd.

2. Bod y sefydliad yn credu bod y person:
a. wedi ymddwyn mewn ffordd berthnasol; neu
b. wedi bodloni'r 'Prawf Niwed'; neu
c. wedi cael rhybuddiad neu gollfarn am drosedd perthnasol (gwahardd yn awtomatig).

## Newidiadau ar gyfer awdurdodau lleol o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

7.13 O dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 cafwyd newidiadau yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 sy'n galluogi awdurdodau lleol i atgyfeirio person i'r DBS gan ddefnyddio dyletswydd i atgyfeirio neu bŵer i atgyfeirio, yn ôl yr amgylchiadau:

a) **Pŵer i Atgyfeirio**: Mae'r pŵer i atgyfeirio'n ymwneud â sefyllfa lle nad yw'r awdurdod lleol yn gweithredu fel darparwr gweithgaredd a reoleiddir (y cyflogwr). Fel arfer bydd hyn yn berthnasol pan yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei rôl diogelu plant.

b) **Dyletswydd i Atgyfeirio**: Mae'r ddyletswydd i atgyfeirio'n ymwneud â sefyllfa lle y mae'r awdurdod lleol yn gyflogwr i staff sydd mewn

[25] Mae Ceidwaid Cofrestrau wedi'u diffinio o dan Adran 41(7) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Maent yn cynnwys Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC), Cyngor Gofal Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol.
[26] Mae Awdurdodau Goruchwylio wedi'u diffinio o dan Adran 45(7) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Maent yn cynnwys Gweinidogion Llywodraeth Cymru; Estyn (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru); Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC); Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr; yr Asiantaeth Addysgu; a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

gweithgaredd a reoleiddir, pa un a ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol, drwy gontract neu drwy gyflenwr personél. Yn gyffredinol, bydd awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn ddarparwr gweithgaredd a reoleiddir:

i. Os yw'n gyfrifol am reoli gweithgaredd a reoleiddir

ii. Os yw'r gweithgaredd a reoleiddir yn cael ei gyflawni i ddibenion yr awdurdod lleol; a

iii. Os yw'r awdurdod lleol yn gwneud, neu'n awdurdodi gwneud trefniadau (boed mewn cysylltiad â chontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau neu fel arall) i berson arall gymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir

## Gwahaniaethau o ran rhannu gwybodaeth rhwng y ddyletswydd a'r pŵer i atgyfeirio

7.14 Oherwydd y gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd i atgyfeirio a'r pŵer i atgyfeirio, bydd y partïon sy'n atgyfeirio'n dilyn llwybrau gwahanol wrth rannu gwybodaeth am atgyfeiriad.

### Rhannu gwybodaeth pan fo dyletswydd i atgyfeirio

7.15 O dan y ddyletswydd i atgyfeirio, bydd y sefydliad sy'n atgyfeirio'n cyflwyno gwybodaeth sydd wedi'i rhagnodi yn Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gwybodaeth Ragnodedig) 2008. Dim ond os yw'r sefydliad yn dal y wybodaeth ragnodedig y bydd yn ei chyflwyno; nid oes gofyniad i gael gwybodaeth newydd at ddibenion yr atgyfeiriad.

7.16 Er y gellir cyflwyno gwybodaeth yn ychwanegol at y wybodaeth ragnodedig, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y sefydliad sy'n atgyfeirio i gyflwyno'r holl wybodaeth ragnodedig y mae'n ei dal.

7.17 Lle y mae dyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio person, bydd y wybodaeth sydd wedi'i rhagnodi yn Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gwybodaeth Ragnodedig) 2008 yn esempt rhag y darpariaethau ar gyfer peidio â datgelu yn y Ddeddf Diogelu Data gan fod y datgeliad yn ofynnol dan ddeddfwriaeth. Oherwydd hyn, os yw sefydliad o dan ddyletswydd i atgyfeirio person, nid yw'r Ddeddf Diogelu Data yn cyfyngu ar y rhannu ar wybodaeth a bydd yn gyfreithlon i'r sefydliad gyflwyno'r wybodaeth ragnodedig i'r DBS.

7.18 Lle y mae dyletswydd i atgyfeirio, mae'n bwysig nodi:

- Bod methu â darparu gwybodaeth i'r DBS heb gyfiawnhad rhesymol yn gallu arwain, ar ôl collfarn ddiannod, at ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol (hyd at £5,000 ar hyn o bryd).

- Bod rhaid i'r DBS sicrhau yng nghyswllt pob gwybodaeth y mae'n ei chael mewn cysylltiad â pherson o ba ffynhonnell bynnag ac o ba natur bynnag ei fod yn ystyried a yw'r wybodaeth yn berthnasol wrth iddo ystyried a ddylid cynnwys y person yn y rhestr wahardd ar gyfer plant neu'r rhestr wahardd ar gyfer oedolion.

- Os yw sefydliad sy'n atgyfeirio yn dymuno darparu gwybodaeth sy'n ychwanegol at y wybodaeth sydd wedi'i rhagnodi mewn deddfwriaeth, na fydd y wybodaeth ychwanegol yn esempt o dan y Ddeddf Diogelu Data. Oherwydd hyn rhaid i'r partïon sy'n atgyfeirio sicrhau eu bod wedi rhoi sylw i ystyriaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf Diogelu Data ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol gan wybod sut y gall y DBS brosesu'r wybodaeth honno.

### Rhannu gwybodaeth pan fo pŵer i atgyfeirio

7.19 Os oes dyletswydd ar sefydliad i atgyfeirio person, rhaid iddo gyflwyno gwybodaeth ond, lle y mae pŵer i atgyfeirio, mae awdurdodau lleol, ceidwaid cofrestrau ac awdurdodau goruchwylio yn cael penderfynu a yw gwybodaeth y maent yn ei dal yn berthnasol i'w chyflwyno i'r DBS.

7.20 Nid yw'r gyfraith yn pennu beth yn union yw math a natur y wybodaeth honno. Felly, bydd y wybodaeth a gyflwynir wrth atgyfeirio (lle y mae'r pŵer i atgyfeirio ar gael) yn gallu bod ar unrhyw ffurf sy'n briodol ym marn y parti sy'n atgyfeirio.

7.21 Gan nad oes dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth o dan y pŵer i atgyfeirio, nid oes esemptiad rhag gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Wrth ystyried datgelu gwybodaeth o dan y pŵer i atgyfeirio, mae'n bwysig cofio bod rhaid i bob datgeliad fod yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a bod rhaid cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol eraill sy'n berthnasol (er enghraifft, deddfwriaeth arall fel Deddf Hawliau Dynol 1998).

7.22 Os nad yw'r parti sy'n atgyfeirio yn sicr pa wybodaeth y gall ei datgelu o dan y pŵer i atgyfeirio, dylai gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

## Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar gais

7.23 Gall y DBS fynnu bod gwybodaeth sydd wedi'i rhagnodi o dan Reoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gwybodaeth Ragnodedig) 2008 yn cael ei darparu ar ei gais. Mae'r ddyletswydd hon i ddarparu gwybodaeth ar gais yn gymwysadwy pan yw'r DBS yn ystyried:
- A fydd yn cynnwys person mewn rhestr wahardd; neu
- A fydd yn tynnu person o restr wahardd.

7.24 Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fydd yn berthnasol a yw'r awdurdod wedi atgyfeirio'r person o'r blaen o dan ddyletswydd neu bŵer. Felly, gall y DBS fynnu cael gwybodaeth ar gais gan:

a. Y rheini sydd dan ddyletswydd i atgyfeirio person:

- Darparwyr gweithgaredd a reoleiddir
- Cyflenwyr personél

b. Y rheini sydd â phŵer i atgyfeirio person:

- Awdurdodau lleol (pan nad ydynt yn gweithredu fel darparwr gweithgaredd a reoleiddir)
- Ceidwaid cofrestrau
- Awdurdodau goruchwylio.

7.25 Gan fod hon yn ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, bydd y wybodaeth ragnodedig y gofynnir amdani yn esempt rhag y darpariaethau ar beidio â datgelu yn y Ddeddf Diogelu Data gan fod y datgeliad yn ofynnol o dan y gyfraith. Felly, lle y mae unrhyw barti wedi cael cais o dan y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar gais, caiff ddatgelu'r wybodaeth ragnodedig yn rhesymol hyderus. Fodd bynnag, os oes unrhyw ansicrwydd ar ôl cael cais am wybodaeth, bydd yn fuddiol cael cyngor cyfreithiol annibynnol.

## Cynnwys gwybodaeth sensitif mewn atgyfeiriadau

7.26 Gall pryderon godi weithiau pan fydd y parti sy'n atgyfeirio yn datgelu gwybodaeth i'r DBS. Gall hyn fod yn bryder cyffredinol ynghylch datgelu gwybodaeth bersonol sensitif neu'n bryder mwy penodol, er enghraifft, os oes pryder y bydd y datgeliad yn effeithio ar:

- y gallu i atal, darganfod neu ymchwilio i drosedd
- y gallu i ddal neu erlyn troseddwyr, neu
- ddiogelwch neu ryddid pobl eraill (yn enwedig dioddefwyr).

7.27 Os yw'r parti sy'n atgyfeirio o dan ddyletswydd i atgyfeirio neu ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar gais, bydd dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth a all fod o natur sensitif fel hyn. Mae'n ofynnol bod partïon sy'n datgelu yn darparu gwybodaeth bersonol sensitif gan gynnwys manylion am unrhyw blentyn neu oedolyn hyglwyf sydd wedi cael niwed neu wedi'i roi mewn perygl o gael niwed.

7.28 Weithiau bydd parti sy'n atgyfeirio yn pryderu am addasrwydd unigolyn i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored niwed, o safbwynt diogelu, ond yn teimlo nad yw'n gallu datgelu gwybodaeth o dan y pŵer i atgyfeirio oherwydd gofynion y Ddeddf Diogelu Data neu ystyriaethau cyfreithiol eraill. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl y bydd partïon sy'n atgyfeirio am ystyried golygu gwybodaeth i'w gwneud yn llai sensitif. Drwy olygu gwybodaeth, bydd modd o hyd i'r DBS ystyried yr achos a gofyn am wybodaeth ychwanegol, os bydd angen, o ffynonellau eraill fel yr awdurdod lleol perthnasol, ceidwad cofrestr, awdurdod goruchwylio neu berson/sefydliad arall.

7.29 Os bydd parti'n penderfynu darparu gwybodaeth sydd wedi'i golygu, bydd yn bwysig ei bod yn parhau'n ddealladwy. Mae'n bosibl na fydd dileu'r

enw'n ddigon i gelu hunaniaeth yr unigolyn a rhaid ystyried hyn hefyd wrth baratoi dogfen.

7.30 Yn yr un modd, mae yr un mor bwysig iddi fod yn glir wrth ddarllen y ddogfen at ba berson y mae gwybodaeth yn cyfeirio. Er mwyn galluogi'r DBS i weld i ba barti y mae gweithred, sylw neu wybodaeth arall yn cael ei briodoli, yn lle enwau gellir defnyddio ffyrdd eraill o adnabod unigolion fel llythrennau cyntaf yr enw, termau fel "Plentyn 1", "Plentyn 2" neu ffyrdd tebyg eraill o ddynodi unigolion a gwahaniaethu rhyngddynt.

7.31 Er y gofynnir am ddarparu gwybodaeth heb ei golygu pryd bynnag y bo modd, bydd yn well datgelu gwybodaeth o dan y pŵer i atgyfeirio ar ôl ei golygu na pheidio â'i datgelu o gwbl. Drwy wneud hyn gellir tynnu sylw'r DBS at bryderon na fyddent yn cael eu datgelu fel arall gan arwain at y posibilrwydd o roi grwpiau hyglwyf, gan gynnwys plant, mewn mwy o berygl.

## Atgyfeirio i'r DBS gan reoleiddwyr

7.32 Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn rhoi pŵer i reoleiddwyr proffesiynol fel Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i atgyfeirio achos i'r DBS os yw person sydd ar ei gofrestr neu sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei gofrestr:

- Wedi cael rhybuddiad neu gollfarn am drosedd a fydd yn ei wahardd yn awtomatig; neu
- Wedi gwneud niwed neu achosi perygl o niwed i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed sy'n peri i'r rheoleiddiwr gredu y gall y DBS ystyried gwahardd y person hwnnw.

7.33 Mae hyn yn golygu y bydd y rheoleiddiwr yn gallu arfer ei ddisgresiwn a'i farn broffesiynol bob amser wrth benderfynu a fydd yn atgyfeirio achos i'r DBS ac wrth benderfynu pa wybodaeth i'w darparu sy'n berthnasol. Os bydd y rheoleiddiwr, drwy ei brosesau addasrwydd i ymarfer, yn lliniaru risg sy'n codi yng nghyswllt diogelu plant sy'n berthnasol i'w broffesiwn ei hun yn unig, yna mae'n bosibl na fydd angen arfer y pŵer i atgyfeirio.

7.34 Fel arfer ni fydd rheoleiddiwr yn ystyried atgyfeirio achos i'r DBS cyn cwblhau ei brosesau disgyblu a bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer atgyfeirio.

7.35 Os bydd achos yn dod i sylw rheoleiddiwr proffesiynol a'r DBS yr un pryd, bydd y DBS, yn y rhan fwyaf o achosion, yn disgwyl i'r rheoleiddiwr gwblhau ei broses addasrwydd i ymarfer cyn ystyried yr achos yn bellach. Y prif reswm dros ddisgwyl i'r rheoleiddiwr gwblhau ei ymchwiliadau a'i broses ddisgyblu'n gyntaf yw nad oes pwerau ymchwilio gan y DBS a'i fod yn dibynnu ar wybodaeth a thystiolaeth a gaiff gan reoleiddwyr a chyrff eraill.

7.36 Dyma sut y mae'r berthynas rhwng y DBS a rheoleiddwyr proffesiynol yn gweithio yn y rhan fwyaf o achosion. Yr eithriad i hyn yw pan fydd digon o wybodaeth ddibynadwy gan y DBS i benderfynu gwahardd person a'i fod yn gwneud hynny er mwyn diogelu plant neu oedolion sy'n agored i niwed. Bydd

hyn yn digwydd mewn cysylltiad â throsedd sy’n arwain at wahardd person yn awtomatig neu lle y mae’r DBS wedi cael gwybodaeth berthnasol am y person o ffynhonnell arall nad yw’n cael ei hystyried gan y rheoleiddiwr neu am fod y rheoleiddiwr yn ystyried manylion yr achos ac nad yw gwybodaeth arall ar gael iddo.

7.37 Mae’n ofyniad cyfreithiol bod y DBS yn trin rheoleiddwyr proffesiynol fel ‘cyrff cymwys’. Ystyr hynny yw bod y DBS yn derbyn eu ‘canfyddiadau ffeithiol’ ffurfiol yn ffeithiau wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwahardd. Felly, er enghraifft, os mai canfyddiad ffeithiol y rheoleiddiwr yw nad oes sail i’r honiad ac felly fod cofrestriad proffesiynol y person i gael ei adfer, ac os nad oes unrhyw wybodaeth ddigonol a dibynadwy i’r gwrthwyneb yng nghyswllt diogelu plant, bydd y DBS yn dibynnu ar ‘ganfyddiad ffeithiol’ y rheoleiddiwr ac yn cau’r achos.

# Atodiad 1: Llyfryddiaeth

## Canllawiau


- Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2011), All Wales Practice Guidance: Safeguarding and Promoting the Welfare of Unaccompanied Asylum Seeking Children and Young People

- Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2012), Protocol Cymru Gyfan: Plant sydd ar Goll

- Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008), Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan http://www.awcpp.org.uk/9341.file.dld

- Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008), Protocol Cymru Gyfan: Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o Gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol

- Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2011), Protocol Cymru Gyfan: Llurgunio Organau Rhywiol Merched

- Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2011), Protocol Cymru Gyfan: Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n cael eu Heffeithio gan Gam-drin Domestig

- Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2011), Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu

- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010), Guidance for Further Education Providers

- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010), Guidance for Schools

- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (2013), Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu

- Llywodraeth EM (2009), Multi-agency practice guidelines: Handling cases of Forced Marriage

- Llywodraeth EM (2010), Forced marriage and learning disabilities: multi-agency practice guidelines

- Llywodraeth EM (2010), The Right to Choose: Mutli-agency statutory guidance for dealing with forced marriage

- Llywodraeth EM (2011), Multi-Agency Practice Guidelines: Female Genital Mutilation
- Llywodraeth EM (2012), Statutory Guidance on Supervision
- Y Swyddfa Gartref (2003), Caring for young people and the vulnerable? Guidance for preventing abuse of trust
- Y Swyddfa Gartref (2009), Code of Practice for Registered Persons and Other Recipients of Disclosure Information
- Y Swyddfa Gartref (2011), Strategy on Human Trafficking
- Y Swyddfa Gartref (2012), Statutory Guidance to Chief Officers of Police on Providing Information for Inclusion in Enhanced Criminal Record Certificates
- London Safeguarding Children Board (2011), Safeguarding Trafficked Children Toolkit
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012), Multi Agency Public Protection Arrangements (MAPPA) Guidance ac atodiadau a ffurflenni
- Llywodraeth Cymru (2002), Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
- Llywodraeth Cymru (2002), Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc (Cylchlythyr 17/2002)
- Llywodraeth Cymru (2003), Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio (Cylchlythyr 23/2003)
- Llywodraeth Cymru (2004), Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau
- Llywodraeth Cymru (2005), Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol
- Llywodraeth Cymru (2005), Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig: Strategaeth Cymru Gyfan
- Llywodraeth Cymru (2006), Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (Cylchlythyr 47/2006)
- Llywodraeth Cymru (2006), Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau (Cylchlythyr 35/2006)
- Llywodraeth Cymru (2007), Canllawiau ar Gam-drin Domestig: Cefnogi Pobl a Gweithio Aml-asiantaeth

- Llywodraeth Cymru (2007), Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol (Cylchlythyr 036/2007)
- Llywodraeth Cymru (2007), Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (Cylchlythyr 12/2007)
- Llywodraeth Cymru (2007), Cynllunio ar y Cyd i wella Canlyniadau: Canllawiau Cynllunio a Rheoliadau i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynllunio Plant a Phobl Ifanc (Cylchlythyr 31/2007)
- Llywodraeth Cymru (2008), Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a gyrfaoedd a'r byd gwaith yn y cwricwlwm sylfaenol (Cylchlythyr 24/2008)
- Llywodraeth Cymru (2008), Safeguarding Children in Whom Illness is Fabricated or Induced
- Llywodraeth Cymru (2008), Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru: Strategaeth Genedlaethol (Dogfen wybodaeth 060/2008)
- Llywodraeth Cymru (2008), Cynllun Gweithredu Tair Blynedd: Priodas dan Orfod a Thrais ar sail Anrhydedd
- Llywodraeth Cymru (2008), Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-18
- Llywodraeth Cymru (2008),Safeguarding Children who may have been Trafficked
- Llywodraeth Cymru (2009), Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (Dogfen wybodaeth 076/2009)
- Llywodraeth Cymru (2009), Gwneud Pethau'n Iawn: Cynllun Gweithredu Treigl Pum Mlynedd ar gyfer Cymru yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau allweddol y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd â nhw mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008
- Llywodraeth Cymru (2009), Fframwaith Gwasanaeth i Ddiwallu Anghenion Pobl â Phroblemau Trais Domestig a Chamddefnyddio Sylweddau
- Llywodraeth Cymru (2010), Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru
- Llywodraeth Cymru (2010), Safeguarding Children and Young People from Sexual Exploitation

- Llywodraeth Cymru (2010), Canllawiau Statudol i Gynorthwyo Atal Plant a Phobl Ifanc rhag Colli Addysg (Cylchlythyr 006/2010)

- Llywodraeth Cymru (2010), Yr Hawl i fod yn Ddiogel

- Llywodraeth Cymru (2011), Respecting Others: Guidance on bullying around race, religion and culture

- Llywodraeth Cymru (2012), Amddiffyn Plant yng Nghymru: Canllawiau ar Drefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol

- Llywodraeth Cymru (2013), Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol (Cylchlythyr 002/2013)

- Llywodraeth Cymru (2013), Ymyriad Diogel ac Effeithiol: Defnyddio Grym Rhesymol a Chwilio am Arfau (Cylchlythyr 097/2013)

- Llywodraeth Cymru (2013), Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed Camddefnyddio Sylweddau: Cynllun Cyflawni 2013-15


## Adroddiadau


- Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (2006), Pathways to Problems

- Barnado's Cymru (2005) Out of sight, out of mind: Child sexual exploitation

- Barnado's Cymru (2007) Sexual Exploitation Risk Assessment Framework: A pilot study

- Barnado's Cymru (2009) Child Sexual Exploitation in Wales: 3 years on

- BAWSO (2012), Protecting Black and Minority Ethnic Children: An Investigation of Child Protection Interventions

- BICHARD, Syr Michael (2004), The Bichard Inquiry

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2011), Cydarolygiad Byrddau Lleol Diogelu Plant

- Comisiynydd Plant Cymru (2003), Datgan Pryderon: Adroddiad Arolwg Comisiynydd Plant Cymru o'r Modd yr Ymdrinnir â Chwynion a Sylwadau a gweithdrefnau Datgelu Camarfer a threfniadau ar gyfer darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant

- Comisiynydd Plant Cymru (2005), Dydy Plant ddim yn Cwyno

- Comisiynydd Plant Cymru (2009), Ffiniau Pryder: Masnachu Plant yng Nghymru

- Cymdeithas y Plant (2011), Still Running 3: Third National Survey of Young Runaways

- Llywodraeth EM (2011), Vetting and Barring Scheme Remodelling Review

- Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2013), Joint Inspection of Multi-agency Responses to Children and Young People who Sexually Offend

- LAMING, Yr Arglwydd William (2003), The Victoria Climbié Inquiry

- MACPHERSON, Syr William (1999) The Stephen Lawrence Inquiry

- MASON, Sunita (2011) A Common Sense Approach: A Review of the Criminal Records Regime in England and Wales

- SIMPSON, Joe (2011), The Simpson Review: Local, Regional, National – What Services are best Delivered Where?

- SINGLETON, Syr Roger (2009), Drawing the Line: A Report on the Government's Vetting and Barring Scheme


## Deddfwriaeth

- Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004

- Deddf Safonau Gofal 2000 (Rhan V)

- Deddf Plant 1989
  - Adran 17 o Ddeddf Plant 1989
  - Adran 20 o Ddeddf Plant 1989
  - Adran 22 o Ddeddf Plant 1989
  - Adran 27 a 28 o Ddeddf Plant 1989
  - Adran 31(10) o Ddeddf Plant 1989
  - Adran 47 o Ddeddf Plant 1989
  - Atodlen 8 i Ddeddf Plant 1989

- Deddf Plant 2004
  - Adran 25 o Ddeddf Plant 2004
  - Adran 28 o Ddeddf Plant 2004
  - Adran 31(1) o Ddeddf Plant 2004

- Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (Adran 23B)

- Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001

- Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (Adrannau 325-327)
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 (Adrannau 36, 67 a 68)
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Addysg 2002
    - Adran 134 o Ddeddf Addysg 2002
    - Adran 157 o Ddeddf Addysg 2002
    - Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
    - Adran 93 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006
    - Adran 95 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Enwaedu Benywod 2003
- Deddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2008
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Atodlen 11)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (adran 123)
- Deddf yr Heddlu 1997
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
- Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
    - Atodlen 3 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000
- Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

## Cyfraith ryngwladol

- Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl
- Penderfyniad Fframwaith yr UE ar Fasnachu Pobl at Ddibenion Camfanteisio Rhywiol a Llafur
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Protocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant
- Protocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig ar gynnwys plant mewn gwrthdaro arfog
- Protocol ('Palermo') y Cenhedloedd Unedig i Atal, Rhwystro a Chosbi am Fasnachu mewn Pobl, yn enwedig Menywod a Phlant

## Rheoliadau

- Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007
- Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Addysg (Cyflwyno Gwybodaeth) (Cymru) 2009.
- Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999
- Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003
- Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd yn 2012
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gwybodaeth Ragnodedig) 2008
- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

## Safonau gofynnol cenedlaethol

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl y Brif Ffrwd

## Gwefannau

- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)
- Asiantaeth Troseddu Cyfundrefnol Difrifol (SOCA)
- Barnardos
- BAWSO
- Byddin yr Iachawdwriaeth
- Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein
- Canolfan Gynghori ar Fasnachu mewn Plant
- Canolfan y DU ar gyfer Masnachu mewn Pobl
- CCUHP Gwneud Pethau'n Iawn
- Child Line
- Children and Families Across Borders
- Comisiynydd Plant
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
- DAN 24/7
- Draig Ffynci
- Estyn
- ECPAT UK (End Child Prostitution, Child Pornography and Trafficking of Children for Sexual Purposes)
- FORWARD
- Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru
- Gwasanaeth Cyfieithwyr ar y Pryd Barnardo's
- Hawliau Plant yng Nghymru
- Kalayaan
- Meic
- Migrant Help
- New Pathways
- NSPCC
- Poppy Project
- Unseen
- Ymddiriedolaeth Medaille
- Y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol
- Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad

## Atodiad 2: Polisi amddiffyn plant enghreifftiol ar gyfer ysgolion

**Polisi Amddiffyn Plant ar gyfer (Enw'r Ysgol)**

**1. Cyflwyniad**

Mae *(Enw'r Ysgol)* yn cydnabod yn llawn ei chyfraniad at amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen yn ein polisi:

- atal drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion;
- gweithdrefnau ar gyfer adnabod a rhoi gwybod am achosion o gam-drin neu amheuon o gam-drin. Gan ein bod mewn cysylltiad â phlant o ddydd i ddydd, mae staff ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol cam-drin;
- helpu disgyblion a all fod wedi'u cam-drin.

Mae ein polisi'n gymwys i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol ac i lywodraethwyr. Gall plant ddatgelu achosion o gam-drin yn gyntaf i gynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon.

**2. Atal**

Rydym yn cydnabod bod lefel uchel o hunan-barch, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da ag oedolyn dibynadwy yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Felly bydd yr ysgol:

- yn sefydlu ac yn cynnal ethos lle y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, ac yn cael eu clywed;
- yn sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn pryderu neu os ydynt mewn trafferthion;
- yn cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol a fydd yn rhoi i blant y sgiliau sydd eu hangen arnynt i aros yn ddiogel rhag eu cam-drin ac yn rhoi gwybod iddynt at bwy i droi am gymorth;
- yn cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i feithrin agweddau realistig at gyfrifoldebau oedolion, yn enwedig yng nghyswllt sgiliau gofal plant a rhianta.

**3. Gweithdrefnau**

Byddwn yn dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Bydd yr ysgol:

- yn sicrhau bod ganddi uwch aelod staff a ddynodwyd, sydd wedi dilyn hyfforddiant priodol;

- yn cydnabod rôl y person a ddynodwyd ac yn trefnu cymorth a hyfforddiant. Efallai y bydd ysgolion am grybwyll yr hyfforddiant ychwanegol y mae'r person a ddynodwyd wedi'i ddilyn;

- yn sicrhau bod pob aelod staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
    - o enw'r person a ddynodwyd a beth yw ei rôl;
    - o bod ganddo gyfrifoldeb unigol dros atgyfeirio pryderon sy'n ymwneud ag amddiffyn plant drwy'r sianeli priodol ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
    - o sut i weithredu ar y pryderon hynny os nad yw'r person a ddynodwyd ar gael.

- yn sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl sy'n datgelu cam-drin;

- yn sicrhau bod rhieni'n deall y cyfrifoldeb sydd gan yr ysgol a'r staff dros amddiffyn plant drwy egluro'r rhwymedigaethau sydd arni yn llawlyfr yr ysgol;

- yn darparu hyfforddiant i'r holl staff fel y byddant yn gwybod:
    - o beth yw eu cyfrifoldeb personol;
    - o y gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt;
    - o bod angen bod yn effro i achosion o gam-drin;
    - o sut i gynorthwyo plentyn sy'n datgelu cam-drin.

- yn hysbysu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol:
    - o os bydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd o'r ysgol am gyfnod penodol neu'n barhaol;
    - o os bydd disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb eglurhad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod ar ôl y penwythnos);

- yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol ac yn cydweithredu â nhw yn ôl yr angen os byddant yn gwneud ymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant gan gynnwys

bod yn bresennol mewn adolygiad cychwynnol ac mewn cynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd a thrwy gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau;

- yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynghylch plant (a fydd yn cynnwys y dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed os nad oes angen atgyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol ar unwaith;

- yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a than glo;

- yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 002/2013: 'Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol';

- yn sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio a dethol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn 'Diogelu Plant mewn Addysg';

- yn dynodi llywodraethwr ar gyfer amddiffyn plant a fydd yn goruchwylio polisi ac arferion yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant.

**4. Cynorthwyo Disgyblion sydd mewn Perygl**

Rydym yn cydnabod bod plant sydd mewn perygl, sy'n cael eu cam-drin neu'n gweld trais yn gallu teimlo effaith ddwys o ganlyniad i hynny.

Mae'n bosibl mai'r ysgol hon fydd yr unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywyd plant sydd mewn perygl. Er hynny, pan fyddant yn yr ysgol, gall eu hymddygiad fod yn heriol neu'n wrthryfelgar neu gallant fynd i'w cragen.

Bydd yr ysgol yn ceisio cynorthwyo'r disgybl:

- drwy gynnwys deunydd yn y cwricwlwm i hybu hunan-barch a hunan-ysgogiad (gweler adran 2 ar Atal);

- drwy ethos yr ysgol a fydd:
    - yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel;
    - yn ennyn ymdeimlad o gael eu parchu mewn disgyblion (gweler adran 2 ar Atal);

- drwy bolisi ymddygiad yr ysgol a fydd yn ceisio helpu disgyblion sy'n agored i niwed yn yr ysgol. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull cyson o weithredu a fydd yn canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn wrth gyflawni'r tramgwydd ond na fydd yn amharu ar hunan-barch y disgybl. Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei barchu ac nad yw ar fai am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd;

- drwy gydgysylltu ag asiantaethau eraill a fydd yn helpu'r myfyriwr fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad, y Gwasanaeth Lles Addysg a Gwasanaethau Eiriolaeth;

- drwy gadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bydd pryder yn codi eto;

Pan fydd disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ymadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r ysgol newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**5. Bwlio**

Mae ein polisi ar fwlio wedi'i nodi (*mewn dogfen ar wahân/ ym mholisi'r ysgol ar ymddygiad)* ac mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn gan y corff llywodraethu.

**6. Ymyrraeth Gorfforol**

Mae ein polisi ar ymyrraeth gorfforol wedi'i nodi mewn (*dogfen ar wahân)* ac mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn gan y corff llywodraethu.

**7. Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig**

Rydym yn cydnabod bod ystadegau'n dangos mai plant ag anawsterau ac anableddau ymddygiad yw'r mwyaf agored i'r perygl o gael eu cam-drin. Mae'n bwysig bod staff ysgol sy'n delio â phlant sydd ag anableddau dwys a lluosog, nam ar eu synhwyrau a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiadol yn effro iawn i arwyddion o gam-drin.

## Atodiad 3: Nodyn enghreifftiol i staff

### Beth i'w wneud os bydd plentyn yn dweud wrthych fod rhywun heblaw aelod staff wedi'i gam-drin

*D.S. Os ceir honiad yn erbyn aelod staff, rhaid i chi ddarllen Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 002/2013: Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol.*

Gall plentyn siarad yn gyfrinachol ag unrhyw aelod staff ac ni fydd yn mynd at un o'r staff addysgu bob tro. Os bydd byddwch yn clywed honiad o gam-drin gan blentyn rhaid cofio:

- mai yno i wrando yr ydych chi. Peidiwch â thorri ar draws y plentyn os yw'n dwyn digwyddiadau pwysig i gof. Yr unig gwestiynau i'w gofyn yw rhai i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud. Rhaid geirio unrhyw gwestiynau fel eu bod yn benagored, fel na fyddwch yn arwain y plentyn;

- bod rhaid i chi roi gwybod ar lafar yn syth i **uwch aelod staff dynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant**;

- gwneud cofnod o'r sgwrs cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ond o fewn 24 awr) i'w drosglwyddo i aelod staff dynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant. Bydd y termau yn y cofnod yn glir a rhaid cynnwys yr amser, y dyddiad, y lle a'r bobl a oedd yn bresennol. Rhaid cofnodi atebion/ymateb y plentyn air am air hyd y gellir. Cofiwch ei bod yn bosibl y bydd eich cofnod o'r sgwrs yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw achos llys a allai ddilyn;

- peidio ag addo cadw cyfrinachedd llwyr;

- ei bod yn bosibl bod y plentyn yn aros i achos fynd i'r llys troseddol; y bydd yn rhaid iddo roi tystiolaeth; neu y gallai fod yn aros am achos gofal;

- bod eich cyfrifoldeb chi o ran atgyfeirio pryderon yn gorffen ar y pwynt hwn, ond ei bod yn bosibl y bydd gennych rôl yn y dyfodol drwy gefnogi neu fonitro'r plentyn, cyfrannu at asesiad neu weithredu cynlluniau amddiffyn plentyn.

**Cyfrinachedd**

Rhaid bod yn glir am faterion sy'n ymwneud â chyfrinachedd os yw plentyn wedi datgelu gwybodaeth ei fod yn cael ei gam-drin. Mae'n bosibl na fyddai'r plentyn yn barod i siarad yn gyfrinachol ag aelod staff pe byddai'n credu y gallai gwybodaeth gael ei datgelu i rywun arall. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb proffesiynol gan staff y gwasanaeth addysg i rannu gwybodaeth berthnasol â'r

asiantaethau statudol penodedig ar faterion sy’n ymwneud ag amddiffyn plant os oes pryder ynghylch lles plentyn.

Mae’n bwysig bod pob aelod staff yn delio â hyn yn sensitif ac yn egluro i’r plentyn fod rhaid iddo roi gwybod i’r bobl briodol a fydd yn gallu helpu’r plentyn, ond na fydd yn dweud wrth neb heblaw’r rheini sydd ag angen gwybod er mwyn ei helpu. Dylai geisio tawelu meddwl y plentyn a dweud wrtho na fydd pawb yn yr ysgol yn dod i wybod am ei sefyllfa. Cofiwch ei bod yn bosibl bod y plentyn wedi gorfod magu cryn ddewrder i ddatgelu’r wybodaeth a’i fod yn profi emosiynau croes a fydd yn cynnwys teimladau o euogrwydd, cywilydd, annheyrngarwch (os yw’r camdriniwr yn rhywun agos) a gofid.

Cofiwch am y cyfrifoldeb bugeiliol sydd gan y gwasanaeth addysg. Gofalwch mai dim ond y rheini sydd â chysylltiad proffesiynol, e.e. yr uwch aelod staff a ddynodwyd a’r pennaeth, a fydd yn cael gweld y cofnodion amddiffyn plant. Ar bob adeg arall rhaid eu cadw’n ddiogel dan glo ac ar wahân i brif ffeil y plentyn.

Yr uwch aelod staff a ddynodwyd ar gyfer amddiffyn plant yn yr ysgol hon yw .......................................................

Swyddog arweiniol dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer amddiffyn plant yw ........................................................
rhif ffôn .............................................

## Atodiad 4: Nodyn enghreifftiol i rieni neu ofalwyr

Mae'n bwysig bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol bod cyfrifoldeb gan ysgolion i sicrhau lles yr holl ddisgyblion. O ganlyniad i'r cyfrifoldeb hwn bydd yr ysgol:

- wedi mabwysiadu polisi a gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant;
- yn rhoi gwybod i rieni neu ofalwyr am ei pholisi ar gyfer amddiffyn plant, efallai ym mhrosbectws yr ysgol, ac y gall hyn olygu y bydd angen atgyfeirio eu plentyn i'r asiantaethau statudol ar gyfer lles plant os bydd yr ysgol yn credu bod y plentyn neu blant eraill mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol;
- yn ceisio gweithio gyda rhieni/gofalwyr ynghylch lles eu plentyn ac aros yn amhleidiol os yw eu plentyn wedi'i atgyfeirio;
- yn helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall, os yw plentyn wedi'i atgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, fod hynny wedi'i wneud er budd y plentyn ac y bydd yr ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant neu ymchwiliad gan yr heddlu yng nghyswllt lles a chynnydd addysgol eu plentyn;
- yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni neu ofalwyr am les a chynnydd addysgol y plentyn.

Ar 1 Medi 2006, daeth adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i rym. Mae hon yn rhoi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach, i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn diogelu plant a bod trefniadau o'r fath yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Rhaid i ysgolion annibynnol gwrdd â gofynion cyfatebol ar sail safonau sydd wedi'u cyflwyno trwy rheoliadau a dan adran 157 o Ddeddf Addysg 2002.

Os yw gweithiwr proffesiynol yn pryderu ynghylch plentyn, bydd yn ceisio trafod hyn gyda'r teulu fel arfer ac, os yw'n bosibl, yn cael cytundeb ganddynt i atgyfeirio'r plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni fydd y gweithiwr proffesiynol yn ceisio cael trafodaeth a chytundeb o'r fath os byddai hynny'n rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o ddioddef niwed sylweddol. Rhoddir cyngor ar hyn gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol leol drwy ymgynghori â'r heddlu, os yw'n briodol.

Bydd aelod staff dynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant yn cael eglurhad gan yr asiantaethau statudol hyn ynghylch pa bryd, sut a chan bwy y bydd y rhieni neu ofalwyr yn cael eu hysbysu am unrhyw atgyfeiriad. Bydd hefyd yn gofyn am gyngor ynghylch a ddylai'r plentyn gael ei hysbysu am y broses neu beidio.

Gall y rhiant neu ofalwr deimlo weithiau ei fod ar ei ben ei hun ond bydd rhywun ar gael i siarad â chi fel arfer. Nid yw gofalu am blant yn beth hawdd

bob amser ac os ydych yn ei chael yn anodd ymdopi, mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn am gymorth a chefnogaeth i amddiffyn eich plentyn.

Efallai y bydd y cyngor canlynol o gymorth i chi:

- cymerwch amser i siarad â'ch plentyn ac i wrando arno;
- dewch i wybod am ffrindiau'ch plentyn a threfn ei ddiwrnod;
- byddwch yn effro i newidiadau mewn ymddygiad;
- addysgwch eich plentyn i fod yn hyderus gan wrthod gwneud unrhyw beth sy'n anghywir yn ei farn ef;
- byddwch yn ymwybodol o'r ffordd y mae'ch plentyn yn defnyddio'r Rhyngrwyd a ffonau symudol er mwyn sicrhau nad yw'n ei roi ei hun mewn perygl.

## Atodiad 5: Nodyn enghreifftiol i ddisgyblion

Os yw rhywun yn eich brifo chi neu'ch ffrindiau, mae pobl ar gael sy'n gallu'ch helpu a rhwystro pobl rhag eich brifo neu godi ofn arnoch.

Dylech sôn am hyn wrth rywun yr ydych yn ymddiried ynddo:

- gallwch ddweud wrth athro, eich rhieni, gofalwyr, nain a thaid neu fam-gu a thad-cu neu aelodau eraill o'ch teulu a allai'ch helpu, neu gallwch ddweud wrth ffrind; a

- gadewch i bobl helpu i wneud pethau'n well drwy atal y person rhag eich brifo chi neu'ch ffrindiau.

Yr aelod o staff yn yr ysgol hon sydd â chyfrifoldeb arbennig dros eich helpu os yw rhywun yn eich brifo chi neu'ch ffrindiau yw ...............................................................

Os na allwch siarad ag unrhyw un o'r rhain, gallwch siarad ag un o'r sefydliadau canlynol lle y bydd rhywun ar gael i wrando arnoch:

**Barnardo's**
Mae Barnardo's yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, gan eu helpu nhw a'u teuluoedd i ddatrys problemau fel cam-drin, digartrefedd a thlodi.
www.barnardos.org.uk
Ffôn: 020 8550 8822 (cyfradd genedlaethol, 8am-6pm Llun - Gwener)

**BBC Radio 1 Advice**
Mae'r wefan hon yn rhoi cyngor i bobl ifanc ar ryw a pherthnasoedd, alcohol a chyffuriau, bwlio, iechyd a lles, arian, y gyfraith, astudio a gwaith.
www.bbc.co.uk/radio1/advice

**Bullying Online**
Mae Bullying Online yn wefan sy'n darparu gwybodaeth a chymorth i rieni, disgyblion, athrawon a sefydliadau ieuenctid o bob math.
www.bullying.co.uk

**BAWSO**
Mae BAWSO yn cynorthwyo pobl o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n dioddef oherwydd cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin, gan gynnwys enwaedu benywod, priodas dan orfod, masnachu mewn pobl a phuteindra. Mae ei linell gymorth ar gael am ddim bob awr o'r dydd a'r nos.
www.bawso.org.uk
Rhadffon: 0800 731 8147

**Childline**
Llinell gymorth sydd ar gael am ddim bob awr o'r dydd a'r nos. Mae'n cynnig cwnsela a chymorth i bobl ifanc sy'n cael eu cam-drin. Ni fydd yr alwad yn cael ei dangos ar eich bil ffôn.

Rhadffon: 0800 11 11
www.childline.org.uk

**Comisiynydd Plant Cymru**
Gwaith Comisiynydd Plant Cymru yw codi llais dros blant a phobl ifanc. Mae'n ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel a'u bod yn gwybod am eu hawliau a sut i'w mwynhau. Gallwch ffonio rhwng 9am a 5pm (Dydd Llun i ddydd Gwener).
www.childcom.org.uk
Rhadffon: 0808 801 1000
Testun: 80800 (rhowch COM ar ddechrau'ch neges)

**CLIC**
Mae CLIC yn sianel ar-lein ac yn gylchgrawn sy'n cynnig gwybodaeth, newyddion a chyngor i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru ar amrywiaeth eang o bynciau a materion, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael yn eich ardal leol. Yr elfen ganolog yn CLIC yw gwefannau rhyngweithiol lle y mae pobl ifanc a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw'n gallu lanlwytho erthyglau, lluniau, fideos a themâu, a hysbysebu digwyddiadau a gweithgareddau.
www.cliconline.co.uk

**Dan 24/7**
Llinell gymorth ddwyieithog ddi-dâl i bawb yng Nghymru sydd am gael mwy o wybodaeth neu gymorth mewn cysylltiad â chyffuriau neu alcohol.
www.dan247.org.uk
Rhadffon: 0808 808 2234
Tecstiwch DAN i 81066

**Draig Ffynci**
Mae Draig Ffynci yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan gyfoedion sy'n ceisio sicrhau bod barn pobl 0 - 25 mlwydd oed yn cael ei chlywed, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru.
www.funkydragon.org

**Get Connected**
Mae Get Connected yn darparu llinell gymorth gyfrinachol am ddim sy'n rhoi cymorth a gwybodaeth i bobl ifanc sydd mewn sefyllfaoedd anodd.
0808 808 4994
www.getconnected.org

**Kidscape**
Mae Kidscape yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o dan 16 oed, eu rhieni/gofalwyr a'r bobl sy'n gweithio gyda nhw i atal bwlio a chamfanteisio rhywiol ar blant.
www.kidscape.org.uk
08451 205 204

**MEIC**

Gwasanaeth llinell gymorth cyfrinachol a di-enw sydd ar gael am ddim i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Mae ar gael bob awr o'r dydd a'r nos, saith diwrnod yr wythnos, neu gallwch gysylltu â MEIC dros y ffôn, drwy destun SMS a negeseua gwib ar-lein, yn Gymraeg neu Saesneg.
http://meiccymru.org
Rhadffon: 0808 80 23456
Tecstio (am ddim): 84001

**NSPCC**
Llinell ffôn am ddim sy'n cynnig cyngor a chymorth i bobl ifanc sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn sefyllfaoedd anodd. Mae'r llinellau ffôn yn agored ddydd a nos ac ni fydd y galwadau'n cael eu dangos ar eich bil ffôn.
www.nspcc.org.uk
Rhadffon: 0808 800 5000

**Y Samariaid**
Cyngor a chymorth cyfrinachol am ddim
www.samaritans.org.uk
Rhadffon: 08457 90 90 90

**Talk to Frank**
Mae Talk to Frank yn rhoi cyngor cyfrinachol a chyfeillgar am gyffuriau. Mae'r llinellau ffôn yn agored bob awr o'r dydd a'r nos, bob diwrnod o'r flwyddyn. Mae hefyd yn cynnal sgwrsio byw ar-lein bob dydd rhwng 2 a 6pm.
www.talktofrank.com
Rhadffon: 0800 77 66 00
Tecstio: 82111
E-bost frank@talktofrank.com

**Wise Kids**
Mae Wise Kids yn wefan sy'n darparu cymorth a gwybodaeth ar lythrennedd a medrusrwydd ar y Rhyngrwyd a gwybodaeth am y fewnrwyd a thechnolegau cysylltiedig.
www.wisekids.org.uk